CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Barn ynglyn â sylwadau am Newidiadau Materion sy'n Codi

Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd & Môn 2011—2026

Mawrth 2017

**BARN AM SYLWADAU A GYFLWYNWYD YNGLYN Â SYLWADAU AM NEWIDIADAU MATERION SY'N CODI**

**Cyflwyniad**

1. O 26ain Ionawr i 9 Mawrth 2017 fe wnaeth Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ymgynghori yn ffurfiol am Gofrestr o Newidiadau Materion sy'n Codi (gweler dogfen DA.039 & DA.040) Yn ystod yr ymgynghoriad fe wnaeth y Cynghorau dderbyn cyfanswm o 193 o sylwadau gan 43 o wahanol unigolion neu fudiadau.

**Sylwadau am y Gofrestr o Newidiadau Materion sy'n Codi - Trosolwg**

2. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r nifer o sylwadau a dderbyniwyd fesul Newid Materion sy'n Codi.

| Newid Materion sy'n Codi | Cyfanswm sylwadau | Gwrthwynebu | Cefnogi | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol | 3 | 0 | 0 | 3 |
| Pennod 3: Cyd-destun Polisi | | | | |
| NMC22 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Pennod 5: Gweledigaeth ac Amcanion Strategol | | | | |
| NMC28 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Pennod 6: Y Strategaeth | | | | |
| NMC49 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC50 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Pennod 7.1: Rheoli Twf a Datblygiad – Cymunedau Diogel, Iach, Nodedig a Bywiog | | | | |
| NMC55 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| NMC56 | 13 | 12 | 1 | 0 |
| NMC58 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC68 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC70 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC71 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC72 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Pennod 7.2: Rheoli Twf a Datblygiad – Byw'n Gynaliadwy | | | | |
| NMC83 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| NMC87 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC89 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC90 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| NMC93 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC94 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC95 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC96 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC100 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC101 | 4 | 3 | 1 | 0 |
| NMC110 | 3 | 3 | 0 | 0 |
| NMC115 | 2 | 1 | 1 | 0 |
| NMC124 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Pennod 7.3: Rheoli Twf a Datblygiad – Economi ac Adfywio | | | | |
| NMC125 | 2 | 0 | 2 | 0 |

| Newid Materion sy'n Codi | Cyfanswm sylwadau | Gwrthwynebu | Cefnogi | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| NMC126 | 2 | 1 | 1 | 0 |
| NMC127 | 2 | 1 | 1 | 0 |
| NMC128 | 2 | 1 | 1 | 0 |
| NMC129 | 2 | 1 | 1 | 0 |
| NMC130 | 2 | 1 | 1 | 0 |
| NMC131 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| NMC132 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC133 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| NMC134 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| NMC135 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| NMC136 | 3 | 3 | 0 | 0 |
| NMC137 | 3 | 3 | 0 | 0 |
| NMC138 | 3 | 3 | 0 | 0 |
| NMC139 | 3 | 3 | 0 | 0 |
| NMC140 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| NMC141 | 3 | 3 | 1 | 0 |
| NMC142 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC143 | 5 | 5 | 0 | 0 |
| NMC144 | 3 | 3 | 0 | 0 |
| NMC147 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC148 | 3 | 3 | 0 | 0 |
| NMC149 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC154 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC156 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC164 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| Pennod 7.4: Rheoli Twf a Datblygiad – Cyflenwad ac Ansawdd Tai | | | | |
| NMC176 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC177 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC178 | 2 | 1 | 1 | 0 |
| NMC179 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC180 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC181 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC182 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC183 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC184 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC185 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC186 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC187 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC188 | 3 | 3 | 0 | 0 |
| NMC189 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC190 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC191 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC192 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC193 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC194 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC195 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC196 | 1 | 1 | 0 | 0 |

| Newid Materion sy'n Codi | Cyfanswm sylwadau | Gwrthwynebu | Cefnogi | Sylw |
|---|---|---|---|---|
| NMC197 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC198 | 4 | 4 | 0 | 0 |
| NMC199 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC211 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC214 | 5 | 5 | 0 | 0 |
| NMC217 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC221 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC240 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC245 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC249 | 2 | 1 | 1 | 0 |
| NMC259 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| NMC260 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC261 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC262 | 2 | 2 | 0 | 0 |
| NMC263 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC266 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC268 | 5 | 5 | 0 | 0 |
| Pennod 7.5: Rheoli Twf a Datblygiad – Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig | | | | |
| NMC271 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| NMC275 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC290 | 2 | 1 | 1 | 0 |
| NMC292 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC294 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC295 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC296 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC297 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC298 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC299 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC300 | 2 | 1 | 1 | 0 |
| NMC308 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC311 | 2 | 1 | 1 | 0 |
| NMC315 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC322 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC323 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC326 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC327 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC340 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC344 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Sylwadau ar y Mapiau | | | | |
| NMC362 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC363 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| NMC364 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| NMC267 | 3 | 2 | 1 | 0 |
| NMC398 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **193** | **153** | **37** | **3** |

**Barn am y sylwadau a gyflwynwyd am y Newidiadau Materion sy'n Codi**

3. Mae'r Arolygydd wedi derbyn copi o'r sylwadau a dderbyniwyd yn briodol er mwyn iddo eu hystyried cyn cwblhau ei adroddiad. Mae'r tabl nesaf yn rhoi crynodeb o bob un sylw unigol ac yn cyflwyno barn amdanynt, gan dynnu sylw at achosion lle credir y gallai bod angen newidiadau pellach. Mae'r adroddiad yma wedi cael ei gyflwyno i'r Arolygydd er mwyn iddo allu ystyried y materion a godir cyn cwblhau ei adroddiad.

4. Mae newidiadau pellach posib i'r geiriad yn cael eu dangos yn y tabl fel a ganlyn:

**Enghraifft o eiriad newydd**

**~~Enghraifft o eiriad sy'n cael ei dynnu allan~~**

**Cynaliadwyedd y Cynllun**

5. Cafodd unrhyw newidiadau posib awgrymir yn y tabl eu gwerthuso i benderfynu os ydynt yn rhai arwyddocaol yn nhermau casgliadau'r Asesiad Cynaliadwyedd (AC) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC). Mae Atodiad 1 i'r adroddiad yma yn dweud sut aethpwyd ati i wneud y gwaith sgrinio a'i gasgliadau. Ar y cam yma, mae'r sgrinio cychwynnol wedi dod i gasgliad bod y newidiadau arfaethedig yn rhai bach ac nid ydynt yn cael effaith arwyddocaol ar ganfyddiadau'r gwaith AC a'r ARhC blaenorol.

**Sylwadau na chafodd eu gwneud yn briodol**

6. Mae'r sylwadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod adeg y camau 'Adnau' a 'Newidiadau â Ffocws' eisoes yn derbyn ystyriaeth gan yr Arolygydd fel rhan o'r Archwiliad. Dim ond sylwadau am y 'Newidiadau Materion sy'n Codi' a welir yn y gofrestr oedd yn destun yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddaraf.

7. Nid oedd yr ymgynghoriad hwn felly yn gyfle i ychwanegu at sylwadau blaenorol neu i wneud sylwadau newydd ar rannau o'r Cynllun Adnau gwreiddiol nad ydynt yn destun Newidiadau Materion sy'n Codi. Ni chafodd sylwadau o'r fath yn eu cofnodi oherwydd fe ddylid fod wedi eu gwneud yn ystod cyfnodau cynharach o baratoi'r Cynllun. Mae Atodiad 2 i'r adroddiad yma yn rhoi gwybodaeth am y sylwadau na chafodd eu gwneud yn briodol.

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyffredinol / General | SNMC136 | Sylw | Noel Davey (1169) | CPRW Cangen Sir Gaernarfon | Rydym yn cefnogi rhan fwyaf y newidiadau sy'n cael eu gwneud er mwyn gwneud y Cynllun yn fwy eglur a dealladwy drwy ddefnyddio testun symlach a mwy cryno. | Nodi'r sylw cyffredinol |
| Cyffredinol / General | SNMC52 | Sylw | Rhys Evans (3430) | Dŵr Cymru Welsh Water | Nid oes gennym unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y Newidiadau Materion Sy'n Codi arfaethedig ond hoffem ddiolch i chi am roi cyfle i Dŵr Cymru ymateb. | Nodi'r sylw cyffredinol |
| Cyffredinol / General | SNMC53 | Sylw | Cyng R H Wyn Williams (367) | | Dim ond gair yn cadarnhau cefnogaeth i'r Cynllun Unedol newydd, ddim am weld newid yng nghyswllt ward Abersoch a pholisïau sydd yn cadarnhau'r angen i warchod cymunedau ac iaith yr ardal, gyda diolch am yr holl waith. | Nodi'r sylw cyffredinol |
| NMC022 | SNMC66 | Gwrthwynebu/ Object | Kieran Somers (3441) | Horizon Nuclear Power Wylfa Limited | Mae'r testun NPS ym mharagraffau 3.7-3.9 wedi'i ddileu ar y sail y darperir y wybodaeth hon ym Mhennod 7.3. Mae'r wybodaeth wedi'i theilwra i amlygu pwysigrwydd Wylfa Newydd ac mae'n rhoi'r cyd-destun. Mae Horizon yn awgrymu y dylid ail- osod testun a chynnwys testun ychwanegol er mwyn egluro'r cyd-destun deddfwriaethol cyfredol. | Diwygiwyd Pennod 3 y cynllun er mwyn ymateb i'r pwynt gweithredu S16 / PG42. Roedd trafodaeth yng Ngwrandawiad 16 a Gwrandawiadau blaenorol yn tynnu sylw at yr angen i geisio sicrhau bod y Cynllun yn briodol ac yn gyraeddadwy. Mae'r adran hon o'r cynllun wedi newid dros amser i adlewyrchu camau amrywiol o baratoi'r Cynllun. Cytunwyd yn ystod y gwrandawiad ddylai fod y Cynllun a fabwysiedir fod mor syml â phosibl er mwyn ceisio sicrhau ei fod yn canolbwyntio cymaint ag y bo modd.<br><br>Nid oes angen lefel y manylder a geisir gan y gwrthwynebydd. Serch hynny, gall fod yn briodol i gynnwys cyfeiriad at Ddeddf Cymru 2017 er mwyn sicrhau bod cyd-destun y Cynllun mor gyfoes â phosibl, yn arbennig gan fod y Ddeddf hon yn effeithio ar y ffordd y gellid cymhwyso rhai polisïau yn y Cynllun. Cyflwynir y testun canlynol ar gyfer ystyriaeth yr Arolygydd ym mharagraff 3.6 c newydd: |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Deddf Cymru 2017<br><br>Cyflwynodd Deddf Cymru 2017, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017, newidiadau i weithrediad Deddf Cynllunio 2008 yng Nghymru. Mae Deddf Cynllunio 2008 yn darparu bod prosiectau a ddiffinnir fel Prosiectau Seilwaith o Bwysigrwydd Cenedlaethol, e.e. gorsaf pŵer niwclear Wylfa Newydd, angen proses gydsynio gwahanol wedi'i sefydlu, oherwydd eu pwysigrwydd posibl i'r DU. O dan y weithdrefn cydsynio ynni yn Neddf Cynllunio 2008, mae cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) yn cael ei archwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio, sydd wedyn yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae adran 43 o Ddeddf Cymru yn caniatáu cynnwys datblygu cyfeirir ato'n gyffredin fel "datblygu cysylltiedig" o fewn y cais ar gyfer DCO. Gellir disgrifio datblygiad cysylltiedig fel, er enghraifft, datblygiad sy'n cefnogi darparu a gweithredu Wylfa newydd a allai gynnwys gwaith fel gwelliannau priffyrdd, llety dros dro ar gyfer gweithwyr adeiladu, cyfleuster parcio a theithio, canolfan logisteg, ayb. Mae'n golygu gall datblygwyr ddewis I gynnwys y mathau yma o ddatblygiadau i mewn cais GCD neu wneud ceisiadau cynllunio ar wahân i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol. |
| NMC028 | SNMC67 | Gwrthwynebu/ Object | Kieran Somers (3441) | Horizon Nuclear Power Wylfa Limited | Ceisir eglurder pellach ynghylch yr amserlen i baratoi CCA Wylfa Newydd. Nid yw'r testun o fewn y polisi yn cyd-fynd â'r atodlen yn Atodiad 9. Hefyd, dylai'r cynghorau gadarnhau | Er mwyn cael statws fel ystyriaeth gynllunio berthnasol o bwys bydd pob CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Fel yn achos y CCA a fabwysiadwyd, rhoddir cyfle i Horizon gyflwyno |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | y bydd unrhyw ddrafft yn amodol ar gyfnod ymgynghori ffurfiol gan roi cyfle i Horizon roi sylwadau cyn iddo gael ei fabwysiadu'n ffurfiol. | sylwadau ar fersiwn drafft y CCA. Mae fframwaith monitro'r cynllun ym Mhennod 8 yn gosod targed i fabwysiadu'r canllawiau cynllunio atodol o fewn 6 mis ar ôl y cynllun mabwysiadu. |
| NMC049 | SNMC14 2 | Cefnogi/ Support | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | - | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC050 | SNMC14 3 | Cefnogi/ Support | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | - | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC052 | SNMC14 4 | Gwrthwynebu/ Object | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | Er yn gefnogol o'r newid, nodwn mai ar gyfer ardal Gwynedd yn unig y gwnaed Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015 ac mae angen nodi hyn yn glir yn y testun. | Yn derbyn y gellid diwygio geiriad y paragraff hwn er mwyn ei gwneud yn gliriach bod cydastudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai ond wedi cael ei baratoi ar gyfer ardal awdurdod cynllunio lleol Gwynedd yn 2015. Gan nad oes gan Ynys Môn Gynllun Datblygu Unedol mabwysiedig, nid oedd yn briodol cynnal Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ffurfiol. Fel y cyfryw, cafodd Datganiad Monitro Tir ar gyfer Tai ei baratoi ar gyfer Ynys Môn yn 2015.<br><br>6.43 **Ar sail gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys Cyd Astudiaeth~~au~~ Tir ar gyfer Tai Gwynedd 2015 a'r Datganiad Monitro Tir ar gyfer Tai Ynys Môn 2015,** ~~mae~~ **gallai** oddeutu hanner y gofyniad cyffredinol ~~tir~~ ar gyfer tai ~~yn cael~~ **gael** ei ddiwallu o safleoedd tai sydd eisoes â budd caniatâd cynllunio arnynt o dan yr **hen** gynlluniau datblygu ~~presennol~~ neu o dan **hen Bolisïau Dros Dro** ~~ystyriaethau cynllunio materol eraill~~. Ceir mwy o fanylion am hyn yn Atodiad 5. ~~Caiff y diffyg ei gwrdd drwy hap-safleoedd, adeiladau sydd eisoes yn bodoli a safleoedd newydd a ddewiswyd er mwyn cynnig hyblygrwydd a dewis. Ceir mwy o fanylion am hyn ym Mhennod 7.~~ |
| NMC055 | SNMC10 | Cefnogi/ | Iwan | Grŵp Ffocws | Yn 7.1.3a cynigir ychwanegu brawddeg ar y | Nodi'r sylw cefnogol |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2 | Support | Edgar (3050) | Cynllun Datblygu Lleol | diwedd [NMC 55]. Mae'n pwysleisio'r angen am gael canllawiau asesu o ran effaith ar y Gymraeg, Carwn gefnogi'r newid yma. Y mae diffyg yn hyn wedi bod yn amlwg droeon yn y gorffennol. | |
| NMC055 | SNMC28 | Gwrthwynebu/ Object | Catherine Blyth (WYG) (3424) | Morbaine Ltd | Ystyrir bod gwrthdaro rhwng geiriad diwygiedig arfaethedig Paragraff 7.1.3 (fel y nodir o fewn NMC 55) a Pholisi PS1 ei hun. Mae geiriad diwygiedig Paragraff 7.1.3 yn awgrymu "y bydd angen" asesiad ar y cyfnod cais cynllunio - fodd bynnag, nid yw Polisi PS1 (fel y'i diwygir gan NMC 56) yn ei gwneud hi'n glir beth yw union lefel y datblygiad fyddai'n sbarduno'r gofyn am naill ai Ddatganiad Iaith Gymraeg a/neu Asesiad Effaith. | Pwrpas ychwanegu'r frawddeg olaf i baragraff 7.1.3a ydi tynnu sylw at y ffaith y bydd CCA yn rhoi mwy o arweiniad nad allir ei gynnwys mewn Polisi na'i eglurhad o ran y math o wybodaeth a ddisgwylir ei weld mewn datganiad neu asesiad effaith. Ni chredir bod angen diwygio'r testun. |
| NMC055 | SNMC96 | Gwrthwynebu/ Object | Marian E Roberts (2973) | | Sylwaf na ellir gofyn am "Ddatganiad Iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith" ond yn unig pan fo'r datblygiadau ar raddfa enfawr (e.e. Datblygiad manwerthu sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr) neu ddatblygiadau preswyl sydd yn gorfod bod yn uwch na'r targed a osodwyd gan y Cyngor (Polisi Tai 14-18) a'r targed hwnnw'n afresymol o uchel eisoes ac yn ddifäol i'r Gymraeg gan na luniwyd strategaeth o seilio niferoedd y tai a fyddai'n fwyaf tebygol o hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob ardal. | Nodi'r sylw. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi'r wybodaeth berthnasol ar gyfer cefnogi'r Gymraeg. |
| NMC056 | SNMC035<br><br><br><br>SNMC03 | Gwrthywnebu/ Object | | Cyngor Cymuned Llanrug<br><br>Cyngor Cymuned Llanddeiniolen | Yn gwrthwynebu cael gwared ag un ai maen prawf 3 neu 4 neu'r ddau o Bolisi PS 1 ar sail:<br><br>• oherwydd pwysigrwydd i gynnal cymunedau Cymreig ac sydd yn ein galluogi i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. Mae'r gwrthwynebwyr o'r farn, ei fod yn | Mae angen darllen polisi yn ei gyfanrwydd. Gofynwyd i'r Cynghorau lunio newid a fyddai'n rhoi'r neges ynglyn a'r angen i gloriannu ystyriaethau perthnasol yn glirach.<br><br>Noder na dderbyniwyd gwrthwynebiad gan y gwrthwynebwyr i'r 2 faen prawf gwreiddiol. |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 4<br><br>SNMC099<br><br>SNMC100<br><br>SMNC117<br><br>SNMC094<br><br>SNMC056<br><br>SNMC98 | | | Llyr Gruffydd (AC)<br><br>Sian Gwenllian (AC)<br><br>Cyng. Aled Evans<br><br>Cyngor Cymuned Llanystumdwy<br><br>Cyngor Tref Pwllheli<br><br>Pwyllgor Ymgyrch Tai a Chynllunio Gwynedd a Môn (Cylch yr Iaith, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Dyfodol i'r Iaith, Canolfan Hanes Uwchgwyrfai) | hanfodol fod datblygiadau sydd yn mynd i amharu ar ein diwylliant ac ein cymdeithas yna cael eu gwrthod.<br>• Mae'r cymal gwreiddiol ….. yn gymal cryf ach mae'n anelu i sicrhau nad yw'r Gymraeg am gael ei niweidio. Ymhellach i hyn nodwn fod Comisiynydd y Gymraeg wedi datgan fod y cymal gwreiddiol yn gyson a Deddf Gynllunio (Cymru) 2015. Mae'r cymal newydd a gynigir yn destun pryder. Mae'r geiriad yn cydnabod y bydd yna niwed i'r Gymraeg trwy nodi'r angen am fecanwaith priodol i 'liniaru' unrhyw effaith niweidiol - sef wrth gwrs i wneud y niwed yn llai. Ond mae'n niweidiol yn yr un modd.<br>• mae'r cymal gwreiddiol sef 4 yn gryfach na 3a.<br>• Gwynedd a Môn yw cadarnle'r Iaith Gymraeg ac mae'r glastwreiddio yma yn annerbyniol.<br>• darpariaethau iaith yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 a ddaeth i rym ar 4 Ionawr 2016, sy'n cyflwyno newidiadau i ran 70 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r newid yn golygu y gellid ystyried effeithiau ar ddefnyddio'r Gymraeg, lle bo'n berthnasol i'r cais, wrth benderfynu ar gais am ganiatâd cynllunio. Gellir caniatáu'r datblygiad neu ei wrthod. Dywed y cymalau nad yw'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth yn rhoi mwy o bwys ar yr iaith Gymraeg nag ar unrhyw ystyriaeth berthnasol arall. Mae'r ddeddfwriaeth yn dangos bod y cymal y bwriedir ei ddileu o | Er mwyn dangos sut mae'r Cynghorau yn bwriadu cydymffurfio efo'r Pwynt Gweithredu roedd angen cael gwared â nhw a'u disodli gydag un amgen, sef 3a.<br><br>Os fydd yr Arolygydd yn argymell cadw'r NMC yn y Cynllun terfynol, byddai'r Polisi yn parhau i ddatgan y gallai'r sawl sy'n gwneud penderfyniad am gais cynllunio ei wrthod ar ôl ystyried yr ystyriaethau cynllunio perthnasol i gyd.<br><br>Mae'r broses asesu ceisiadau cynllunio yn cynnwys sicrhau bod y cynnig yn cynnwys mesurau digonol i gyfarch materion perthnasol. Mae'r proses yma yn cynnwys defnyddio hierarchaeth lliniariad: asesu i weld os ydi ardrawiad yn cael ei osgoi; lle nad ydi'n bosib ei osgoi, all yr ardrawiad gael ei leihau trwy ddylunio neu fesurau ychwanegol; dim ond fel dewis olaf lle nad allir osgoi neu leihau ardrawiadau, edrychir ar iawndal. Defnyddir mecanwaith fel amodau cynllunio neu gytundebau 106 i sicrhau'r mesurau osgoi, lleihau neu iawndal angenrheidiol. Bydd angen gwrthod ceisiadau cynllunio os nad allir bodloni'r hierarchaeth lliniariad ac felly nid yw cyfuno'r meini prawf yn gwanhau safbwynt y Cyngor, ond yn hytrach yn rhoi mwy o eglurder.<br><br>Mae'r maen prawf yn gyson gyda deddfwriaeth a pholisi cynllunio cenedlaethol.<br><br>Dim newid ychwanegol mewn ymateb i'r gwrthwynebiadau yma ond gweler yr ymateb isod i'r sylwadau am gynnwys maen prawf 3a |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Bolisi Strategol 1 y Cynllun yn gyfreithiol ddilys. | |
| NMC056 | SNMC39 | Gwrthwynebu/ Object | Helen Ashby-Ridgeway, Lichfields (3427) | Bourne Leisure Limited | Mae maen prawf newydd 3a yn aneglur a gallai fod yn arwydd y byddai'n debygol i gynigion fyddai'n achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned gael eu gwrthod hyd yn oed ble na ellir eu hosgoi na'u lliniaru'n briodol. Mae'n bosib bod rhai enghreifftiau ble mae hyn yn anorfod. Mae Bourne Leisure yn awgrymu y dylid asesu'r meini prawf ar sail achos wrth achos.<br><br>Mae geiriad diwygiedig wedi'i awgrymu.<br><br>Mae geiriad maen prawf 5 yn rhy feichus hefyd gan na fyddai'n briodol i gwmnïau ddarparu arwyddion yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hi hefyd yn aneglur o'r polisi drafft pa arwyddion fyddai'n cael eu dosbarthu fel rhai "gweithredol". Mae geiriad diwygiedig wedi'i awgrymu. | Cytunir y gellid mynegi ymateb i'r pwynt gweithredu i gyfuno'r ddau faen prawf mewn ffyrdd gwahanol. Ar ôl ystyried y sylwadau a dderbyniwyd am NMC 56 dyma ffurf amgen o eiriad allai sicrhau bod y maen prawf yn fwy cryno/ haws ei ddarllen a'i ddehongli:<br><br>**"Wrthod cynigion a fyddai yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned nad allir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol trwy ddefnyddio mecanwaith cynllunio priodol** ~~i sicrhau mesurau lliniaru addas neu y gwneir cyfraniad i liniaru'r effeithiau hynny~~" |
| NMC056 | SNMC5 | Gwrthwynebu/ Object | Candice Myers (1561) | Llywodraeth Cymru | Maen Prawf 3a – Mae'r newidiadau arfaethedig i'r maen prawf hwn yn wael a dryslyd. Cymal arall a awgrymir i roi eglurder yw, "caniatáu datblygiad na fyddai'n achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned, a sicrhau bod mesurau lliniaru addas, neu gyfraniadau yn cael eu gwneud i sicrhau cyn lleied o effeithiau niweidiol â phosib." | |
| NMC056 | SNMC84 | Gwrthwynebu/ Object | Iwan Edgar (3050) | Grŵp Ffocws Cynllun Datblygu Lleol | Nid yw yn gwbl eglur i mi beth yw'r bwriad yn newid pwyntiau 3 a 4 am 3a. Fodd bynnag byddai diwygio ychydig ar 3a yn dderbyniol o'i ddarllen fel: " Wrthod cynigion a fyddai'n | |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | achosi niwed i'r Gymraeg. Byddai unrhyw fesurau a ddefnyddid o fewn cynigion i liniaru unrhyw ddrwg effaith ar yr iaith yn rhai y gellid dangos a fyddai'n dadwneud unrhyw ddifrod yn llwyr."<br><br>A Gwynedd a Môn yn gadarnle diwethaf yr iaith rhaid fyddai sicrhau hyn. Noder fod amddiffyn y cymunedau Cymraeg a hyrwyddo'r iaith yn bolisi Llywodraeth Cymru ac yn rhan o'r ddeddf gynllunio ddiweddaraf. | |
| NMC056 | SNMC97 | Gwrthwynebu/ Object | Dafydd Iwan (Cadeirydd) (997) | Grŵp Strategol Hunaniaith | Yn y lle cyntaf, er fy mod yn cefnogi'r geiriad gwreiddiol, gan fod y newidiadau arfaethedig yn ymateb i bwyntiau gweithredu o'r Gwrandawiadau mae cyfuno Meini Prawf 3 a 4 yn anorfod.<br><br>O ystyried y newidiadau i Bolisi PS 1 sydd yn berthnasol i'r iaith Gymraeg felly, hoffwn nodi fod y geiriad diwygiedig canlynol yn amwys ac o bosib yn aneglur:<br><br>Maen Prawf 3a:<br>Wrthod cynigion a fyddai yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith a chymuned nad ellir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol trwy ddefnyddio mecanwaith priodol i sicrhau mesurau lliniaru addas neu y gwneir cyfraniad i liniaru'r effeithiau hynny.<br><br>Os yw diwygio geiriad y Maen Prawf yn anorfod, awgrymaf y dylai ddarllen fel hyn:<br><br>3a Gwrthod cynigion a fyddai yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned na ellir ei osgoi neu ei liniaru yn | |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | foddhaol trwy ddefnyddio mecanwaith priodol i sicrhau mesurau lliniaru addas.<br><br>Gyda mater mor sensitif, mae'n hollbwysig sicrhau fod ystyr y meini prawf hyn yn gwbl eglur. | |
| NMC056 | SNMC98 | Gwrthwynebu/ Object | Ieuan Wyn (3128) | Pwyllgor Ymgyrch Tai a Chynllunio Gwynedd a Môn | Maen prawf newydd 3a - Gofynnwn i chi ailystyried y cyfeiriad at fesurau lliniaru yn y cymal hwn, a chyflwynwn y dystiolaeth ganlynol i'ch sylw:<br><br>Mae'r rhan o'r cymal sy'n cyfeirio at fesurau lliniaru yn annerbyniol. Fel y mae, y mae'n datgan y byddai effaith negyddol ar y Gymraeg yn dderbyniol os yw'r mesurau lliniaru yn 'foddhaol' neu 'y gwneir cyfraniad i leihau'r effeithiau'. Beth yw ystyron a dull mesur 'boddhaol' a 'lleihau' yma? Mae cyfeirio at fesurau lliniaru '(b)oddhaol' ac am '(g)yfraniad i leihau'r effeithiau' yn agor y drws led y pen ac yn gwneud y Gymraeg yn agored i'w niweidio. Nid 'adfer', 'cywiro', 'dadwneud', 'unioni', 'cyfannu' na 'gwneud iawn' yw ystyr 'lliniaru', ond 'lleihau effaith'. Felly, mae cyfeirio at fesurau lliniaru yn rhagweld a chydnabod y byddai niwed yn cael ei achosi, ac nad dadwneud y niwed ac adfer y sefyllfa yw eu bwriad ond ceisio lleihau niwed anochel. | Gweler yr ymateb i wrthwynebiadau rhif SNMC034, 035, 056, 094, 099, 100, 117 uchod sy'n cyfeirio at yr hierarchaeth lliniariad. Yn ychwanegol mae Nodyn Cyngor Technegol 20 Cynllunio a'r Gymraeg (2013) yn cyfeirio at adnabod mesurau lliniaru adeg paratoi'r cynlluniau datblygu lleol ac ar y cam asesu ceisiadau cynllunio. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol a thrafodaeth gyda'r Mentrau Iaith yn rhoi gwybodaeth i ddatblygwyr, swyddogion achos a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio ynglŷn â mesurau lliniaru sy'n briodol ar gyfer y math o ddatblygiad dan sylw a'i leoliad. Pwysleisir eto nad yw cyfuno'r meini prawf yn gwanhau safbwynt y Cyngor, fydd dal yn gallu gwrthod datblygiadau os oes tystiolaeth bod effaith sylweddol ar yr iaith Gymraeg / cymunedau. |
| NMC056 | SNMC84 | Cefnogi | Iwan Edgar (3050) | Grŵp Ffocws Cynllun Datblygu Lleol | Parthed 7.1.3b [NMC 56] carwn gefnogi'r newid sydd yn 1.c. a 2. | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC056 | SNMC84 | Gwrthwynebu/ Object | Iwan Edgar (3050) | Grŵp Ffocws Cynllun Datblygu Lleol | Parthed 7.1.3b [NMC 56] carwn gefnogi'r newid sydd yn 1.c. a 2. | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC056 | SNMC29 | Gwrthy | Catherine | Morbaine Ltd | Mae geiriad diwygiedig arfaethedig Maen | Mae strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cael eu |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | wnebu/ Object | Blyth (WYG) (3424) | | Prawf 1 (c) Polisi PS1 (fel y nodir o fewn NMC 56) yn parhau'n aneglur – mae geiriad cyfredol Maen Prawf 1 (c) yn faith ac yn ddryslyd ac ni ystyrir bod Maen Prawf 1 (c) yn darparu sicrwydd i ddarpar Ymgeiswyr ynghylch yr amgylchiadau pan fyddai angen Datganiad Iaith Gymraeg ar ddatblygiad preswyl.<br><br>Yn ogystal, ystyrir bod Maen Prawf 2 hefyd yn aneglur gan ei fod yn cynnwys cyfeiriad at safle ar hap "annisgwyl" a "datblygiad tai ar raddfa fawr". Credir bod safleoedd ar hap yn annisgwyl yn bennaf o ran eu natur ac felly mae angen diffiniad pellach yn y cyswllt hwn yn ogystal â beth olygir gyda "datblygiad tai ar raddfa fawr"..<br>Hefyd nid yw Maen Prawf 2 Polisi PS1 yn cyfeirio at ffiniau datblygu. | hasesu ar gyfer eu haddasrwydd ac wedi'u hystyried yn briodol ar sail yr iaith Gymraeg, yn amodol ar y mesurau lliniaru, e.e. bod datblygiadau tai ar ddynodiadau tai neu ar safleoedd ar hap du mewn i ffiniau yn rhoi cymysgedd briodol o unedau ar ôl ystyried gwybodaeth o ffynonellau amrywiol.<br><br>Mae PCC 4.3.15 yn cyfeirio at briodoldeb cynnal asesiadau yn achos cynigion ar gyfer 'datblygiadau mawr' na chawsant eu dyrannu na'u rhagweld mewn cynllun datblygu. Safle ag iddo 10 neu fwy o unedau tai yw'r diffiniad arferol o ddatblygiad preswyl mawr. Er hynny, yn yr achos yma, credir mai cyfuniad o safle ar hap annisgwyl a datblygiad mawr ydi'r trothwy a mae risgiau yn mynd i ddibynnu ar ffeithiau ac amgylchiadau. Bydd y CCA yn rhoi mwy o wybodaeth am y mater. Cafodd y newid i maen prawf 2 ei gynnwys er mwyn adlewyrchu'r drafodaeth a gafwyd yn y Gwrandawiad, ddaru yn ei dro arwain at bwynt gweithredu S1/ PG4. Ar sail y pwynt gweithredu a'r drafodaeth ni chredir ei bod hi'n briodol i gyfyngu'r cyfeiriad i safleoedd du mewn neu du allan i ffiniau datblygu, oherwydd, e.e. gallai safle mawr du mewn i neu du allan i'r ffin datblygu ddod ar gael i'w ddatblygu yn annisgwyl..<br><br>Mae paragraff 7.1.4a yn cyfeirio at y posibilrwydd o gael cyngor cyn cyflwyno cais cynllunio os oes ansicrwydd. Yn ogystal a hynny, bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei baratoi.<br><br>Byddai cynnig i adeiladu tai du allan i ffiniau datblygu (os ydi'n cydymffurfio efo polisïau perthnasol y Cynllun a pholisïau cynllunio cenedlaethol) yn rhoi tai fforddiadwy i gwrdd ag |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | angen lleol neu dai sy’n gysylltiedig â mentrau gweledig priodol. Mae’r polisïau yma yn cyd-fynd ag amcanion cynaliadwyedd y Cynllun. |
| NMC056 | NMC145 | Gwrthwynebiad | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | Er ein bod yn cefnogi’r newidiadau yng nghyswllt y diwygiad i faen prawf 2 ‘i egluro pryd fydd angen Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, awgrymwn fod angen meintoli’r geiriau ‘datblygiad tai ar raddfa fawr’.<br><br>Hefyd, wrth eu diffiniad, mae pob safle ar hap yn annisgwyl felly nid oes angen y geiriau ychwanegol. | |
| NMC056 | SNMC40 | Gwrthwynebu | Helen Ashby-Ridgeway, Lichfields (3427) | Bourne Leisure Limited | Mae geiriad maen prawf 5 yn rhy feichus hefyd gan na fyddai’n briodol i gwmnïau ddarparu arwyddion yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae hi hefyd yn aneglur o’r polisi drafft pa arwyddion fyddai’n cael eu dosbarthu fel rhai “gweithredol”. Mae geiriad diwygiedig wedi’i awgrymu.<br><br>Newid awgrymir:<br>"<u>Annog</u> cynllun Cynllun Arwyddion dwyieithog i ddelio gydag pob arwydd yn agored i'r cyhoedd a gynigir mewn cais cynllunio gan gyrff cyhoeddus a masnachol a busnes cwmnïau." | Cafodd y <u>gofyniad</u> bod arwyddion <u>gweithredol</u> yn ddwyieithog ei gynnwys yn y Polisi adeg y cam Newid â Ffocws a chafodd y mater ei drafod mewn Gwrandawiad Cyhoeddus. Cafodd y NMC sy’n cyfeirio at Gynllun Arwyddion Dwyieithog ei gynnig mewn ymateb i Bwynt Gweithredu S1/ PG4. Felly, nid yw’r newid i’r maen prawf awgrymir gan y gwrthwynebydd yn ymwneud a thestun sy’n destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae cael arwyddion dwyieithog yn fesur lliniaru sy’n cael ei gydnabod yn Nodyn Cyngor Technegol 20. Mae paragraff 7.1.4a yn nodi rhoddir mwy o arweiniad yn y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig. |
| NMC056 | SNMC5 | Gwrthwynebu/ Object | Candice Myers (1561) | Llywodraeth Cymru | Maen Prawf 6 - Ymddengys bod y maen prawf sy’n cyfeirio at Enwau Cymreig yn mynd y tu hwnt i gwmpas gwaith y system gynllunio ac y dylid ei ddileu. Fodd bynnag, gellid cyfeirio at bolisi'r Cyngor o gyflawni’r nod hwn drwy strategaethau eraill yn y testun atodol. | Nid yw’r maen prawf yn gosod gofyniad bod datblygiad yn defnyddio enwau lleoedd Cymraeg. Yn hytrach mae'n mynegi cefnogaeth y Cynghorau a'u disgwyliad bydd datblygiadau newydd yn defnyddio enwau lleoedd Cymraeg er mwyn cynorthwyo gyda'i integreiddio i'r gymuned leol. Mae’r egwyddor o gynnwys y maen prawf yma wedi derbyn sylw yn barod yn yr Archwiliad. |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Penderfynodd y Cyngor i newid y maen prawf o "Annog ...." i "Osod disgwyliad......." Ar y cam Newid â Ffocws er mwyn atgyfnerthu polisïau/ strategaethau eraill sydd gan y Cynghorau ynglyn ag enwau llefydd |
| NMC058 | SNMC40 | Gwrthwynebu | Helen Ashby-Ridgeway, Lichfields (3427) | Bourne Leisure Limited | Dylai gofynion ymgynghori ac ymgysylltu adlewyrchu math a graddfa'r datblygiad arfaethedig a dylent fod yn gymesur i'r bwriad.<br><br>Mae'n briodol bod y CCA yn darparu canllawiau ar y mathau o ystyriaethau y mae angen i ymgeiswyr eu hystyried yng nghyswllt yr Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, dylai unrhyw ofynion a gyhoeddir yn y CDLl ar y Cyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a dylent fod yn ddigon cymesur a hyblyg i ymdrin ag amrediad eang o fathau o ddatblygiadau.<br><br>Mae NCT20 yn cefnogi cyfraniad y system gynllunio i'r iaith Gymraeg ond yn cydnabod nad yw'n "ymarferol" nac yn berthnasol gwneud hynny ym mhob achos. | Nodi'r sylw. Bydd CCA yn rhoi arweiniad ar y materion a gyfeirir ato. |
| NMC068 | SNMC68 | Gwrthwynebu/ Object | Kieran Somers (3441) | Horizon Nuclear Power Wylfa Limited | Gofynnir am adfer y cyfeiriad at A5025 - Wylfa. Mae geiriad y polisi yn tybio bod angen gwelliannau o Amlwch i Wylfa Newydd. Tra bod ITTS yn cael ei baratoi bydd penderfynu ar waith gwella penodol ond yn cael ei wneud drwy asesiad technegol o ehangder yr A5025 yn y lleoliad hwnnw yn hytrach na'r ITTS. Mae geiriad diwygiedig arfaethedig wedi'i atodi gyda'r sylw. | Mae Cynghorau yn cytuno i ddarparu mwy o eglurder yn y Cynllun byddai'n well cyfeirio at asesiad effaith priffyrdd yn hytrach na Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig yn y Polisi.<br><br>Fodd bynnag, nid yw'r Cynghorau yn cytuno gyda'r testun awgrymedig gan y gwrthwynebwyr mewn perthynas â 'rhannau hynny o'r A5025', teimlwyd fod hyn yn ailadrodd hyn sydd eisoes o fewn y maen prawf.<br><br>Tynnir sylw'r Arolygydd at y diwygiad awgrymedig |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | canlynol i NMC 68 a amlinellir mewn coch, a gallai egluro rhan 4 (iii) Polisi TRA 1:<br><br>**(iii) A5025 Y Fali i Wylfa a gwelliannau eraill i isadeiledd trafnidiaeth yn gysylltiedig â datblygiad yn Wylfa Newydd, gan gynnwys gwelliannau o Amlwch i Wylfa Newydd lle mae'r galw am welliant ar y rhan hwnnw wedi cael ei adnabod yn dilyn asesiad ardrawiad priffyrdd o ~~datblygu Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig ar gyfer~~ Brosiect Wylfa Newydd ar yr A5025.** |
| NMC070 | SNMC69 | Gwrthwynebu/ Object | Kieran Somers (3441) | Horizon Nuclear Power Wylfa Limited | Gofynnir am adfer y cyfeiriad at A5025 - Wylfa. Mae geiriad y polisi yn tybio bod angen gwelliannau o Amlwch i Wylfa Newydd. Tra bod ITTS yn cael ei baratoi bydd penderfynu ar waith gwella penodol ond yn cael ei wneud drwy asesiad technegol o ehangder yr A5025 yn y lleoliad hwnnw yn hytrach na'r ITTS. Mae geiriad diwygiedig arfaethedig wedi'i atodi gyda'r sylw. | Gweler yr ymateb i wrthwynebiad SNMC68 ynglyn a'r cyfeiriad i "Asesiad Ardrawiad Priffyrdd" a'r "rhan honno o'r A5025".<br><br>Tynnir sylw'r Arolygydd i'r newid sy'n dilyn a awgrymir i NMC 70 mewn coch, a allai egluro paragraff 7.1.40:<br><br>A5025 Y Fali i Wylfa Newydd / ~~Amlwch i Wylfa Newydd~~ a gwelliannau eraill i'r isadeiledd cludiant sy'n gysylltiedig â datblygiad niwclear newydd yn Wylfa Newydd **gan gynnwys gwelliannau o Amlwch i Wylfa Newydd lle mae'r galw am welliant ar y rhan hwnnw wedi cael ei adnabod yn dilyn datblygu asesiad ardrawiad priffyrdd ~~Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig~~ ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd ar yr A5025.** ~~gan gynnwys Canolfan Gorfforaethol sy'n angenrheidiol oherwydd cynllun isadeiledd sylweddol.~~ |
| NMC071 | SNMC70 | Cefnogi/ Support | Kieran Somers (3441) | Horizon Nuclear Power Wylfa Limited | Cefnogi'r map cynigion wedi'i ddiweddaru. | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC072 | SNMC71 | Gwrthw | Kieran | Horizon | Mae Horizon yn ystyried y dylid diwygio | Mae'r Newid Materion sy'n Codi NMC 72 ond yn |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ynebu/ Object | Somers (3441) | Nuclear Power Wylfa Limited | paragraff 7.1.44 i egluro y bydd y Cynghorau'n ystyried i ba raddau y mae'r cynigion ar gyfer y cyfleusterau parcio a theithio a'r canolfannau logisteg arfaethedig wedi'u cyfarwyddo gan Bolisïau PS9B a PS9C, ac yn cyflawni'r deilliannau sydd wedi'u nodi ynddynt, wrth baratoi Adroddiad Effaith Leol (LIR) neu'n ffurfio sail polisi wrth asesu ceisiadau cynllunio y mae'r Cynghorau'n penderfynu arnynt.<br><br>Heb y newid hwn, ystyria Horizon nad yw'r CDLl ar y Cyd yn gadarn ar y sail fod y paragraff, fel y mae wedi'i eirio, yn tybio fod gan Bolisïau PS9B a PS9C statws uwch na'r hyn a roddir gan Ddeddf Cynllunio 2008 a'r NPSs perthnasol. Gweler hefyd Atodiadau 2 a 3. | tynnu sylw at bolisïau PS9B a PS9C fel rhai sy'n berthnasol i gyfleusterau parcio a theithio a chanolfannau logisteg. Mae'r Cynghorau yn ymateb i wrthwynebiadau arall gan Horizon yn tynnu sylw'r Arolygydd i welliannau a awgrymir i'r ddau Bolisi er mwyn egluro rôl y Cynghorau yn broses gwneud penderfyniad perthnasol. |
| NMC083 | SNMC41 | Gwrthwynebu | Helen Ashby-Ridgeway, Lichfields (3427) | Bourne Leisure Limited | Gallai'r datganiad fod y lleoliad ar gyfer datblygiad yn "hanfodol" fod yn or-gyfyngol heb fod angen hynny. Mae'n bwysig y rhoddir mwy o hyblygrwydd o fewn y polisi i ymateb i gynigion datblygu achosion unigol.<br><br>Ar gyfer parciau gwyliau, mae angen ystyried eu datblygiad yn y dyfodol yng nghyswllt ffactorau megis anghenion y busnes, galw gan ymwelwyr a newidiadau ehangach yn y diwydiant twristiaeth. Mae eu lleoliad yng nghefn gwlad yn nodwedd sylweddol sy'n denu twristiaid i'r ardal ac yn eu hannog i ddychwelyd.<br><br>Dylai'r Cynghorau ddisodli'r term "hanfodol" gyda'r hyn a ddefnyddiwyd yn flaenorol, sef "gofynion lleoliad penodol". | Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, mae'r Polisi yn parhau i geisio rheoli datblygu yng nghefn gwlad yn llym. Serch hynny, mae'r Polisi yn cydnabod y gall rhai datblygu fod angen lleoliad y tu allan i ffiniau datblygu. Mae ail gymal yn y Polisi yn cyd-fynd â pholisïau eraill yn y cynllun, sy'n cynnwys polisïau TWR 1 – TWR 3 & TWR 5. Mae polisïau a enwir yn cydnabod y gall cyfleusterau a llety i ymwelwyr fod angen lleoliadau y tu allan i ffiniau datblygu. Gweler yr ymateb i SNMC2. |
| NMC083 | SNMC2 | Gwrthw | Candice | Llywodraeth | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r eglurder | Mae'r geiriad yn cyfeirio at bolisïau eraill yn y |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ynebu/ Object | Myers (1561) | Cymru | ychwanegol y mae'r polisi newydd hwn a'i gyfiawnhad rhesymegol yn ceisio'i gyflawni; fodd bynnag, nid yw'n glir beth a olygir gan y term "cefnogaeth benodol o'u mewn nhw"? Nid ystyrir y byddai hyn yn cynrychioli rheswm cynllunio dilys wrth ystyried ceisiadau cynllunio. | Cynllun sy'n hyrwyddo safleoedd y tu allan i ffiniau datblygu fel rhai allai fod yn addas ar gyfer datblygiadau newydd. Roedd hefyd yn ceisio ystyried y gall fod datblygiadau y mae angen lleoliad yng nghefn gwlad heb eu cynnwys yn y polisïau penodol. Ar ol ystyried y gwrthwynebiad mae'r Cyngor yn awgrymu ffurf amgen o geiriad a allai wella eglurder ail ran y Polisi:<br><br>~~Bydd rhaid i gynigion ar safleoedd du allan i'r Ffiniau Datblygu gydymffurfio gyda Pholisïau'r Cynllun yma a pholisïau cynllunio cenedlaethol, ac, os nad oes cefnogaeth benodol ynddynt ar gyfer y datblygiad arfaethedig yng nghefn gwlad, bydd rhaid i'r cynnig ddangos bod lleoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol ar gyfer y datblygiad.~~<br><br>**Tu allan i ffiniau datblygu bydd cynigion yn cael eu gwrthod oni bai ei fod yn unol â pholisïau penodol yn y Cynllun hwn a pholisïau cynllunio cenedlaethol.** |
| NMC087 | SNMC13 9 | Gwrthw ynebu/ Object | Noel Davey (1169) | CPRW Caernarfonshir e Branch | PCYFF1: Meini Prawf Datblygu<br><br>a. Symleiddio gramadeg a thestun cyn-eitemau 3-9.<br>Dylai cynigion:<br>i. 'wneud y defnydd gorau o…'<br>ii. 'ymgorffori…'<br>iii. 'roi sylw i…'<br>iv. 'gynnwys…'<br><br>Dileu 'Yn ychwanegol…effaith andwyol ar'<br><br>PCYFF2<br>v. 'gynnwys, lle mae hynny'n berthnasol…' | Nid yw'r meini prawf a gyfeirir atynt gan y gwrthwynebydd yn rhan a) yn NMC. Fodd bynnag, mae'r sylwadau am gywirdeb gramadegol y meini prawf yn cael eu nodi.<br><br>b) Cafodd maen prawf 8 ei dynnu mewn ymateb i Bwynt Gweithredu S16/ PG42. Nodwyd bod rhai meini prawf yn cael eu hail adrodd mewn polisiau. Mae'r materion ym maen prawf 8 yn cael eu cyfarch ym Mholisi PCYFF 2. Byddai ail-osod y maen prawf yn y Polisi yn ychwanegu gormod o fanylder yn y Cynllun. |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | vi. 'yn annog i wyneb datblygiadau ar lefel daear fod yn rhai bywiog…'<br>vii. 'helpu creu amgylcheddau iach…'<br><br>b. Cyn-eitem 8 - rydym yn gwrthwynebu dileu'r datganiad a ganlyn 'Gwrthodir caniatâd cynllunio ble byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol annerbyniol ar.. golygfeydd cyhoeddus amlwg i mewn, allan, neu ar draws unrhyw anheddle neu ardal o gefn gwlad agored'. Credwn fod hyn yn egwyddor ddymunol a phwysig. Mae cynnig ei ddileu yn awgrymu nad ystyrir ei fod yn benodol angenrheidiol mwyach. | |
| NMC089 | SNMC42 | Cefnogi | Helen Ashby-Ridgeway, Lichfields (3427) | Bourne Leisure Limited | Mae Bourne Leisure yn cefnogi'r NMC hwn, sy'n nodi y dylid "rhoi sylw i" yn hytrach na'r angen i "gydymffurfio gyda'r" Asesiad Ardal Cymeriad Tirwedd neu'r Asesiad Ardal Cymeriad Morlun. Dylai'r newid hwn helpu i alluogi asesiad achos wrth achos o bob cynnig yng nghyswllt eu heffaith ar gymeriad tirwedd neu forlun. Ystyria'r Cwmni bod yr NMC 89 hwn yn bodloni'r ail brawf cadernid (a yw'r cynllun yn briodol?) gan ei fod yn cymryd agwedd resymegol a chytbwys i'r mater o asesu pob cynnig yng nghyswllt eu heffaith ar gymeriad tirwedd a morlun. | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC090 | SNMC43 | Gwrthw ynebu | Helen Ashby-Ridgeway, Lichfields (3427) | Bourne Leisure Limited | Fel y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd, mae'r polisi drafft hwn yn darparu dull "yr un fath i bawb" a fyddai'n feichus i gynigion datblygu llai.<br><br>Mae'r trothwy o 100medr sgwâr ar gyfer datblygiad dibreswyl ar gyfer gofyn am Asesiad Ynni yn rhy isel a byddai'n berthnasol i ddatblygiadau bach iawn. Ymhellach, byddai'r | Ystyrir bod y gwrthwynebwyr yn gwneud pwynt dilys am y trothwy a fyddai'n sbarduno'r angen am asesiad. Ar ôl ystyried y diffiniad o ddatblygiad mawr a'r dull a ddefnyddir gan awdurdodau cynllunio lleol eraill, byddai 1,000 m sgwâr yn drothwy mwy rhesymol. Mae'r Cynghorau felly yn tynnu sylw'r Arolygydd i fân ddiwygiad y byddai ymdrin â gwrthwynebiadau yma: |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gofyn am “asesiadau cynhwysfawr” yn anghymesur i raddfa nifer o ddatblygiadau llai. Dylid cynyddu’r trothwy hwn i o leiaf 1,000 medr sgwâr (i gyd-fynd â diffiniad datblygiad mawr) ond i roi hyblygrwydd er mwyn ystyried natur y datblygiad dibreswyl arfaethedig. | **“Bydd yn ofynnol i ddatblygiad preswyl ar safleoedd ar gyfer 100 o unedau tai neu fwy a datblygiad dibreswyl o ~~100~~ 1,000 metr sgwâr neu fwy .....”.** |
| NMC090 | SNMC146 | Gwrthwynebu/ Object | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | Gwrthwynebu gan nad yw’n glir o ble mae’r ffigwr o 100 wedi dod, pa dystiolaeth sy’n cefnogi’r angen am asesiad mor fanwl ar safleoedd o’r maint hwn a throsodd? Bydd yr Effaith yn ddibynnol ar raddfa’r datblygiad yng nghyswllt yr anheddle y bwriedir iddo ddigwydd; er hynny mae gosod trothwy yn help i ddatblygwyr gan y gallant roi ystyriaeth i’r gofyn hwn | |
| NMC093, NMC094, NMC095, NMC096 | SNMC54, SNMC55, SNMC56, SNMC57 | Gwrthwynebu/ Object | Mairede Thomas (318) | Anglesey Branch CPRW | Rydym yn gwrthwynebu i’r Newid Materion sy’n Codi fel sail i dybio y dylai bod targed o 50% o drydan a gwres lleol a ddarperir drwy ynni adnewyddadwy erbyn 2021 gan godi i 100% erbyn 2026.<br><br>Mae gofyn i’r Cynllun roi sylw’n well i’r “defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o dir er budd cyhoeddus” a “sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau angenrheidiol yn cael eu hadeiladu ble mae eu hangen fwyaf”.<br>Dylid gwneud hyn drwy ganolbwyntio ar “ddatblygiadau effaith amgylcheddol isel” a thrwy osod deunydd solar pv a solar thermol o fewn yr amgylchedd adeiledig ac yn agos i’r man ble bydd yr ynni a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio’n fwyaf effeithiol. Dylai’r Cynllun roi sylw i ffyrdd eraill o gyflawni ynni yn effeithlon a phŵer rhatach i fusnesau a chymunedau. | Mae'r Newid Materion sy'n Codi yn rhoi diweddariad o'r gwaith diweddar a wnaed gan ARUP ar Astudiaeth Potensial Ynni Adnewyddadwy – tuag at y targedau ynni adnewyddadwy. Mae’r Adroddiad diweddaru hwn yn cael ei gynnwys fel Atodiad i ymateb y Cyngor i Bwynt Gweithredu 2 o Sesiwn Gwrandawiad 8 ar faterion ynni adnewyddadwy.<br><br>‘Roedd y Pwynt Gweithredu yma yn gofyn i'r Cynghorau:<br><br>“Cyflwyno Newid Materion sy’n Codi i ddisgrifio’r ffigwr galw am wres ac ynni yn yr ardal, gan adnabod pa ganran o hwnnw gallir anelu i’w gyfarch drwy dechnolegau ynni adnewyddol o dan bolisïau’r Cynllun.”<br><br>‘Roedd yr Astudiaeth Potensial Ynni Adnewyddadwy yn seiliedig ar Ganllawiau Arfer Da Llywodraeth Cymru: Cynllunio ac Ynni Carbon Isel - |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Hefyd, dylai'r Cynllun gydnabod bod Llywodraeth Cymru ar fin cael rheolaeth dros gyfleoedd i gynhyrchu ynni o hyd at 300MW yn sgil y setliad datganoli newydd. Ni does cyfeiriad at Adweithyddion Niwclear Modwlar Bach (SMR) yn y Cynllun, er bod hwn yn opsiwn pŵer ar y tir carbon isel, y mae cefnogaeth iddo yn lleol.<br><br>Mae'r gwrthwynebydd wedi cynnwys cyfeiriadau at nifer o wefannau allanol mewn ymgais i gefnogi ei wrthwynebiadau. | Teclyn ar gyfer Cynllunwyr a gafodd ei ddiweddaru yn 2015. Fe wnaeth y teclyn yma gyflwyno adran newydd i asesu potensial ar gyfer datblygiad ffermydd solar na chafodd ei gyfarch yn y teclyn gwreiddiol yn 2010.<br><br>Rhydd yr Astudiaeth Potensial Ynni Adnewyddadwy y rhesymeg dros y potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy o ynni gwahanol dechnolegau.<br><br>Mae potensial ynni'r llanw wedi'i gynnwys o fewn tabl 12A ar gyfer Potensail ar gyfer Trydan Adnewyddadwy ar gyfer 2026.<br><br>Nid yw polisi ADN1A yn atal y defnydd o solar PV a solar chyfarpar thermol o fewn yr amgylchedd adeiledig.<br><br>Nid yw Adweithyddion Niwclear Modiwlaidd Bychan (SMRs) fel technoleg ar hyn o bryd yn cael ei gynnwys o fewn y teclyn cymorth 2015 gan Lywodraeth Cymru. Felly nid yw'n rhan o'r technolegau aseswyd ar gyfer y trydan adnewyddadwy posibl a gwres ar gyfer ardal y Cynllun.<br><br>Gweler ymateb y Cyngor i NMC 323 ar gyfer yr ymateb i'r gwrthwynebiad penodol i Dargedau Polisi ar gyfer D21 sy'n cael ei gynnwys yn y fframwaith fonitro. |
| NMC100 | SNMC44 | Gwrthw ynebu | Helen Ashby-Ridgeway, | Bourne Leisure Limited | Dylai'r holl lety gwyliau, a charafanau a phebyll yn benodol, gael eu hadnabod fel rhai sy'n hynod o sensitif i unrhyw effeithiau | Mae Newid Materion sy'n Codi (NMC) i faen prawf (iii) o fewn Polisi PS 7 yn disodli cyfeiriad at fwynderau tai a fwynheir gan ymwelwyr ar eu |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Lichfields (3427) | | negyddol o gynlluniau ynni adnewyddadwy, o ystyried y lefel is o ynysu rhag sŵn y mae'r strwythurau hyn yn ei ddarparu. Heb fesurau o'r fath, mae risg y bydd twristiaid yn peidio ag ymweld â'r ardal neu ddychwelyd i'r ardal, gan gael effaith ar yr economi lleol yn sgil hynny.<br><br>Dylid rhoi gwarchodaeth i fwynderau llety gwyliau rhag unrhyw effaith annerbyniol, yn hytrach na niwed "sylweddol amlwg" o osodiadau ynni adnewyddadwy a leolir y tu allan i ardaloedd tirlun dynodedig. | gwyliau gyda chyfeiriad at 'lety gwyliau'.<br><br>Bydd hyn yn caniatáu i ystyriaeth gael ei rhoi i niwed dangosadwy sylweddol posibl i wahanol fathau o lety gwyliau.<br><br>O ran y gwrthwynebiad a wnaed at y term 'niwed sylweddol amlwg' nid oedd y term hwn yn destun newid o dan NMC100.<br><br>Mae paragraff 2.4 o ganllawiau'r Cynghorau am y Gofrestr o Newid Materion sy'n Codi (Ionawr 2017) yn datgan:<br><br>" 2.4 Nid yw'r ymgynghoriad hwn felly yn gyfle i ychwanegu at sylwadau blaenorol neu i wneud sylwadau newydd ar rannau o'r Cynllun adneuo gwreiddiol sydd ddim yn ddarostyngedig i Newidiadau Materion sy'n Codi. Caiff unrhyw sylwadau o'r fath eu diystyru oherwydd fe ddylid fod wedi eu gwneud yn ystod cam cynharach o'r cyfnod paratoi'r Cynllun." |
| NMC101 | SNMC20 | Cefnogi/ Support | Angharad Wyn Crump (1521) | Cyfoeth Naturiol Cymru | Rydym yn nodi'r diwygiadau i faen prawf i) a ii). Fel nodwyd yn y ddogfen rydym yn ystyried fod y diwygiadau a gynigir yn sicrhau fod y polisi yn rhoddi gwarchodaeth uwch i ddynodiadau bioamrywiaeth a thirwedd genedlaethol a rhyngwladol. | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC101 | SNMC45 | Gwrthw ynebu | Helen Ashby-Ridgeway, Lichfields (3427) | Bourne Leisure Limited | Dylai Polisi Drafft ADN 1 warchod mwynderau gweledol a chymeriad tirlun rhag effeithiau andwyol posib o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Fel arall, mae risg na fydd twristiaid am ymweld â'r ardal neu ddychwelyd i'r ardal yn sgil y materion hyn, a fyddai'n cael effaith ar yr economi lleol yn sgil | Nid yw'r Cynghorau yn credu fod angen ail-osod maen prawf (i) ynghyd a thestun ychwanegol ynglyn a 'derbynyddion mwynderol gweledol sensitif'.<br><br>Mae'r Cynghorau o'r farn bod maen prawf diwygiedig (ii) yn cyfarch cymeriad y tirwedd a |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | hynny.<br><br>Mae Bourne Leisure yn cefnogi'r gofyn ym Mholisi Drafft ADN 1 (ii) (NMC 101) am liniaru digonol ar gyfer cyfleusterau ynni gwynt ar y tir mewn perthynas â chymeriad tirlun.<br><br>Nid yw Polisi Drafft ADN 1 (vii) yn ddigonol i sicrhau bod safleoedd yn cael eu hadfer ar ddiwedd gweithrediad cyfleuster gwynt ar y tir. | maen prawf (iii) yn gwarchod mwynderau derbynyddion sensitif.<br><br>Noder y sylw Cefnogol am faen prawf (ii) diwygiedig.<br><br>Mae'r geiriad diwygiedig awgrymwyd i faen prawf (vii) yn tynnu sylw at yr angen am gynlluniau gael eu cytuno gyda'r awdurdod cynllunio lleol. Credir bod y mân newid hwn i NMC101 yn rhesymol a nodir isod:<br><br>**(vii) ar ddiwedd oes gweithredol y cyfleuster, bydd tyrbinau gwynt ac isadeiledd cysylltiedig yn cael eu tynnu i lawr yn unol â chynllun adfer y tir ac ol-ofal a gyflwynir i a'i gytuno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ~~chytunir ar gynllun adfer tir ac ôl-ofal priodol~~.** |
| NMC101 | SNMC13 7 | Gwrthwynebu/ Object | Noel Davey (1698) | CPRW Caernarfonshire Branch | ADN1 Ynni Gwynt ar y Tir: dileu maen prawf (i) a diwygio maen prawf (ii).<br><br>a. Mae'r testun arfaethedig yn dileu cyfeiriad ar wahân at effaith ar gymeriad tirwedd yn (i) ac yn cyfuno hyn gyda'r cyfeiriad at effaith ar asedau treftadaeth ac adnoddau naturiol, yn cynnwys bioamrywiaeth, yn (ii). Mae hyn yn gwanio'r pwyslais blaenorol ar wahân ar faterion gweledol yn ymwneud â'r effaith ar asedau tirwedd a threftadaeth ac yn eu cysylltu gydag effaith ar asedau bioamrywiaeth sydd o gymeriad gwahanol. Mae hyn yn newid pwyslais ac eglurder y testun gwreiddiol. Mae dileu'r cyfeiriad at fwynder gweledol yn dderbyniol gan fod hyn | Mae'r Cynghorau o'r farn bod maen prawf diwygiedig (ii) yn rhoi digon o amddiffyniad rhag effeithiau ar gymeriad tirwedd ac asedau treftadaeth.<br><br>Mae cyfeiriad at dirweddau dynodedig yn sicrhau bod y polisi yn gyson â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC). Mae paragraffau 12.8.7 i 12.8.9 o Bolisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r system gynllunio i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel tra mae paragraff 12.8.10 yn diogelu ardaloedd dynodedig.<br><br>Bydd y swyddog achos gyda phob cais unigol yn ystyried yr angen am unrhyw gamau lliniaru sy'n |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | yn cael ei adnabod ar wahân ym maen prawf (iii) a (iv).<br><br>b. Mae testun diwygiedig (ii) yn awgrymu mai dim ond tirweddau dynodedig ddylid eu hystyried, tra bod y testun gwreiddiol (i) yn caniatáu'n gywir am effaith ar yr holl dirweddau, p'un a ydynt wedi'u dynodi ai peidio.<br><br>c. Rydym yn parhau i ddweud na ellir 'lliniaru'n ddigonol' effaith weledol tyrbinau gwynt ar dirwedd, yn sgil eu maint, eu graddfa ac amlygrwydd cynhenid eu lleoliad angenrheidiol, sy'n hanfodol i'w gweithrediad boddhaol, fel y nodir yn (ii); mae sgrinio llystyfiannol yn anymarferol, tra bod lliw'r tyrbin yn medru cael effaith ymylol ar y gorau. Teimlwn ei bod yn afrealistig i awgrymu y gall lliniaru digonol fod yn ddisgwyliad arferol yn achos tyrbinau gwynt. Roedd y cyfeiriad blaenorol at osgoi 'effaith annerbyniol' yn fwy ystyrlon. | ofynnol ac a yw hyn yn ddigonol ai pheidio drwy ddadansoddi tystiolaeth berthnasol ar sail achos wrth achos.<br><br>Mae datganiad nad allir lliniaru tyrbinau gwynt yn ddigonol yn mater o farn. |
| NMC101 | SNMC6 | Gwrthwynebu/ Object | Candice Myers (1561) | Llywodraeth Cymru | Cyfeirir at Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) ym Mholisi ADN1 o hyd. Dylid dileu hyn o'r polisi, am y rhesymeg a nodir yn ein datganiad i Sesiwn 1, (C2a) gan fod ATA yn ddynodiadau anstatudol na ddylai gyfyngu ar ddatblygiad derbyniol yn ormodol (PPW, 5.3.11) megis hwyluso cyfleoedd ynni adnewyddadwy. | Mae'r Cynghorau wedi nodi sail Llywodraeth Cymru am eu hymateb i C2a yn eu datganiad ar gyfer sesiwn 8 o ran mai dynodiadau anstatudol ydi ATA na ddylai gyfyngu'n ddiangen ar ddatblygiad annerbyniol.<br><br>Fel y nodir yn Natganiad y Cynghorau ar gyfer sesiwn 8 (C4a) mae'r ATA a nodwyd yn seiliedig ar adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig Gwynedd ac Ynys Môn (2013) (DC.008). Roedd hyn yn seiliedig ar fethodoleg gadarn a gwneud y defnydd gorau o dystiolaeth leol sydd ar gael. Diben dynodiad ATA hwn yw sicrhau na chaiff |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | nodweddion yr ardaloedd hyn eu newid drwy ffurfiau amhriodol o ddatblygiad ac y cedwir nodweddion sy'n cyfrannu at nodweddion unigryw lleol.<br><br>Roedd yr ATA a nodwyd yn rhan o'r meini prawf ar gyfer asesu tirwedd a sensitifrwydd gweledol i ddatblygu ynni gwynt. Cynhwysir tystiolaeth dros capasiti y dirwedd i ddarparu ar gyfer cyfleoedd ynni gwynt o fewn yr Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti y Dirwedd (DC.020).<br><br>Yng ngoleuni hyn, credir bod y Cynghorau wedi llunio methodoleg gadarn ar gyfer nodi a chyfiawnhau ATA yn ardal y Cynllun. Mae'r rhain wedi bod yn destun Astudiaeth Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd i gyfiawnhau teipoleg o dyrbinau gwynt y gellid eu cynnwys o fewn yr ATA. Mae hyn yn dod i'r casgliad mai dim ond cynigion tyrbinau gwynt ar Raddfa Domestig (yn amodol bod y cynigion yma yn bodloni'r meini prawf perthnasol o fewn y Polisi) sy'n briodol o fewn yr ATA. Felly, nid yw'r polisi yn atal datblygu yn yr ATA ond mae'n ceisio rheoli datblygu.<br><br>Trwy NMC 101 mae'r Cynghorau wedi cynnig cael gwared â'r cyfeiriad i osodiad yr ATA o'r Polisi yn unol â gwrthwynebiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn y cyfnod newidiadau ffocws y Cynllun. |
| NMC110 | SNMC46 | Gwrthwynebu | Helen Ashby-Ridgeway, Lichfields (3427) | Bourne Leisure Limited | Mae Bourne Leisure yn cefnogi'r gydnabyddiaeth y dylai derbynyddion sensitif gael eu gwarchod rhag niwed sylweddol o fflachio a llacharedd gan ffermydd solar PV. | Mae'r cyfeiriad at amwynderau gweledol preswyl o drigolion cyfagos o fewn maen prawf (3) yn gyson â maen prawf tebyg o fewn polisi ADN1.<br><br>Gydag unrhyw gais rhoddir sylw hefyd i Bolisi |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Dylai Polisi newydd ADN 1A (3) a'r testun cefnogol ddarparu'n benodol warchodaeth i lety gwyliau rhag unrhyw effeithiau niweidiol posib datblygiadau ynni adnewyddadwy. Fel arall, mae risg y gallai twristiaid beidio ag ymweld â'r ardal neu ddychwelyd i'r ardal oherwydd y materion hyn, gan effeithio ar yr economi lleol yn sgil hynny.<br><br>Dylai derbynyddion sensitif gael eu gwarchod rhag unrhyw effaith annerbyniol, yn hytrach na'r trothwy arfaethedig o niwed "sylweddol amlwg" o osodiadau ynni adnewyddadwy a leolir y tu allan i ardaloedd tirwedd ddynodedig. | Strategol PS7. Mae maen prawf (i) o fewn y polisi hwn yn cyfeirio at effaith weledol o fewn ardaloedd dynodedig ac mae maen prawf (iii) yn cyfeirio at beidio achosi niwed sylweddol amlwg i amwynder llety gwyliau.<br><br>Mae'r cyfeiriad at amwynder gweledol preswyl o fewn maen prawf (3) o Bolisi ADN1A yn seiliedig ar y diffiniad o fewn 'Gwynt tyrbinau & peilonau- canllawiau ar y dull mesur pellteroedd gwahanu o eiddo preswyl' (DC.019). Mae hwn yn diffinio amwynder gweledol preswyl fel:<br><br>"Mae **Amwynder gweledol preswyl** yn cyfeirio at yr amwynder gweledol sydd gan dai preswyl yn cynnwys eu gerddi. Mae'n dod o dan amwynder preswyl sydd hefyd yn cynnwys agweddau fel sŵn, goleuni a dirgryniad. Wrth wneud penderfyniadau am amwynder gweledol preswyl, mae'n bwysig nodi nad yw newid andwyol sylweddol posibl i olygfa o eiddo yn ei hun yn arwain at niwed sylweddol i amodau byw - mae angen bod cryn dipyn o niwed y tu hwnt i hyn, er enghraifft ymwthgarwch gormodol neu effaith ormesol, i gyfiawnhau gwrthod neu argymell gwrthod cais cynllunio".<br><br>Mae'r cyfeiriad o fewn meini prawf (3) o Bolisi ADN1A felly yn ceisio sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad yn arwain i ymwthiad gormodol neu effaith gormesol ar amwynder gweledol preswyl eiddo yng nghyffiniau cais.<br><br>Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng unrhyw niwed sylweddol posibl ar amwynder gweledol preswyl trigolion cartrefi yn erbyn safle |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | twristiaeth lle mae ymwelwyr yn ymweld am gyfnod cyfyngedig ar eu gwyliau. Teimlir bod y warchodaeth a roddir o fewn meini prawf (i) a (iii) o Bolisi PS7 yn rhoi digon o amddiffyniad i amwynder o lety gwyliau.<br><br>Gofynnodd Pwynt Gweithredu 2 o sesiwn gwrandawiad 8, wrth gyfeirio at Bolisi ADN1, i'r Cynghorau egluro pa fath o niwed fyddai yn annerbyniol. Dywedodd Pwynt Gweithredu 5 o'r un sesiwn gwrandawiad oedd yn cyfeirio at Bolisi ADN1A drafft y dylai'r ddau Bolisi gynnwys meini prawf tebyg i'w gilydd.<br><br>Yng ngoleuni'r pwyntiau gweithredu hyn mae'r Cynghorau wedi cynnig y term 'niwed sylweddol' i ddarparu cysondeb gyda meini prawf eraill yn y polisïau Ynni Adnewyddadwy.<br><br>Bydd paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy ar wahân yn rhoi eglurhad pellach o ran niwed sylweddol a lle mae derbynyddion sensitif yn hytrach na thrwy ymgorffori testun ychwanegol o fewn yr esboniad i'r polisi. |
| NMC110 | SNMC138 | Gwrthwynebu/ Object | Noel Davey (1169) | CPRW Caernarfonshire Branch | ADN1A Ynni Solar PV<br><br>a. Rydym yn croesawu cynnwys polisi penodol ar gyfer Ynni Solar PV.<br>b. Mae'r testun arfaethedig yn dileu cyfeiriad ar wahân at effaith ar gymeriad tirwedd yn (i) ac yn cyfuno hyn gyda'r cyfeiriad at effaith ar asedau treftadaeth ac adnoddau naturiol, yn cynnwys bioamrywiaeth, yn (ii). Mae hyn yn gwanio'r pwyslais blaenorol ar wahân ar | Mae'r Cynghorau o'r farn bod maen prawf diwygiedig (ii) yn rhoi digon o amddiffyniad rhag effeithiau ar gymeriad y dirwedd ac asedau treftadaeth.<br><br>Mae cyfeiriad at dirweddau dynodedig yn sicrhau bod y polisi yn gyson â Pholisi Cynllunio Cymru (PCC). Mae paragraffau 12.8.7 i 12.8.9 o Bolisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r system gynllunio |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | faterion gweledol yn ymwneud â'r effaith ar asedau tirwedd a threftadaeth ac yn eu cysylltu gydag effaith ar asedau bioamrywiaeth sydd o gymeriad gwahanol. Mae hyn yn newid pwyslais ac eglurder y testun gwreiddiol. Mae dileu'r cyfeiriad at fwynder gweledol yn dderbyniol gan fod hyn yn cael ei adnabod ar wahân ym maen prawf (iii) a (iv).<br>c. Mae testun diwygiedig (ii) yn awgrymu mai dim ond tirweddau dynodedig ddylid eu hystyried, tra bod y testun gwreiddiol (i) yn caniatáu'n gywir am effaith ar yr holl dirweddau, p'un a ydynt wedi'u dynodi ai peidio.<br>d. Yn achos ffermydd solar rydym yn cydnabod bod lliniaru effaith ar dirwedd drwy leoli a sgrinio gofalus yn aml yn opsiwn ymarferol. Rydym yn dal i ystyried bod y cyfeiriad blaenorol at osgoi 'effaith annerbyniol' yn fwy ystyrlon na'r term 'wedi'i liniaru'n ddigonol'.<br>e. Atalnodi (fersiwn Saesneg): maen prawf (4) coma ar ôl y gair 'permission', fel yn ADN1 (vi); testun ar ôl tabl 14A, llinell 1, 'applicants' (lluosog). | i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel tra mae paragraff 12.8.10 yn diogelu ardaloedd dynodedig.<br><br>Mae'r term 'lliniaru ddigonol' yn darparu gwell cysondeb â pholisïau cenedlaethol sy'n amlinellu ymrwymiad y Llywodraeth i wneud y gorau i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mewn perthynas â gwallau atalnodi a godwyd gan y gwrthwynebwyr, mae'r rhain yn fân newidiadau gramadegol, y mae y Cynghorau yn cytuno y byddai'n gwella'r Cynllun. |
| NMC110 | SNMC21 | Gwrthw ynebu/ Object | Angharad Crump (1521) | Cyfoeth Naturiol Cymru | Rydym yn nodi ac yn cefnogi cynnwys polisi newydd ADNA1 sydd yn rhoddi fframwaith bolisi er mwyn ymdrin â chynigion ynni haul PV.<br><br>Rydym yn fodlon hefo geiriad y polisi fodd bynnag fe fyddem yn awgrymu fod maen prawf 10 hefyd yn cyfeirio at yr angen i ddangos sut y gallai mesurau lliniaru gael eu hymgorffori i mewn i'r Cynllun a chael eu rheoli yn ystod oes y datblygiad. | Ystyrir y byddai'r mater a godwyd gan y gwrthwynebydd yn cael ei ystyried adeg cais cynllunio mewn ymgynghoriad ag ymgyngoreion perthnasol. Ystyrir bod y maen prawf yn ddigon cadarn. |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| NMC115 | SNMC22 | Cefnogi/ Support | Angharad Crump (1521) | Cyfoeth Naturiol Cymru | Rydym yn bodi ac yn croesawu'r diwygiadau i Bolisi ADN2 er mwyn cyd-fynd hefo Polisi PS7. | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC115 | SNMC47 | Gwrthwynebu | Helen Ashby-Ridgeway, Lichfields (3427) | Bourne Leisure Limited | Dylai derbynyddion sensitif gael eu gwarchod yn benodol rhag effeithiau andwyol datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel. O ystyried pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth i'r economi lleol, dylai testun y cyfiawnhad ar gyfer Polisi drafft ADN2 restru llety gwyliau fel derbynnydd sensitif.<br>Mae Bourne Leisure yn cefnogi ymagwedd y Cynghorau wrth wneud lliniaru effeithiau ar ddefnyddwyr sensitif yn ofynnol.<br>Dylid rhoi gwarchodaeth yn erbyn unrhyw effaith annerbyniol ar fwynderau gweledol, yn hytrach na niwed "sylweddol annerbyniol".<br>Nid yw Polisi Drafft ADN2 (7) yn ddigonol i sicrhau bod safleoedd yn cael eu hadfer ar ddiwedd gweithrediad cyfleuster ynni. | Ni theimlir bod angen cynnwys llety gwyliau fel derbynnydd sensitif o fewn yr esboniad i'r polisi.<br><br>Bydd paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy ar wahân yn rhoi eglurhad pellach o ran derbynyddion sensitif yn hytrach na thrwy ymgorffori testun ychwanegol o fewn yr esboniad i'r polisi.<br><br>Defnyddir y term 'sylweddol' yn gyson o fewn y polisïau ar ynni adnewyddadwy. Mae hyn er mwyn sicrhau cysondeb ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio'r system gynllunio i optimeiddio cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel ond hefyd yn sicrhau nad oes effaith annerbyniol sylweddol trwy'r datblygiad.<br><br>Mae'r geiriad diwygiedig awgrymwyd i faen prawf (7) yn tynnu sylw at yr angen am gynlluniau i gael eu cytuno gyda'r awdurdod cynllunio lleol. Ystyrir bod y mân newid hwn i NMC101 yn rhesymol ac fe'i nodir:<br><br>**(7) lle bo angen, bydd y cyfarpar ac isadeiledd cysylltiedig yn cael eu tynnu oddi ar y safle yn unol â chynllun adfer y tir ac ol-ofal a gyflwynir a'i gytuno gan yr ~~i'r~~ Awdurdod Cynllunio Lleol** |
| NMC124 | SNMC23 | Cefnogi/ Support | Angharad Crump (1521) | Cyfoeth Naturiol Cymru | Rydym yn nodi ac yn croesawu'r diwygiadau i'r Polisi er mwyn gwella eglurder. | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC125 – 130 | SNMC73 | Gwrthwynebu/ | Kieran Somers | Horizon Nuclear Power | Gwrthwynebu newidiadau amrywiol i'r geiriad ar NSIP a datblygiadau cysylltiedig. | Nid oes angen newidiadau I baragraffau 7.3.3 – 7.3.8 neu Bolisi PS 8 i gyfarch effaith Deddf Cymru |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Object | (3441) | Wylfa Limited | | 2017. |
| NMC126 | SNMC74 | Gwrthwynebu/ Object | Kieran Somers (3441) | Horizon Nuclear Power Wylfa Limited | Ni ddylid cyfeirio at CCA fel 'diwygiedig' ar hyn o bryd ac ni ddylid cyfeirio ati fel dogfen "gyfredol". Mae angen diweddaru'r testun i adlewyrchu Deddf Cymru 2017. | Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfeiriadau at sawl CCA arfaethedig arfaethedig i gefnogi'r Cynllun. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddiwygio'r CCA mabwysiedig presennol. Mae Fframwaith Monitro'r Cynllun ym Mhennod 8 yn gosod targed i fabwysiadu'r CCA o fewn 6 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. |
| NMC127 | SNMC119 | Gwrthwynebu/ Object | | National Grid | Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol cyffredinol ar gyfer Ynni (EN-1) yn nodi pryd gellir defnyddio ymrwymiadau cynllunio ar gyfer isadeiledd ynni. Mae National Grid yn gofyn i gyfeiriad at EN-1 gael ei gynnwys yn y CDLl yng nghyd-destun Nhsips ac ymrwymiadau cynllunio. Yn unol ag EN-1, mae profion yn angenrheidiol er mwyn i'r CDLl fod yn gyson gyda'r cyd-destun polisi y mae penderfyniadau am ddatblygiadau NSIP yn cael eu gwneud yn eu herbyn. | Ystyrir bod paragraff 7.3.4 fel y'i diwygiwyd gan NMC 126 yn darparu'r cyd-destun polisi cenedlaethol perthnasol. |
| NMC128 | SNMC120 | Gwrthwynebu/ Object | Chris Palmer. Principal Planning and Consenting (3429) | National Grid | Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol cyffredinol ar gyfer Ynni (EN-1) yn nodi pryd gellir defnyddio ymrwymiadau cynllunio ar gyfer isadeiledd ynni. Mae National Grid yn gofyn i gyfeiriad at EN-1 gael ei gynnwys yn y CDLl yng nghyd-destun Nhsips ac ymrwymiadau cynllunio. Yn unol ag EN-1, mae profion yn angenrheidiol er mwyn i'r CDLl fod yn gyson gyda'r cyd-destun polisi y mae penderfyniadau am ddatblygiadau NSIP yn cael eu gwneud yn eu herbyn. | |
| NMC129 | SNMC104 | Gwrthwynebu/ Object | Chris Palmer. Principal Planning and | National Grid | Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol cyffredinol ar gyfer Ynni (EN-1) yn nodi pryd gellir defnyddio ymrwymiadau cynllunio ar gyfer isadeiledd ynni. Mae National Grid yn gofyn i gyfeiriad at EN-1 gael ei gynnwys yn y | |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Consenting (3429) | | CDLl yng nghyd-destun NSIPs ac ymrwymiadau cynllunio. Yn unol ag EN-1, mae profion yn angenrheidiol er mwyn i'r CDLl fod yn gyson gyda'r cyd-destun polisi y mae penderfyniadau am ddatblygiadau NSIP yn cael eu gwneud yn eu herbyn. | |
| NMC130 | SNMC75 | Cefnogi/ Support | Kieran Somers (3441) | Horizon Nuclear Power Wylfa Limited | Mae'r newid yma yn golygu fod PS8 yn cydymffurfio gyda'r diwygiadau sydd eisoes wedi eu gwneud i PS9. Er nad yw'n destun NMC penodol, fe ddylai'r holl ddiwygiadau i PS9 hefydd effeithio PS8 (h.y. sy'n nodi perthynas caniatáu o rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol ac Awdurdod Cynllunio Lleol ar Ddeddf Cymru 2017 sydd hefyd angen ei adlewyrchu yn PS8/Pennod 7. Mae'r sylwadau yn cynnig mireinio o PS9 a pholisïau Wylfa Newydd penodol. | Nodi'r sylw |
| NMC131 – 140 | SNMC76 | Gwrthwynebu/ Object | Kieran Somers (3441) | Horizon Nuclear Power Wylfa Limited | Mae angen diweddaru'r testun ym mharagraff 7.3.12 i 7.3.19 i adlewyrchu Deddf Cymru 2017.<br><br>Mae geiriad diwygiedig arfaethedig wedi'i atodi gyda'r sylw. | Gweler yr ymateb yn Atodiad 3 i'r adroddiad yma |
| NMC136 – 139 | SNMC77 | Gwrthwynebu/ Object | Kieran Somers (3441) | Horizon Nuclear Power Wylfa Limited | Nid yw'r testun yn adlewyrchu'r dosbarthu arfaethedig i lety gweithwyr dros dro Horizon. | Gweler yr ymateb yn Atodiad 3 i'r adroddiad yma |
| NMC137 | SNMC58 | Gwrthwynebu/ Object | Jon Suckley, How Planning (1447) | Land & Lakes Ltd | Nid yw'r paragraff, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn rhoi pwys digonol ar y gofyn am ddatrysiadau llety parhaol a fydd yn cyflawni buddion pwysig i'r dyfodol neu etifeddol. Mae'r paragraff, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn rhoi gormod o hyblygrwydd gan gynnwys y gair 'neu' a 'ble bo hynny'n briodol'. Mae geiriad diwygiedig wedi'i awgrymu. | Mae'r paragraff yn rhoi syniad o'r gwahanol fathau o lety y gellid eu defnyddio i ddarparu ar gyfer gweithwyr adeiladu. Mae'n adlewyrchu'r gwaith manwl a wnaed gan Gyngor Sir Ynys Môn i ddeall y goblygiadau cynnal y Prosiect. Ystyrir unrhyw newidiadau ychwanegol yn ofynnol. |
| NMC138 | SNMC59 | Gwrthwynebu/ | Jon Suckley, | Land & Lakes Ltd | Nid yw'r cyfeiriad at "agos i" yn fanwl, ac mae'n agored i ddehongli a allai arwain at | Os bydd yr Arolygydd yn ystyried y dylai testun esboniadol gael ei fireinio er mwyn darparu |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Object | How Planning (1447) | | ddatblygiad mewn lleoliadau nad ydynt yn gynaliadwy neu'n hygyrch. Mae geiriad amgen wedi'i gynnwys. | disgrifiad cliriach o safbwynt y Cyngor, tynnir sylw'r Arolygydd at fân ddiwygiadau i baragraff 7.3.18 yn Atodiad 3 i'r adroddiad hwn. Mae'r gwelliannau a awgrymwyd yn cynnwys disodli "agos at" gyda "â chysylltiad dda" ac ychwanegu testun esboniadol i ddisgrifio y term hwn. |
| NMC141 | SNMC109 | Cefnogi/ Support | Ben Lewis, GVA (3418) | Nuclear Decommissioning Authority & Magnox Ltd | Dymuna'r NDA a Magnox gadarnhau eu cefnogaeth i'r addasiadau a ganlyn, sy'n gyson â'r sylwadau a wnaed gan y GVA (ar ran NDA a Magnox). | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC141 | SNMC60 | Gwrthwynebu/ Object | Jon Suckley, How Planning (1447) | Land & Lakes Ltd | Yng ngoleuni'r newidiadau a fwriedir i baragraff 7.3.18 sy'n gofyn am ystyried ail-ddefnyddio adeiladau presennol a/neu ddarparu adeiladau parhaol ar gyfer defnydd dyfodol ac etifeddol cyn cynnig adeiladau dros dro, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngeiriad y polisi. Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb, mae Land and Lakes yn gofyn i Bolisi PS9 gael ei ddiwygio i gynnwys maen prawf ychwanegol fyddai'n cael ei gynnwys rhwng 5 a 6. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd nid yw'r polisi fel y mae wedi'i ddrafftio yn adlewyrchu gofynion para. 7.3.18. Mae geiriad y maen prawf newydd wedi'i awgrymu. | Mae'r Cynghorau yn nodi sylwadau, sy'n debyg i sylwadau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â PS polisi 9A. Os yw gwelliant ychwanegol yn ofynnol i ddarparu fframwaith clir a chyson mae'r Cynghorau yn tynnu sylw yr Arolygydd i fân ddiwygiad i Bolisi PS 9A i gynnwys maen prawf ychwanegol sy'n ymwneud â'r dull dilyniannol ddethol mae'r Cynghorau yn ffafrio o ran dewis y math o lety, -gweler Atodiad 3 |
| NMC141 | SNMC7 | Gwrthwynebu/ Object | Candice Myers (1561) | Llywodraeth Cymru | Maen Prawf 7 – Ymddengys nad oes unrhyw resymeg/cyfiawnhad ar gyfer y trothwy 500 uned. (Gweler sylw ar NMC 143 & 188).<br>Maen Prawf 10: Mae'r cymal "...gael ei gytuno gan..." yn rhy gryf ac afresymol, yn enwedig wrth ei gysylltu â chael caniatâd cynllunio. Mewn gwirionedd, mae'r Cyngor yn ceisio cymeradwyo strategaeth trydydd parti (sef un yr hyrwyddwr) ar y cynsail ei fod yn | Maen prawf 7 – gweler ymateb y Cynghorau yn Atodiad 3<br><br><br><br><br><br>Maen prawf 10 - cytunir bod angen gwneud mân newid i beidio cyfeirio at gael cymeradwyaeth y |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | angenrheidiol er mwyn cyflawni caniatâd cynllunio. Beth sy'n digwydd os nad yw'r Cyngor yn cymeradwyo'r strategaeth? A yw'n rhesymol i gysylltu cael caniatâd cynllunio i strategaeth trydydd parti nad oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth drosto? | Cyngor - gweler Atodiad 3 |
| NMC141 – 144 | SNMC78 | Gwrthwynebu/ Object | Kieran Somers (3441) | Horizon Nuclear Power Wylfa Limited | Mae diwygiad i'r adran hon wedi'i chynnig. Dylid gwneud newidiadau i'r geiriad oherwydd yn ei ffurf gyfredol mae'n debygol o dorri cyfreithiau diogelu data. | Gweler yr ymateb yn Atodiad 3. |
| NMC143 | SNMC61 | Gwrthwynebu/ Object | Jon Suckley, How Planning (1447) | Land & Lakes Ltd | Awgrymir diwygiadau bychain i'r polisi i sicrhau ei fod yn adlewyrchu geiriad para 7.3.18 a Pholisi PS9. Mae geiriad diwygiedig wedi'i gynnwys. | Cyfeiria paragraff 7.3.18 at leoliad nifer o fathau o lety ar gyfer gweithwyr adeiladu. Mae Polisi PS 9A yn darparu fframwaith ar gyfer llety steil campws. O ystyried maint disgwyliedig datblygiadau mae'r Cynghorau yn dal o'r farn y dylai'r rhain gael eu lleoli cyfagos neu a chysylltiad dda â ffiniau datblygu Canolfannau, yn hytrach na Chanolfannau a Phentrefi Gwasanaeth. |
| NMC143 | SNMC8 | Gwrthwynebu/ Object | Candice Myers (1561) | Llywodraeth Cymru | Mae trothwy'r polisi a gynigir gan Horizon ac sydd wedi'i gynnwys gan y Cyngor fel rhan o'u NMCau yn wahanol i ymateb y Cynghorau i S7/PG15, ble ystyrir "nad oes unrhyw sail gynllunio" i'r lefel o 500 o wlâu ac nad oes "fawr ddim tystiolaeth i ddangos bod y trothwy hwn yn adlewyrchu pwynt tyngedfennol" (paragraff 2.4). Mae'n hanfodol y cefnogir polisïau cynlluniau gan dystiolaeth gadarn a byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eglurder ar dystiolaeth sy'n tanategu'r gwahaniaethau rhwng TCWA mawr a bach.<br>Maen Prawf 1 - Mae'r polisi yn cyfeirio at y goeden aneddleoedd sy'n briodol, ond nid yw'n glir a oes gan yr holl haenau'r un statws? Mae'n debyg nad yw'n fwriad i Glystyrau | Gweler yr ymateb yn Atodiad 3<br><br>Mae maen prawf 1 yn cyfeirio at Ganolfannau yn y Goeden Aneddleoedd, h.y. Canolfannau Gwasanaeth Trefol a'r Canolfannau Gwasanaeth Lleol. Felly, ni fyddai datblygiad steil campws yn cael cefnogaeth o fewn Pentrefi a Chlystyrau. Er mwyn egluro'r sefyllfa ymhellach cyflwynir newid i egluro safbwynt y Cynghorau ymhellach, sy'n adnabod Canolfannau penodol: Caergybi, Llangefni, Amlwch, Y Fali a Gaerwen.<br><br>Nodir y sylw am faen prawf 2. Mae ymateb y Cynghorau i sylwadau eraill yn awgrymu dileu maen prawf hwn er mwyn egluro blaenoriaeth y Cynghorau i gyfeirio datblygiad i safleoedd gerllaw |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | letya'r gyfran fwyaf?<br>Pa mor agos yw "...yn agos at..."?<br>Maen Prawf 2 - Nid oes yn rhaid i'r maen prawf hwn fod yn berthnasol i agosrwydd at y prif rwydwaith priffyrdd, pam?<br>5<br>Ystyria'r Cyngor bod y dull o gyfeirio TCWA ar raddfa fawr i gefn gwlad agored yn "groes i ymagwedd y Cynllun a'i amcanion cynaliadwyedd" (S7/PG15 paragraff 2.7). Fodd bynnag, mae Polisi PS9A newydd (Maen Prawf 2) a Pholisi diwygiedig TAI3 (Maen Prawf 4) ill dau yn caniatáu TCWA ar raddfa fawr a bach yng nghefn gwlad agored. Dylai'r Cyngor esbonio sut bydd TCWA newydd mewn ardaloedd gwledig yn dilyn egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn hyrwyddo defnydd etifeddol i'r gymuned yn dilyn cyfnod adeiladu Wylfa Newydd?<br>Yn wir, byddai'n ddefnyddiol deall lleoliad safleoedd a hyrwyddir ar gyfer TCWA, yn benodol yng nghyswllt y safle cyflogaeth wrth gefn yn Rhosgoch a sut mae safleoedd o'r fath yn alinio â pholisïau yn y cynllun, yn cynnwys Polisi PS9B a Pholisi PS9C.<br>Maen Prawf 3 - Pam fod angen i chi weithredu'r polisi Iaith Gymraeg ar gyfer y math hwn o ddatblygiad h.y. gweithwyr dros dro y bydd y rhan fwyaf ohonynt yn dod o du allan i'r ardal leol fwy na thebyg? Cymerir bod y math yma o ddatblygiad yn angenrheidiol i gefnogi cyflawni prosiect Wylfa ac na fyddai'n cael ei wrthod? Pa liniaru sy'n angenrheidiol pe byddai cynnig o'r fath yn hunangynhwysol?<br>Maen Prawf 5 - A yw'n briodol gofyn am restr o weithwyr sy'n gweithredu'r safle, ar gyfer pa | ffiniau datblygu neu â chysylltiad da â hwy. Ar y sail hon, ni fyddai lleoli llety gweithwyr adeiladu dros dro yn Rhosgoch yn cyd-fynd gyda Pholisi PS 9A a Pholisi CYF 1 (oherwydd ei fod yn safle wrth gefn ar gyfer B1, B2 a B8). Ni fyddai darparu cyfleuster logisteg yn Rhosgoch yn cyd-fynd â Pholisi PS 9B oherwydd nad yw'n safle a warchodir ym Mholisi CYF 1, ac nid yw'n o fewn neu'n gyfagos i ffin datblygu Canolfan.<br><br>Mae'r Cynghorau o'r farn bod cadw maen prawf 3 yn ofynnol er mwyn sicrhau bod effaith ar yr iaith yn ystyriaeth. Efallai y bydd Hyrwyddwr Prosiect yn cyfyngu yn llwyr ar symudiad gweithwyr adeiladu ac felly yn lleihau'r rhyngweithio â chymunedau lleol. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu hyn ar hyn o bryd. Bydd y campws hefyd yn cynnig cyflogaeth i drigolion o gymunedau lleol. Mae'n rhaid creu amgylchiadau sy'n hyrwyddo Cymraeg ym mysg cyflogeion. Bydd mesurau lliniaru neu gryfhau yn ofynnol i sicrhau ei fod yn gydnaws ag amcanion cynaliadwyedd y Cynllun, gan gynnwys cynnal a chryfhau'r iaith.<br><br>Maen prawf 5 - mae'r Cynghorau o'r farn ei bod yn rhesymol i gael mynediad i gofrestr o wybodaeth am y defnydd o lety i sicrhau eu bod yn cael eu meddiannu unol â pholisi. Bydd yn angenrheidiol i gadw golwg ar ardrawiad y datblygiad a deall pryd bydd angen ychwanegu at y datblygiad neu ei leihau. Gweler gwelliant a awgrymir yn Atodiad 3 i egluro'r math o wybodaeth sy'n ofynnol. |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | bwrpas ac i gyflawni beth? A yw hyn o fewn cwmpas y system gynllunio? | |
| NMC143 | SNMC9 | Gwrthwynebu/ Object | Candice Myers (1561) | Llywodraeth Cymru | Mae'r meini prawf manwl ym Mholisi TAI3 TCWA graddfa fach yn ymddangos yn wahanol i<br>Dylai'r Cynghorau ystyried cynnwys y testun cyfiawnhad a ganlyn oherwydd yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol gan yr awdurdodau i hysbysu deilliant unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol:<br>·Paragraff 7.4.26 yn gofyn am asesiadau i gyd-fynd â chynigion ar gyfer TCWA;<br>·Paragraff 7.3.18 yn amlinellu'r dilyniant chwilio sydd ei angen cyn cynnig llety modwlar, a<br>·Paragraff 7.3.18B yn gofyn am alinio'r LHMA i unrhyw gynigion ar gyfer etifeddiaeth breswyl barhaol. | Gweler yr ymateb yn Atodiad 3, sy'n dangos maen prawf ychwanegol ym Mholisi PS 9A a chyfeiriad at yr AMTLl ym Mholisi PS 9. |
| NMC144 | SNMC11 | Gwrthwynebu/ Object | Candice Myers (1561) | Llywodraeth Cymru | Mewn gwirionedd, mae polisïau PS 9B & PS 9C yn golygu y gallai canolfannau logisteg/cyfleusterau parcio a theithio ddigwydd yn unrhyw le ar hyd coridor yr A5/A55. A yw hyn yn gywir ac yn briodol? Pa mor llydan yw'r coridor? Fyddai hyn yn cynnwys Llangefni? | Mae maen prawf iii o Bolisi PS 9b yn ei gwneud yn ofynnol i safleoedd ar gyfer cyfleusterau logisteg gael eu lleoli yn gyfagos i ffin datblygu "Canolfannau" wedi'i leoli ar neu'n agos at yr A5 / A55. Felly, ni fyddai cefnogaeth i safleoedd mewn cefn gwlad agored ar hyd y coridor hwn ni. O ran cyfleusterau parcio a theithio, y flaenoriaeth gan y Cynghorau ydi lleoli cyfleusterau o'r fath mewn Canolfannau wedi'u lleoli ar hyd neu'n agos at yr A5 / A55, e.e. Caergybi, Y Fali, Gaerwen, Llangefni. Mae maen prawf ii yn caniatáu safleoedd eraill ar hyd yr A5/ A55 ar yr amod y gellir dangos nad yw safleoedd sy'n nes at y canolfannau yn ar gael, addas, ac ati. Er mwyn gwella eglurder, awgrymir bod cyfeiriad at 'coridor'' yn cael ei dynu allan. |
| NMC147 & NMC148 | SNMC13 & | Gwrthwynebu/ | Candice Myers | Llywodraeth Cymru | Mae Polisi PS10 wedi'i addasu i adnabod bod 55.1ha o dir wedi'i ddynodi ar gyfer dibenion | Mae'r cyfanswm o dir cyflogaeth sydd yn cael ei warchod ym Mholisi PS10 sef 643.8ha yn cynnwys |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | SNMC14 | Object | (1561) | | cyflogaeth gyda 643.8ha o dir presennol wedi'i ddiogelu. Fodd bynnag, mae'r safleoedd sydd wedi'u diogelu a'u rhestru ym Mholisi CYF1 cyfatebol (fel y'i diwygiwyd drwy NMC148) yn gyfanswm o 633.3ha, 10.5ha yn llai nag adnabuwyd ym Mholisi PS10. Dylai'r Cynghorau sicrhau bod cyfansymiau cyflogaeth yn alinio ym Mholisi PS10 a Pholisi CYF1 ill dau. | y tir yn Adwy'r Hafan, Pwllheli (10.5ha) sydd yn cael ei warchod yn unol â Pholisi CYF1B. Os yw'r Arolygydd o'r farn y dylid egluro hynny gallai'r testun eglurhaol ar gyfer Polisi CYF1B gael ei ddiwygio er mwyn cynnwys y cyfanswm arwynebedd tir cyflogaeth sydd yn cael ei warchod yn unol â'r Polisi yma:<br><br>**Mae Adwy'r Hafan yn safle cyflogaeth sefydledig (10.5 ha) ym Mhwllheli, sy'n darparu cyflenwad pwysig o unedau ar gyfer busnesau lleol. Bydd diogelu ardaloedd cyflogaeth bresennol yn annog gweithgarwch yn y farchnad i gynnal cyflenwad o arwynebedd llawr cyflogaeth. Fodd bynnag, mae'r Stad Ddiwydiannol hon yn agored i lifogydd oherwydd ei leoliad o fewn ardal perygl llifogydd C2 ~~C1~~………** |
| NMC148 | SNMC38 | Gwrthwynebu/ Object | Arthur Owen (3426) | | Ystyrir bod Rhosgoch yn safle diwydiannol wrth gefn o fewn CYF1 a ddylai ond gael ei ryddhau os oes ei angen ar gyfer yr Adeilad Niwclear Newydd neu gynigion Ynys Ynni eraill, ond dim ond ar gyfer defnydd B1, B2 neu B8.<br><br>Rhaid gwella'r geiriad presennol i sicrhau eglurder ar y pwynt hwn. Mae Horizon Nuclear Power, datblygwr Wylfa Newydd, eisoes wedi nodi o fewn eu hymgynghoriad PAC2 eu dymuniad i ddefnyddio'r tir er dibenion preswyl i letya eu gweithlu.<br><br>Nid yw Safle Cyflogaeth Wrth Gefn sydd wedi'i adnabod yn CYF1 yn safle wedi'i Ddiogelu nac yn Safle Dynodedig. | Ystyrir fod geiriad y polisi ar ei ffurf bresennol yn ddigon eglur o ran pwrpas y safleoedd cyflogaeth wrth gefn ynghyd a'r ystyriaethau a fydd yn gysylltiedig hefo rhyddhau'r tiroedd. |
| NMC148 | SNMC63 | Gwrthw | Jon | Land & Lakes | Barn Land and Lakes yw nad yw'r polisi, fel y | Ystyrir fod geiriad y polisi ar ei ffurf bresennol yn |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ynebu/ Object | Suckley, How Planning (1447) | Ltd | mae wedi'i ddrafftio, yn adlewyrchu bwriad y Cyngor. Byddai'r polisi safle wrth gefn yn caniatáu dehongliad eang iawn sy'n caniatáu cyfnod cychwynnol o ddefnyddio yn benodol ar gyfer anghenion Wylfa Newydd neu ddatblygiad Ynys Ynni arall. Mae geiriad diwygiedig wedi'i awgrymu. | ddigon eglur o ran pwrpas y safleoedd cyflogaeth wrth gefn ynghyd a'r ystyriaethau a fydd yn gysylltiedig hefo rhyddhau'r tiroedd. |
| NMC149 | SNMC64 | Gwrthwynebu/ Object | Jon Suckley, How Planning (1447) | Land & Lakes Ltd | Er mwyn perthnasu'n agosach i'r hyn a ddeallwn yw bwriadau'r Cynghorau ar gyfer safleoedd wrth gefn, mae'r newidiadau a ganlyn i eiriad yr eglurhad safle wrth gefn wedi'i gynnig. | Ystyrir fod geiriad y polisi ar ei ffurf bresennol yn ddigon eglur o ran pwrpas y safleoedd cyflogaeth wrth gefn ynghyd a'r ystyriaethau a fydd yn gysylltiedig hefo rhyddhau'r tiroedd. |
| NMC154 | SNMC24 | Cefnogi/ Support | Angharad Crump (1521) | Cyfoeth Naturiol Cymru | Rydym yn nodi ac yn croesawu cynnwys polisi CYF 1B. Rydym wedi cytuno ar geiriad y polisi yn ystod sgyrsiau hefo'r Awdurdod ac yn cadarnhau fod polisi CYF 1B yn arwain at wrthwynebiad CNC yn cael ei dynnu'n ôl a oedd yn ymwneud a'r gwrthdaro rhwng datblygu'r tir hwn ar gyfer dibenion cyflogaeth a chydymffurfiaeth hefo'r arweiniad ym Mholisi TAN15. | Nodi'r sylw Cefnogol<br><br>Nodyn diweddaru; ers cyhoeddi'r Newidiadau Materion sy'n Codi mae'r mapiau gwybodaeth llifogydd wedi cael eu diweddaru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau bod safle Adwy'r Hafan bellach ym mharth llifogydd C2 nid C1. Awgrymwyd bod testun yr eglurhad yn cael ei newid i adlewyrchu hynny. Os yw'r Arolygydd yn cytuno gallir diwygio NMC 154 i adlewyrchu hynny yn y testun eglurhad i Bolisi CYF 1B.<br><br>**Mae Adwy'r Hafan yn safle cyflogaeth sefydledig (10.5 ha) ym Mhwllheli, sy'n darparu cyflenwad pwysig o unedau ar gyfer busnesau lleol. Bydd diogelu ardaloedd cyflogaeth bresennol yn annog gweithgarwch yn y farchnad i gynnal cyflenwad o arwynebedd llawr cyflogaeth. Fodd bynnag, mae'r Stad Ddiwydiannol hon yn agored i lifogydd oherwydd ei leoliad o fewn ardal perygl llifogydd C2 ~~C1~~. …….** |
| NMC156 | SNMC65 | Gwrthwynebu/ | Jon Suckley | Land & Lakes Ltd | Ceisir eglurder pellach yng nghyswllt pryd y defnyddir Polisi CYF4 yng nghyswllt rhyddhau | Ystyrir fod geirfa Polisi CYF 4 yn ddigon disgrifiadol wrth nodi fod y Polisi yn berthnasol i safleoedd |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Object | How Planning (1447) | | tir ar gyfer defnydd amgen, yn benodol yng nghyswllt y geiriad diwygiedig "defnyddiau presennol". A yw hyn yn ymwneud â'r safleoedd wrth gefn neu'r safle cyflogaeth wedi'i ddiogelu fel y cânt eu hadnabod ym Mholisi CYF1. | cyflogaeth presennol yn unig a chan hynny ni ystyrir fod angen diwygio geiriad y polisi yn unol â'r gwrthwynebiad. |
| NMC164 | SNMC103 | Gwrthwynebu/ Object | SE Edwards (751)<br><br>David Middleton, Savills (UK) Ltd (2733) | Cadnant Planning Ltd<br><br>BH&HPA | Tra cydnabyddir bod y Cynghorau wedi cynnwys cyfeiriad at welliannau 'tirwedd ac amgylcheddol' nid ydynt wedi cydnabod y byddai gwelliannau o'r fath yn lleihau effeithiau tirwedd ac amgylcheddol. Dylid addasu'r geiriad i ddarllen: "...bod y bwriad yn cynnig gwelliannau tirwedd neu amgylcheddol sylweddol i'r safle, gan leihau ei effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau amgylcheddol". Hefyd, nid yw'r geiriad diwygiedig yn cydnabod y gallai gwelliannau i safleoedd presennol fod ar ffurf gwelliannau i gyfleusterau parciau sydd, yn y gorffennol, wedi gwneud gwelliannau cyffredinol sylweddol i safleoedd presennol. Dylai Para 7.3.66 gydnabod y gwelliannau hyn, nid gwelliannau tirwedd ac amgylcheddol yn unig. | Ychwanegu'r gair "amgylchedd" i'r frawddeg er mwyn cyfateb i'r geiriad a ddangoswyd yn y NMC "… bod y bwriad yn cynnig gwelliannau **tirwedd ac amgylcheddol** sylweddol i'r safle ac yn lleihau ei effaith ar y dirwedd **a'r amgylchedd**."<br><br>Mae paragraff 7.3.65 yn cofnodi y gefnogaeth i welliannau ac uwchraddio cyfleusterau presennol. Nid oes angen ailadrodd yr egwyddor hon ym mharagraff 7.3.66 |
| NMC176 | SNMC147 | Cefnogi/ Support | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | - | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC177 | SNMC148 | Cefnogi/ Support | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | - | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC178 | SNMC122 | Cefnogi/ Support | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | - | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC178 | SNMC115 | Gwrthwynebu/ Object | Richard J Roberts (868) | Cygor Cymuned Llanystumdwy | Gwrthwynebwn ddileu'r Polisi hwn, gan y teimlwn ei bod yn hanfodol ei gynnwys er mwyn diogelu cymeriad yr anheddau lle bydd datblygiadau tai. Digwyddodd hyn ym | Gofynnodd Bwynt Gweithredu 6 o sesiwn gwrandawiad 2 i'r Cynghorau gyflwyno Newid Materion sy'n codi er mwyn cael gwared â Pholisi TAI X. |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | mhentref Chwilog pan adeiladwyd Stad Tŷ'n Rhos yn y pentref ac roedd hyn yn galluogi'r newydd-ddyfodiad i gael eu cymhathu gan yr ardal. Credwn y dylid parhau â'r egwyddor hen, os yw'r siroedd i fod i dderbyn bron i 8,000 o anheddau newydd. | Bwriad Polisi TAI X oedd i gyflwyno fframwaith i nodi gwahanol fecanwaith y gallai Cynghorau eu defnyddio i reoli datblygiad ar safleoedd i osgoi gorlwytho cymunedau neu i sicrhau bod datblygiadau yn digwydd mewn modd amserol. Cafodd ei gyflwyno fel newid ffocws (NF 62). Trafodwyd hyn yn fanwl yn ystod y gwrandawiad. Nid yw dileu y polisi hwn yn atal Cynghorau rhag ddefnyddio amodau neu rwymedigaethau i reoli datblygu, os ydi gwneud hynny yn cyd-fynd a'r Rheoliadau perthnasol. Felly, mae'r Cynghorau yn ystyried bod angen gwaredu y polisi a'r testun esboniadol drwy Newid Materion sy'n Codi. |
| NMC179 | SNMC12 3 | Cefnogi/ Support | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | - | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC180 | SNMC12 4 | Cefnogi/ Support | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | - | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC181 | SNMC12 5 | Cefnogi/ Support | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | - | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC188 | SNMC10 | Gwrthw ynebu/ Object | Candice Myers (1561) | Llywodraeth Cymru | Mae'r meini prawf manwl ym Mholisi TAI3 TCWA graddfa fach yn ymddangos yn wahanol i Bolisi PS9A TCWA graddfa fawr.<br>Dylai'r Cynghorau ystyried cynnwys y testun cyfiawnhad a ganlyn oherwydd yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol gan yr awdurdodau i hysbysu deilliant unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol:<br>·Paragraff 7.4.26 yn gofyn am asesiadau i gyd-fynd â chynigion ar gyfer TCWA;<br>·Paragraff 7.3.18 yn amlinellu'r dilyniant | Gweler yr ymateb yn Atodiad 3, sy'n dangos newidiadau i gadarnhau swyddogaeth Polisi TAI 3 ar ôl gwneud newidiadau i Bolisi PS 9A er mwyn gwneud hwnnw yn benodol i lety gweithwyr adeiladu steil campws o unrhyw faint. |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | chwilio sydd ei angen cyn cynnig llety modwlar, a<br>·Paragraff 7.3.18B yn gofyn am alinio'r LHMA i unrhyw gynigion ar gyfer etifeddiaeth breswyl barhaol. | |
| NMC188 | SNMC62 | Gwrthwynebu/ Object | Jon Suckley How Planning (1447) | Land & Lakes Ltd | Awgrymir geiriad diwygiedig i Bolisi TAI3 i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r diwygiadau a gynigir i Bolisi PS9, PS9A a TAI3. | Gweler yr ymateb sydd yn Atodiad 3, sy'n cadarnhau swyddogaeth Polisi TAI 3 |
| NMC188 – 197 | SNMC79 | Gwrthwynebu/ Object | Kieran Somers (3441) | Horizon Nuclear Power Wylfa Limited | Gwrthwynebu geiriad Polisi TAI3 wedi'i ailddrafftio. Nid yw'r un o'r safleoedd TWA a gynigir ar gyfer llai na 500 o weithwyr. | Gweler yr ymateb sydd yn Atodiad 3, sy'n cadarnhau swyddogaeth Polisi TAI 3 |
| NMC198 | SNMC126 | Gwrthwynebu/ Object | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | Ystyriwn nad yw'n glir a yw'r dynodiad sydd wedi'i adnabod ym Miwmares sydd â chaniatâd cynllunio yn destun y polisi hwn ai peidio. Mae angen eglurder ar hyn. | Noder y cais am eglurhad. Os datblygir dynodiad tai 'Casita' ym Miwmares yn unol â'r caniatâd cynllunio sy'n bodoli eisioes, ni fyddai'r polisi hwn yn berthnasol. Adnewyddwyd y caniatâd cynllunio yn y gorffennol. Pe fyddai'r caniatâd cynllunio sy'n bodoli yn dod i ben yn ystod oes y Cynllun, byddai unrhyw gynnig arall ar y safle yn gorfod cydymffurfio â gofynion Polisi TAI 5 a TAI 9 (os byddai'r cynnig yn uwch na'r trothwy perthnasol tai fforddiadwy). |
| NMC198 | SNMC135 | Gwrthwynebu/ Object | S.V. Owen (3233) | | Nodir fod safle T32 wedi'i adnabod ar gyfer dynodiad tai ym Miwmares dan NMC 198. O ystyried cynnwys dynodiad tai ym Miwmares o fewn polisi TAI 5 ystyrir y dylai tir o fewn aneddleoedd eraill megis Bae Trearddur gael eu hadnabod ar gyfer dynodiad tai. Mae gan y safle yn Old Cricket Ground ym Mae Trearddur (ID Sylw Cynllun Adnau: 1042) ganiatâd cynllunio ar gyfer codi 17 o anheddau, mae'r holl faterion yn nhermau risg llifogydd bellach wedi'u datrys ac felly mae'r safle fel y cafodd | Dynodwyd T32 ym Miwmares ar gyfer tai yn y CDLl ar y Cyd adnau. Mae NMC yn cynnwys symud y cyfeiriad tuag at y safle hwn o Bolisi TAI 15 i Bolisi TAI 5. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Biwmares yn un o'r aneddleoedd lle byddai'r Polisi TAI 5 yn gymwys. Mae'r safle hwn yn cyfrannu at y ddarpariaeth ddangosol o dir ar gyfer tai yn yr anheddle. Mae symud y cyfeiriad at y safle o un polisi i'r llall yn sicrhau eglurder ynglŷn â pha bolisïau sy'n gymwys ac felly sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun. |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ei adnabod yn sylwadau ar y cam Adnau yn un y gellir ei gyflawni a dylid ei adnabod fel dynodiad tai penodol o fewn Polisi TAI 5. | Gwnaed gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar gyfer y CDLl Adnau at y ffaith bod yr Hen Gae Cricied yn Nhrearddur heb ei ddynodi ar gyfer tai nac wedi'i gynnwys o fewn y ffin datblygu. Cafodd materion yn ymwneud â anghenion tai y Cynllun a'r Strategaeth Aneddleoedd eu hystyried yn fanwl yn ystod y sesiynau gwrandawiad yn ogystal â safleoedd a gafodd eu hepgor o'r Cynllun. Ni chafwyd unrhyw bwyntiau gweithredu a oedd yn golygu bod angen i'r Cynghorau ailystyried y materion hyn. Tra nad ydi'r Cynghorau wedi diwygio'r Cynllun i gynnwys y safle hwn, naill ai fel newid ffocws neu newid materion sy'n codi, mae'r gwrthwynebiad gwreiddiol a wnaed yn briodol yn dal i gael ei ystyried gan yr Arolygwyr. |
| NMC198 | SNMC3 | Gwrthw ynebu/ Object | Candice Myers (1561) | Llywodraeth Cymru | Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn aneglur ynghylch pa fath o dai fforddiadwy gaiff eu sicrhau drwy'r polisi hwn, a sut fyddai'n berthnasol i'r trothwyon a'r targedau dan Bolisi TAI 9: Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy. Mae'r term 'eithrio' yn ychwanegu at y dryswch. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod angen eglurder ar y pwyntiau a ganlyn.<br>·A yw'r trothwyon o fewn Polisi TAI 9 yn ymwneud â'r polisi hwn?<br>·Dan y trothwyon penodol yn TAI 9, ai dim ond tai marchnad leol gaiff eu caniatáu?<br>·Er enghraifft, disgwylid i gynllun 10 uned ym Miwmares ddarparu 30% o dai fforddiadwy (3 uned fforddiadwy). Pa fath o gartrefi fforddiadwy fyddai'n cael eu darparu yma? Rhai sy'n cydymffurfio â TAN 2? Neu gartrefi | Mae'r gwrthwynebydd wedi gofyn am eglurhad am faterion penodol o fewn y Polisi. Rhoddir eglurhad y Cynghorau i'r materion isod:<br>• Byddai'r math o dai fforddiadwy a gaiff eu darparu drwy'r polisi hwn yn gyson â'r hyn sy'n cael eu hyrwyddo drwy Bolisi TAI9 (fel y caiff ei gefnogi gan ganllawiau cynllunio atodol). TAI9 hefyd fydd y man cychwyn o ran y canran o dai fforddiadwy mewn cynllun. Bydd unedau fforddiadwy hyn yn cydymffurfio gyda TAN 2.<br>• Mae'r trothwyon sydd ym Mholisi TAI9 o ran pryd y gofynnir am dai fforddiadwy yn berthnasol i'r polisi hwn h.y. cynnig ar gyfer 2 neu ragor o unedau.<br>• Yn unol â'r polisi hwn, byddai cynnig sy'n syrthio o dan y trothwy penodedig ar gyfer |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | fforddiadwy lleol? Pa fath o dai marchnad fyddai'r rhain? Cartrefi marchnad agored neu gartrefi marchnad leol?<br>Mae'n hanfodol bod cyflawni'r polisi hwn yn cael ei fonitro'n effeithiol o ystyried yr heriau yn nhermau hyfywedd a chyllid a godwyd yn ein datganiadau i'r gwrandawiadau. Pam fod y trothwy wedi'i osod ar 10 yn y fframwaith?<br>Rhaid i'r fframwaith monitro fod yn gadarnach er mwyn monitro llwyddiant y polisi yn effeithiol. Gallai cyfeirio at fonitro cytundebau A106 sy'n cael eu gwyrdroi mewn apêl gynorthwyo gyda hyn er mwyn profi llwyddiant y meini prawf cyfyngu daliadaeth. | tai fforddiadwy (h.y. uned sengl) a hefyd y ddarpariaeth sydd ddim yn dai fforddiadwy, yn gorfod bod yn dai marchnad leol fel y'i diffinnir o fewn y polisi a'r rhestr o dermau.<br>• Fel y cyfryw, ar gyfer yr enghraifft a roddwyd, byddai'r darpariaeth tai fforddiadwy ym Miwmares yn rhai sy'n gyson a TAN 2 yn unol â gofynion polisi TAI 9. Byddai'n rhaid i'r unedau sy'n weddill fod yn dai marchnad leol. Ni chaniateir tai marchnad agored yn yr aneddleoedd penodedig.<br>• Yn cytuno y dylid monitro'n effeithiol sut mae'r polisi hwn yn gweithio. Fodd bynnag yn anghytuno â'r gwelliant a awgrymir i'r fframwaith monitro o ran ystyried y nifer o gytundebau adran 106 sydd wedi'i wrthdroi. Mae hwn yn ddangosydd negyddol sy'n tybio methiant y polisi. Hefyd, nid yw'n bosibl gwneud cais i addasu neu gael gwared â chytundeb adran 106 am gyfnod o 5 mlynedd. Yn ystod y 5 mlynedd gyntaf wedi caniatâd gellid addasu rhwymedigaeth neu ei ryddhau pan fydd yn ddau barti yn cytuno. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai hyn yn digwydd oherwydd byddai'r rhwymedigaeth yn seiliedig ar bolisi newydd a fabwysiadwyd. Y nod fydd sicrhau bod y rhwymedigaeth yn un lle na ddylai fod angen i fod yn destun trafodaeth ynghylch addasu neu ryddhau rhwymedigaeth.<br>• Fel y cyfryw, cynigir bod dangosydd D52, fel y nodwyd gan y Newid Materion sy'n |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Codi NMC 332, yn briodol mewn perthynas â monitro Polisi TAI5 a dylid ei gadw.<br>• Mae Ffigur 10 uned yn cael ei nodi yn y fframwaith monitro oherwydd ei fod yn adlewyrchu'r gofyniad blynyddol cyfartalog yn yr aneddleoedd hyn yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir yn Atodiad 5 o'r Cynllun, fel y dangosir yn y paragraffau 2.31 a 2.32 o ymateb y Cynghorau i Bwynt Gweithredu S2/PG8 sy'n deillio o sesiynau gwrandawiad yr Archwiliad. O’r 384 o unedau sy’n ffurfio’r ffigwr tai dangosol ar gyfer yr aneddiadau sy'n destun polisi TAI5, mae 278 o’r unedau hyn eisoes wedi'u cwblhau hyd yma ers y flwyddyn sail y Cynllun (hyd at Ebrill 2015) neu yn destun caniatâd cynllunio ym mis Ebrill 2015. Drwy rannu gweddill yr unedau, sef 106, dros 11 mlynedd sy'n weddill yn ystod cyfnod y Cynllun, daw’r ffigur o 10 uned y flwyddyn.<br>• I sicrhau cysondeb â pholisïau TAI 14 i TAI 16 a rhoi mwy o eglurder yn y polisi, argymhellir dileu cyfeiriad at tai fforddiadwy o'r frawddeg agoriadol o fewn Polisi TAI 5. Yn ogystal argymhellir tynnu’Dim ond' o gychwyn y Polisi. Mae paragraff 7.4.37 yn yr esboniad i'r Polisi yn egluro na chaniateir darpariaeth o dai marchnad agored yn yr aneddleoedd yma.<br>• Yn ogystal, i sicrhau cysondeb rhwng y polisi hwn a Pholisi TAI 9 awgrymir diwygio teitl 'Pentrefi' yn rhan (ii) yn y Polisi i gyfeirio at ' Pentrefi arfordirol, gwledig / lleol’. Amlinellir gwelliannau hyn mewn coch isod: |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ~~Dim ond~~ **Tai marchnad lleol (fel y'u diffinnir yn y Rhestr Termau) fydd yn cael eu caniatáu o fewn ffiniau datblygu'r aneddleoedd a'u henwir isod** ~~ac eithrio lle mae'r cynnig yn cyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy yn unol â Pholisi TAI 9,~~ **ac ar yr amod fod y cynnig yn cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol** ~~Caniateir datblygiadau preswyl newydd o fewn ffiniau datblygu'r aneddleoedd penodol a nodir isod cyn belled bod~~:<br><br>**ii) Pentrefi Lleol, Gwledig/ Arfordirol** |
| NMC198 | SNMC93 | Gwrthwynebu/ Object | Cadnant Planning (751) | Cadnant Planning | Ystyrir y bydd caniatáu tai marchnad leol a thai fforddiadwy yn unig o fewn aneddleoedd yn gwanhau cymunedau yn gymdeithasol ac yn economaidd gan arwain at gynnydd mewn amddifadedd. Cydnabyddir mewn polisi cynllunio cenedlaethol bod gofyn i ddarparu cymysgedd o dai fforddiadwy a marchnad o fewn aneddleoedd er mwyn creu a chynnal cymunedau cynaliadwy. Bydd cyfyngu datblygiadau tai i dai marchnad leol yn arwain at anghydbwysedd cymdeithasol mewn aneddleoedd ac felly'n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol.<br><br>Mae'r strategaeth o ganiatáu tai angen lleol neu fforddiadwy yn unig o fewn aneddleoedd megis Biwmares, Moelfre a Threarddur hefyd yn debygol o olygu byddai strategaeth y cynllun yn ei chyfanrwydd yn methu cyflawni'r lefel ofynnol o dai. Dim ond drwy ddatblygiad cytbwys a hyfyw sy'n ymgorffori cymysgedd o dai marchnad agored a fforddiadwy y gellir cyflawni tai angen lleol a fforddiadwy. | Cafodd gwrthwynebiadau eu gwneud yn briodol i egwyddor Polisi TAI 5 adeg y cam Adnau ac mae'r rheini'n cael eu hystyried gan yr Arolygwyr. Mae'r Cynghorau wedi ymateb i'r gwrthwynebiadau blaenorol hyn. Tra cafodd newidiadau NMC eu cynnig i'r Polisi, nid yw'r egwyddor sylfaenol du cefn i'r Polisi yn destun NMC. Nid yw'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus ynglyn â'r NMC yn gyfle i ychwanegu at sylwadau blaenorol.<br><br>Er hynny, mae'r gwrthwynebwyr yn cael eu hatgoffa bod tystiolaeth fanwl wedi cael ei roi cyn cyflwyno'r Cynllun ac ar ôl ei gyflwyno i ddangos y bydd y polisi yn cryfhau cymunedau yn hytrach na'u gwanhau lle mae yna broblemau amlwg yn y farchnad tai leol. Mae tai marchnad leol yn wahanol i dai fforddiadwy a bydd yn rhoi cyfleoedd o fewn marchnadoedd tai lleol, ac felly yn hyrwyddo cynaliadwyedd cymunedol. Fel y cyfryw mae'n cynorthwyo i gyfarch materion yn gysylltiedig ag amddifadedd gwledig.<br><br>Mae PCC yn cyflwyno cyfle i gynnwys polisi fel hwn |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Mae’r tai ‘anghenion lleol’ mewn gwirionedd yn dyblygu’r ddarpariaeth tai fforddiadwy ac nid yw’n angenrheidiol ac ni fydd posib ei gyflawni.<br><br>Ni chyflwynwyd tystiolaeth gan yr Awdurdod Lleol yn y sesiynau gwrandawiadau a gynhaliwyd ym mis Medi 2016 i ddangos y byddai tai marchnad leol yn mynd i’r afael ag amddifadedd gwledig. Felly, ystyrir y dylid dileu’r gofynion am dai marchnad leol mewn aneddleoedd megis Biwmares, Moelfre a Threarddur.<br><br>Hefyd, rydym yn gwrthwynebu dynodi tai safle T32, Casita, Biwmares. Mae’r safle wedi elwa o ganiatâd hanesyddol 10 mlynedd ond nid yw wedi’i gyflawni, felly dylid ystyried dynodiad amgen. | ac fe gafodd yr aneddleoedd penodol eu dewis ar sail methodoleg clir ym Mhapur Testun 17. Noder bod tai marchnad agored dal ar gael yn mannau hyn o fewn y stoc tai presennol.<br><br>Nid oes rheswm i ddod i’r casgliad na fydd y polisi yma yn arwain at ddarparu’r lefel angenrheidiol o dai o fewn aneddleoedd penodol. Mae Papur Testun 17 a’r ymateb i Bwynt Gweithredu S2/ PG8 yn cyfeirio at lwyddiant polisïau tebyg mewn ardaloedd o Loegr sy’n destun pwysau tai. Mae’r fframwaith monitro yn mynd i ddangos os ydi’r polisi yn llwyddiannus ai peidio.<br><br>Dynodwyd safle T32 ym Miwmares ar gyfer tai yn y Cynllun Adnau. Mae rhan o newid yr NMC yn cyfeirio at y ffaith bod y safle yn cael ei nodi erbyn hyn o fewn polisi TAI 5 yn hytrach na TAI 15. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Biwmares yn un o'r aneddleoedd lle byddai'r polisi TAI 5 yn gymwys, a bod y safle hwn yn cyfrannu at y ddarpariaeth tai dangosol yn yr anheddle. Felly, mae'r newid hwn yn helpu i sicrhau cysondeb mewnol y cynllun.<br><br>Fel y cyfryw, ni ellir ystyried gwrthwynebiad y dynodiad tai ar hyn o bryd gan nad yw hwn yn NMC. Aseswyd y safle yn unol â strategaeth tai y Cynllun a ystyrir ei fod yn briodol ei gynnwys. |
| NMC199 | SNMC95 | Gwrthw ynebu/ Object | Cadnant Planning (751) | Cadnant Planning | Ystyrir y bydd caniatáu tai marchnad leol a thai fforddiadwy yn unig o fewn aneddleoedd yn gwanhau cymunedau yn gymdeithasol ac yn economaidd gan arwain at gynnydd mewn amddifadedd. Cydnabyddir mewn polisi cynllunio cenedlaethol bod gofyn i ddarparu cymysgedd o dai fforddiadwy a marchnad o fewn aneddleoedd er mwyn creu a chynnal cymunedau cynaliadwy. Bydd cyfyngu datblygiadau tai i dai marchnad leol yn arwain at anghydbwysedd cymdeithasol mewn aneddleoedd ac felly’n groes i bolisi cynllunio cenedlaethol.<br><br>Mae’r strategaeth o ganiatáu tai angen lleol neu fforddiadwy yn unig o fewn aneddleoedd | |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | megis Biwmares, Moelfre a Threarddur hefyd yn debygol o olygu byddai strategaeth y cynllun yn ei chyfanrwydd yn methu cyflawni'r lefel ofynnol o dai. Dim ond drwy ddatblygiad cytbwys a hyfyw sy'n ymgorffori cymysgedd o dai marchnad agored a fforddiadwy y gellir cyflawni tai angen lleol a fforddiadwy.<br><br>Mae'r tai 'anghenion lleol' mewn gwirionedd yn dyblygu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy ac nid yw'n angenrheidiol ac ni fydd posib ei gyflawni.<br><br>Ni chyflwynwyd tystiolaeth gan yr Awdurdod Lleol yn y sesiynau gwrandawiadau a gynhaliwyd ym mis Medi 2016 i ddangos y byddai tai marchnad leol yn mynd i'r afael ag amddifadedd gwledig. Felly, ystyrir y dylid dileu'r gofynion am dai marchnad leol mewn aneddleoedd megis Biwmares, Moelfre a Threarddur.<br><br>Hefyd, rydym yn gwrthwynebu dynodi tai safle T32, Casita, Biwmares. Mae'r safle wedi elwa o ganiatâd hanesyddol 10 mlynedd ond nid yw wedi'i gyflawni, felly dylid ystyried dynodiad amgen. | |
| NMC211 | SNMC89 | Gwrthwynebu/ Object | Llywelyn Rhys (2770) | | Nodir yr NMC "Mae pwysigrwydd rôl y Cynllun o ran cryfhau tuag at gwrdd ag angen am dai fforddiadwy felly yn cael ei gydnabod". Tra croesawir hyn noder fod dim digon o dir y gellir adeiladu tai fforddiadwy a fforddiadwy canolradd addas i deuluoedd yn ardal Porthmadog oherwydd cyfyngiadau parth llifogydd. Rydym yn berchen ar dir sydd ar gyrion Porthmadog sydd uwchlaw'r gorlifdir. | Credir fod y Cynllun yn darparu cyfleoedd digonol i gwrdd â'r angen ar gyfer tai, gan gynnwys tai fforddiadwy, yn ardal y Cynllun.  Mae NMC 212 yn dangos y gwahanol elfennau a fydd yn cyfrannu i gyfarch cymaint ag sy'n bosib o'r angen am dai fforddiadwy yn ystod oes y Cynllun.<br><br>Nodir bod y gwrthwynebydd wedi cynnig safle yn ystod y cyfnod ymgynghori ar gyfer y Cynllun |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Os gellir ei gynnwys oddi fewn y ffin datblygu gellir ei ddynodi ar gyfer tai fforddiadwy 100%. Mae tir gyferbyn y safle wedi ei ddatblygu ar gyfer diwydiant gan estyn yn ddiweddar i'r Gorllewin er bod y tir yma ar y gorlifdir. Mae'n bwysig dod o hyd i dir addas ar gyfer tai fforddiadwy hefyd er mwyn cynnal cymdeithas hyfyw.<br><br>Rwyf am bwysleisio bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn gosod dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i weithio yn well gyda chymunedau ac i rwystro problemau rhag gwaethygu. Rwyf am ddangos bod cael tir addas ar gyfer tai fforddiadwy a thai fforddiadwy canolradd addas i deuluoedd yn ardal Porthmadog yn hanfodol i'r amcan yma. | Adnau ar gyfer tai. Mae'r Arolygydd felly yn gyfarwydd hefo'r mater. Cafodd y galw am dai newydd a'r cyflenwad o dir ar gyfer tai ym Mhorthmadog eu hystyried mewn Gwrandawiad. Ar sail na chafodd tystiolaeth rymus ei gyflwyno adeg y Cynllun Adnau ac na chafwyd Pwynt Gweithredu yn sgil y Gwrandawiad nodir nad yw'r Cynghorau wedi cynnig Newid â Ffocws na newid NMC i gynnwys y safle hwn o fewn y ffin ddatblygu nai ddynodi yn benodol ar gyfer tai.<br><br>O ran hyrwyddo tai fforddiadwy tynnir sylw'r gwrthwynebydd I Bolisi TAI 10. Os bydd angen perthnasol yn cael ei brofi, gellir datblygu safle addas ar gyfer 100% tai fforddiadwy yn union wrth ymyl ffin ddatblygu, yn unol â Pholisi TAI 10, 'Safleoedd Eithrio', cyn belled â'i fod yn cwrdd â holl ofynion y polisi hwn, ynghyd â pholisïau perthnasol eraill y Cynllun a pholisi cenedlaethol (gan gynnwys Nodyn Cyngor Technegol 15, 'Datblygu a Pherygl o Lifogydd'). |
| NMC214 | SNMC134 | Gwrthwynebu/ Object | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | Mae HBF yn gwrthwynebu lleihau'r trothwy ar gyfer tai fforddiadwy o 5 i 2.<br><br>Mae HBF yn gwrthwynebu'r gofyn i'r canran am dai fforddiadwy gael ei gynyddu mewn dwy ardal tai.<br><br>Mae HBF yn codi amrywiol bryderon am astudiaeth Hyfywdra 2016.<br><br>Mae HBF yn cefnogi'r gostyngiad o 15% i 10%.<br><br>Mae HBF yn gwrthwynebu'r geiriad ychwanegol arfaethedig o fewn y polisi sy'n cyfeirio at y potensial am ganran uwch o | Mae'r gwrthwynebydd wedi codi pryderon a gwrthwynebiadau amrywiol mewn perthynas â'r polisi hwn. Mae'r Cynghorau yn darparu eu hymateb mewn perthynas â'r materion hyn isod. Hefyd mae'r materion yn cael eu taclo yn ymateb y Cynghorau i'r pwyntiau gweithredu S4 / PG4-7:<br><br>• Mae'r AHTFf wedi'i ddiweddaru yn nodi tra bod lefel trothwy o un tŷ yn gallu bod yn hyfyw mewn rhai amgylchiadau, cafodd 2 uned ei ddewis oherwydd bod hyn yn rhoi cydbwysedd rhwng manteisio i'r eithaf ar ddarparu tai fforddiadwy, cydymffurfio â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol ac arbed adnoddau o ran negodi materion adran 106 ar |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddarpariaeth fforddiadwy yn dibynnu ar gymysgedd daliadaeth.<br><br>Mae HBF yn gwrthwynebu pwynt 3(i) ac yn awgrymu geiriad ychwanegol i'w gwneud yn glir mai dim ond ar gyfer elfen tai fforddiadwy'r cynllun y mae'r gofynion hyn yn berthnasol. | safleoedd annedd sengl a hefyd yr effaith negyddol bosibl ar ddarparu unedau.<br>• Mae cyfran uchel o'r datblygiadau yn ardal y Cynllun ar gyfer llai na 5 o unedau. Felly byddai gostwng y trothwy priodol i 2 uned yn sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn cael eu cynyddu wrth sicrhau bod datblygiad tai newydd yn cynnwys cyfuniad a chydbwysedd rhesymol o fathau o dai er mwyn darparu ar gyfer ystod o anghenion tai (yn unol â pharagraff 9.2.15 o Bolisi Cynllunio Cymru).<br>• Trwy gymhwyso'r 'deiliadaeth tai rhent cymdeithasol' fel sail ar gyfer sefydlu gofynion tai fforddiadwy, sefydlir senario 'achos isaf' o ran nifer y tai fforddiadwy a ddarperir. Gallai cynnig sy'n ymgorffori cymysgedd deiliadaeth gwahanol arwain at ddarpariaeth tai fforddiadwy uwch (yn amodol ar waith hyfywedd manwl). Os bydd datblygwr yn dymuno darparu math arall o unedau fforddiadwy, bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ddarpariaeth tai fforddiadwy.<br>• Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal AMTLl diwygiedig mwy manwl yn ystod 2016-2017 a bydd hwn yn cyfrannu i'r canllaw cynllunio atodol i gefnogi'r Cynllun. Bydd hyn yn rhoi rhagor o fanylion o ran y math o unedau fforddiadwy sydd eu hangen.<br>• Yn seiliedig ar y AHTFf wedi'i ddiweddaru, deuir i'r casgliad bod y ddarpariaeth tai fforddiadwy a nodir ar gyfer pob ardal prisiau tai yn hyfyw ac yn briodol. Cynyddodd y canran o dai fforddiadwy a geisir (o 25% i 30%) yn y 9 o ardaloedd gwerth uwch. Ym mhob un o'r ardaloedd pris tai arall, mae'r ganran a nodwyd wedi gostwng (naill ai o 30% i 20% neu o 15% i |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 10%) er mwyn adlewyrchu ffactorau hyfywedd.<br>• Mae'r polisi yn datgan lle bo hyfywedd cynlluniau unigol yn is na’r gofynion a bennir yn y Polisi, yna bydd y cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd / datblygwr / tirfeddiannwr i ddangos yn glir ar y pro-fforma asesu hyfywedd yr amgylchiadau sy’n cyfiawnhau cyfraniad tai fforddiadwy is neu gymysgedd deiliadaethau. Os yn dilyn derbyn y wybodaeth ar pro-forma hyfywedd , mae anghytundeb yn parhau, yna cynhelir asesiad allanol annibynnol o’r bwriad (e.e. gan y Gwasanaeth Priswyr Dosbarth) gyda’r gost i’r ymgeisydd.<br>• Cynigir na ddylid diwygio'r polisi ar sail gwrthwynebiad i’r geiriau ychwanegol sy'n cyfeirio at ddarpariaeth uwch o dai fforddiadwy gan ddibynnu ar y gymysgedd deiliadaeth. Mae'r polisi yn nodi isafswm nifer y tai fforddiadwy i'w darparu yn seiliedig fod yr holl unedau sy'n ofynnol yn rhai rhent deiliadaeth gymdeithasol. Mae TAI 9 yn darparu gofyniad polisi a'r cyfiawnhad ar gyfer negodi pris tir. Dylai gwahanol ddarpariaeth a deiliadaeth tai fforddiadwy gael eu hystyried adeg hynny. Bydd yr AMTLl a’i ddiweddarwyd ar gyfer Ynys Môn yn 2016 a’r AMTLl i’w ddiweddaru i Wynedd yn bwysig yn hyn o beth.<br>• Credir bod yr enghraifft a ddyfynnir yn y gwrthwynebiad yn cyfeirio at y AHTFf blaenorol ac nid yr astudiaeth fwyaf diweddar (sy'n ffurfio rhan o ymateb i bwynt gweithredu S4/PG4-9).<br>• Nodwyd nad yw pwynt 3(i) yn cyfeirio'n benodol at dai fforddiadwy ac felly does dim angen i gynnwys y geiriad ychwanegol a awgrymir. Mae polisi TAI 1 yn cyfeirio yn fwy |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | cyffredinol at 'Cymysgedd briodol o dai'. |
| NMC214 | SNMC116 | Gwrthwynebu/ Object | Richard J Roberts (868) | Cyngor Cymuned Llanystumdwy | Gwrthwynebwn newid canran y tai fforddiadwy ar gyfer ardal Llŷn i 10% yn unig. Credwn fod hyn rhy isel ar gyfer ardal sydd â chyfartaledd cyflog mor isel ac o dan gymaint o bwysau tai haf. | Mae'r canran o dai fforddiadwy sydd i'w darparu yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy. Mae'r dull o sefydlu'r canran o dai fforddiadwy sydd i'w darparu o fewn yr ardaloedd pris tai amrywiol yn seiliedig felly ar fethodoleg gadarn a chlir. Mae'r ffigyrau hyn yn cyfleu beth sydd yn hyfyw i'w darparu mewn ardaloedd penodol, nid yr angen sydd am dai mewn ardal. Byddai modd darparu mwy o dai fforddiadwy na'r hyn a nodir yn y polisi os yw'r dystiolaeth adeg cais cynllunio yn dangos hynny.<br><br>Yn sgil diweddaru'r Astudiaeth Hyfywedd a hefyd wrth ystyried effaith costau systemau chwistrellu ar ffigyrau hyfywedd, fe ddaethpwyd i'r casgliad bod gosod targedau ar sail rhaniad triphlyg (30%, 20% a 10%) yn fwy addas na rhaniad deuffordd (25% a 15%).<br><br>Teimlwyd ei fod yn heriol i rai o'r ardaloedd gwerth is gyflawni 15% o ddarpariaeth tai fforddiadwy, tra'i bod yn hyfyw gofyn am ragor o dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwerth uwch.<br><br>Credir bod gosod ystod ehangach o dargedau yn ddull mwy cynnil a sensitif o ymgymryd â'r mater hwn, gan ei fod yn sicrhau bod datblygiadau'n wirioneddol hyfyw wrth gynyddu'r nifer o dai fforddiadwy yn y mannau ble mae hynny'n bosib.<br><br>Mae'r ffigyrau yn y polisi (fel y'u diwygiwyd gan NMC 214) yn seiliedig ar ddaliadaeth rhent cymdeithasol, ac fe nodir y dylai cynnig sydd yn cynnwys cymysgedd ddeiliadaeth amgen |
| NMC214 | SNMC83 | Gwrthwynebu/ Object | Robin Hughes (Clerc) (1235) | Cyngor Tref Pwllheli | Mae gostwng y ganran tai fforddiadwy yn ardal Dwyfor (a mannau eraill) o dros 15% i 10% yn bendant yn gamgymeriad polisi, yn hytrach dylai'r ganran gael ei chodi nid ei gostwng. | |
| NMC214 | SNMC85 | Gwrthwynebu/ Object | Iwan Edgar (3050) | Grŵp Ffocws Cynllun Datblygu Lleol | Gostyngir y ganran o dai fforddiadwy i 10% o dros 15% yn NMC214 (trydydd casgliad o gymunedau). Dylai'r fath ganran fod yn uwch nid yn is yn ôl fy nehongliad o'r sefyllfa dai. | |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | fforddiadwy ildio canran uwch o ddarpariaeth fforddiadwy.<br><br>Ynghyd â'r gofyniad ym Mholisi TAI 9 bod cymysgedd briodol o dai fforddiadwy yn cael ei ddarparu, nodir hefyd y byddai Polisi TAI 1 ('Cymysgedd briodol o dai') yn berthnasol o ran sicrhau bod y math o dai a ddarperir yn addas. |
| NMC214 | SNMC105 | Gwrthwynebu/ Object | Cyng Aled Evans (2646) | | Argymhellir cwtogi'r ganran o dai fforddiadwy i 10% (chanrannau eraill yn llai na'r gwreiddiol mewn sawl ardal o'r cynllun e.e. Pen Llyn.<br><br>Wrth ddeall y sylwadau a wnaeth yr arolygydd (a hefyd gynrychiolydd o'r diwydiant tai) sef bod cael canran uwch yn ei gwneud yn anodd i adeiladwyr wneud datblygiadau yn "feasable" o gael gormod o dai fforddiadwy a thrwy hynny yn ei gwneud yn anodd i'r cynllun gyrraedd ei dargeded pe byddai adeiladwyr yn penderfynu peidio adeiladu o gwbl.<br><br>Y mae modd goresgyn hynny hefo cymorth cymdeithasau tai ac ati a gwnaeth Cynefin i'r perwyl hwnnw yn y gwrandawiad.<br><br>Hefyd, nid wyf yn credu bod cyrraedd targedau llywodraeth yn gyfystyr a chyflenwi'r angen lleol am dai. | Cyfeirir tuag at yr ymateb i sylwadau SNMC 83, 85 a 116 mewn perthynas â'r rhan o'r gwrthwynebiad sydd yn cyfeirio at leihau'r ganran o dai fforddiadwy i 10% yn ardal pris tai Pen Llŷn.<br><br>Pwysleisir fod y wybodaeth yn y polisi hwn yn cyfleu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy sydd yn hyfyw i'w darparu mewn ardaloedd pris tai penodol o ystyried ffactorau lleol (yn seiliedig ar ddeiliadaeth rhent cymdeithasol). Nid yw'n cyfleu'r angen am dai fforddiadwy sydd yn bodoli yn yr ardaloedd hyn. Nid yw'r polisi yn atal Cymdeithasau Tai neu unrhyw ddatblygwr arall ddarparu canran uwch o dai fforddiadwy os yw'r dystiolaeth adeg cais cynllunio yn dangos bydd hynny'n hyfyw. |
| NMC217 | SNMC133 | Gwrthwynebu/ Object | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | Er nad yw'r HBF yn gwrthwynebu'n llwyr i'r geiriad ychwanegol hwn gan ei fod yn rhoi hyblygrwydd, mae pryder fod hyn yn achosi ansicrwydd posib i'r diwydiant pan y'i hystyrir ar y cyd â'r newidiadau arfaethedig i eiriad Polisi TAI 9: (gweler sylwadau HBF ar MAC 214). Bydd yn ei gwneud hi'n anodd gwybod | Cyfeirir at yr ymateb i wrthwynebiad SNMC134.<br><br>Yn benodol, mae'r polisi yn nodi'r isafswm o ran nifer y tai fforddiadwy i'w darparu yn seiliedig ar fod yr holl unedau sy'n ofynnol yn rhai deiliadaeth rhent gymdeithasol. Mae TAI 9 yn darparu gofyniad polisi a'r sail ar gyfer negodi pris y tir. Dylai |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | pa gymysgedd o ddaliadaethau a mathau o dai y gofynnir amdanynt gan y Cyngor ond hefyd beth fyddai'r canran gofyn am dai fforddiadwy gan fod y geiriad a awgrymir ar gyfer y polisi yn caniatáu i hyn fod yn amrywiol yn dibynnu ar y gymysgedd o ddaliadaeth. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n anos i dir i gael ei brynu a chynlluniau i gael eu gwireddu yn sgil yr effaith bosib ar hyfywdra'r safle yn y cam cynllunio. | darpariaeth a deiliadaeth tai fforddiadwy gwahanol gael eu hystyried ar y cam yma.<br><br>Bydd y AMTLl Ynys Mon 2016 (diweddariad) a'r diweddariad i AMTLl Gwynedd yn bwysig yn y cyswllt yma.<br><br>Mae hyn yn rhoi llawer mwy o sicrwydd nag ym mholisïau cynlluniau datblygu cyfredol yn nhermau'r ddarpariaeth tai fforddiadwy. |
| NMC221 | SNMC90 | Gwrthwynebu/ Object | Llywelyn Rhys (2770) | | Nodir "angen lleol am dai fforddiadwy na ellir eu cyfarch o fewn amserlen resymol...fel eithriad, caniateir cynigion am gynlluniau 100% tai fforddiadwy ar safleoedd sydd yn union gerllaw'r ffiniau datblygu sy'n ffurfio estyniad rhesymol i'r anheddle." Croesawir y datganiad yma ac anogaf Gyngor Gwynedd i'w weithredu yng nghyd-destun tai fforddiadwy a thai fforddiadwy canolradd addas i deuluoedd yn ardal Porthmadog. Oherwydd cyfyngiadau parth y gorlifdir nid oes digon o safleoedd i adeiladu tai newydd addas o fewn y ffin datblygu bresennol. Mae gofyn i gymryd agwedd hyblyg felly ac adnabod safleoedd sydd wrth ymyl y dref ond tu allan i'r ffin datblygu ar hyn o bryd. Cynigir caeau agosaf i'r dref ar dir Moelwyn Dairy sydd uwchben y gorlifdir a cyferbyn ac ystâd ddiwydiannol Porthmadog sydd ar y gorlifdir. Buasai gwasanaethau a chysylltedd cyfleus gyda thref o'r safle.<br><br>Rhai o nodau llesiant sy'n cael eu hadnabod yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw Cymru lewyrchus, Cymru o gymunedau cydlynol a Chymru a diwylliant bywiog lle | Cyfeirir at yr ymateb i sylw SNMC89, yn benodol felly o ran y cyfle i ddarparu tai fforddiadwy ar safleoedd sydd yn union wrth ymyl ffin datblygu (safleoedd eithrio). Mae Polisi TAI 10 yn ffordd o ddarparu tai fforddiadwy i gwrdd ag angen cydnabyddedig cyn belled a bo cynnig yn addas ac yn cyd-fynd â'r gofynion perthnasol. Yn hyn o beth dylid rhoi ystyriaeth gofalus i'r cyfiawnhad ar gyfer yr angen am dai fforddiadwy wrth ystyried addasrwydd y safle ynghyd â'r ddarpariaeth ddangosol o unedau mae'r Cynllun yn ei hwyluso i aneddleoedd penodol.<br><br>Ceir ymateb o ran y safle a gyfeirir ato yn yr ymateb i sylw SNMC89. Fe nodir nad yw hwn yn wrthwynebiad i unrhyw NMC penodol.<br><br>O ran perthynas y Cynllun efo'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gweler ymateb y Cynghorau i Bwynt Gweithredu S16/ PG41. |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | mae'r Gymraeg yn ffynnu. Nid yw'r CDLl arfaethedig yn cyrraedd y nodau llesiant yna yng nghyd-destun cymuned Porthmadog gan nad oes ymdrech i ddatrys problemau tai.<br><br>Hoffwn gynnig datrysiad rhannol i broblemau diffyg safleoedd addas i adeiladu tai newydd fforddiadwy a canolradd fforddiadwy i deuluoedd lleol yn ardal Porthmadog. Rydwyf am ddangos tystiolaeth bod tir , sy'n ddiogel o lifogydd ac yn ymarferol o ran lleoliad, ar gael i'w ddatblygu ar gyfer tai fforddiadwy. | |
| NMC240 | SNMC33 | Gwrthwynebu/ Object | Iona Foulkes (3425) Dominic & Judith Brooke (3431) John Davies (3434) Ruth Eley (3435) Owain & Alaw Evans (2879) Margaret Flynn (3436) John, Eirianwen a Glyngwyn Foulkes | | Mae Para 7.4.93 yn nodi y bydd 4 llain ar y tir ym Mhenhesgyn, Penmynydd. Nid yw'n nodi bod hyn (i) nesaf at y 'domen' (fe wnaeth y Cyngor Sir newid yr arwyddion ar yr A5205 ychydig fisoedd yn ôl o 'tomen' i ganolfan ailgylchu) ac y byddai mynediad iddo yn golygu pryniant gorfodol y tir amaethyddol cyfagos; neu (ii) y nododd adroddiad ym mis Ionawr 2016, Adnabod safleoedd addas ar gyfer y gymuned Sipsiwn a Theithwyr, y dylai safle parhaol gyda phedwar llain...gael capasiti i dyfu ar gyfer rhai lleiniau ychwanegol; neu hyd yn oed (iii) y dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol nad oes unrhyw blant wedi bod yn byw yn y gwersyll anawdurdodedig yn y gilfan ar Ffordd Pentraeth ers sawl blwyddyn. Felly, nid oedd yr angen i fod yn agos at ysgol yn ffactor wrth ddewis safle preswyl parhaol... Rydym wedi bod yn glir drwy gydol y broses ymgynghori ein bod yn ymgynghori ar safle yn benodol ar gyfer yr unigolion sy'n byw ar Ffordd Pentraeth... nodir ym mharagraff 2.2.1 y ddogfen ymgynghori... Nid ydym yn rhagweld twf yn nifer yr aelwydydd ar y safle | Mae'r AALlST (2016) yn adnabod yr angen i ddarparu 4 llain ar gyfer Ynys Môn yn ystod oes y Cynllun gan ddisodli'r safle anawdurdodedig yn Ffordd Pentraeth. Ni adnabuwyd yr AALlST yr angen ar gyfer ychwaneg o leiniau yn Ynys Môn rhwng 2021 a 2026. Mae angen cynnal y AALlST yn 2021. Gan hynny, fe allai'r Ynys weld mwy o alw am leiniau ychwanegol yn ystod oes y Cynllun. Mae'n Gyngor yn ymwybodol o'r ffaith y bydd rhaid caffael ar dir preifat er mwyn darparu mynedfa ddiogel i'r safle arfaethedig (gweler hefyd yr ymateb i NMC245). |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | (437) Laurie Lane (3438) Gareth & Haulwen Morgan (3439) Idris & Jane Roberts (3440) | | ym Mhenhesgyn. (Llythyr dyddiedig 31 Awst 2016) | |
| NMC245 | SNMC32 | Gwrthwynebu/ Object | Iona Foulkes (3425) Dominic & Judith Brooke (3431) John Davies (3434) Ruth Eley (3435) Owain & Alaw Evans (2879) Margaret Flynn (3436) John, Eirianwen a Glyngwyn | | "4. Asesiad safle manwl sy'n edrych ar faterion amgylcheddol, hygyrchedd, cyd-destun y safle a chymeriad". Nid oes unrhyw gyfeiriad yn yr Atodlen at y ffaith fod y 4 llain ar y tir ym Mhenhesgyn, Penmynydd nesaf at 'domen'. Darganfu astudiaeth o 2003 bod 50 y cant o safleoedd ar dir llygredig, gyda 12 y cant yn agos i domen. Fe wnaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gadarnhau amodau anfoddhaol o'r fath yn 2009, e.e. ... gall lleoliad safleoedd fod yn wael (er enghraifft, o dan draffyrdd neu wrth ymyl gwaith carthffosiaeth.... (tudalen iv, EHRC Research Report 12) | Ystyrir fod safle Penhesgyn yn addas er mwyn cyrraedd y gofynion a adnabuwyd ar gyfer Teithwyr yn y AALlST (2016). Mae'r Cyngor wedi rhoddi ystyriaeth briodol i'r fethodoleg a gyfeirir ato ym Mhapur Testun 18, 18A ac 18B wrth adnabod safleoedd posib. Ymhellach mae ystyriaeth hefyd wedi ei roddi i Gylchlythyr Llywodraeth Cymru 30/2007 (PCC24) a Chanllawiau ar Ddylunio safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru (2015) (PCC27). Mae polisïau Sipsiwn a Theithwyr y Cyngor ynghyd a Safle Penhesgyn wedi bodi yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd. Mae nifer o astudiaethau hefyd wedi eu cynnal yn gysylltiedig â safle Penhesgyn, gan gynnwys:- Arfarniad Cyffredinol o'r Safle, Asesiad Ansawdd Aer, Asesiad Sŵn ac asesiad Ecolegol. Yn ddibynnol ar ymgorffori mesurau lliniaru priodol i ddyluniad y Cynllun, mae canfyddiadau'r astudiaethau hyn yn dangos fod Penhesgyn yn lleoliad addas ar gyfer y ddarpariaeth o ddatblygiad anheddol parhaol i Deithwyr. Mae copi o ran perthnasol o'r Grynodeb Gweithredol o Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol yn Atodiad 5. |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Foulkes (437) Laurie Lane (3438) Gareth & Haulwen Morgan (3439) Idris & Jane Roberts (3440) | | | |
| NMC249 | SNMC25 | Cefnogi/ Support | Angharad Crump (1521) | Cyfoeth Naturiol Cymru | Rydym yn nodi'r diwygiad i Bolisi TAI13 'Safleoedd ar gyfer Lleiniau Parhaol neu Deithiol neu Dros Dro i Sipsiwn a Theithwyr'. Rydym yn fodlon hefo cynnwys maen prawf 10 sydd yn nodi na fydd datblygiad sydd yn agored iawn i niwed yn cael ei ganiatáu o fewn parth llifogydd C2. | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC249 | SNMC31 | Gwrthwynebu/ Object | Iona Foulkes (3425) Dominic & Judith Brooke (3431) John Davies (3434) Ruth Eley (3435) Owain & Alaw Evans | | Pwynt 2: "Ble'n bosib, fod y safle o fewn pellter rhesymol i wasanaethau ac adnoddau lleol". Nid yw'n glir pam fod y meini prawf dethol wedi'u meddalu o'r hyn a nodir yn yr "Ymgynghoriad ar safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr yn Ynys Môn 11 Chwefror – 11 Mawrth 2016." Yn hwn, mae safle Penhesgyn yn derbyn sgôr hygyrchedd isel o 2 a sgôr mwynderau isel o 2. Mae'r un ddogfen yn nodi, "Dylai mwynderau a chyfleusterau lleol megis siopau ac ysgolion fod yn gyfagos. Ystyrir bod agosrwydd mwynderau lleol yn bwysicach wrth ystyried lleoliad safleoedd preswyl na Safleoedd Aros Dros Dro."<br>"Ble'n briodol, bod safonau a dyluniad y | Bwriad y Newid Materion sy'n Codi i faen prawf 2 oedd ei wneud rhoi ychwaneg o eglurder, bod yn fwy ymarferol ac adlewyrchu arweiniad cenedlaethol o ran yr angen i safleoedd llawn gyrraedd pob maen prawf.<br>"Yn yr un modd â phob datblygiad, mae'n debygol y bydd angen i Awdurdodau Lleol ddilyn y 'llinell ffit orau' wrth asesu safleoedd posibl." (paragraff 3.22 Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru 2015).<br>Mae gwneud penderfyniadau cynllunio yn fater i Reoli Datblygu. Fe nodir Polisi Cynllunio Cymru dylai penderfyniadau ar geisiadau cynllunio gael eu gwneud yn unol â'r cynllun datblygu sydd wedi ei gymeradwyo/fabwysiadu ar gyfer yr ardal, oni bai |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | (2879) Margaret Flynn (3436) John, Eirianwen a Glyngwyn Foulkes (437) Laurie Lane (3438) Gareth & Haulwen Morgan (3439) Idris & Jane Roberts (3440) | | datblygiad yn dangos y rhoddwyd ystyriaeth briodol i ... a Chanllaw Arfer Da Llywodraeth Cymru o ran Dylunio Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr" (pwynt 6). Pwy neu pa asiantaeth sydd â'r cyfrifoldeb i bennu beth sy'n briodol? | fod yna ystyriaeth cynllunio faterol yn nodi fel arall. Fe allai ystyriaethau materol gynnwys amgylchiadau cyfredol, polisïau o fewn cynllun datblygu sydd ar y gweill a pholisïau cynllunio Llywodraeth Cymru. |
| NMC259 | SNMC127 | Gwrthwynebu/ Object | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | Mae'r HBF yn awgrymu y dylai'r geiriad diwygiedig gynnwys y geiriau 'ar hap' sef yr hyn a dybiwn a olygir gan 'safleoedd addas heb eu dynodi'. Byddai hyn yn rhoi cysondeb gyda rhannau eraill o'r ddogfen a'r tablau cyflenwad tai. | Mae'r Cynghorau wedi defnyddio'r term 'safleoedd addas heb eu dynodi' o fewn y Polisi sydd mewn gwirionedd yn cyfeirio at ddarpariaeth ar hap. Fe wnaeth y drafodaeth yn y Gwrandawiadau dynnu sylw at yr angen am gysondeb yn y defnydd o'r derminoleg. Mae'r Cynghorau felly am dynnu sylw at fân newid canlyniadol i NMC 259 (mewn coch), a fyddai'n rhoi sylw i'r gwrthwynebiad, gan sicrhau cysondeb mewnol:<br><br>**Yng Nghanolfan Isranbarthol Bangor a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol a ganlyn <u>bydd tai i gwrdd â strategaeth y Cynllun yn cael eu sicrhau drwy'r dynodiadau tai a'u nodir isod ynghyd a</u>** |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | **safleoedd ar hap addas nad sydd wedi eu dynodi o fewn y ffin ddatblygu, yn seiliedig ar y ddarpariaeth ddangosol yn y tabl isod:**<br><br>**(ii) Safleoedd heb eu dynodi ar hap** |
| NMC259 | SNMC87 | Gwrthwynebu/ Object | Bryan Rees Jones (2737) | | Pryder nad oes lleoliad penodol wedi ei ddynodi ar gyfer datblygu tai ym Mhorthmadog yn wahanol i fod canolfan trefol arall.<br><br>Pryder bod camddehongliad ffigyrau a bod dim darpariaeth digonol ar gyfer tai sydd yn addas i bobl a teleuoedd lleol.<br><br>Galw am adolygiad o'r math o unedau annedd sydd wedi cael caniatad yn Mhorthmadog galw am estynu yr ffin dadeiladu i dir addas cyfagos. | Mae Newidiadau Materion sy'n Codi NMC 259 yn cynnwys gwelliant i'r cyflenwad dangosol o dir ar gyfer tai ym Mhorthmadog. Mae angen y newid hwn i fynd i'r afael â strategaeth aneddleoedd y Cynllun, a nodwyd mewn ymateb i Bwynt Gweithredu S3 / PG5. Mae dosbarthu 52% o'r cyflenwad tai yn rhoi 150 o unedau tai ym Mhorthmadog, lefel sy'n cymryd i ystyriaeth argaeledd cyfyngedig o dir ar gyfer datblygu tai o fewn y Ganolfan. Mae Atodiad 5 o'r Cynllun yn darparu cipolwg ar sut y gall y Cynllun hwyluso'r lefel ofynnol o ddatblygu yn y Ganolfan.<br><br>Fe wnaeth Gwrandawiad 11 – De Gwynedd ystyried gwrthwynebiadau sy'n ymwneud â safleoedd penodol ym Mhorthmadog gan gynnwys tir arfaethedig ar gyfer ei ddynodi gan y gwrthwynebydd.<br><br>Ni chodwyd unrhyw bwyntiau gweithredu yn dilyn y sesiwn hon, a oedd yn gofyn i'r Cynghorau i adnabod safleoedd ychwanegol i'w cynnwys o fewn ardal Porthmadog. |
| NMC260 | SNMC128 | Gwrthwynebu/ Object | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | Mae'r HBF yn awgrymu y dylai'r geiriad diwygiedig gynnwys y geiriau 'ar hap' sef yr hyn a dybiwn a olygir gan 'safleoedd addas heb eu dynodi'. Byddai hyn yn rhoi cysondeb gyda rhannau eraill o'r ddogfen a'r tablau cyflenwad tai. | Mae'r Cynghorau wedi defnyddio'r term 'safleoedd addas heb eu dynodi' o fewn y Polisi sydd mewn gwirionedd yn cyfeirio at ddarpariaeth ar hap. Fe wnaeth y drafodaeth yn y Gwrandawiadau dynnu sylw at yr angen am gysondeb yn y defnydd o'r derminoleg. Mae'r Cynghorau felly am dynnu sylw |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | at fân newid canlyniadol i NMC 260 (mewn coch), a fyddai'n rhoi sylw i'r gwrthwynebiad, gan sicrhau cysondeb mewnol:<br><br>**Yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol a ganlyn bydd tai i gwrdd â strategaeth y Cynllun yn cael eu sicrhau drwy'r dynodiadau tai a'u nodir isod ynghyd a safleoedd ar hap addas ~~nad sydd wedi eu dynodi~~ o fewn y ffin ddatblygu, yn seiliedig ar y ddarpariaeth ddangosol yn y tabl isod:**<br><br>**(ii) Safleoedd ~~heb eu dynodi~~ ar hap** |
| NMC261 | SNMC12 9 | Gwrthwynebu/ Object | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | Mae'r HBF yn awgrymu y dylai'r geiriad diwygiedig gynnwys y geiriau 'ar hap' sef yr hyn a dybiwn a olygir gan 'safleoedd addas heb eu dynodi'. Byddai hyn yn rhoi cysondeb gyda rhannau eraill o'r ddogfen a'r tablau cyflenwad tai. | Mae'r Cynghorau wedi defnyddio'r term 'safleoedd addas heb eu dynodi' o fewn y Polisi sydd mewn gwirionedd yn cyfeirio at ddarpariaeth ar hap. Fe wnaeth y drafodaeth yn y Gwrandawiadau dynnu sylw at yr angen am gysondeb yn y defnydd o'r derminoleg. Mae'r Cynghorau felly am dynnu sylw at fân newid canlyniadol i NMC 261 (mewn coch), a fyddai'n rhoi sylw i'r gwrthwynebiad, gan sicrhau cysondeb mewnol:<br><br>**Yn y Pentrefi Gwasanaeth a ganlyn bydd tai i gwrdd â strategaeth y Cynllun yn cael eu sicrhau drwy'r dynodiadau tai a'u nodir isod ynghyd a safleoedd ar hap addas ~~nad sydd wedi eu dynodi~~ o fewn y ffin ddatblygu, yn seiliedig ar y ddarpariaeth ddangosol yn y tabl isod:**<br><br>**(ii) Safleoedd ~~heb eu dynodi~~ ar hap** |
| NMC262 | SNMC4 | Gwrthwynebu/ Object | Candice Myers (1561) | Llywodraeth Cymru | Mae gan Lywodraeth Cymru bryderon tebyg i'r rheini a restrir uchod yng nghyswllt Polisi TAI5. Byddai eglurder ar yr isod yn | Mae'r gwrthwynebydd wedi gofyn am eglurhad mewn perthynas â materion penodol o fewn y Polisi. Ceir ymateb y Cynghorau mewn perthynas â |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddefnyddiol:<br>·A yw'r trothwyon o fewn Polisi TAI 9 yn ymwneud â'r polisi hwn?<br>·Dan y trothwyon penodol yn TAI 9, ai dim ond tai marchnad gyffredinol fyddai'n cael eu caniatáu?<br>·Ai bwriad y polisi hwn yw y byddai disgwyl i gynllun 10 uned yn y Fron ddarparu 10% o dai fforddiadwy (1 uned fforddiadwy). A fyddai'r 9 uned yn rhai marchnad agored, ac a fyddai'r 1 uned fforddiadwy ar gyfer angen lleol yn unig? | materion hyn isod:<br><br>• Mae'r tabl trothwy o fewn Polisi TAI 9 yn dweud yn glir mai 2 neu fwy ydi'r trothwy ar gyfer Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol.<br>• Ni fyddai ceisiadau sydd o dan y trothwy o 2, h.y. cais am dy unigol, yn arwain at ofyn am dy fforddiadwy. Fodd bynnag fe fyddai cais am dy fforddiadwy unigol yn cael ei gefnogi o dan y polisi yn ddarostyngedig o dystiolaeth o angen am dy fforddiadwy.<br>• Pe fyddai cais ar gyfer 10 uned o fewn ffin datblygu Pentref yn cael ei gyflwyno byddai disgwyl iddo ddarparu 10% tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol yn amodol ar hyfywedd y cynnig. Byddai'r 9 sy'n weddill yn dai ar y farchnad agored. Fe oedd y polisi gwreiddiol o dan faen prawf (ii) yn cynnwys gofyniad bod cynnig yn amlinellu sut y byddai'n sicrhau hyfywedd y gymuned leol, a chryfhau'r gymuned a chymeriad ieithyddol. Mewn ymateb i pwynt gweithredu S2 /PG7 a oedd yn herio ymarferoldeb y maen prawf cytunodd y Cynghorau i'w ddileu.<br>• I sicrhau cysondeb â pholisïau TAI 14 i TAI 16 a rhoi mwy o eglurder yn y polisi awgrymir dileu'r cyfeiriad at dai fforddiadwy o'r frawddeg agoriadol o fewn polisi TAI 17 gyda maen prawf ychwanegol yn cael ei ychwanegu at adran 3 o Bolisi TAI 9 fel newid ôl-ddilynol. Amlinellir gwelliannau hyn mewn coch isod:<br><br><u>TAI 17</u><br><br>**Caniateir cynigion am dai <u>marchnad agored</u> ~~a thai fforddiadwy ar gyfer angen lleol~~ <u>(fel y'u diffinnir yn</u>** |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | **y Rhestr Termau) yn y Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol canlynol os gallir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:**<br><br>TAI 9<br><br>**ix O fewn Pentrefi Lleol, Gwledig neu Arfordirol dim ond tai fforddiadwy (fel y'u diffinnir yn y Rhestr Termau) i gwrdd ag angen lleol fydd yn cael eu caniatáu.** |
| NMC262 | SNMC91 | Gwrthwynebu/ Object | Cadnant Planning (751) | Cadnant Planning | Gan fod y gofyn i aneddleoedd penodol gydymffurfio â Pholisi TAI 5 Marchnad Tai Lleol wedi'i ddileu o'r polisi hwn, ystyrir bod angen dyrannu tir ar gyfer tai o fewn y pentrefi hyn. Mae gorddibyniaeth ar safleoedd ar hap o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. Dylai tir gael ei ddynodi ar gyfer tai yn rhai o'r pentrefi mwy megis y Felinheli er mwyn darparu ar gyfer yr angen sydd wedi'i adnabod am dai. Ni ystyrir bod banc tir digonol o fewn y ffin datblygu i ddarparu ar gyfer yr angen sydd wedi'i adnabod o fewn y pentrefi hyn. | Bu Strategaeth Aneddleoedd y Cynllun yn destun trafodaeth fanwl yn y gwrandawiadau. Ni chafwyd unrhyw bwyntiau gweithredu oedd yn dweud wrth y Cynghorau i ail-ystyried eu dull gweithredu. Er eglurder, mae'r 12 pentref sydd wedi'u tynnu o Bolisi TAI 17 bellach yn ymddangos o fewn Polisi TAI 5.<br><br>Bydd datblygu mewn aneddleoedd sy'n destun Polisi TAI 5 yn cyfrannu tuag at y 25% o dwf rhagwelwyd ar gyfer categori Pentrefi a Chlystyrau. Felly does dim angen am ddarpariaeth ychwanegol o fewn Polisi TAI 17 i ddiwallu Twf y Cynllun o'r categori hwn. |
| NMC263 | SNMC92 | Gwrthwynebu/ Object | Cadnant Planning (751) | Cadnant Planning | Gan fod y gofyn i aneddleoedd penodol gydymffurfio â Pholisi TAI 5 Marchnad Tai Lleol wedi'i ddileu o'r polisi hwn, ystyrir bod angen dyrannu tir ar gyfer tai o fewn y pentrefi hyn. Mae gorddibyniaeth ar safleoedd ar hap o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. Dylai tir gael ei ddynodi ar gyfer tai yn rhai o'r pentrefi mwy megis y Felinheli er mwyn darparu ar gyfer yr angen sydd wedi'i adnabod am dai. Nid ystyrir bod banc tir digonol o fewn | |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | y ffin datblygu i ddarparu ar gyfer yr angen sydd wedi'i adnabod o fewn y pentrefi hyn. | |
| NMC266 | SNMC140 | Gwrthwynebu/ Object | Cadnant Planning Ltd (751) | Cadnant Planning Ltd | Rydym yn gwrthwynebu'n gryf y ffaith fod aneddleoedd mwy megis Llanddeusant a Llanfairynghornwy wedi'u dileu o'r rhestr o glystyrau o fewn y polisi hwn. Mae diffyg cysondeb o ran maint clystyrau o fewn y polisi hwn. Mae clystyrau mawr megis Llanddeusant a Llanfairynghornwy wedi'u dileu, fodd bynnag, mae rhes o 16 o dai yn Hendre Hywel wedi'i chynnwys o fewn y polisi. Credwn nad yw'r Cyngor wedi ystyried yr holl ffactorau sy'n cyfrannu i'r hyn sy'n gwneud anheddle.<br><br>Bydd dileu'r aneddleoedd mwy o'r rhestr o glystyrau yn gwanhau'r cymunedau hynny yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol gan arwain at gynnydd mewn amddifadedd yn yr ardaloedd hynny. Nodir o fewn Polisi Cynllunio Cenedlaethol bod gofyn darparu cymysgedd o dai fforddiadwy a marchnad o fewn aneddleoedd er mwyn creu a chynnal cymunedau cynaliadwy. Bydd colli datblygiadau tai o fewn yr aneddleoedd hyn yn arwain at waethygu amddifadedd yn yr aneddleoedd hyn. Felly, mae'n hanfodol bod yr aneddleoedd hyn yn cael eu cynnwys o fewn y polisi hwn er mwyn cyflawni cymunedau gwledig cynaliadwy a mynd i'r afael ag amddifadedd. | Yn ôl Pwynt Gweithredu 2 o Sesiwn Gwrandawiad 1 a Phwynt Gweithredu 6 o Sesiwn Gwrandawiad 3 roedd rhaid i'r Cynghorau adolygu Polisi TAI 18 gan roi sylw penodol i baragraff 4.7.7 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) ac ystyried a ddylid dileu rhai clystyrau.<br><br>Cynhwysir ymateb y Cynghorau i'r pwyntiau gweithredu hyn yn Llyfrgell yr Archwiliad. Oherwydd bod paragraff 4.7.7 o Bolisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at gysylltiad swyddogaethol cynaliadwy i glystyrau o aneddleoedd llai, penderfynwyd adolygu'r Clystyrau a nodwyd o dan Bolisi TAI 18, gan ganolbwyntio ar eu cynaliadwyedd o ran eu hygyrchedd i aneddleoedd eraill. Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i gategoreiddio aneddleoedd yn cofnodi argaeledd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Er mwyn ymateb i bryderon yr Arolygydd yn ogystal â phryderon a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru ystyriwyd ei bod yn rhesymol ond cadw rhai gyda sgôr o 2 neu fwy ar gyfer gwasanaeth bws (Mae hyn yn cyfateb i 12 neu fwy o fysiau yn pasio drwy'r Clwstwr bob dydd yn ystod wythnos gwaith). Credir bod hyn yn ffordd resymegol o adolygu'r sefyllfa. Byddai hynny yn atgyfnerthu'r egwyddor bod gan yr aneddleoedd cyswllt gydag aneddleoedd o fewn haen uwch yn y Goeden Aneddleoedd<br><br>Cydnabyddir bod hyn yn arwain at glystyrau o feintiau gwahanol yn cael eu tynnu allan o'r Polisi. Fodd bynnag mae'r dull hwn yn seiliedig ar gynaliadwyedd eu lleoliad yn hytrach na maint y |
| NMC268 | SNMC114 | Gwrthwynebu/ Object | Richard J Roberts (868) | Cyngor Cymuned Llanystumdwy | Gwrthwynebu'r ffaith fod Pencaenewydd yn cael ei ddileu fel Clwstwr gan fod yr anheddle yn cael ei wasanaethu gyda gwasanaeth bws. | |
| NMC268 | SNMC132 | Gwrthwynebu/ Object | Anna Jones (885) | Cyngor Cymuned Tref Alaw | Mae Cyngor Cymuned Tref Alaw yn GWRTHWYNEBU dileu Elim, Llanddeusant a Phenygroes o'r rhestr o Glystyrau sydd wedi'u | |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | hadnabod o fewn Ynys Môn. | clwstwr ac felly yn sicrhau bod y Cynllun yn fwy cyson â pharagraff 4.7.7 Polisi Cynllunio Cymru. |
| NMC268 | SNMC141 | Gwrthwynebu/ Object | Cadnant Planning Ltd (751) | Cadnant Planning Ltd | Rydym yn gwrthwynebu'n gryf y ffaith fod aneddleoedd mwy megis Llanddeusant a Llanfairynghornwy wedi'u dileu o'r rhestr o glystyrau o fewn y polisi hwn. Mae diffyg cysondeb o ran maint clystyrau o fewn y polisi hwn. Mae clystyrau mawr megis Llanddeusant a Llanfairynghornwy wedi'u dileu, fodd bynnag, mae rhes o 16 o dai yn Hendre Hywel wedi'i chynnwys o fewn y polisi. Credwn nad yw'r Cyngor wedi ystyried yr holl ffactorau sy'n cyfrannu i'r hyn sy'n gwneud anheddle.<br><br>Bydd dileu'r aneddleoedd mwy o'r rhestr o glystyrau yn gwanhau'r cymunedau hynny yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol gan arwain at gynnydd mewn amddifadedd yn yr ardaloedd hynny. Nodir o fewn Polisi Cynllunio Cenedlaethol bod gofyn darparu cymysgedd o dai fforddiadwy a marchnad o fewn aneddleoedd er mwyn creu a chynnal cymunedau cynaliadwy. Bydd colli datblygiadau tai o fewn yr aneddleoedd hyn yn arwain at waethygu amddifadedd yn yr aneddleoedd hyn. Felly, mae'n hanfodol bod yr aneddleoedd hyn yn cael eu cynnwys o fewn y polisi hwn er mwyn cyflawni cymunedau gwledig cynaliadwy a mynd i'r afael ag amddifadedd. | Er bod Pencaenewydd yn cael ei wasanaethu gan wasanaeth Bws mae'n llai na 12 o fysiau bob dydd yn ystod yr wythnos waith. Yng ngoleuni hyn, mae'r Newid Materion sy'n Codi yn dileu Pencaenewydd oddi ar y rhestr o Glystyrau sy'n cael eu nodi. |
| NMC268 | SNMC86 | Gwrthwynebu/ Object | Cynghorydd Aled Evans (2646) | | Dylid ail roi y clystyrau a ddilewyd yn ol yn y cynllun fel clystyrau. Rhoddir, fel rheswm dros ddileu'r "pentrefi" a nodir, megis Pencaenewydd, nad yw'n cydfynd a Pholisi 4.7.7 o bolisi cynllunio Cymru. Ymddengys nad yw'r pentrefi/clystyrau hyn ar daith bysiau cyhoeddus. | |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Serch hynny , o fy adnabyddiaeth i o rai o'r llefydd hyn y maent yn gymunedau eitha bywiog ac mae eu hamddifadu o unrhyw fath o ddatblygiad (heblaw tai ffermydd a busnesion gwledig) yn golygu nad oes gobaith iddynt ffynnu yn y dyfodol - a chefn gwlad yn sgil hynny. Dim ond ychydig iawn o dai sydd dan sylw yma ond pwysig i gefn gwlad.<br><br>Mae Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd yn honni ei fod eisiau hybu'r economi wledig. Mae'r newid yma mewn polisi, polisi gwan 4.7.7 neu beidio, yn gweithio yn erbyn hynny.<br><br>A bod yn onest mae cydymffurfio a pholisi 4.7.7 o Bolisi Cynllunio Cymru yn rheswm sal iawn dros y newid . Cofiaf glywed yr arolygydd yn son am hyn yn y gwrandawiad ym Mangor a synnu at ei sylwadau a gresynnu iddo dorri'r drafodaeth heb roi llawer o gyfle i rywun ateb y dadleuon a roddai i amddiffyn y polisi. Roedd o'n nodi bod y ffaith nad oedd siop (er engrhaifft) mewn pentref yn golygu nad oedd yn "wyrdd"...... hefo dadl o'r fath bydd cefn gwlad yn ddiffeithwch. | |
| NMC268 | SNMC88 | Gwrthwynebu/ Object | Evan Owen (416) | | Sylwadau cyffredinol yw’r rhain ar y cynnig i ddileu clystyrau o bolisïau’r cynllun:<br>Credaf y bydd cenedlaethau’r dyfodol a’r iaith Gymraeg yn dioddef o unrhyw gyfyngiadau ar adeiladu tai mewn ardaloedd gwledig.<br>Bydd Cymry Cymraeg lleol yn cael eu gorfodi allan o’r hyn sydd wedi datblygu i fod yr unig ardaloedd ble’r ymddengys fod yr iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig yn ffynnu yn ôl ystadegau Cyfrifiad 2011. Defnyddiaf un | |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | enghraifft, sef Llangwnnadl, sef cymuned y mae'r Cyngor yn bwriadu ei ddosbarthu fel cefn gwlad agored yn dilyn y cyfnod Archwiliad.<br>Mae'r boblogaeth yn amlwg yn Gymry, mae'r mwyafrif wedi cael addysg dda â chanddynt sgiliau niferus, gallant gyrraedd y gwaith heb y nifer is o fysiau (ffactor na ddylai fod yn arwydd o unrhyw raddfa o gynaliadwyedd) ac yn bwysicach mae'n cadw'r iaith Gymraeg yn fyw. Pa ddyfodol fydd gan eu plant pan fyddan nhw angen tŷ? (proffil ystadegol wedi'i ddarparu)<br>A fydd y gyfran uchel o blant ifanc yn cael eu gorfodi i fyw mewn trefi ymhell o'u teuluoedd mewn ardaloedd adeiledig llwyd a digymeriad nad ydynt yn ardaloedd cyfarwydd i bobl sydd wedi arfer â bywyd tawel mewn cymunedau gwledig sydd yn draddodiadol unedig ac sydd â hunaniaeth gref?<br>Fe wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn 1985 a Rosemary Thomas (Prif Gynllunydd Cymru) yn 2014 ill dau siarad yn erbyn amodau a rhwymedigaethau cynllunio i geisio cyfyngu pwy all fyw mewn anheddau preifat.<br>Byddwn wedi disgwyl i fwy o gynllunio i fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg. | |
| NMC271 | SNMC49 | Cefnogi | Helen Ashby-Ridgeway, Lichfields (3427) | Bourne Leisure Limited | Mae Bourne Leisure yn cefnogi ymagwedd y Cynghorau o fewn y polisi drafft hwn i reoli datblygiad er mwyn gwarchod "neu" wella'r amgylchedd naturiol, o ystyried y bydd cyd-destun pob bwriad cynllunio yn wahanol.<br>Mae'r cwmni hefyd yn cefnogi'r NMC hwn cyn belled â'i fod yn ceisio cydbwyso'r angen am | Nodi'r sylw cefnogol |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddatblygiad a buddion datblygiad yn erbyn gwerth a gwarchodaeth polisi cenedlaethol y safle a'r ardal. | |
| NMC271 | SNMC118 | Gwrthwynebu/ Object | Chris Wynne (2626) | North Wales Wildlife Trust | Rydym yn awgrymu'n gryf y dylai'r geiriad drwy gydol polisi SP16 ddychwelyd i'r gwreiddiol "cynnal A gwella bioamrywiaeth". Bydd hyn yn sicrhau cysondeb o fewn y CDLl a bydd yn unol â Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Gweler sylwadau parthed a SNMC37 isod |
| NMC271 | SNMC37 | Gwrthwynebu/ Object | Angharad Crump (1521) | Cyfoeth Naturiol Cymru | Tynnwn eich sylw at bara 5.2.8 PPW, sy'n nodi 'Mae rhan bwysig i'r system gynllunio o ran bodloni amcanion bioamrywiaeth trwy hybu dulliau datblygu sy'n creu cyfleoedd newydd i wella bioamrywiaeth, rhwystro colli bioamrywiaeth, neu ddigolledu lle na ellir osgoi difrod'.<br><br>Felly mae gennym bryder nad yw'r newid i'r polisi i gadarnhau y bydd rhaid i gynigion datblygu warchod neu wella bioamrywiaeth yn adlewyrchu'n llawn beth yw potensial y system gynllunio i gyfrannu, ble bo hynny'n briodol, i wella bioamrywiaeth fel sydd wedi'i gydnabod yn PPW (para 5.2.8).<br><br>Felly, awgrymwn y dylid diwygio teitl polisi strategol PS16 i gynnwys 'Gwarchod a ble bo'n bosib Gwella'r Amgylchedd Naturiol'. Hefyd, dylid diwygio brawddeg gyntaf y polisi, meini prawf 2) a 4) yn unol â'r newid a awgrymir.<br><br>Yn yr achos hwn, mae ein diffiniad ni o warchod yn golygu naill ai cynnal neu adfer statws cadwriaethol cynefinoedd a | Credir bod y gwrthwynebydd yn gwneud pwynt rhesymol. Ystyrir gallai'r newid bychan a awgrymwyd sicrhau cysondeb gyda Pholisi Cynllunio Cymru a sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun, h.y. yn gysylltiedig â pholisi AMG 4. Awgrymir y dylai'r eirfa ddiwygiedig ddarllen fel a chanlyn:-<br><br>**POLISI STRATEGOL PS 16: GWARCHOD A, BLE'N BRIODOL, GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL**<br><br>**Bydd y Cynghorau'n rheoli datblygiad er mwyn gwarchod a, ble'n briodol, ~~neu~~ wella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir arbennig ardal y Cynllun a gwrthodir cynigion a fydd yn cael effaith sylweddol andwyol arnynt ~~arnydd~~ oni bai bod yr angen neu'r bendithion y datblygiad yn y lleoliad yna yn amlwg gorbwyso gwerth y safle neu'r ardal a pholisi gwarchodaeth cenedlaethol ar gyfer y safle a'r ardal dan sylw. Bydd yr Awdurdodau Cynllunio'n ystyried caniatáu cais byddant yn gwneud yn siŵr ei fod yn:** |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | rhywogaethau yng Ngwynedd a Môn. Felly, byddai hyn yn unol â darpariaethau Erthygl 2(2) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. | **1. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau, daeareg, hanes, yr arfordir a thirweddau ardal y Cynllun;**<br>**2. Gwarchod a, ble'n briodol, ~~neu~~ gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a ble'n berthnasol eu gosodiad yn unol â Pholisi Cenedlaethol;**<br>**3. Rhoi sylw priodol i arwyddocâd cymharol ~~y~~ dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol wrth ystyried y pwysau i roi ar fuddiannau cydnabyddedig yn unol â Pholisi Cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfrifoldebau ac ymrwymiadau rhyngwladol neu genedlaethol yn cael eu cwrdd yn llawn;**<br>**4. Gwarchod a, ble'n briodol, ~~neu~~ wella bioamrywiaeth o fewn ardal y Cynllun a gwella a/neu adfer rhwydwaith cynefinoedd naturiol yn unol â'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol yn unol â Pholisi Amg 4;**<br>**5. Gwarchod ~~a~~ neu gwella bioamrywiaeth drwy rwydwaith o isadeiledd gwyrdd/ glas;**<br>**6. Diogelu rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod yn rhyngwladol, cenedlaethol ac yn lleol;**<br>**7. Gwarchod, parchu, cadw neu wella cymeriad a hynodrwydd lleol yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (yn unol â Pholisi AMG 2) ac Ardal Cymeriad y Morlun (yn unol â Pholisi AMG 3).**<br>**8. Gwarchod, parchu, cadw neu wella coed, gwrychoedd, coetiroedd o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol a mwynderol.** |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Er mwyn sicrhau cysondeb awgrymir y dylid gwneud diwygiadau canlynol i bolisi PS17:-<br><br>**POLISI PS 17: DIOGELU A, BLE'N BRIODOL, ~~NEU~~ GWELLA ASEDAU TREFTADAETH**<br><br>**Wrth geisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach ardal y Cynllun, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn diogelu a ~~neu,~~ ble'n ~~a lle bo hynny'n~~ briodol, yn gwella'r asedau treftadaeth unigryw:**<br><br>**Caniateir cynigion a fydd yn diogelu a ~~neu,~~ ble'n briodol, yn gwella'r asedau treftadaeth a ganlyn, eu gosodiad a golygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r adeilad /ardal:**<br><br>**1. Henebion Rhestredig ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd archeolegol (yn unol â Pholisi AT 4).**<br>**2. Adeiladau Rhestredig a'u cwrtil.**<br>**3. Ardaloedd Cadwraeth (yn unol â Pholisi AT 1).**<br>**4. Safleoedd Treftadaeth y Byd - Castell Biwmares a Chastell Caernarfon a Muriau'r Dref (yn unol â Pholisi AT 1).**<br>**5. Ymgeisydd Safleoedd Treftadaeth y Byd.**<br>**6. Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig (yn unol â Pholisi AT 1).** |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | **7. Adeiladau o haeddiant pensaernïol/hanesyddol/diwylliannol nad ydynt wedi eu rhestru neu eu diogelu (yn unol â Pholisi AT3).** |
| NMC275 | SNMC50 | Gwrthwynebu | Helen Ashby-Ridgeway, Lichfields (3427) | Bourne Leisure Limited | Mae Bourne Leisure yn cefnogi ymagwedd y Cynghorau yn NMC275 wrth ei gwneud hi'n ofynnol i gynigion "roi sylw i" yn hytrach na "rhoi sylw i a bod yn gyson â'r" Datganiad o Werth ac Arwyddocâd perthnasol. Dylai'r newid hwn gynorthwyo i alluogi asesiad achos wrth achos o bob cynnig yng nghyswllt ei effaith ar yr Ardal Tirwedd Arbennig. Mae Bourne Leisure yn ystyried y dylai'r amgylchiadau ble byddai angen Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol gael eu diffinio o fewn Polisi AMG 1 a bod fersiwn blaenorol y polisi hwn yn rhoi gwell eglurder. | Ni ystyrir y byddai'r diwygiad i'r geiriad fel yr awgrymir yn gwella eglurder y polisi. |
| NMC290 | SNMC110 | Cefnogi/ Support | Ben Lewis, GVA (3418) | Nuclear Decommissioning Authority & Magnox Ltd | Dymuna'r NDA a Magnox gadarnhau eu cefnogaeth i'r addasiadau a ganlyn, sy'n gyson â'r sylwadau a wnaed gan y GVA (ar ran NDA a Magnox). | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC290 | SNMC111 | Gwrthwynebu/ Object | Ben Lewis, GVA (3418) | Nuclear Decommissioning Authority & Magnox Ltd | Nodir bod Polisi diwygiedig GWA 3 yn cynnwys cyfeiriadau at Wylfa Newydd a Pholisi GWA 1. Fel y nodwyd yn gynharach, mae Erthygl 2(1)(d) Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn eithrio gwastraff ymbelydrol o gwmpas y Gyfarwyddeb. Gan fod Polisi GWA 1 yn ymdrin â chyfleusterau ar gyfer gwastraff y sonnir amdano yn y Gyfarwyddeb, nid yw'n berthnasol i reoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol, felly dylid dileu'r croesgyfeiriad at GWA1, yn enwedig gan fod GWA 3 eisoes yn cynnwys meini prawf yn ymwneud â'r angen i | Ystyrir yn briodol i barhau i gynnwys cyfeiriad tuag at egwyddorion Polisi GWA 1 ynghyd a GWA2 yn yr eglurhad i bolisi GWA3 gan fod y polisïau hyn yn gosod yr egwyddorion o ran yr ystyriaethau sydd yn berthnasol wrth ystyried ceisiadau ar gyfer Rheoli Gwastraff. |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | leihau unrhyw effeithiau andwyol y cynigion. Os yw'r Cynghorau'n ystyried ei bod yn angenrheidiol, gellid gwneud addasiad bychan i Bolisi GWA 3 er mwyn cynnwys darpariaethau cyffredinol GWA 1 (gweler y geiriad a awgrymir drosodd). Dylid nodi hefyd bod Polisi PS9 – Wylfa Newydd a Datblygiadau Cysylltiedig yn cynnwys darpariaeth ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol felly mae'n bosib nad oes angen cyfeirio at Wylfa Newydd dan GWA 3. Felly, er mwyn eglurder, gofynnir i'r cyfeiriad at GWA 1 gael ei ddileu o Bolisi GWA 3. | |
| NMC292 | SNMC51 | Gwrthwynebu | Helen Ashby-Ridgeway, Lichfields (3427) | Bourne Leisure Limited | Mae defnydd o'r term "cymunedau lleol" yn gwneud y polisi drafft yn aneglur ac felly ni fyddai'n rhoi gwarchodaeth ddigonol rhag effeithiau andwyol datblygiad gwastraff. Dylai'r polisi ddarparu gwarchodaeth i "dderbynyddion sensitif" yn hytrach na "chymunedau lleol".<br>Yn benodol, dylai llety gwyliau gael eu hadnabod fel rhai fyddai'n agored i'r effeithiau andwyol, a dylid cydnabod hyn o fewn y testun cyfiawnhad.<br>Mae Bourne Leisure yn cefnogi'r amodiad ym Mholisi drafft GWA 2 (brawddeg olaf) y dylid ystyried cynigion rheoli gwastraff ar sail achos wrth achos. | Mae angen darllen y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae yna bolisïau eraill o fewn y Cynllun sydd yn sicrhau na fydd datblygiad yn effeithio ar fwynderau trigolion/defnyddwyr cyfagos (Polisi CYFF 1). |
| NMC294 | SNMC112 | Gwrthwynebu/ Object | Ben Lewis, GVA (3418) | Nuclear Decommissioning Authority & Magnox Ltd | Nodwyd bod y cynghorau wedi cynnig dileu'r cyfeiriad at "gwaredu" gwastraff ymbelydrol o Bolisi GWA3. Mae NDA a Magnox yn pryderu fod y gwaharddiad yma ynglŷn â gwaredu gwastraff ymbelydrol o GWA3 yn methu o ran adnabod y gallai peth gwastraff gael ei gwaredu ar safle Wylfa bresennol, fe gefnogir yr ymdriniaeth yma gan bolisi ac arweiniad | Mae'r term 'rheoli gwastraff' (fel y cyfeirir ato ym mholisi GWA3) yn cynnwys gwaredu gwastraff. Er eglurder, cynigir y diffinnir y term 'rheoli gwastraff' drwy ddiwygio paragraff 7.5.51.<br><br>O ran y cyfeiriad a wneir at y term 'arllwysiad' o fewn maen prawf 1, ystyrir fod y cyfeiriad yma'n briodol. |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cenedlaethol.<br><br>Mae'r gwrthwynebydd hefyd yn nodi y dylid eithrio'r gair "arllwysiad" o faen prawf 1 gan nad yw'n cydymffurfio a strategaethau cenedlaethol.<br><br>Ymhellach cafwyd gwrthwynebiad i feini prawf 5 ynghylch dilysrwydd y gofyniad am Asesiad Rheoli Gwastraff. | Ystyrir bod angen dileu maen prawf 5, nid yw gwastraff ymbelydrol yn rhan o'r Fframwaith Cyfarwyddeb Gwastraff a chan hynny ni ellir gofyn am Asesiad Cynllunio Gwastraff. Er eglurder, cynigir bod troednodyn yn cael ei gynnwys o fewn y cyfeiriad at Asesiad Cynllunio Gwastraff i Bolisi GWA1 polisi i egluro statws y gwastraff ymbelydrol mewn perthynas â Fframwaith y Gyfarwyddeb Gwastraff.<br><br>Gweler Atodiad 4 ar gyfer geiriad diwygiedig Pennod Gwastraff yng ngoleuni y gynrychiolaeth hon. |
| NMC295 | SNMC48 | Gwrthw ynebu/ Object | Ben Lewis, GVA (3418) | Nuclear Decommission ing Authority & Magnox Ltd | Mae'r ail baragraff o 7.2.56 dim ond yn cydnabod mae gwastraff ymbelydrol isel ac isel iawn fydd yn cael ei gynhyrchu yn sgil y broses dadgomisiynu. Fodd bynnag fel nodir yn y sylwadau ar Bolisi GWA3 uchod, bydd gwastraff lefel Canolraddol yn cael ei gynhyrchu o ganlyniad i'r broses ddadgomisiynu. Er mwyn eglurder a chysondeb, mae angen y frawddeg hon gael ei diwygio i gydnabod y bydd cynhyrchu gwastraff lefel Canolraddol yn yr orsaf pŵer niwclear presennol yn Wylfa wrth i'r safle fynd drwy'r broses ddadgomisiynu. Felly, cynigir bod y frawddeg yn cael ei ddiwygio. | Cytunir y byddai'n briodol cynnwys cyfeiriad tuag at wastraff ymbelydrol canolradd gan ei fod yn debygol o ddeillio o'r broses dadgomisiynu. Ymhellach ystyrir yn briodol i gynnwys y diffiniad o'r gwahanol lefelau o wastraff ymbelydrol er eglurder. Gweler y fersiwn diwygiedig o bara 7.5.56 yn Atodiad 4 |
| NMC 296 | SNMC15 0 | Cefnogi/ Support | Ben Lewis, GVA (3418) | Nuclear Decommission ing Authority & Magnox Ltd ) | Fe ddymunai NDA a Magnox gadarnhau eu cefnogaeth i'r Newid Materion sy'n Codi yma. | Nodir y sylw cefnogol |
| NMC297 | SNMC10 | Gwrthw | Malcolm | Minerals | Yn gyffredinol rydym yn cefnogi'r newidiadau | Ni ystyrir yn briodol i ddiwygio geiriad y polisi |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 6 | ynebu/ Object | Ratcliff (1647) | Products Association | a gynigir gyda dau eithriad,<br>a) Mae maen prawf 2 wedi methu gwneud cyfeiriad hanfodol at leiafswm banc tir o 10 mlynedd ar gyfer cerrig mâl, gan wneud i’r isafswm fod yn berthnasol i dywod a graean yn unig yn y newidiadau arfaethedig. Dylid cywiro hyn gan fod yr isafswm yn berthnasol i’r ddau beth.<br>b) Rydym yn ailadrodd bod polisi cenedlaethol yn ei gwneud hi’n ofynnol i gynnal banc tir yn ystod cyfnod llawn y cynllun yn unol â PPW para 14.7.5 sy’n nodi, “Dylai awdurdodau gynnwys polisïau yn eu cynlluniau datblygu ar gyfer cynnal, trwy gydol cyfnod y cynllun, fanciau tir ar gyfer mwynau nad ydynt yn cynhyrchu ynni ac y mae galw amdanynt ar hyn o bryd.”<br>Yn unol â hynny, rydym yn awgrymu’r newidiadau ychwanegol a ganlyn i’r maen prawf (testun newydd mewn print italics).<br><br>2. Cynnal isafswm banc tir o Dywod a Graean am 7 mlynedd a banc tir wrth gefn o agregau cerrig mâl am isafswm o 10 mlynedd drwy gydol cyfnod y cynllun yn unol ag arweiniad cenedlaethol. | strategol yn unol â’r gwrthwynebiad gan fod yr eirfa ar ei ffurf bresennol yn ddigon eglur o ran yr angen i gynnal lleiafswm banc tir ar gyfer carreg mal a thywod a graen.<br><br>Ymhellach mae’r paragraffau eglurhaol blaenorol yn nodi’r angen i gynnal y banc tir o agregau ar gyfer oes y Cynllun. |
| NMC298 | SNMC16 | Cefnogi/ Support | Anthony B Northcote (2998) | Coal Authority | Mae'r Awdurdod Glo yn dymuno cefnogi'r newid arfaethedig. | Nodi’r sylw cefnogol |
| NMC299 | SNMC17 | Cefnogi/ Support | Anthony B Northcote (2998) | Coal Authority | Mae'r Awdurdod Glo yn dymuno cefnogi'r newid arfaethedig. | Nodi’r sylw cefnogol |
| NMC300 | SNMC18 | Cefnogi/ Support | Anthony B | Coal Authority | Mae'r Awdurdod Glo yn dymuno cefnogi'r newid arfaethedig. | Nodi’r sylw cefnogol |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Northcote (2998) | | | |
| NMC300 | SNMC108 | Gwrthwynebu/ Object | Malcolm Ratcliff (1647) | Minerals Products Association | Rydym yn siomedig nad yw'r angen am adroddiad arbenigol yn manylu ar effaith datblygiad ar yr MSA a dichonoldeb cloddio ymlaen llaw wedi'i gydnabod yn nhestun cefnogi'r cynllun. Mae hyn yn dilyn arfer dda fel sydd wedi'i amlinellu yng nghanllawiau diogelu BGS. Felly, awgrymwn yr ychwanegiad a ganlyn i destun para 7.5.62a (testun newydd mewn print bras).<br><br>Ac eithrio datblygiad eithriedig, dylai pob cais mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau gael Adroddiad Asesiad Mwynau i gyd-fynd ag o a baratoir gan berson cymwys, sy'n cynnwys asesiad safle-benodol pen-desg o'r arwyneb presennol a gwybodaeth ddaearegol ac adnodd mwynau solet, gan gynnwys ble bo hynny'n briodol, data twll turio gan arwain at amcangyfrif o'r gwerth economaidd (er enghraifft ansawdd a swm) yr adnodd mwynau, ei botensial i'w ddefnyddio yn y datblygiad arfaethedig ac asesiad o p'un a yw'n ddichonadwy ac yn hyfyw i gloddio'r adnodd mwynau cyn datblygu er mwyn osgoi unrhyw sterileiddio diangen. Ble mae yno angen gorbwysol am y datblygiad, a fyddai fel arall yn sterileiddio'r adnodd, gosodir amod cynllunio ar y cais cynllunio fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gloddio am yr adnodd cyn dechrau'r datblygiad, oni bai bod y datblygwr yn gallu profi'n foddhaol bod hynny'n anymarferol neu'n amgylcheddol annerbyniol. | Mae PS19 wedi cael ei ddiwygio (NMC 297) er mwyn cyfeirio at agregau ansawdd uchel. Gan hynny ni ystyrir yn briodol i ddiwygio Polisi MWYN4. |
| NMC308 | SNMC107 | Gwrthwynebu/ | Malcolm Ratcliff | Minerals Products | Rydym yn siomedig nad yw'n cynigion ar gyfer newidiadau i'r polisi hwn i fynd i'r afael â'r | Os ystyrir yn dderbyniol gan yr Arolygydd cynigir bod geiriad paragraff 7.5.62a yn cael ei diwygio i |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Object | (1647) | Association | cymwysterau i'r broses ddosrannu sy'n gynhenid o fewn yr RTS ac y cyfeirir atynt ym mharagraffau 6.11 a 6.23 y Papur Testun wedi cael eu cydnabod er mai ein cof ni o'r gwrandawiadau oedd bod y pwynt wedi cael ei dderbyn gan y Cynghorau. Mae ein haelodau'n bryderus iawn y dylai bod cydnabyddiaeth o fewn y polisi y derbynnir ac y rhoddir sylw i'r anghenion am agregau o ansawdd uwch. Nid yw'r testun presennol yn ddigonol gan fod y ddadl yn mynd y tu hwnt i gynnal banc tir isafswm yn unig ble nad yw ystyriaethau ansawdd o reidrwydd yn cael eu hystyried. Yn bwysicach, nid yw'r polisi'n rhoi sylw i'r materion a nodir gan yr Adolygiad RTS Atodiad A (Gogledd Cymru) paragraff A53 sy'n berthnasol i bolisi mwynau o fewn ardal y Cynllun.<br>Felly, cynigiwn ddiwygiad pellach i'r polisi fel a ganlyn (testun newydd mewn print bras)<br>Caniateir cynigion datblygu ar gyfer chwilio am fwynau, mwyngloddio newydd neu ymestyniadau i weithfeydd presennol i gynnal banc tir agregau ardal y Cynllun na ellir eu bodloni drwy ffynonellau presennol, neu i gynnal capasiti cynhyrchiol o agregau o safon uwch, neu i ddiwallu'r galw am fwynau eraill os gellir cydymffurfio â'r meini prawf a ganlyn | wella eglurder. Byddai geiriad awgrymedig yn darllen fel a ganlyn:-<br><br>**7.5.62a**<br><br>**Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu sy'n effeithio ar adnoddau mwynau ddangos, drwy archwiliad priodol, na fydd yr adnodd yn cael ei sterileiddio neu ddangos na fydd echdynnu yn y dyfodol yn cael eu llesteirio gan y datblygiad arfaethedig. Ble mae yno angen gorbwysol am y datblygiad, a fyddai fel arall yn sterileiddio'r adnodd, gosodir amod cynllunio ar y cais cynllunio fydd yn gwneud hi'n ofynnol i gloddio am yr adnodd cyn dechrau'r datblygiad, oni bai bod y datblygwr yn gallu profi'n foddhaol bod hynny'n anymarferol neu'n amgylcheddol annerbyniol.** |
| NMC311 | SNMC19 | Cefnogi/ Support | Anthony B Northcote (2998) | Coal Authority | Mae'r Awdurdod Glo yn dymuno cefnogi'r newid arfaethedig. | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC311 | SNMC12 | Gwrthwynebu/ Object | Candice Myers (1561) | Llywodraeth Cymru | Ardaloedd ymgynghori glo. Os yw Polisi MWYN 6 yn cyfeirio at ardaloedd o'r fath dylid eu dangos ar y Map Cynigion, gan eu bod yn rhan o'r cynllun. Os cânt eu dangos ar y Map | Mae MTAN2 (paragraff 228) yn datgan bod yr Awdurdod Glo yn hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol o feysydd glofaol presennol, hen, neu sy'n bosib yn y dyfodol ac y dylid adnabod yr ardaloedd |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cyfyngiadau yna ni ddylid cyfeirio atynt yn y polisi. | hyn yn y cynllun datblygu. O ganlyniad i'r arweiniad a roddir yn MTAN2 cyfeirir at yr ardaloedd datblygu risg uchel o fewn corff y polisi. Fodd bynnag fe'u dangosir ar y map cyfyngiad yn hytrach na'r map cynigion oherwydd yr Awdurdod Glo sy'n pennu'r meysydd risg uchel nid y Cynghorau a'r Cynllun. |
| NMC315 | SNMC130 | Cefnogi/ Support | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC322 | SNMC80 | Gwrthwynebu/ Object | Kieran Somers (3441) | Horizon Nuclear Power Wylfa Limited | Gwrthwynebu i dargedau'r Polisi ynghylch gwelliannau priffyrdd. Mae'n anghywir dweud y bydd cais cynllunio am welliannau i'r A5025 yn cael ei gyflwyno ym mis Mai 2017. O ystyried graddfa, natur a chymhlethdod Prosiect Wylfa Newydd mae'n amhriodol ac yn ddiangen cynnwys amserlenni ar gyfer datblygiad o'r fath. Os cynhwysir amserlenni, rhaid iddynt fod yn hyblyg. | Mae'r targedau polisi a gynhwysir yn y fframwaith monitro yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael i'r Cynghorau yn hwyr 2016/ dechrau 2017. Bydd dangosyddion a thargedau polisi diwygiedig yn cael eu cadarnhau. |
| NMC323 | SNMC149 | Gwrthwynebu / Object | Mairede Thommas (318) | Cadeirydd Cangen Ynys Mon CPRW | Rydym yn gwrthwynebu i'r Newid Materion sy'n Codi fel sail i dybio y dylai bod targed o 50% o drydan a gwres lleol a ddarperir drwy ynni adnewyddadwy erbyn 2021 gan godi i 100% erbyn 2026.<br><br>Mae gofyn i'r Cynllun roi sylw'n well i'r "defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o dir er budd cyhoeddus" a "sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau angenrheidiol yn cael eu hadeiladu ble mae eu hangen fwyaf".<br>Dylid gwneud hyn drwy ganolbwyntio ar "ddatblygiadau effaith amgylcheddol isel" a thrwy osod deunydd solar pv a solar thermol o | Mae ymateb y Cynghorau i wrthwynebiadau'r ymatebwr i NMC93, 94, 95 a 96 yn amlinellu'r cyfiawnhad y Cynghorau dros gynnwys targedau ynni adnewyddadwy o fewn y Cynllun.<br><br>Mae y gwrthwynebydd yn cyfeirio at y targedau polisi yn erbyn Dangosydd Lleol D21 yn Thema 2 Byw'n Gynaliadwy o fewn y Fframwaith Monitro (NMC323).<br><br>Mae adolygiad o'r targedau polisi hyn fel rhan o ymateb i sylwadau'r gwrthwynebydd wedi arwain y Cynghorau i ddod i'r casgliad nad ydynt ar hyn o bryd yn llawn gynrychioli'r wybodaeth a gynhwysir o fewn tablau 12A a 12B ar gyfer potensial gwres & |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | fewn yr amgylchedd adeiledig ac yn agos i'r man ble bydd yr ynni a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio'n fwyaf effeithiol. Dylai'r Cynllun roi sylw i ffyrdd eraill o gyflawni ynni yn effeithlon a phŵer rhatach i fusnesau a chymunedau.<br><br>Hefyd, dylai'r Cynllun gydnabod bod Llywodraeth Cymru ar fin cael rheolaeth dros gyfleoedd i gynhyrchu ynni o hyd at 300MW yn sgil y setliad datganoli newydd. Ni does cyfeiriad at Adweithyddion Niwclear Modwlar Bach (SMR) yn y Cynllun, er bod hwn yn opsiwn pŵer ar y tir carbon isel, y mae cefnogaeth iddo yn lleol.<br><br>Mae'r gwrthwynebydd wedi cynnwys cyfeiriadau at nifer o wefannau allanol mewn ymgais i gefnogi ei wrthwynebiadau. | trydan adnewyddadwy a gyflwynwyd ym Mhennod 7.2 o dan NMC 96 a 97.<br><br>Mae'r targedau, fel y'u gwelir yn cyfeirio at 'galw' yn hytrach na 'potensial'. Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol, awgrymir y gellid diwygio'r testun fel yr amlinellir yn goch isod -Targedau Polisi D21 i Ddangosydd Lleol:<br><br>**I gwrdd â 50% (1,123.35 GWh) o'r potensial ~~galw~~ a ragwelir am drydan drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2021**<br>**I gwrdd â 100% (2,246.7 GWh) o'r potensial ~~galw~~ a ragwelir am drydan drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2026**<br>**I gwrdd â 50% (26.397 GWh) o'r potensial ~~galw~~ a ragwelir am wres drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2021**<br>**I gwrdd â 100% (52.795 GWh) o'r potensial ~~galw~~ a ragwelir am wres drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2026** |
| NMC326 | SNMC81 | Gwrthwynebu/ Object | Kieran Somers (3441) | Horizon Nuclear Power Wylfa Limited | Mae'r polisi yn gosod targedau ar gyfer amrywiol geisiadau cynllunio cysylltiedig. Nid yw'r amserlenni sydd wedi'u cynnwys o fewn y polisi bellach yn adlewyrchu'r strategaeth gyson ar gyfer cydrannau mawr Prosiect Wylfa Newydd na'r amserlenni ar gyfer cyflwyno. O ystyried graddfa, natur a chymhlethdod Prosiect Wylfa Newydd mae'n amhriodol ac yn ddiangen cynnwys amserlenni ar gyfer datblygiad o'r fath. Os cynhwysir amserlenni, rhaid iddynt fod yn hyblyg. | Mae'r targedau polisi a gynhwysir yn y fframwaith monitro yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael i'r Cynghorau yn hwyr 2016/ dechrau 2017. Bydd dangosyddion a thargedau polisi diwygiedig yn cael eu cadarnhau. |
| NMC327 | SNMC82 | Cefnogi/ Support | Kieran Somers | Horizon Nuclear Power | Cefnogi'r map cynigion wedi'i ddiweddaru. | Nodi'r sylw cefnogol |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | (3441) | Wylfa Limited | | |
| NMC340 | SNMC121 | Gwrthwynebu/ Object | Glenda Burke (Clerc) (932) | Cyngor Tref Porthmadog | Nododd y Cyngor Tref anghysondeb yn y ffigyrau a ddangosir o dan dref Porthmadog.<br><br>Nodir o dan 'Cyflenwad Dangosol' 150, 'Ymrwymiadau (Banc Tir- Tai)(Ebrill 2015) - 87. Yn y golofn nesaf 'Ymrwymiadau (Banc Tir-Tai)(Ebrill 2015) - 0.<br><br>Cwestiynir sut y bydd i'r cyflenwad tai gael ei wireddu heb ddim tir addas i'w ddatblygu wedi ei ddynodi. ( Mae hyn er gwaethaf amryw o awgrymiadau am dir addas i'w ddatblygu gan y cynghorwyr dros y blynyddoedd diwethaf - sydd yn adnabod yr ardal yn dda iawn).<br>Teimlwyd yn gryf fod y ffigyrau hyn yn aneglur ac yn gwrth ddweud ei gilydd. Os oes angen am 150 o dai yn ardal Porthmadog , ble maent am gael eu codi heb ddim tir addas wedi ei ddynodi?<br><br>Nodir fod gwall yn yr adroddiad a phryder y Cyngor nad oes lleoliad penodol wedi ei roi ar gyfer Porthmadog yn wahanol iawn o bob canolfan drefol arall. Mae cam dehongli'r ffigyrau oerwyd does dim darpariaeth ar gyfer cyflenwi tai addas i bobl leol. Cyfeirir ar adeiladu fflatiau sydd yn addas i deuluoedd. Pryderir am yr effaith tymor hir y bydd hyn gael ar economi'r dref gyda'r stryd fawr ar ei liniau yn barod.<br><br>Teimlir y dylir edrych ar ymestyn ffin datblygu er mwyn canfod tir addas i adeiladu cyflenwad o dai fforddiadwy. | Wrth ymgymryd â gwaith ar Bwynt Gweithredu S3 /PG8 (lefel twf newydd annisgwyl) gwelwyd bod lefel y twf dangosol a gofnodwyd ar gyfer Porthmadog yn is na beth ddylai fod. Mae cymhwyso'r strategaeth y cynllun yn golygu y dylai cyfanswm cyflenwad tai Porthmadog fod yn **150 o unedau** yn hytrach nag **128 o unedau**.<br><br>'Roedd angen Newid Materion sy'n Codi i Bolisi Tai 14 er mwyn cofnodi'r ffigur gofynnol cywir ar gyfer Porthmadog, sef 150 o unedau yn lle 128 o unedau. Yn anffodus ni chafodd y NMC ei adlewyrchu'n llawn yn Atodiad 5.<br><br>Fe ddylai'r ffigwr o fewn colofn (dd) 'Lefel Cyflenwad Dangosol - Safleoedd ar Hap' fod yn 58 yn hytrach na 36.<br><br>Mae paragraffau 2.27 a 2.28 o ymateb y Cyngor i Bwynt Gweithredu S2/PG3 yn amlinellu'r cyfiawnhad ar gyfer lefel uwch o ddarpariaeth annisgwyl o fewn aneddiadau penodol, gan gynnwys Porthmadog.<br><br>Fe roddwyd sylw i wrthwynebiadau yn ymwneud yn benodol â safleoedd ym Mhorthmadog yng Ngwrandawiad 11 – De Gwynedd. Yn dilyn y sesiwn hon, nid oedd pwyntiau gweithredu i'r Cynghorau adnabod safleoedd ychwanegol i'w cynnwys o fewn ardal Porthmadog.<br><br>Tynnir sylw'r arolygydd at y ffaith y dylai Atodiad 5 Tabl 1 Colofn (dd) mewn perthynas ag anheddle Porthmadog ddarllen fel y dangosir yn goch isod: |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | **Lefel Cyflenwad Dangosol Safleoedd ar Hap (dd)**<br>~~36~~ 58 |
| NMC344 | SNMC131 | Gwrthwynebu/ Object | Mark Harris (1470) | Home Builders Federation | Rydym yn cefnogi cynnwys Atodiad 10 Taflwybr Tai fel gwaelodlin er mwyn monitro'r cynllun. Fodd bynnag, dylid egluro yn y ddogfen beth yw ei statws er mwyn osgoi unrhyw ddryswch yn y dyfodol, yn enwedig oherwydd mai dim ond ar wybodaeth ar adeg ei chynhyrchu y gellir ei selio. | Credir bod yr eirfa sydd wedi ei gynnwys ar ddechrau'r Atodiad yn rhoi darlun digonol o bwrpas a statws y tafluniad tai. |
| NMC362 | SNMC26 | Cefnogi/ Support | Angharad Crump (1521) | Cyfoeth Naturiol Cymru | Rydym yn croesawu'r diwygiad i nodiant safle cyflogaeth Adwy'r Hafan er mwyn cyd-fynd hefo polisi CYF1B (NMC147 & NMC154). | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC363 | SNMC36 | Gwrthwynebu/ Object | Indeg Wyn (3394) | | Carwn ail ddatgan fy ngwrthwynebiad i'r safle a gynigir yma. Bellach y mae hyd yn oed yn fwy na chynt. Fel y dywedais byddai datblygu yma yn ymwthio i dir glas newydd ac yn creu problemau trafnidiaeth ddifrifol. Y mae'r stryd yn barod wedi ei chloi gan geir ar brydiau ac y mae'n anodd iawn mynd i fyny ac i lawr, heb sôn am ddod allan o'r lon i'n tŷ ni. | Yn dilyn y Gwrandawiad gofynnwyd i'r Uned Drafnidiaeth gadarnhau addasrwydd y fynedfa. Dyma'r ohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Uned Drafnidiaeth:-<br><br>"Wedi edrych ar safle gallwn gadarnhau nad oes gwrthwynebiad gan yr Uned Drafnidiaeth i'r llecyn o dir dan sylw. Mae'r safle ar gyrion y dref ond o fewn ffiniau'r cyfyngiad cyflymder 30 m.y.a., credir y gallai'r rhwydwaith ffyrdd lleol ymdopi gyda'r cynnydd traffig a gynhyrchir gan hyd at 8 tŷ ychwanegol.<br><br>Argymhellir darparu un fynedfa gerbydol i'r safle yn hytrach nag nifer o fynedfeydd unigol, mewn ffurf mynedfa ffordd stad. Mae'r cynllun isod yn dangos y dulliau fwyaf deniadol o ddarparu mynediad a rhediad ffordd stad trwy'r safle." (Pwynt gweithredu S12/PG1) |
| NMC364 | SNMC1 | Cefnogi/ | Robin | Clerc Cygnor | | Nodi'r sylw cefnogol |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Support | Hughes (1235) | Tref Pwllheli | | |
| NMC367 | SNMC27 | Cefnogi/ Support | Angharad Crump (1521) | Cyfoeth Naturiol Cymru | Rydym yn nodi ac yn croesawu'r bwriad i eithrio'r ardal sydd wedi ei amlygu mewn coch ar y map o ddynodiad cyfeirnod C39. Cadarnheir fod yn golygu fod ein gwrthwynebiad i warchod y safle ar gyfer defnydd cyflogaeth, cyfeirnod C39 yn cael ei dynnu'n ôl.<br><br>Fel cynghorwyd yn flaenorol, yn wahanol i weddill y tir sydd yn ffurfio dynodiad cyfeirnod C39, ni chodwyd lefel y tir sydd wedi ei amlygu mewn coch oherwydd tirlenwi. Y rheswm am hyn yw gan fod y tir yn hanesyddol wedi cael ei drin fel lleoliad storfa dŵr lifogydd.<br><br>Yn sgil y diffyg Asesiad o Risg Llifogydd, fe fyddai gennym bryder pe byddai lefel y tir sydd wedi cael ei amlygu mewn coch yn cael ei godi gan y byddai hynny'n cynyddu risg llifogydd i eiddo ym Mhenrhyndeudraeth. Yn gyffredinol, ystyrir mai'r unig achos ble byddai posib cysidro codi lefel y tir fyddai pe fyddai yna storfa iawndal cyfwerth yn cael ei ddarparu yn y cyffiniau, h.y. lleihau lefel y tir cyfagos .<br>Fel y cadarnhawyd yn ein hymatebion cynharach, heb asesiad manwl o'r risg llifogydd fe gytunir gyda'r egwyddor o eithrio'r safle o'r warchodaeth cyfeirnod C39. | Nodi'r sylw cefnogol |
| NMC367 | SNMC10 1 | Gwrthw ynebu/ Object | Glyn E Roberts (Clerc) (1261) | Cyngor Tref Penrhyndeudr aeth | Byddai wedi bod yn dda gan Gyngor Tref Penrhyndeudraeth allu cynnig sylwadau ar y Cynllun diwygiedig cyflawn, ond gan fod y broses sydd ohoni yn nadu hynny, cyfyngir ein sylwadau i'r map, y mae a wnelo fo â | I egluro, mae'r NMC yn cynnig i gael gwared ar y safle ar sail ei rôl fel man storio llifogydd. Nid yw gweddill y gwrthwynebiad yn ymwneud â NMC.<br><br>Mae paragraff 2.4 o ganllawiau''r Cynghorau am y |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Phenrhyndeudraeth sydd ar dudalen 385 yr Arfarniad.<br><br>Dangos y mae bod rhan o'r tir sydd yng nghyffiniau Stad Ddiwydiannol Griffin wedi'i eithrio  oherwydd, mae'n debyg, bod y rhan honno o'r amgylchedd naturiol sydd o fewn tiriogaeth y Cynllun Datblygu yn cynnwys enghreifftiau o lystyfiant / fywyd gwyllt sydd yn haeddu ei warchod a'i amddiffyn fel y gall ffynnu a goroesi.<br><br>Y mae'r Cyngor o'r farn y dylid rhoi, o leiaf, yr un bri a phwysigrwydd i hunaniaeth trigolion Penrhyndeudraeth trwy amddiffyn yr amgylchedd ieithyddol-diwylliannol a'r amgylchedd cymdeithasol fel y gall yr hunaniaeth honno ffynnu a goroesi yn yr un modd. Trwy leihau, yn sylweddol, nifer y tai y bwriedir eu codi yma y cyflawnir hynny.<br><br>Er lles y gymuned hon, ac er lles pob cymuned arall sydd dan warchae'r Cynllun Datblygu ac er lles y Gymraeg, pwyswn arnoch i wrando arnom. | Gofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi (Jan 2017) yn datgan:<br><br>"2.4 Nid yw'r ymgynghoriad hwn felly yn gyfle i ychwanegu at sylwadau blaenorol neu i wneud sylwadau newydd ar rannau o'r Cynllun Adnau gwreiddiol nad ydynt yn destun Newidiadau Materion sy'n Codi. Caiff unrhyw sylwadau o'r fath eu diystyru oherwydd y dylid eu gwneud yn ystod cyfnodau cynharach o baratoi'r Cynllun." |
| NMC367 | SNMC30 | Gwrthwynebu/ Object | Alexander H Badley (255) | | Mae gwrthwynebiad CNC ynghylch 'mewnlenwi' y safle. Yn y caniatâd cynllunio byw mae'n nodi'n glir y byddai angen cwblhau 'FCA' cyn y gellir ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad pellach ar y safle. Mae'r gwrthwynebiad hwn yn sicrhau na fyddai modd gwneud unrhyw fewnlenwi ar y safle. Mae ein FCA (sydd ynghlwm) yn ymwneud â defnyddiau datblygu nad oes angen mewnlenwi, ond sy'n dal i fod yn ddatblygiad | Roedd rhan o'r safle cyflogaeth a warchodir fel y dangoswyd yn y fersiwn Adnau o'r Cynllun wedi ei leoli o fewn Parth Llifogydd C2. Mae gil ymgynghori parhaus hefo Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dangos rhan o'r safle ar Stad Ddiwydiannol Griffin yn ffurfio storfa llifogydd a ffurfiwyd pan ddatblygwyd y safle yn yr 80au. Ystyrir gan hynny ei bod yn briodol i eithrio'r safle o'r warchodaeth cyflogaeth trwy NMC. |

| NMC | Rhif Sylw | Math | Enw | Cwmni/ Mudiad | Crynodeb | Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | masnachol.<br>Felly, nid yw cael gwared â’r ffin datblygu yn gwneud dim i’r safle oni bai am ddibrisio’r tir a chwestiynu hyfywdra cynnal y safle i safonau’r ymrwymiad bioamrywiaeth gan Lywodraeth Cymru (cynnal mynediad a thrin rhywogaethau ymledol yn bennaf). | Mae’r gwrthwynebydd yn honni fod ganddo ganiatâd byw ar y safle. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau hefo’r Gwasanaeth Cynllunio mae’n ymddangos nad oes yna ganiatâd byw yn bodoli gan na gyflwynwyd y ‘materion a gadwyd yn nol’ ar gyfer derbyn ystyriaeth o fewn y cyfnod penodedig. |
| NMC398 | SNMC15 | Gwrthw ynebu/ Object | Ann Coxon (2940) | Cyngor Tref Ffestiniog | Mae'r tabl cyfeirnod gyda'r map yn hollol anghywir - enwau'r ardaloedd ddim yn cyd-fynd hefo'r map. | Nodi’r sylw - Mae’r Cynghorau yn cydnabod nad ydi’r cyfeirnodau yn y nodiant sydd ar y map yn Atodiad 3 o’r ddogfen ‘Newidiadau Materion sy’n Codi - Mapiau’ yn cyd-fynd hefo’r lleoliad ar y map. Mae’r cyfeirnodau ar gyfer y gwahanol ardaloedd sydd ar y map yn cyfateb i’r rhai yn Nhabl 24 yn yr eglurhad i Bolisi AMG 1. Roedd y map yma ar gyfer pwrpas rhoi darlun eglurhaol yn unig, h.y. i ddangos lleoliad yr ardaloedd sy’n cael eu symud o’r Map Cyfyngiadau i’r Map Cynigion. |

**ATODIAD 1**

# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Adnau Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd

# ARFARNIAD CYNALIADWYEDD ADRODDIAD ADENDWM

## Mawrth 2017

enfusion

**CYNNWYS** **TUDALEN**

| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **CYFLWYNIAD**<br>Diben a Strwythur yr Adroddiad | **1** |
| **2.0** | **AC O NEWIDIADAU PELLACH I'R CYNLLUN** | **2** |
| **3.0** | **CRYNODEB A'R CAMAU NESAF** | **2** |
| | **ATODIAD 1A**<br>AC o Newidiadau Pellach i'r Cynllun | |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Ar hyn o bryd, mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd (y Cynghorau) wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) ar gyfer Ardaloedd Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd y CDLl ar y Cyd yn egluro'r strategaeth ar gyfer datblygu a defnydd tir yn Ynys Môn a Gwynedd ar gyfer y cyfnod o 15 mlynedd rhwng 2011 a 2026. Bydd yn egluro'r polisïau i weithredu'r strategaeth ac yn darparu arweiniad ar leoliad tai, cyfleoedd cyflogaeth, a chyfleusterau hamdden a chymunedol newydd.

1.2 Mae'r Cynghorau wedi bod yn cynnal Arfarniad Cynaladwyedd (AC) gan ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ers 2011 sy'n trwytho'r gwaith o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Hyd yma, mae'r broses AC ar gyfer y CDLl ar y Cyd wedi cynhyrchu'r adroddiadau isod:

- **Adroddiad Sgopio Gorffennaf 2011** - y dylid ei ddefnyddio i ymgynghori ar sgopio'r AC/AAS - wedi'i roi ar ymgynghoriad cyhoeddus ar 21/07/2011 am gyfnod o 7 wythnos. Rhoddwyd hysbyseb mewn papurau newydd lleol yn cyflwyno gwybodaeth ynghylch y cyfnod ymgynghori a gwahoddwyd partïon â diddordeb i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig am yr Adroddiad.
- **Adroddiad Arfarniad Cynaladwyedd Drafft Cychwynnol Gorffennaf 2012** - roedd ar gael ar wefannau'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2012
- **Adroddiad Arfarniad Cynaladwyedd Cychwynnol Mai 2013** - Rhoddwyd yr adroddiad hwn ar ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffafrir am gyfnod o saith wythnos.
- **Adroddiad Arfarniad Cynaladwyedd Adnau Chwefror 2015** - Rhoddwyd yr adroddiad hwn ar ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau am gyfnod o saith wythnos.
- **Adroddiad Arfarniad Cynaladwyedd Adnau a Newidiadau â Ffocws Chwefror 2016 -** oedd yn cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau a Newidiadau â Ffocws ar y cyflwyniad i Lywodraeth Cymru.
- **Adroddiad Adendwm Cynaladwyedd Gorffennaf 2016** oedd yn ystyried addasiadau arfaethedig i'r CDLl ar y Cyd ar ôl ystyried ymatebion i'r Newidiadau â Ffocws ynghyd â gwaith pellach a gwblhawyd mewn perthynas ag opsiynau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, datblygiad ynni adnewyddadwy, ac ymateb i bryderon yr Arolygydd.
- **Arfarniad Cynaladwyedd o Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC)** oedd yn ystyried addasiadau arfaethedig i'r CDLl ar y Cyd sydd wedi dod i'r amlwg o ganlyniad i faterion a gododd yn ystod Sesiynau Gwrandawiad y CDLl.
- **Adroddiad AdendwmArfarniad Cynaladwyedd o Newidiadau Pellach 2017 (yr adroddiad hwn)** sy'n ystyried newidiadau pellach posib i'r Cynllun.

**Diben a Strwythur yr Adroddiad Adendwm AC hwn**

1.3 Diben yr Adroddiad Adendwm hwn yw egluro'r dull a chanfyddiadau'r gwaith AC pellach a gwblhawyd yng nghyswllt diwygiadau I'r Cynllun o ganlyniad I newidiadau pellach I'r Cynllun a adnabuwyd ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Newidiadau Materion a Godwyd. Yn dilyn yr adran ragarweiniol hon, trefnir yr adroddiad yn ddwy adran bellach:

- **Adran 2** - yn egluro'r dull ac yn amlinellu canfyddiadau gwaith AC pellach yng nghyswllt Newidiadau Materion sy'n Codi.
- **Adran 3** - yn amlinellu'r canfyddiadau cychwynnol cyffredinol a'r camau nesaf ar gyfer y CDLl ar y Cyd a'r AC.

## 2.0 AC O NEWIDIADAU MATERION SY'N CODI (NMC) ARFAETHEDIG

2.1 Yn ystod y broses archwiliad, cynigwyd nifer o ddiwygiadau I'r CDLl. Roedd y Newidiadau Marerion sy'n Codi (NMC) hynyn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Yn dilyn ystyriaeth o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynigwyd newidiadau posib pellach I'r Cynllun. Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu sgrinio drwy'r broses AC i benderfynu a ydynt yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith blaenorol yr AC a gyflwynwyd yn yr Adroddiad AC (Chwefror 2016) ac os oes angen mwy o waith arfarnu.

2.2 Felly, y cam cyntaf yn yr asesiad oedd sgrinio pob newid arfaethedig pellach i adnabod y rheiny allai gael effaith sylweddol ar y canfyddiadau terfynol sy'n deillio o weithredu'r Cynllun. Cynhyrchwyd tabl sgrinio i ystyried yr holl ddiwygiadau arfaethedig. Mae canfyddiadau'r gwaith sgrinio i'w weld yn Atodiad A o'r Adroddiad hwn.

## 3.0 CRYNODEB

3.1 Mae'r newidiadau arfaethedig posib yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar yr NMC wedi cael eu sgrinio drwy'r broses AC er mwyn canfu os ydynt yn effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r gwaith AC blaenorol. Mewn casgliad, nid yw'r newidiadau'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r gwaith AC blaenorol gan eu bod yn ceisio ychwanegu eglurder, neu'n ceisio sicrhau cysondeb a chywirdeb, yn ogystalâ cydymffirfiad â chanllawiau a datganiadau polisi cynllunio lefel uwch (cenedlaethol).

**ATODIAD 1A**

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| NMC022 | 3.7 – 3.9 | *Cyfeiriad at Ddeddf Cymru wedi ei gynnwys er mwyn sicrhau fod y Cynllun yn gyfoes*<br><br>**Deddf Cymru 2017**<br><br>**Cyflwynodd Deddf Cymru 2017, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017, newidiadau i weithrediad Deddf Cynllunio 2008 yng Nghymru. Mae Deddf Cynllunio 2008 yn darparu bod prosiectau a ddiffinnir fel Prosiectau Seilwaith o Bwysigrwydd Cenedlaethol, e.e. gorsaf pŵer niwclear Wylfa Newydd, angen proses gydsynio gwahanol wedi'i sefydlu, oherwydd eu pwysigrwydd posibl i'r DU. O dan y weithdrefn cydsynio ynni yn Neddf Cynllunio 2008, mae cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) yn cael ei archwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio, sydd wedyn yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae adran 43 o Ddeddf Cymru yn caniatáu cynnwys datblygu cyfeirir ato'n gyffredin fel "datblygu cysylltiedig" o fewn y cais ar gyfer DCO. Gellir disgrifio datblygiad cysylltiedig fel, er enghraifft, datblygiad sy'n cefnogi darparu a gweithredu Wylfa newydd a allai gynnwys gwaith fel gwelliannau priffyrdd, llety dros dro ar gyfer gweithwyr adeiladu, cyfleuster parcio a theithio, canolfan logisteg, ayb. Mae'n golygu y gallai datblygwyr ddewis i gynnwys y math yma o ddatblygiad o fewn y cais GCD neu wneud cais ar wahân i Awdurdodau Cynllunio Lleol.** | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC052 | 6.43 | *Diwygio er mwyn egluro'r sefyllfa o ran astudiaethau argaeledd tir yn ardal y Cynllun yn ystod 2015*<br><br>6.43 **Ar sail gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys Cyd Astudiaeth**~~au~~ **Tir ar gyfer Tai Gwynedd 2015 a'r Datganiad Monitro Tir ar gyfer Tai Ynys Môn 2015,** ~~mae~~ **gallai** oddeutu hanner y gofyniad cyffredinol ~~tir~~ ar gyfer tai ~~yn cael~~ **gael** ei ddiwallu o safleoedd tai sydd eisoes â budd caniatâd cynllunio arnynt o dan yr **hen** gynlluniau datblygu ~~presennol~~ neu o dan **hen** **Bolisïau Dros Dro** ~~ystyriaethau cynllunio materol eraill~~. Ceir mwy o fanylion am hyn yn Atodiad 5. ~~Caiff y diffyg ei gwrdd drwy hap-~~ | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | ~~safleoedd, adeiladau sydd eisoes yn bodoli a safleoedd newydd a ddewiswyd er mwyn cynnig hyblygrwydd a dewis. Ceir mwy o fanylion am hyn ym Mhennod 7.~~ | |
| NMC056 | Polisi PS 1 | ***Diwygio'r testun er mwyn symleiddio maen prawf 3a***<br><br>**"Wrthod cynigion a fyddai yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned nad allir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol trwy ddefnyddio mecanwaith cynllunio priodol** ~~i sicrhau mesurau lliniaru addas neu y gwneir cyfraniad i liniaru'r effeithiau hynny~~" | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC068 | Polisi TRA 1 | ***Diwygio'r testun i ychwanegu eglurder***<br><br>**(iii) A5025 Y Fali i Wylfa a gwelliannau eraill i isadeiledd trafnidiaeth yn gysylltiedig â datblygiad yn Wylfa Newydd, gan gynnwys gwelliannau o Amlwch i Wylfa Newydd lle mae'r galw am welliant ar y rhan hwnnw wedi cael ei adnabod yn dilyn asesiad ardrawiad priffyrdd o** ~~datblygu Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig ar gyfer~~ **Brosiect Wylfa Newydd ar yr A5025.** | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 070 | 7.1.41 | ***Diwygio'r testun i ychwanegu eglurder***<br><br>A5025 Y Fali i Wylfa Newydd / ~~Amlwch i Wylfa Newydd~~ a gwelliannau eraill i'r isadeiledd cludiant sy'n gysylltiedig â datblygiad niwclear newydd yn Wylfa Newydd **gan gynnwys gwelliannau o Amlwch i Wylfa Newydd lle mae'r galw am welliant ar y rhan hwnnw wedi cael ei adnabod yn dilyn datblygu asesiad ardrawiad priffyrdd o ddatblygiad** ~~Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig~~ **ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd ar yr A5025.** ~~gan gynnwys Canolfan Gorfforaethol sy'n angenrheidiol oherwydd~~ | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | ~~cynllun isadeiledd sylweddol~~. | |
| NMC083 | Polisi Newydd | ***Cynnwys geiriad gwahanol i symleiddio ail ran o'r Polisi***<br><br>~~Bydd rhaid i gynigion ar safleoedd du allan i'r Ffiniau Datblygu gydymffurfio gyda Pholisïau'r Cynllun yma a pholisïau cynllunio cenedlaethol, ac, os nad oes cefnogaeth benodol ynddynt ar gyfer y datblygiad arfaethedig yng nghefn gwlad, bydd rhaid i'r cynnig ddangos bod lleoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol ar gyfer y datblygiad.~~<br><br>**Tu allan i ffiniau datblygu bydd cynigion yn cael eu gwrthod oni bai ei fod yn unol â pholisïau penodol yn y Cynllun hwn a pholisïau cynllunio cenedlaethol.** | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 087 | Polisi PCYFF 1 | ***Diwygio i wneud gwelliant gramadegol (Saesneg yn unig)***<br><br>Proposals should:<br>4. ~~Should~~ make the most efficient…<br>5. ~~Must~~ provide appropriate amenity space…<br>6. ~~Should~~ have regard to the generation…<br>7. Include~~s,~~ where applicable, provision… | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 090 | Polisi PCYFF 4 | ***Diwygio'r trothwy sy'n sbarduno'r angen am Asesiad Ynni ar gyfer datblygiad dibreswyl***<br><br>**"Bydd yn ofynnol i ddatblygiad preswyl ar safleoedd ar gyfer 100 o unedau tai neu fwy a datblygiad dibreswyl o ~~100~~ 1,000 metr sgwâr neu fwy …..".** | Diwygiad bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| NMC 101 | Polisi ADN 1 | ***Diwygio maen prawf (vii) i egluro bod angen cytuno ar gynllun ôl-ofal ac adferiad gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol***<br><br>**(vii) ar ddiwedd oes gweithredol y cyfleuster, bydd tyrbinau gwynt ac isadeiledd cysylltiedig yn cael eu tynnu i lawr yn unol â chynllun adfer y tir ac ol-ofal a gyflwynir i a'i gytuno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol** ~~chytunir ar gynllun adfer tir ac ôl-ofal priodol~~**.** | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 115 | Polisi ADN 2 | ***Diwygio maen prawf (vii) i egluro bod angen cytuno ar gynllun ôl-ofal ac adferiad gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol***<br><br>**(7) lle bo angen, bydd y cyfarpar ac isadeiledd cysylltiedig yn cael eu tynnu oddi ar y safle yn unol â chynllun adfer y tir ac ol-ofal a gyflwynir a'i gytuno gan yr ~~i'r~~ Awdurdod Cynllunio Lleol** | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| | 7.3.4 | ***Diwygio'r testun eglurhaol i adlewyrchu'r newidiadau i'r broses gwneud penderfyniadau o ran Prosiect Wylfa Newydd a Phrosiect Cysywllt Gogledd Cymru***<br><br>Ar gyfer cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu, rôl ddewisol ar y cyfan fydd gan awdurdod lleol o dan y Ddeddf Gynllunio 2008 **(fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017)**, ond fe fyddant yn cael eu gwahodd i asesu pa mor ddigonol yw'r ymgynghori a'r effeithiau lleol ac adrodd ar y rhain ~~wrth yr Arolygiaeth Gynllunio~~ mewn Adroddiad Ardrawiad Lleol. Yn yr un modd, bydd yn bosibl i geisiadau gael eu gwneud i gyrff statudol eraill. ~~Yng Nghymru,~~ Yr awdurdodau cynllunio lleol yw'r awdurdodau penderfynu ar gyfer ~~unrhyw~~ **ambell** ddatblygiad yn gysylltiedig gyda'r cais Gorchymyn Rheoli Datblygiad ~~er enghraifft, llefydd byw i weithwyr adeiladu~~. | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| NMC 127 | 7.3.5 | ***Diwygio'r testun eglurhaol i adlewyrchu'r newidiadau i'r broses gwneud penderfyniadau o ran Prosiect Wylfa Newydd a'r Prosiect Cysylltiadau Gogledd Cymru***<br><br>Gall graddfa ac ardrawiad Prosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol **a datblygiadau cysylltiedig** gael eu lliniaru drwy becynnau priodol o amodau caniatâd cynllunio, cytundebau cynllunio neu briffyrdd, **gofynion GCD,** a derbyniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (os gweithredir atodlen codi tâl ASC). | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 128 | 7.3.6 | ***Newid bychan i wella eglurder***<br><br>Yn ogystal, ~~mae'n bosibl y bydd yn ofynnol gan~~ y Cynghorau yn **annog datblygwyr i ystyried** ~~i'r datblygwr~~ darparu pecynnau o fuddiannau cymunedol er mwyn cael eu gosod yn erbyn a digolledu'r gymuned am y baich o fod yn lleoliad i'r prosiect. Bydd unrhyw ~~gronfa~~ **becynnau** o'r fath yn cael eu defnyddio i roi yn erbyn y baich ar yr ardal, ac yn enwi ffyrdd etifeddiaeth posibl o'i ddefnyddio, yn cynnwys isadeiledd cludiant, cymdeithasol, economaidd a chymunedol fyddai o fudd i'r gymuned yn y tymor hir. | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| | 7.3.10 | ***Newid bychan i wella eglurder***<br><br>viii wrth benderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth yn dilyn y caniatâd (yn cynnwys amodau caniatâd cynllunio **a gofynion GCD**), ac wrth gyflawni swyddogaethau fel yr awdurdod gorfodi. | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 130 | Polisi PS 8 | ***Diwygio'r testun eglurhaol i adlewyrchu'r newidiadau i'r broses gwneud penderfyniadau o ran Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru*** | Diwygiad bach i ychwanegu |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | **POLISI STRATEGOL PS 8: CYNIGION AM BROSIECTAU ISADEILEDD O BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG**<br><br>**Yn eu rôl fel yr awdurdodau sy'n rhoi caniatâd i ddatblygiad cysylltiol neu fel rhywun sy'n cael ei ymgynghori am geisiadau i gyrff eraill, o fewn cyd-destun datganiadau polisi cenedlaethol a pholisi cynllunio cenedlaethol, bydd y Cynghorau'n anelu i sicrhau y bydd datblygiad yn gwneud cyfraniad positif i wireddu'r weledigaeth, amcanion strategol a strategaeth datblygu a welir yn y Cynllun. Rhoddir ystyriaeth i natur, graddfa, ystod ac ardrawiad posib unrhyw ddatblygiad wrth wneud hynny.**<br><br>**Bydd y Cynghorau felly'n amcanu i sicrhau cydymffurfiaeth, fel ~~mae'n briodol neu~~ berthnasol, gyda'r meini prawf canlynol:** | eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 131 | 7.3.12 | ***Diwygio'r testun eglurhaol i adlewyrchu'r newidiadau i'r broses gwneud penderfyniadau o ran Prosiect Wylfa Newydd (Saesneg yn unig)***<br><br>**WYLFA NEWYDD AND ~~ASSOCIATED~~ <u>RELATED</u> DEVELOPMENT**<br><br>**INTRODUCTION**<br><br>Through the Anglesey Energy Island Programme, the Councils' Strategic/ Corporate Plans and the Anglesey and Gwynedd Single Integrated Plan, the Councils and their partners acknowledge the likely significant economic opportunities deriving from the Wylfa Newydd Project. ~~Chapter 3 of the Plan provides a link to the New Nuclear Build at Wylfa Supplementary Planning Guidance, which sets out the Isle of Anglesey County Council's supplementary advice on important local direct or~~ | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | ~~indirect matters in relation to this Project and its response to national and local policy and strategies in the context of the vision in relation to this Project.~~ This section of the Plan deals with the proposed Wylfa Newydd Project, including developments that are **related** ~~associated~~ with it where either the Isle of Anglesey County Council or Gwynedd Council is the determining planning authority on planning applications. | |
| NMC 132 | 7.3.13 | ***Diwygio'r testun eglurhaol i adlewyrchu'r newidiadau i'r broses gwneud penderfyniadau o ran Prosiect Wylfa Newydd***<br><br>Er nad y Cynghorau yw'r awdurdodau i roi caniatâd ar gyfer y Gorchymyn Caniatâd Datblygu Prosiect Wylfa Newydd, maent yn credu ei bod hi'n bwysig egluro'r ymagwedd a fyddant yn cymryd yn eu rôl fel awdurdodau cynllunio pan fyddant yn derbyn ymgynghoriad am y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu. Fe fyddant hefyd yn sicrhau bod datblygiadau cysylltiedig **sy'n destun cais ar gyfer caniatâd gan y Cynghorau** yn cyd-fynd â strategaeth a pholisïau perthnasol y Cynllun. **Mae gweledigaeth Cyngor Sir Ynys Môn (fel yr awdurdod sy'n rhoi lle i'r datblygiad) ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd i'w weld ym Mhennod 5 o'r Cynllun hwn, ac mae o wedi hysbysu Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun.** **Disgwylir i'r Prosiect gyfrannu i Weledigaeth y Cynllun trwy:**<br>• **gyfrannu i wireddu Rhaglen Ynys Ynni Môn a Pharth Menter Môn**<br>• **gyrru trawsnewid yr economi, uchafu cyfleoedd ar gyfer yr economi a gwella sgiliau pobl leol;**<br>• **cynnal a chryfhau ansawdd bywyd cymunedau lleol ac ymwelwyr;**<br>• **gwarchod a chryfhau hunaniaeth ardal y Cynllun;**<br>• **gwarchod, neu le'n briodol, gwella amgylchedd ac adnoddau unigryw ardal y Cynllun, gan roi sylw i newid hinsawdd.** | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | | |
| NMC 133 | 7.3.14 | ***Newid y testun eglurhaol i adlewyrchu newidiadau yn y broses gwneud penderfyniad yn gysylltiedig â Wylfa Newydd***<br><br>Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol **Diwygiedig** Adeiladu Niwclear Newydd yn Wylfa yn nodi cyngor atodol Cyngor Sir Ynys Môn ar faterion lleol uniongyrchol neu anuniongyrchol bwysig mewn perthynas â Phrosiect **Wylfa Newydd** ac ymateb i strategaethau a pholisïau cenedlaethol a lleol yng nghyd-destun y Prosiect ac yn ystyriaeth faterol bwysig wrth asesu ceisiadau cynllunio yn gysylltiedig â **datblygiadau cysylltiedig arfaethedig ynghlwm a** Phrosiect **Wylfa Newydd**. **Ar y cyd efo pholisïau'r Cynllun,** bydd y CCA Adeiladu **Gorsaf** Niwclear Newydd Wylfa **ddiwygiedig** yn cynorthwyo'r Cyngor Sir i:<br><br>• **roi arweiniad manwl am ddatblygiad sydd â chysylltiad efo'r Prosiect e.e. llety gweithwyr adeiladu**<br>• wneud penderfyniadau cadarn ar ~~bob gwaith galluogi a~~ cheisiadau cynllunio datblygu cysylltiedig<br>• sicrhau bod effeithiau posibl yr Adeilad Niwclear Newydd a'i ddatblygiadau cysylltiedig yn cael eu nodi a'u lliniaru lle bo'n bosibl<br>• sicrhau bod y manteision economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer yn cael eu gwireddu'n llawn. | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 134 | 7.3.15a | ***Ail –leoli testun i wella eglurder***<br><br>~~Disgwylir i'r Prosiect gyfrannu i Weledigaeth y Cynllun trwy:~~<br><br>• ~~gyfrannu i wireddu Rhaglen Ynys Ynni Mon a Pharth Menter Mon~~<br>• ~~gyrru trawsnewid yr economi, uchafu cyfleoedd ar gyfer yr economi a gwella sgiliau pobl leol;~~<br>• ~~cynnal a chryfhau ansawdd bywyd cymunedau lleol ac ymwelwyr;~~ | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | • ~~gwarchod a chryfhau hunaniaeth ardal y Cynllun;~~<br>• ~~gwarchod, neu le'n briodol, gwella amgylchedd ac adnoddau unigryw ardal y Cynllun, gan roi sylw i newid hinsawdd.~~ | |
| NMC 136 | 7.3.17 | ***Dileu'r cyfeiriad at Bolisi TAI3 o'r paragraff er mwyn egluro ei swyddogaeth***<br><br>Gallai mesurau lliniaru effaith y prosiect gael eu huchafu pe fyddai'r datblygiad yn cael ei leoli yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun, a welir ym Mhennod 6, **Polisi PS 9, y polisïau penodol a welir yn PS 9A – 9C,** a pholisïau perthnasol y Cynllun **(gan gynnwys ~~Polisi TAI 3,~~ Polisi TAI 8 a Pholisi PS 1)**, yn dibynnu ar y math o ddefnydd **a'i raddfa**, er mwyn bod yn gyson ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy. | Diwygiad bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 137 | 7.3.17a | ***Adleoli'r frawddeg i'r paragraff i ychwanegu eglurder***<br><br>**Dylai cynigion am ~~ofynion~~ lety gweithwyr adeiladu leihau'r effaith ar y farchnad dai lleol (gan gynnwys gallu'r rhai ar incwm isel i gael mynediad at y sector rhentu preifat, tai fforddiadwy a gwasanaethau tai eraill), a'r sector twristiaeth.** ~~Dylai'r gweithlu adeiladu gael llety drwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys y stoc bresennol o dai (i'w prynu neu rentu), llety gwyliau a llety parhaol pwrpasol newydd neu fodiwlaidd a ddarperir gan Horizon neu drwy drydydd parti. Lle y bo'n briodol,~~ **Mae'r Cynghorau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prosiect ddarparu budd etifeddiaeth i gymunedau lleol yn ystod cyfnod y Cynllun neu y tu hwnt i'r cyfnod adeiladu. Cafodd strategaeth llety gweithwyr adeiladu drafft ei baratoi a bydd yn cael ei gwblhau gan roi ystyriaeth i Strategaeth Ofodol y Cynllun a pholisïau perthnasol yn y Cynllun, gan gynnwys cyfres o bolisïau sy'n rhoi arweiniad pellach ar reoli datblygiadau sydd â chysylltiad efo'r Prosiect ~~Cysylltiedig~~.** | Diwygiad bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 138 | 7.3.17b – | ***Cynnwys testun ychwanegol i egluro sefyllfa'r Cyngor o ran llety ar gyfer y gweithlu adeiladu*** | Diwygiad bach i |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | 7.3.18b | **Dylai'r gweithlu adeiladu gael llety drwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys y stoc bresennol o dai (i'w prynu neu rentu), llety gwyliau a llety parhaol pwrpasol newydd neu fodiwlaidd a ddarperir gan Horizon neu drwy drydydd parti. Ni ddylai defnydd o'r fath fodd bynnag arwain at ardrawiad annerbyniol ar argaeledd tai (hunan berchnogaeth a rhentu'n breifat) neu ar argaeledd llety ymwelwyr. Fe ddylai'r ardrawiadau fod yn dderbyniol. Mae twristiaeth yn sector economaidd pwysig ac mae angen iddo gael ystyriaeth ac asesiad penodol wrth gwblhau'r strategaeth llety gweithwyr.**<br><br>**Yn nhermau lleoliad,** ~~safbwynt y Cyngorau yw y~~ dylid lleoli llety ar gyfer y gweithwyr adeiladu dros dro cyn belled ag sy'n bosib o fewn, ~~neu~~ wrth ymyl, **neu** ~~yn agos at~~ **â pherthynas dda gyda** ffiniau datblygu Canolfannau a Phentrefi Gwasanaeth enwir yng Nghoeden Aneddleoedd y Cynllun **(dibynnu ar raddfa'r datblygiad)**, **ac** mewn lleoliadau sydd â chysylltiad da a'r prif lwybrau teithio a dulliau theithio, yn arbennig y rheilffordd. Fe ddylent hefyd gyfrannu i raglenni adfywio cynaliadwy a chefnogi bywiogrwydd a hyfywdra canol trefi. **Defnyddir y meini prawf canlynol i asesu os ydi safle arfaethedig efo perthynas dda gyda ffin datblygu:**<br><br>• **pellter corfforol / graddau'r gwahaniad gyda phellter a gwahaniad cynyddol yn llai ffafriol; a**<br><br>• **lleoliad y safle o ran cyfleusterau, gwasanaethau ac asedau cynaliadwyedd eraill (megis darparu gweithgareddau hamdden, cyfleoedd cyflogaeth, ac ati) yn y Ganolfan / Pentref Gwasanaeth; a**<br><br>• **hygyrchedd i'r Ganolfan / Pentref Gwasanaeth (yn bennaf gan ddulliau trafnidiaeth heblaw'r car) a'r gallu i wella ar hynny; ac** | ychwanegu eglurder nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC.<br><br>Bydd yr eglurder a ddarperir gydag ychwanegiad y meini prawf ar gyfer asesu perthynas safle â'r ffin datblygu yn cadarnhau fod mesurau lliniaru mewn lle i liniaru effeithiau negyddol. Ar y cyfan, dim effaith arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | • effeithiau gweledol a gallu i integreiddio datblygiad y dirwedd a threflun.<br><br>Mae paragraff 7.3.17b A yn cyfeirio at y gwahanol fathau o lety. O ystyried maint y nifer disgwyliedig o weithwyr adeiladu sy'n ofynnol yn ystod y cyfnod adeiladu, ystyrir bod datblygiadau modiwlaidd yn rhan o'r cyflenwad o lety ond nid hwn fydd y dewis cyntaf ac eithrio'r ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer gweithwyr hanfodol ar y prif safle Prosiect Wylfa Newydd. Byddai darparu rhai llety modwlar mewn adeiladau dros dro ar safle Prosiect Wylfa Newydd yn dderbyniol pryd y caiff ei gefnogi gan lefel briodol o gyfleusterau cymunedol a pryd gellir dangos bod effaith trafnidiaeth (gan gynnwys mynediad gweithwyr a pharcio) yn dderbyniol. Mae Polisi PS 9 a Pholisi 9A yn nodi'r gofynion ar gyfer llety modiwlar o'r fath sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd.<br><br>Fe ddylai Mae'n rhaid i hyrwyddwr y prosiect ystyried ailddefnyddio ddangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth lawn i ail-ddefnyddio adeiladau presennol lle'n ymarferol i wneud hynny a/ neu ddarparu adeiladau parhaol sydd yn gallu cael eu haddasu ar gyfer defnydd parhaol ar ôl cael eu defnyddio gan weithwyr adeiladu ynghyd a defnydd cymesur o dai sector breifat cyn argymell llety modwlar mewn adeiladau dros dro a fyddai'n cael eu tynnu i lawr ar ddiwedd y defnydd dros dro. Dylai'r hyrwyddwyr prosiect hefyd ddangos sut y maent wedi ymgysylltu â, ac wedi ceisio defnyddio unrhyw gyfleusterau sydd wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer llety gweithwyr niwclear cyn iddynt wneud cais am unrhyw ganiatâd pellach. | |
| NMC 139 | 7.3.18c – 7.3.18ch | *Cynnwys testun ychwanegol i egluro sefyllfa'r Cyngor o ran llety ar gyfer y gweithlu adeiladu*<br><br>Dylai unrhyw lety modiwlaidd a ddarperir y tu allan i safle Prosiect Wylfa Newydd ddarparu defnydd gwaddol cynaliadwy ar gyfer yr adeiladau neu'r safle a dangos sut y sicrheir yr | Diwygiad bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | etifeddiaeth honno. Bydd y Cynghorau hefyd yn ystyried y dylid edrych ar y posibilrwydd o ailddefnyddio safleoedd ac adeiladau a ddefnyddir yn y lle cyntaf ar gyfer llety gweithwyr neu unrhyw ddefnydd tir arall dros dro adeg cynllunio a dylunio'r cynllun, e.e. trwy osod y safle allan o'r cychwyn fel ei fod yn gallu cael ei ddefnyddio eto, adeiladu adeiladau parhaol sy'n gallu cael eu haddasu i ddefnydd amgen priodol. Bydd rhaid i ddefnydd etifeddiaeth arfaethedig **briodol** gydymffurfio â'r polisïau perthnasol yn y Cynllun hwn. Mae defnyddiau etifeddiaeth posib yn cynnwys lleiniau wedi eu gwasanaethu ar gyfer tai fforddiadwy, llety ar gyfer yr henoed neu anghenion arbennig, llety myfyrwyr, swyddfeydd neu westai neu adeiladau a ellir eu haddasu i ddibenion tebyg, **lleiniau wedi eu gwasanaethu ar gyfer defnydd tebyg neu ddefnyddiau cyflogaeth gysylltiedig**. **Fe ddylai etifeddiaeth defnydd preswyl parhaol gael ei ddylanwadu gan yr Asesiad Marchnad Tai Lleol a gyhoeddwyd er mwyn sicrhau bod y math o unedau tai sydd eu hangen i gyfarch angen lleol yn cael eu hymgorffori yn y cynnig ar y cam dylunio.** Os yw'r hyrwyddwr y prosiect a'r Cyngor yn cytuno **dangosir hyd fodd y Cyngor** nad yw defnydd ôl- ddatblygu'n ymarferol, rhaid cael gwared â'r adeiladau neu strwythurau dros dro a'r tir gael ei ddychwelyd i'w gyflwr blaenorol hyd fodlondeb yr Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn cyfnod penodol a fyddai'n cael ei reoli trwy amod cynllunio. **Mewn achosion o'r math yma bydd angen buddion gwaddol oddi ar y safle er mwyn gwneud yn iawn am ddiffyg etifeddiaeth ar y safle ac fe ddylid ei gynnwys o fewn y cynnig.** Mae Polisi PS 9A yn rhoi meini prawf ar gyfer llety dros dro ar gyfer gweithwyr adeiladu dros 500 o wlâu. Mae Polisi TAI3 yn gosod yr arweiniad polisi ar gyfer llety dros dro ar gyfer gweithwyr adeiladu hyd at 500 o wlâu, ac mae Polisi TAI8 yn gosod allan yr arweiniad polisi mewn perthynas â defnydd anheddol o lety gwyliau gan weithwyr adeiladu dros dro.<br><br>**Er mwyn lliniaru effeithiau Prosiect Wylfa Newydd ar y farchnad dai ac i helpu i gydlynu y defnydd gorau o bob math o lety, bydd yn ofynnol disgwylir i weithwyr adeiladu ddefnyddio gwasanaethau a ddarperir gan Borth Rheoli Llety Gweithwyr Adeiladu, sef yr enw cyfredol am y gwasanaeth. Bydd y Porth yma yn cynnwys cofrestr o ystafelloedd neu eiddo a fydd ar gael i'w rhentu, a bydd angen i'r ymgeisydd gynnig a sicrhau dulliau lle bydd rhaid i weithwyr neu anogir nhw i drefnu eu llety trwy'r Porth. Caiff y Porth ei ddefnyddio hefyd i gadw golw ar nifer sy'n derbyn llety a darparu** | |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | toriad fesul sector ac yn ofodol. Caiff y wybodaeth yma ei rannu efo'r Cynghorau yn unol a'r strategaeth llety gweithwyr er mwyn caniatau i'r Cynghorau a'r ymgeisydd i fonitro effeithiau ar sectorau a lleoliadau ac ymateb yn briodol pan na fydd rheini yn cyd-fynd efo'r ardrawiadau a ragwelwyd. | |
| NMC 141 | Polisi PS 9 | *Diwygio geiriad ar gychwyn y Polisi a meini prawf 4, 5, 6, 7, 10, 11 i ychwanegu eglurder*<br><br>**POLISI STRATEGOL PS 9: WYLFA NEWYDD A DATBLYGIAD SY'N GYSYLLTIEDIG ~~Â PHROSIECT WYLFA NEWYDD~~**<br><br>**Yn ei rôl naill ai fel yr awdurdodau yn penderfynu ar gyfer datblygiad cysylltiedig, neu fel un i ymgynghori ar gyfer ceisiadau GCD, ceisiadau i gyrff eraill, ac o fewn darpariaethau polisi cenedlaethol, bydd y Cynghorau, wrth asesu ac ymateb i gynigion sy'n dod yn amlwg ar gyfer Wylfa Newydd** a~~'i~~ **datblygiadau cysylltiedig, fe fydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth, lle bo'n** ~~briodol neu'n~~ **berthnasol, gyda'r meini prawf canlynol:**<br><br>**4. Bydd gwaith cynnar neu baratoi ar gyfer datblygiad yr orsaf pŵer niwclear yn dangos eu bod yn angenrheidiol i sicrhau y cyflawnir Prosiect Wylfa Newydd yn amserol ~~neu~~ ac wedi'u cynllunio i ddarparu mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau adeiladu neu weithrediad Prosiect Wylfa Newydd. Rhaid unrhyw waith paratoi neu gynnar gael strategaeth i alluogi'r safleoedd i gael eu hadfer i safon dderbyniol pe na fyddai'r Prosiect yn derbyn caniatâd neu gael ei adeiladu a dangos sut y sicrheir y costau o gynnal gwaith adfer o'r fath, gan gynnwys drwy fondio.**<br>**5. Dylai gofynion am lety gweithwyr adeiladu gael eu hateb mewn ffordd sy'n lleihau gymaint ag y bo modd yr effaith ar y farchnad dai lleol, yn cynnwys gallu rhai ar incwm isel i gael mynediad i'r sector rhentu preifat, tai fforddiadwy neu wasanaethau tai eraill, gan roi sylw i'r** | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | Asesiad Marchnad Tai Lleol a gyhoeddwyd, ~~neu~~ ac na fydd yn arwain at effeithiau economaidd (gan gynnwys y sector twristiaeth), cymdeithasol ieithyddol neu amgylcheddol niweidiol. Dylai cynigion ffurfio rhan o strategaeth gadarn ar gyfer llety gweithwyr adeiladu a fydd yn talu sylw i Strategaeth Ofodol y Cynllun ac unrhyw bolisïau perthnasol yn y Cynllun, gan gynnwys Polisi PS 9A~~, Polisi TAI 3~~; ~~a~~<br>6. Pan fydd y cynigion am gyfnod dros dro fe ddylai dewis y safle a manylion y cynnig ~~Wrth ystyried lleoliad a dyluniad datblygiadau cysylltiol, dylid rhoi~~ roi ystyriaeth i'r etifeddiaeth a fyddai'n deillio ohonynt fel bod buddsoddi mewn elfennau fel isadeiledd, adeiladau, gwaith ecolegol a thirlun yn dod â buddion tymor hir yn ystod y cyfnod ôl adeiladu. ~~Lle bo'n briodol,~~ Bydd angen ~~dylai~~ cynlluniau darparu gyda'r cais cynllunio i ddangos sut roddwyd sylw i ddefnydd ~~ar gyfer ffyrdd~~ etifeddiaeth ~~o ddefnyddio cael eu cytuno yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais, a'r cynlluniau hynny ddarparu gwybodaeth ar gyfer y ffordd o weithredu tuag at~~ ddylanwadu dyluniad a chynllun y safleoedd datblygu cysylltiedig, yn ogystal â chyfrannu i fframio cytundeb Adran 106 a/neu gytundebau eraill a thaliadau Ardoll Isadeiledd Cymunedol (os yn gymwys); ~~a~~<br>7. Bydd cynigion am ddatblygiad cysylltiedig ar gyfer llety gweithwyr steil campws graddfa fawr ~~(500 neu fwy o wlâu)~~, canolfannau logisteg, cyfleusterau parcio a theithio yn cael eu hasesu yn erbyn polisïau PS 9A – 9C hefyd;<br><br>10 Bydd angen i'r hyrwyddwr drafod yn fuan efo'r Cyngor ynglŷn â strategaethau caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a phenodi, gyda'r nod i uchafu cyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer cymunedau lleol yn y tymor byr a thymor hirach. ~~Dylai'r Cyngor gytuno yn gynnar yn ystod datblygiad y prosiect ar ddarparu strategaethau a chynlluniau darparu ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio, gyda'r amcan o gael gymaint ag y bo modd o gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer y cymunedau lleol, yn y tymor byr a'r tymor hirach.~~ Bydd angen i ~~Dylai'r Cyngor gytuno yn gynnar yn ystod datblygiad y prosiect ar ddarparu~~ strategaethau a chynlluniau darparu'r hyrwyddwr ar gyfer caffael, cyflogaeth, | |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | addysg, hyfforddiant a recriwtio, gael eu gytuno gan y cyflwyno i'r Cyngor fel rhan o gais cynllunio; gyda'r amcan o gael gymaint ag y bo modd o gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer y cymunedau lleol, yn y tymor byr a'r tymor hirach; a<br>11 Lle bydd Bod isadeiledd cymunedol yn cael ei ddarparu ar gyfer gweithwyr adeiladu, er enghraifft cyfleusterau parcio a theithio, parcio a rhannu, siopau, gofal iechyd a chwaraeon a hamdden, lle bo'n ymarferol dylai'r rheiny gael eu lleoli a'u dylunio fel eu bod ar gael i'r gymuned eu defnyddio yn ystod y cyfnod adeiladu ac, ymhen amser, lle bo'n briodol, i wasanaethau defnydd etifeddiaeth. Lle bydd ardrawiadau neu alwadau ychwanegol yn digwydd ar gyfleusterau cymunedol sy'n bodoli'n barod, bydd y Cyngor yn ceisio cael naill ai cyfraniadau priodol ar gyfer cyfleusterau oddi ar y safle neu am uwchraddio cyfleusterau presennol. Dylid ystyried defnydd etifeddiaeth o unrhyw gyfleusterau ychwanegol a ddarperir ble bo hynny'n briodol; a | |
| NMC 143 | Polisi PS 9A | *Diwygio'r Polisi i adlewyrchu'r fframwaith gwneud penderfyniadau ac i ychwanegu eglurder i sefyllfa'r Cynghorau o ran llety i'r gweithlu adeiladu.*<br><br>IS BOLISI NEWYDD PS9 A - WYLFA NEWYDD – LLETY DROS DRO GRADDFA FAWR STEIL CAMPWS AR GYFER GWEITHWYR ADEILADU<br><br>Yn ei rôl naill ai fel awdurdodau yn penderfynu ar gyfer datblygiad cysylltiedig neu fel un i ymgynghori ar gyfer cais GCD ar gyfer Wylfa Newydd, bydd y Cynghorau yn anelu i sicrhau bod Caniateir cynigion am lety dros dro graddfa fawr steil campws i weithwyr adeiladu yn rhoi ystyriaeth i neu gydymffurfio gyda o fwy na 500 o wlâu dim ond, yn ogystal â chydymffurfio gyda Pholisi PS 9 (lle'n berthnasol), ac i'r | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder a chywirdeb, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | meini prawf canlynol:<br><br>1. Bod y datblygwr yn dangos yn gyntaf bod y cynnig yn diwallu angen a brofir am lety dros dro i weithwyr adeiladu nad allir ei ddiwallu trwy un ai lety preswyl presennol, neu ail-ddefnyddio adeiladau presennol, neu trwy ddarparu adeiladau parhaol a fyddai'n gallu cael eu haddasu i ddefnydd parhaol ar ôl iddynt gael eu defnyddio gan weithwyr adeiladu; a<br><br>2. lleolir y cynnig ar safle Prosiect Wylfa Newydd neu safle sy'n gyfagos neu sydd â pherthynas dda gyda ~~yn agos at~~ ffin datblygu Caergybi, Amlwch, Llangefni, Gaerwen neu Y Fali ~~Canolfan a nodwyd o fewn y Goeden Aneddleoedd yn y Cynllun~~, ac mae'n agos at y prif rwydwaith priffyrdd lle y gellir darparu mynediad digonol heb niwed sylweddol i gymeriad a nodweddion tirwedd; neu<br><br>~~3. mewn amgylchiadau eithriadol, bod y safle wedi ei leoli yng nghefn gwlad agored, ar yr amod y gall yr ymgeisydd ddangos nad oes unrhyw safle ar gael sy'n bodloni'r meini prawf a nodir ym maen prawf 1 ar gyfer y defnydd arfaethedig a bod yna angen hanfodol a phrofedig am y swm a'r math o lety ar gyfer gweithwyr dros dro; ac~~<br><br>4. rhaid i'r cynnig gynnwys mecanweithiau priodol i liniaru unrhyw effeithiau anffafriol y datblygiad arfaethedig ar yr iaith Gymraeg a diwylliant neu gwneir cyfraniad tuag at liniaru effeithiau hynny yn unol â Pholisi PS 1 a Pholisi ISA; ac<br><br>5. lle nad oes digon o gapasiti o fewn cyfleusterau hamdden, manwerthu a chyfleusterau gofal iechyd presennol oddi ar y safle i ddiwallu anghenion feddianwyr y safle neu le nad oes cyfleusterau o'r fath o fewn pellter derbyniol sy'n hwyluso mynediad iddynt ar droed neu feicio, rhaid i'r cynnig gynnwys mecanweithiau priodol i liniaru effeithiau negyddol a allai gynnwys darparu cyfleusterau ategol ar y safle ar gyfer defnydd y meddianwyr; ac<br><br>6. bydd yn ofynnol i weithredwyr gadw gwybodaeth am feddiannaeth yr unedau, gan gynnwys | |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | nifer o weithwyr adeiladu sy'n cael llety, hyd yr arhosiad, a chadw cofnod o ddata dienw o'r gweithwyr a fydd yn derbyn llety ~~cofrestr o'r holl weithwyr sy'n byw yn y llety~~ a gwneud y wybodaeth yma ~~gofrestr hon~~ ar gael ar unwaith, ar gais, i'r Cyngor. | |
| NMC 144 | Polisi PS 9B | *Diwygio'r polisi i adlewyrchu'r fframwaith gwneud penderfyniadau newydd*<br><br>IS BOLISI NEWYDD PS9 B - WYLFA NEWYDD – CANOLFANNAU LOGISTEG<br><br>Yn ei rol naill ai fel awdurdodau yn penderfynu ar gyfer datblygiad cysylltiedig neu fel un i ymgynghori ar gyfer cais GCD ar gyfer Wylfa Newydd, bydd y Cynghorau yn anelu i sicrhau bod ~~Caniateir~~ cynigion ar gyfer canolfannau logisteg sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd a'i gadwyn gyflenwi yn rhoi ystyriaeth i neu yn cydymffurfio ~~lle, yn ogystal â chydymffurfio~~ gyda Pholisi PS9 (lle'n berthnasol) a gyda'r meini prawf canlynol~~, gallir dangos fod~~:<br><br>1. bod y safle wedi ei leoli:<br><br>i. ar safle cyflogaeth sy'n cael ei warchod neu ei ddynodi; neu<br><br>ii. o fewn ffiniau datblygu Canolfannau a restrir yng Nghoeden Aneddleoedd y Cynllun; neu<br><br>iii. mewn lleoliadau eraill ger ffiniau datblygu Canolfannau sydd wedi eu lleoli ar hyd neu'n agos at ~~goridor~~ yr A5/ A55 lle mae'r ymgeisydd wedi dangos rhoddwyd ystyriaeth i ddechrau i safleoedd ym meini prawf i a ii a'u bod nhw wedi cael eu rhoi o'r neilltu am resymau cynllunio ac amgylcheddol ac y gallir lleihau a lliniaru ardrawiadau'r datblygiad yng nghefn gwlad yn | Diwygiadau bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | foddhaol.<br><br>2. Bod y cynigion yn cynnwys trefniadau trafnidiaeth gynaliadwy i staff gan gynnwys cysylltiadau i gludiant cyhoeddus. | |
| NMC 144 | Polisi PS 9C | *Diwygio'r polisi i adlewyrchu'r fframwaith gwneud penderfyniadau newydd*<br><br>IS BOLISI NEWYDD PS9 C – ~~DATBLYGIAD CYSYLLTIEDIG~~ WYLFA NEWYDD – CYFLEUSTERAU PARCIO A THEITHIO.<br><br>Yn ei rol naill ai fel awdurdodau yn penderfynu ar gyfer datblygiad cysylltiedig neu fel un i ymgynghori ar gyfer cais GCD ar gyfer Wylfa Newydd, bydd y Cynghorau yn anelu i sicrhau bod Caniateir cynigion ar gyfer cyfleusterau parcio a theithio a pharcio a rhannu yn gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd a'i gadwyn cyflenwi yn rhoi ystyriaeth i neu ~~lle, yn ogystal â~~ gydymffurfio gyda Pholisi PS9 (lle'n berthnasol) a gyda'r meini prawf canlynol ~~gallir dangos fod~~:<br><br>1. Er mwyn lleihau'r angen i weithwyr adeiladu a gweithwyr sy'n gwasanaethu'r cyfleuster i deithio gyda char preifat, bod y safle wedi ei leoli:<br><br>i. o fewn neu wrth ymyl ffiniau datblygu Canolfannau sydd wedi eu lleoli ar hyd neu'n agos at ~~goridor~~ yr A5/ A55; neu<br><br>ii. mewn lleoliadau eraill sydd ar hyd neu'n agos at ~~goridor~~ yr A5/ A55 lle mae'r ymgeisydd wedi dangos rhoddwyd ystyriaeth i safleoedd o fewn neu wrth ymyl ~~yn agos at~~ y Canolfannau yn gyntaf a'u bod nhw wedi cael eu rhoi o'r neilltu am resymau cynllunio ac | Diwygiadau bach i ychwanegu eglurder nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | <u>amgylcheddol a lle gallir darparu dulliau i deithio i'r safle mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys cludiant cyhoeddus a beicio;</u><br><br><u>2. Bod y cynigion yn gwneud darpariaeth ar gyfer llwybrau cerdded a beicio neu welliannau i rai presennol a gwelliannau i wasanaethau cludiant cyhoeddus;</u><br><br><u>3. Lleolir adeiladau a gweithgareddau, mynedfa a dulliau croesi safle a defnyddir mecanweithiau priodol i liniaru ardrawiadau negyddol y datblygiad arfaethedig ar fwynderau cymunedau lleol.</u> | |
| NMC 155 | 7.3.28a | *Cynnwys cyfeiriad at y cyfanswm o dir sydd yn cael ei ddiogelu yn unol â'r Polisi a diweddaru'r testun eglurhaol i gyfeirio at wybodaeth yn y fersiwn diweddaraf o'r Mapiau Cyngor Datblygu (Mawrth 2017)*<br><br><u>Mae Adwy'r Hafan yn safle cyflogaeth sefydledig (10.5 ha) ym Mhwllheli, sy'n darparu cyflenwad pwysig o unedau ar gyfer busnesau lleol. Bydd diogelu ardaloedd cyflogaeth bresennol yn annog gweithgarwch yn y farchnad i gynnal cyflenwad o arwynebedd llawr cyflogaeth. Fodd bynnag, mae'r Stad Ddiwydiannol hon yn agored i lifogydd oherwydd ei leoliad o fewn ardal perygl llifogydd C2 ~~C1~~. Mae modelu llifogydd yn dangos, dros ei oes, byddai'r safle mewn perygl o lifogydd o ddŵr yn dod dros waliau'r wal harbwr i'r gorllewin ac fe fyddai'r safle mewn perygl o lifogydd o'r dwyrain pe fyddai'r twyni tywod yn cael eu torri. Mae polisi'r Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 ar gyfer epocau sy'n cwmpasu oes y Cynllun yn darparu un cadw'r llinell ar gyfer yr ardal polisi perthnasol sy'n cwmpasu Pwllheli. Prif nod y Cyngor drwy ei ymagwedd i berygl llifogydd yw sicrhau diogelwch y preswylwyr presennol ac yn y dyfodol a'i busnesau. Mae Adwy'r Hafan yn safle tir llwyd. Byddai parhau i ddefnyddio'r safle yn cyfrannu at gynnal anheddle allweddol presennol ac fe fyddai'n cyfrannu o amcanion cyflogaeth allweddol gan y Cyngor. Ar y cyfan, mae'r Cynghorau yn ystyried y dylai'r Cynllun hwyluso datblygu 'tebyg am eu tebyg' yn Adwy'r Hafan yn y tymor byr, ond, y dylid rheoli ei ddefnydd parhaus yn ystod oes y Cynllun yn llym ac y dylid ymchwilio i opsiynau i adnabod</u> | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | **dewisiadau amgen ar gyfer y safle. Mae'r polisi hwn yn gweithredu fel yr ateb dros dro gorau i gynnal cyflenwad o unedau ym Mhwllheli o leiaf tan gallir ymchwilio'n fanwl i opsiynau amgen, gan gynnwys cyllid. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hannog i fanteisio ar y gwasanaeth cyn ymgeisio a ddarperir gan y Cynghorau, a dylid hefyd yn trafod cynigion gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.** | |
| NMC 164 | 7.3.66 | ***Diwygio er mwyn ychwanegu eglurder***<br><br>7.3.66 "… bod y bwriad yn cynnig gwelliannau **tirwedd ac amgylcheddol** sylweddol i'r safle ac yn lleihau ei effaith ar y dirwedd **a'r amgylchedd**." | Diwygiad bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 188 | 7.3.83 | ***Diwygio teitl y polisi, cynnwys maen prawf newydd a manylion o'r cofnodion mae gweithredwyr yn gorfod eu cadw***<br><br>**POLISI TAI 3: LLETY DROS DRO ~~GRADDFA BACH~~ STEIL CAMPWS AR GYFER GWEITHWYR ADEILADU ~~DROS DRO~~**<br><br>**Caniateir cynigion ar gyfer llety dros dro ~~graddfa bach~~ arddull campws ar gyfer gweithwyr adeiladu ~~dros dro~~ ~~(hyd at uchafswm 500 o lefydd gwlâu)~~ ar yr amod eu bod yn ffurfio rhan o'r ateb cyflawn i ddarparu llety dros dro i weithwyr adeiladu ac y gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:**<br>….<br><br>**10a Bod Strategaeth Llety Gweithwyr yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor fel rhan o'r cais cynllunio**<br><br>**Bydd yn ofynnol i weithredwyr gadw gwybodaeth am feddiannaeth yr unedau, gan gynnwys nifer o weithwyr adeiladu sy'n cael llety, hyd yr arhosiad, a chadw cofnod o ddata di-enw o'r gweithwyr a fydd yn derbyn llety ~~cofrestr o'r holl weithwyr sy'n byw yn y llety~~ a gwneud y wybodaeth yma ~~gofrestr hon~~ ar gael ar unwaith, ar gais, i'r Cyngor.** | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | | |
| NMC 189 | 7.4.23 | ***Diwygio'r testun eglurhaol er mwyn egluro cylch gwaith y Polisi***<br><br>Mae'r Polisi hwn yn berthnasol ~~ar gyfer llety pwrpasol a'u hadeiledir o'r newydd~~ **i lety dros dro a ddarperir i weithwyr adeiladu** sydd ei angen mewn cysylltiad â phrosiectau adeiladu ar raddfa fawr, ~~e.e.~~ **heblaw am Brosiect** Wylfa Newydd neu unrhyw waith arall sy'n gofyn am nifer fawr o weithlu preswyl dros dro **/ symudol**. **Bydd Polisi PS 9 a Pholisi PS 9A yn berthnasol i gynigion am lety gweithwyr adeiladu arddull campws sy'n angenrheidiol ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd.** Bydd angen y llety am 6 mis neu fwy. Bydd y cyfnod yn cael ei gyfyngu i uchafswm amser a gytunir arno gan y Cyngor a bydd amodau o ran adnewyddu'r adeilad / strwythur neu adfer y safle ar ddiwedd y cyfnod. Mae'r Cyngor am roi blaenoriaeth i lety sydd wedi'i gynllunio i ganiatáu newid i ddefnydd etifeddiaeth amgen. | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 192 | 7.4.23C | ***Diwygio'r testun eglurhaol er mwyn egluro cylch gwaith y Polisi***<br><br>~~Dim ond datblygiad hyd at uchafswm o 500 wlâu ynghyd a chyfleusterau atodol ar gyfer lles, hamdden mae'r Polisi yma yn gyfarch. Bydd cynigion mwy yn cael eu hystyried yn erbyn Polisi PS 9A a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun.~~ | Diwygiad bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 196 | 7.4.26 | ***Diwygio'r testun eglurhaol er mwyn ychwanegu eglurder i anghenion y Polisi am dystiolaeth gefnogol***<br><br>~~Gall y modd o greu cymunedau cymysg, cynaliadwy a chynhwysol gael ei effeithio'n andwyol ble mae llety pwrpasol, tai amlfeddiannaeth neu dai a rennir yn cael eu cynnig.~~ Mae'r math hwn o lety yn creu crynodiad o breswylwyr eithaf byrdymor, ac o bosib ni fydd hyn yn cael ei gefnogi mewn cymuned sefydledig. Mae pryderon penodol yn gallu cynnwys pwysau ar y gwasanaethau a chyfleusterau sydd yn cwrdd ag anghenion preswylwyr mwy hirdymor, yn enwedig felly cyfleusterau a gwasanaethau allweddol megis meddygfeydd, deintydd, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd ac ysgolion. Mae'r Cynghorau wedi eu hymroddi i gefnogi cymunedau preswyl yn ardal y Cynllun. Bydd ~~asesiad ar gyfer y cynnig yn cael ei gynnwys~~ **angen i Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu gael ei gyflwyno** gyda phob | Diwygiad bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | cais ar gyfer llety gweithwyr dros dro, sydd yn cynnwys:<br>i. ~~Asesiad manwl o gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau cynllunio atodol perthnasol;~~<br>ii. disgrifiad manwl o'r angen ar gyfer y cyfleuster<br>iii. ~~sut mae'n cydymffurfio gyda Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu~~<br>iv. manylion o'r pwysau mae'r cynnig yn ei roddi ar seilwaith ffisegol a chymunedol<br>v. maint y budd i'r gymuned leol o'r cynnig ;<br>vi. datrysiad dangosadwy ar gyfer diwedd oes strwythur neu adeilad, oni bai y gellir dangos yn glir nad yw defnydd etifeddiaeth yn ddichonol. | |
| NMC 198 | Polisi TAI 5 | ***Diwygio'r geiriad er mwyn egluro anghenion y Polisi ac i sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun***<br><br>~~Dim ond~~ **Tai marchnad leol (fel y'u diffinnir yn y Rhestr Termau) fydd yn cael eu caniatáu o fewn ffiniau datblygu'r aneddleoedd a'u henwir isod** ~~ac eithrio lle mae'r cynnig yn cyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy yn unol â Pholisi TAI 9,~~ **ac ar yr amod fod y cynnig yn cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol** ~~Caniateir datblygiadau preswyl newydd o fewn ffiniau datblygu'r aneddleoedd penodol a nodir isod cyn belled bod~~:<br><br>**ii) Pentrefi Lleol, Gweledig/ Arfordirol** | Diwygiad bach i sicrhau cysondeb gyda pholisïau eraill nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 204 | Polisi TAI 9 | ***Cynnwys maen prawf ychwanegol i Adran 3 o Bolisi TAI 9 o ganlyniad i newid i bolisi TAI 17, sy'n gwella eglurder y Cynllun***<br><br>**ix. O fewn Pentrefi Lleol, Gwledig neu Arfordirol dim ond tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol (fel y'i diffinnir yn y Rhestr Termau) fydd yn cael caniatad** | Diwygiad bach i wella eglurder ac i sicrhau cydymffurfiad â TAI 17 (gweler NMC 262), nad yw'n |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | | effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 259 | Polisi TAI 14 | *Ailosod y term 'Safleoedd Addas Heb eu Dynodi' gyda 'Safleoedd Ar Hap' er mwyn sicrhau cysondeb o'r Cynllun*<br><br>**Yng Nghanolfan Isranbarthol Bangor a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol a ganlyn bydd tai i gwrdd â strategaeth y Cynllun yn cael eu sicrhau drwy'r dynodiadau tai a'u nodir isod ynghyd a safleoedd ar hap addas ~~nad sydd wedi eu dynodi~~ o fewn y ffin ddatblygu, yn seiliedig ar y ddarpariaeth ddangosol yn y tabl isod:**<br><br>**(ii) Safleoedd ~~heb eu dynodi~~ ar hap** ~~ar Hap~~ | Diwygiad bach i sicrhau cysondeb gyda pholisïau eraill nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 260 | Polisi TAI 15 | *Ailosod y term 'Safleoedd Addas Heb eu Dynodi' gyda 'Safleoedd Ar Hap' er mwyn sicrhau cysondeb o'r Cynllun*<br><br>**Yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol a ganlyn bydd tai i gwrdd â strategaeth y Cynllun yn cael eu sicrhau drwy'r dynodiadau tai a'u nodir isod ynghyd a safleoedd ar hap addas ~~nad sydd wedi eu dynodi~~ o fewn y ffin ddatblygu, yn seiliedig ar y ddarpariaeth ddangosol yn y tabl isod:**<br><br>**(ii) Safleoedd ~~heb eu dynodi~~ ar hap** ~~ar Hap~~ | Diwygiad nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 261 | Polisi TAI 16 | *Ailosod y term 'Safleoedd Addas Heb eu Dynodi' gyda 'Safleoedd Ar Hap' er mwyn sicrhau cysondeb o'r Cynllun* | Diwygiad nad yw'n effeithio'n |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | **Yn y Pentrefi Gwasanaeth a ganlyn bydd tai i gwrdd â strategaeth y Cynllun yn cael eu sicrhau drwy'r dynodiadau tai a'u nodir isod ynghyd a safleoedd ar hap addas ~~nad sydd wedi eu dynodi~~ o fewn y ffin ddatblygu, yn seiliedig ar y ddarpariaeth ddangosol yn y tabl isod:**<br><br>**(ii) Safleoedd ~~heb eu dynodi~~ ar hap** ~~ar Hap~~ | arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC262 | Polisi TAI 17 | ***Diwygio'r Polisi i wella eglurder***<br><br>**Proposals for open market housing ~~and affordable housing for local need (as defined in the Glossary of Terms)~~ in the following Local, Rural and Coastal Villages will be granted provided they conform to all the following criteria:** | Diwygiad bach i ychwanegu eglurder a chydymffurfiad â TAI 14 a TAI 16, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 271 | Polisi PS16 | ***Diwygio'r Polisi i wella eglurder***<br><br>**POLISI STRATEGOL PS 16: GWARCHOD A, BLE'N BRIODOL, GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL**<br><br>**Bydd y Cynghorau'n rheoli datblygiad er mwyn gwarchod a, ble'n briodol, ~~neu~~ gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir arbennig ardal y Cynllun a gwrthodir cynigion a fydd yn cael effaith sylweddol andwyol arnynt** ~~arnydd~~ **oni bai bod yr angen neu'r bendithion y datblygiad yn y lleoliad yna yn amlwg gorbwyso gwerth y safle neu'r ardal a pholisi gwarchodaeth genedlaethol ar gyfer y safle a'r ardal dan sylw. Bydd yr Awdurdodau Cynllunio'n ystyried caniatáu cais byddant yn gwneud yn siŵr ei fod yn:** | Newid bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | **1. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau, daeareg, hanes, yr arfordir a thirweddau ardal y Cynllun;**<br>**2. Gwarchod a, ble'n briodol, ~~neu~~ gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a ble'n berthnasol eu gosodiad yn unol â Pholisi Cenedlaethol;**<br>**3. Rhoi sylw priodol i arwyddocâd cymharol ~~y~~ dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol wrth ystyried y pwysau i roi ar fuddiannau cydnabyddedig yn unol â Pholisi Cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod unrhyw gyfrifoldebau ac ymrwymiadau rhyngwladol neu genedlaethol yn cael eu cwrdd yn llawn;**<br>**4. Gwarchod a, ble'n briodol, ~~neu~~ gwella bioamrywiaeth o fewn ardal y Cynllun a gwella a/neu adfer rhwydwaith cynefinoedd naturiol yn unol â'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol yn unol â Pholisi Amg 4;**<br>**5. Gwarchod ~~a~~ neu gwella bioamrywiaeth drwy rwydwaith o isadeiledd gwyrdd/ glas;**<br>**6. Diogelu rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod yn rhyngwladol, cenedlaethol ac yn lleol;**<br>**7. Gwarchod, parchu, cadw neu wella cymeriad a hynodrwydd lleol yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd (yn unol â Pholisi AMG 2) ac Ardal Cymeriad y Morlun (yn unol â Pholisi AMG 3).**<br>**8. Gwarchod, parchu, cadw neu wella coed, gwrychoedd, coetiroedd o werth gweledol, ecolegol, hanesyddol, diwylliannol a mwynderol.** | |
| NMC 283 | Polisi PS 17 | ***Diwygio'r Polisi i wella eglurder***<br><br>**POLISI PS 17: DIOGELU A, BLE'N BRIODOL, ~~NEU~~ GWELLA ASEDAU TREFTADAETH**<br><br>**Wrth geisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach ardal y Cynllun, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn diogelu a ~~neu,~~ ble'n ~~a lle bo hynny'n~~ briodol, yn gwella'r asedau** | Newid bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | **treftadaeth unigryw:**<br><br>**Caniateir cynigion a fydd yn diogelu a ~~neu,~~ ble'n briodol, yn gwella'r asedau treftadaeth a ganlyn, eu gosodiad a golygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r adeilad /ardal:**<br><br>**1. Henebion Rhestredig ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd archeolegol (yn unol â Pholisi AT 4).**<br>**2. Adeiladau Rhestredig a'u cwrtil.**<br>**3. Ardaloedd Cadwraeth (yn unol â Pholisi AT 1).**<br>**4. Safleoedd Treftadaeth y Byd - Castell Biwmares a Chastell Caernarfon a Muriau'r Dref (yn unol â Pholisi AT 1).**<br>**5. Ymgeisydd Safleoedd Treftadaeth y Byd.**<br>**6. Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig (yn unol â Pholisi AT 1).**<br>**7. Adeiladau o haeddiant pensaernïol/hanesyddol/diwylliannol nad ydynt wedi eu rhestru neu eu diogelu (yn unol â Pholisi AT3).** | ganfyddiadau'r AC. |
| N/a | 7.5.45 | ***Diwygio'r testun eglurhaol i wella eglurder***<br><br>Yn unol â'r hierarchaeth wastraff a nodir yn NCT 21, mae dull cynaliadwy o reoli gwastraff yn golygu y bydd rhaid cael mwy o bwyslais ar leihau, ailddefnyddio ac adfer gwastraff, a llai o ddibyniaeth ar waredu heb adfer. **Mae rheoli gwastraff yn cynnwys er enghraifft, cadw, trin, storio, derbyn/trosglwyddo a gwaredu gwastraff.** | Newid bach i ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 294 | Polisi GWA 3 | ***Diwygio'r Polisi i wella eglurder*** | Newid bach i |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | **POLISI GWA3: ~~TRIN A STORIO~~ RHEOLI GWASTRAFF YMBELYDROL ~~LEFEL ISEL[1] AC ISEL IAWN[2]~~**<br><br>**Caniateir cyfleusterau ar gyfer ~~trin,~~ storio a/neu ~~waredu~~ rheoli gwastraff ymbelydrol ~~Lefel Isel ac Isel Iawn~~ a gynhyrchir o fewn y safle niwclear trwyddedig yn Wylfa/Wylfa Newydd ~~ar y safle i hwyluso busnes presennol,~~ cyn belled ei fod yn cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:**<br><br>1. **Mae'n gyson â â~~'r~~ strategaethau a pholisiau c~~g~~enedlaethol ar gyfer rheoli gwastraff ac arllwysiadau ymbelydrol** ~~Lefel Isel ac Isel Iawn a/neu'r cynlluniau dadgomisiynu ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa~~.<br>2. **Mae canlyniad asesiadau cymdeithasol, economaidd ac iechyd yr amgylchedd yn cyfiawnhau trin y gwastraff yn y lleoliad arfaethedig** ~~ar y safle neu mewn lleoliadau priodol tu allan i'r prif safle niwclear~~.<br>3. **Caiff cyfleusterau eu lleoli a'u dylunio er mwyn lleihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd ac mae mesurau adfer amgylcheddol priodol ar gael.**<br>~~**4. Bydd cynigion yn cydymffurfio â'r ystyriaethau cyffredinol a amlinellir ym Mholisi GWA1.**~~<br>~~**Bod y cynnig yn cael ei gefnogi gan Asesiad Cynllunio Gwastraff (fel y'i diffinnir gan NCT 21:Gwastraff)**~~ | ychwanegu eglurder, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 295 | 7.5.56 | ***Cynnwys cyfeiriad at wastraff ymbelydrol canolog a diffiniad o'r lefelau gwahanol o wastraff ymbelydrol.*** | Newid bach i ychwanegu |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | Mae'r broses ddadgomisiynu yn debygol o ~~ddatgelu~~ **arwain at** lawer iawn o wastraff ymbelydrol **Canolradd**[1], Lefel Isel[2] ac Isel Iawn[3].<br><br>[1] **Mae gwastraff lefel canolradd yn fwy ymbelydrol fwy na gwastraff ymbelydrol lefel isel (gweler isod), ond nid yw'n cynhyrchu digon o wres i'w wneud yn ofynnol i hyn gael ei ystyried mewn cyfleusterau storio neu ei waredu. Fodd bynnag, fel gwastraff ymbelydrol arall mae dal angen eu cadw i ddiogelu pobl a'r amgylchedd. Mae GLC yn deillio'n bennaf o ailbrosesu gweddillion tanwydd a gweithrediadau cyffredinol a chynnal a chadw ar safleoedd niwclear, a gall gynnwys eitemau metel fel cladin tanwydd a chydrannau adweithydd, graffit o greiddiau adweithydd, a slwtsh o driniaeth elifion ymbelydrol hylifol**<br><br>[2] **Gwastraff lefel isel (GLI) yw gwastraff ymbelydrol gyda chynnwys ymbelydrol dim mwy nag 4 GBg/te (gigabecuerels pob tunnell) o alpha neu 12 GB/te o weithgaredd beta/gamma. Mae GLI yn cyfrannu hyd at 90% o etifeddiaeth cyfaint gwastraff ymbelydrol y DU ond yn cynnwys llai na 0.1% o'r cyfanswm ymbelydredd.**<br><br>[3] **Gwastraff lefel isel iawn (GLII) yw is gategori o GLI ac wedi ei ddiffinio un ai fel GLII cyfaint isel neu GLII cyfaint uchel. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau ddiffiniad yw'r angen am reolaeth dros y cyfanswm cyfaint o gyfaint uchel GLII sy'n cael ei waddod mewn unrhyw gyfleuster tirlenwi neu wastraff arall.** | eglurder a chywirdeb, nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC308 | 7.5.62a | *Diwygio'r testun eglurhaol er mwyn ychwanegu eglurder*<br><br>**Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu sy'n effeithio ar adnoddau mwynau ddangos, drwy archwiliad priodol, na fydd yr adnodd yn cael ei sterileiddio neu ddangos na fydd echdynnu yn y dyfodol yn cael** | Newid bach i ychwanegu eglurder a chywirdeb, nad |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | eu llesteirio gan y datblygiad arfaethedig. Ble mae yno angen gorbwysol am y datblygiad, a fyddai fel arall yn sterileiddio'r adnodd, gosodir amod cynllunio ar y cais cynllunio fydd yn gwneud hi'n ofynnol i gloddio am yr adnodd cyn dechrau'r datblygiad, oni bai bod y datblygwr yn gallu profi'n foddhaol bod hynny'n anymarferol neu'n amgylcheddol annerbyniol. | yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 323 | Monitro | ***Diwygio'r testun i roi eglurder i'r Targedau Polisi ar gyfer Dangosydd Lleol D21 yn y Fframwaith Fonitro***<br><br>**I gwrdd â 50% (1,123.35 GWh) o'r potensial ~~galw~~ a ragwelir am drydan drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2021**<br>**I gwrdd â 100% (2,246.7 GWh) o'r potensial ~~galw~~ a ragwelir am drydan drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2026**<br>**I gwrdd â 50% (26.397 GWh) o'r potensial ~~galw~~ a ragwelir am wres drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2021**<br>**I gwrdd â 100% (52.795 GWh) o'r potensial ~~galw~~ a ragwelir am wres drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2026** | Newid nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 340 | Atodiad 5 Tabl 1 | ***Diwygio'r ffigwr yn Nhabl 1 (Atodiad 5) i sicrhau cywirdeb***<br><br>**Lefel Cyflenwad Dangosol Safleoedd ar Hap** | Newid bach i sicrhau cywirdeb a chysondeb nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Newidiadau Posib Ychwanegol | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | (dd)<br>~~36~~ 58 | |

# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Adnau Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd

# ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD ADRODDIAD ADENDWM

## Mawrth 2017

enfusion

# ASESIAD RHEOLIADAU CYNEFINOEDD ADRODDIAD ADENDWM

# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Newidiadau Materion sy'n Codi) Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd

| | | |
|---|---|---|
| *dyddiad:* | 28 Mawrth 2017 | |
| *paratowyd i:* | Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd | |
| *paratowyd gan:* | UPCC | |
| *sicrhau ansawdd:* | Enfusion | |

enfusion
environmental planning and management for sustainability
Treenwood House
Rowden Lane
Bradford on Avon
BA15 2AU

Ffôn: 01225 867112
www.enfusion.co.uk

**CYNNWYS** **TUDALEN**

| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **CYFLWYNIAD** | **4** |
| | Cefndir | 4 |
| | Pwrpas a Strwythur yr Adroddiad | 4 |
| **2.0** | **SGRINIAD ARhC O NEWIDIADAU PELLACH I'R CYNLLUN** | **5** |
| **3.0** | **CASGLIADAU** | **5** |

l

# 1.0 CYFLWYNIAD

## Cefndir

1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) ar gyfer ardaloedd awdurdod cynllunio lleol Ynys Môn a Gwynedd. Bydd y CDLl ar y Cyd yn nodi'r strategaeth ar gyfer datblygu a defnydd tir yn Ynys Môn a Gwynedd ar gyfer y cyfnod o 15 mlynedd rhwng 2011 a 2026. Bydd yn rhestru polisïau i weithredu'r strategaeth ac yn rhoi arweiniad a dynodiadau ar gyfer lleoli tai, cyfleoedd cyflogaeth, a chyfleusterau hamdden a chymunedol newydd.

1.2 Yn unol â gofynion Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) [y Rheoliadau Cynefinoedd], mae'r Cynghorau, yn rhinwedd eu swyddogaethau fel yr awdurdodau cymwys, wedi bod yn cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r CDLl ar y Cyd. Hyd yma, mae'r broses ARhC ar gyfer y CDLl ar y Cyd wedi cynhyrchu'r adroddiadau isod:

- **Adroddiad Sgrinio ARhC Mai 2013** oedd yn cyd-fynd â'r Ddogfen Strategaeth a Ffafrir ar yr ymgynghoriad cyhoeddus am 7 wythnos a ddaeth i ben ar 27 Mehefin 2013.
- **Adroddiad ARhC Chwefror 2015** oedd yn cyd-fynd â'r Cynllun Adnau ar yr ymgynghoriad cyhoeddus am 7 wythnos a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015.
- **Adroddiad ARhC Chwefror 2016** oedd yn cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau a Newidiadau â Ffocws ar y cyflwyniad i Lywodraeth Cymru
- **Adroddiad Adendwm ARhC Gorffennaf 2016** a ystyriodd addasiadau arfaethedig i'r CDLl ar y Cyd ar ôl ystyried ymatebion i'r Newidiadau â Ffocws ynghyd â gwaith pellach a gwblhawyd mewn perthynas ag opsiynau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr
- **Adroddiad Adendwm ARhC Rhagfyr 2016** a ystyriodd Newidiadau Materion sy'n Codi yn ystod archwiliad o'r CDLl ar y Cyd
- **Adroddiad Adendwm ARhC Marth 2017 (yr adroddiad hwn)** sy'n ystyried newidiadau pellach posib i'r Cynllun.

## Diben a Strwythur yr Adroddiad

1.3 Diben yr Adroddiad Adendwm hwn yw amlinellu canfyddiadau gwaith pellach yr ARhC yn glir yng nghyswllt addasiadau i'r cynllun o ganlyniad i newidiadau pellach posib i'r Cynllun a adnabuwyd yn dilyn y cyfnod ymgynghori ar y Newidiadau Materion sy'n a Godwyd. Yn dilyn yr adran ragarweiniol hon, trefnir yr adroddiad yn ddwy adran bellach:

- **Adran 2** - yn amlinellu canfyddiadau asesiad sgrinio'r Newidiadau Materion sy'n Codi
- **Adran 3** - yn crynhoi casgliadau gwaith pellach yr ARhC.

## 2.0 SGRINIAD ARhC O NEWIDIADAU MATERION SY'N CODI

### Cyflwyniad

2.1 Yn ystod y broses archwilio, cynigwyd nifer o ddiwygiadau i'r CDLl. Roedd y Newidiadau Sy'n Codi (NMC) hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Yn dilyn ystyriaeth o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynigwyd newidiadau pellach posib i'r Cynllun. Mae'r newidiadau posob hyn wedi cael eu hystyried (eu sgrinio) drwy'r broses ARhC i benderfynu a ydynt yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith blaenorol yr ARhC a gyflwynwyd yn yr Adroddiad ARhC (Chwefror 2016) a'r Adroddiad Adendwm ARhC (Gorffennaf 2016) ac os oes angen mwy o waith arfarnu.

2.2 Mae gwaith adolygu a sgrinio'r newidiadau posib hyn i'r Cynllun wedi darganfod mai'r nod gyda'r newidiadau yw darparu mwy o eglurhad, sicrhau cysondeb a chywirdeb, a sicrhau cydymffurfiad â lefel uwch o ganllawiau polisi cynllunio (cenedlaethol). Ystyrir mai mân newidiadau ydynt ac nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr ARhC blaenorol.

2.3 Ar y cyfan, ni ystyrir bod y mân newidiadau i'r polisiau a gynigir drwy'r diwygiadau posib yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.

## 3.0 CASGLIADAU

3.1 Mae'r newidiadau posib a gynigiwyd yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus o'r NMC wedi cael eu sgrinio drwy'r broses ARhC i benderfynu a ydynt yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr ARhC blaenorol a gyflwynwyd yn yr Adroddiad ARhC (Chwefror 2016) a'r Adroddiad Adendwm ARhC (Gorffennaf 2016). Cesglir nad yw'r newidiadau'n effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr ARhC blaenorol gan eu bod yn ceisio rhoi mwy o eglurhad, neu sicrhau cysondeb a chywirdeb, ynghyd â chydymffurfiad â lefel uwch o ganllawiau polisi cynllunio (cenedlaethol). Hefyd, ni ystyrir bod cryfhau polisi a'r polisïau ychwanegol a gynigir drwy'r NMC yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r ARhC blaenorol.

**Atodiad 2 – Sylwadau ar y Newidiadau Materion Sy'n Codi (NMC) na chafodd eu gwneud yn Briodol**

| Enw'r Sylwebydd | Math a Chrynodeb o'r Sylw | Rhan Berthnasol o'r Cynllun | Rheswm pam nad oedd y Sylw yn Briodol |
|---|---|---|---|
| SE Edwards, Cadnant Planning Ltd | Gwrthwynebu fod dim cynyddiad mewn unedau yn yr AHNE a'r ATAau | Polisi TWR3: Safleoedd Carafanau Sefydlog, Siale a Llety Gwersylla Amgen Parhaol | Dim yn NMC. Cafodd y mater hwn ei drafod yn y Sesiwn Gwrandawiad ond ni chynnigodd yr Arolygydd bwynt gweithredu. |
| British Homes & Holiday Parks Association, d/o David Middleton, Savills (UK) Ltd | Gwrthwynebu fod dim cynyddiad mewn unedau yn yr AHNE a'r ATAau | Polisi TWR3: Safleoedd Carafanau Sefydlog, Siale a Llety Gwersylla Amgen Parhaol | Dim yn NMC. Cafodd y mater hwn ei drafod yn y Sesiwn Gwrandawiad ond ni chynnigodd yr Arolygydd bwynt gweithredu. |
| S E Edwards, Cadnant Planning Ltd | Gwrthwynebu bod y gair "cynyddu" ddim yn yr eirfa yn NMC164. | Paragraff 7.3.66 (Polisi TWR3) | Mae'r holl NMCau yn cael eu cynnwys yn y ddogfen Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi oedd yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus. 'R oedd NMC 164 yn y Gofrestr yn cynnwys y gair "cynnydd". Cydnabyddir na chafodd y NMC ei ail-adrodd yn llawn yn y Cynllun Cyfansawdd. Fodd bynnag, nid oedd y Cynllun Cyfansawdd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Cafodd ei gyhoeddi i alluogi'r darllenydd weld NMCau yng-nghyd-destun yn y Cynllun. |
| British Homes & Holiday Parks Association, d/o David Middleton, Savills (UK) Ltd | Gwrthwynebu bod y gair "cynyddu" ddim yn yr eirfa yn NMC164. | Paragraff 7.3.66 (Polisi TWR3) | Mae'r holl NMCau yn cael eu cynnwys yn y ddogfen Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi oedd yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus. 'R oedd NMC 164 yn y Gofrestr yn cynnwys y gair "cynnydd". Cydnabyddir na chafodd y NMC ei ail-adrodd yn llawn yn y Cynllun Cyfansawdd. Fodd bynnag, nid oedd y Cynllun Cyfansawdd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Cafodd ei gyhoeddi i alluogi'r darllenydd weld NMCau yng-nghyd-destun yn y Cynllun. |
| Bourne Leisure Limited, d/o Helen Ashby-Ridgway, Lichfields | Gwrthwynebu bod y gair "cynyddu" ddim yn yr eirfa yn NMC164. | Paragraff 7.3.66 (Polisi TWR3) | Mae'r holl NMCau yn cael eu cynnwys yn y ddogfen Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi oedd yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus. 'R oedd NMC 164 yn y Gofrestr yn cynnwys y gair "cynnydd". Cydnabyddir |

| Enw'r Sylwebydd | Math a Chrynodeb o'r Sylw | Rhan Berthnasol o'r Cynllun | Rheswm pam nad oedd y Sylw yn Briodol |
|---|---|---|---|
| | | | na chafodd y NMC ei ail-adrodd yn llawn yn y Cynllun Cyfansawdd. Fodd bynnag, nid oedd y Cynllun Cyfansawdd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Cafodd ei gyhoeddi i alluogi'r darllenydd weld NMCau yng-nghyd-destun yn y Cynllun. |
| Jeremy Lambe, Lambe Planning and Design Ltd | Gwrthwynebu bod y gair "cynyddu" ddim yn yr eirfa yn NMC164. | Paragraff 7.3.66 (Polisi TWR3) | Mae'r holl NMCau yn cael eu cynnwys yn y ddogfen Cofrestr  Newidiadau Materion sy'n Codi oedd yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus. 'R oedd NMC 164 yn y  Gofrestr yn cynnwys y gair "cynnydd". Cydnabyddir na chafodd y NMC ei ail-adrodd yn llawn yn y Cynllun Cyfansawdd. Fodd bynnag, nid oedd y Cynllun Cyfansawdd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Cafodd ei gyhoeddi i alluogi'r darllenydd weld NMCau yng-nghyd-destun yn y Cynllun. |
| Jeremy Lambe, Lambe Planning and Design Ltd | Gwrthwynebiad yn cyfeirio at y cyfnod gweithredol safleoedd. | Paragraff 7.3.78 (Polisi TWR5) | Dim yn NMC |
| Einir Wyn, Clerk, Llanengan Community Council | Gwrthwynebu i ffigwr twf dangosol Abersoch | Polisi TAI15: Canolfan Gwasanaeth Lleol | Dim yn NMC |
| Einir Wyn, Clerk, Llanengan Community Council | Gwrthwynebu i ffin datblygu Abersoch | Polisi TAI15: Canolfan Gwasanaeth Lleol | Dim yn NMC |
| Einir Wyn, Clerk, Llanengan Community Council | Gwrthwynebu bod Llanengan yn Glwstwr nid pentref gwledig | Polisi TAI18: Tai mewn Clystyrau | Dim yn NMC |
| Cyngor Cymuned Rhosybol | Gwrthwynebu for clystyrau Penygraigwen a Chapel Parc yn cael ei ddileu | NMC268 / Polisi TAI18: Tai mewn Clystyrau | Gwrthwynebiad hwyr – derbyniwyd ar 22 Mawrth 2017 |
| Emyr E. Williams, Liberty Properties | Gwrthwynebu fod SP765 ddim wedi ei gynnwyd yn y ffin datblygu | Map 8: Pwllheli | Dim yn NMC |
| Owen Lloyd, d/o Michael Hand, Hand Consultancy | Gwrthwynebu fod SP765 ddim wedi ei gynnwyd yn y ffin datblygu | Map 8: Pwllheli | Dim yn NMC |

| Enw'r Sylwebydd | Math a Chrynodeb o'r Sylw | Rhan Berthnasol o'r Cynllun | Rheswm pam nad oedd y Sylw yn Briodol |
|---|---|---|---|
| Gareth Hughes | Gwrthwynebu T71: Tir gyferbyn a Rhoslan, Bethel | Polisi TAI16: Pentrefi Gwasanaeth a Map 32: Bethel | Dim yn NMC |
| Anwen Jones | Gwrthwynebu T71: Tir gyferbyn a Rhoslan, Bethel | Polisi TAI16: Pentrefi Gwasanaeth a Map 32: Bethel | Dim yn NMC |
| Peter Gaffey | Gwrthwynebu T71: Tir gyferbyn a Rhoslan, Bethel | Polisi TAI16: Pentrefi Gwasanaeth a Map 32: Bethel | Dim yn NMC |
| Gwynfor Ellis | Gwrthwynebu T71: Tir gyferbyn a Rhoslan, Bethel | Polisi TAI16: Pentrefi Gwasanaeth a Map 32: Bethel | Dim yn NMC |
| Myrna Owen | Gwrthwynebu T71: Tir gyferbyn a Rhoslan, Bethel | Polisi TAI16: Pentrefi Gwasanaeth a Map 32: Bethel | Dim yn NMC |
| Mr HB & Mrs S Owen | Gwrthwynebu T71: Tir gyferbyn a Rhoslan, Bethel | Polisi TAI16: Pentrefi Gwasanaeth a Map 32: Bethel | Dim yn NMC |
| Peter & Carys Jones | Gwrthwynebu T71: Tir gyferbyn a Rhoslan, Bethel | Polisi TAI16: Pentrefi Gwasanaeth a Map 32: Bethel | Dim yn NMC |
| W H Vize | Gwrthwynebu T71: Tir gyferbyn a Rhoslan, Bethel | Polisi TAI16: Pentrefi Gwasanaeth a Map 32: Bethel | Dim yn NMC |
| Mr H H Williams | Gwrthwynebu T71: Tir gyferbyn a Rhoslan, Bethel | Polisi TAI16: Pentrefi Gwasanaeth a Map 32: Bethel | Dim yn NMC |
| Mrs BH Williams & Mr EG Williams | Objection to the inclusion of SP860 in the development boundary of Talysarn | Map 84: Talysarn | Dim yn NMC |

Atodiad 3

1. Fel mae'r Arolygydd yn ymwybodol, cafodd Deddf Cymru 2017 Gydsyniad Brenhinol yn hwyr iawn yn y broses o baratoi'r Cynllun. Mae ymateb y Cynghorau i wrthwynebiad SNMC 66 (Horizon Nuclear Power) yn disgrifio perthnasedd Deddf Cymru 2017 i gymhwyso polisïau yn y Cynllun.

2. Mae'r Cynghorau yn cytuno y byddai testun esboniadol sy'n arwain at Bolisi PS 9 yn ogystal â pholisïau yn ymwneud â Wylfa Newydd yn elwa o fân ddiwygiadau i adlewyrchu'r newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Cymru 2017. Nid yw'r Cynghorau yn cytuno â dull dewisol Horizon, a fyddai'n cynnwys disodli polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf gyda thestun i amlinellu egwyddorion a dull y byddai'r Cynghorau yn eu hystyried wrth ymateb i'r Prosiect.

3. Mae safiad y Cynghorau yn seiliedig ar yr angen parhaus i gynnwys polisïau manwl yn y Cynllun er mwyn: parhau i lywio dull Horizon i weithredu ar y mater cyn cwblhau ei strategaeth; i hysbysu tystiolaeth y Cynghorau pan fydd yn ymateb i gais GCD Wylfa Newydd; a darparu digon o hyblygrwydd yn y Cynllun i ddelio â cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygu y gellir cael eu cyflwyno o dan DCGaTh.

4. Fel dull amgen i ymagwedd Horizon, tynnir sylw'r Arolygydd felly at fân newidiadau i'r testun esboniadol yn adran 7.3 ac i Bolisi PS 9A, Polisi PS 9B, a Pholisi PS 9C y byddai'n mynd i'r afael â'r mater – gweler Atodiad 3A. Ni ystyrir bod angen unrhyw welliannau ychwanegol i adlewyrchu'r newid mewn deddfwriaeth ddiweddar iawn.

5. Fel y nodir yn ei gynrychiolaeth am y NMC, mae Horizon yn parhau i ddatblygu'r Prosiect ers y Gwrandawiadau ym mis Medi 2016. Mae'r broses o ddatblygu'r Prosiect yn edrych ar optimeiddio mewn nifer o feysydd craidd, gan gynnwys rhaglen/atodlen cyflenwi - gan gydnabod yr angen am orsaf bŵer i fod yn weithredol erbyn 2025, diogelwch, effaith amgylcheddol, a chost. Mae rhai newidiadau arfaethedig allan o'r broses optimeiddio yn effeithio elfennau sy'n allweddol i asesu effeithiau megis rhifau gweithiwr brig a bydd yn newid sylweddol yn y dull i drin rhai datblygiadau cysylltiedig. Oherwydd bod y broses honno'n mynd rhagddi rhaid i'r Cynghorau gadw hyblygrwydd yn y Cynllun i addasu i newidiadau yng nghynigion Horizon. Mae Horizon yn bwriadu ymgymryd â thrydydd PAC yn ystod mis Mai / Mehefin 2017, ac ar ôl hynny fe ddylid cael mwy o sicrwydd ar y cynigion terfynol.

6. Yng ngoleuni'r wybodaeth sy'n dod i'r amlwg gan Horizon a sylwadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch MACs, mae'r Cynghorau yn ystyried bod eglurder pellach yn ofynnol ynghylch eu blaenoriaethau o ran y prosiect Wylfa Newydd. Mae'r Cynghorau o'r farn y gellir cyflawni hyn drwy fân ddiwygiadau i'r testun esboniadol / cyd-destunol a'r is-grŵp newydd o bolisïau. Ystyrir bod y dull awgrymedig hwn yn alinio gyda Phwynt Gweithredu S9/PG2, a oedd yn gofyn i'r Cynghorau i gyflwyno gwelliannau i egluro ei flaenoriaethau o ran y prosiect Wylfa Newydd.

7. Fel y nodir yn Natganiad y Cynghorau i Sesiwn Gwrandawiad 9 ac wedyn yn eu hymateb i Bwynt Gweithredu S9/PG3, roedd y Cynllun a gyflwynwyd yn cynnwys un Polisi (TAI 3) i ddarparu fframwaith i ystyried llety gweithwyr adeiladu dros dro steil campws o bob graddfa, os oedd yn ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd ai peidio. Roedd y Cynghorau o'r farn nad oedd unrhyw bwyntiau tyngedfennol o ran effeithiau. Bydd yr effeithiau yn amrywio yn y ffeithiau a'r amgylchiadau. Fodd bynnag, yn seiliedig ar y drafodaeth yn ystod y Sesiwn Gwrandawiad oedd yn troi o amgylch effaith bosibl y gwahanol raddfeydd o

ddatblygiad ar wahanol fathau o aneddleoedd, ‘roedd Pwyntiau Gweithredu S9 /PG3 & 4 yn gofyn i'r Cynghorau i gyflwyno MACs i Bolisi TAI 3 a chyflwyno polisi newydd i ddelio â datblygu llety gweithwyr adeiladu dros dro ar raddfa fawr.

8. Mae'r wybodaeth sy'n dod i'r amlwg gan Horizon sy'n ymwneud â Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu yn awgrymu y bydd angen llai o weithwyr adeiladu ar y cyfnod brig. Gallai hyn, a chynllun diwygiedig ar safle Prosiect Wylfa Newydd, yn debygol o arwain at fwy o gyfleoedd ar gyfer llety dros dro a ddarperir ar y safle. Noda'r NMC 138 i baragraff 7.3.18 gefnogaeth y Cyngor ar gyfer rhywfaint o ddarpariaeth ar y safle. Roedd y safbwynt hwn yn seiliedig ar waith ymchwil a wnaed gan Gyngor Sir Ynys Môn, ddaru oleuo’r Cynllun, CCA a'r datganiad sefyllfa gan CSYM, a gyfeirir atynt mewn amryw o ddogfennau cefndir i'r Cynllun, yn Natganiadau’r Cynghorau i amryw o Sesiynau Gwrandawiadau ac yn yr ymateb i'r Pwyntiau Gweithredu.

9. Ar ôl ystyried y mater ymhellach ystyrir y dylid egluro safbwynt y Cyngor mewn perthynas â darpariaeth ar safle drwy fân ddiwygiadau i'r testun esboniadol (NMC 138) ac I Bolisi PS 9A (NMC 143) - gweler Atodiad 3A. Mae cefnogaeth y Cyngor i ddarparu rhywfaint ar y safle bellach wedi ei ymgorffori mewn polisi yn hytrach na dibynnu ar destun esboniadol.

10. O ran y ddarpariaeth o lety gweithwyr adeiladu modwlar dros dro y tu allan i safle prosiect Wylfa Newydd, mae'r Cynghorau yn parhau i fod o’r farn mai eu blaenoriaeth yw am ddarpariaeth o'r fath gael eu lleoli ar safleoedd cyfagos i neu'n agos at y Canolfannau a nodwyd yng Nghoeden Aneddleoedd y Cynllun. Er mwyn osgoi amheuaeth mae’r Cynghorau wedi awgrymu geiriau ychwanegol er mwyn egluro pa ganolfannau ystyriant y gallai amsugno llety gweithwyr adeiladu dros dro arddull campws. Cyfeiria'r testun esboniadol diwygiedig i safle sydd efo caniatâd ar gyrion Caergybi, lle cynigir llety i 3,500 o weithwyr dros dro. Mae effaith y datblygiad ar y Ganolfan wedi'u rheoli'n briodol a rhoddwyd y caniatâd. Mae’r Cynghorau yn ystyried bod hyn yn dangos y gall datblygiadau fel yma gael eu lleoli mewn anheddle cynaliadwy a lleoliadau ar ymyl aneddleoedd er y byddai rhaid i bob un bod yn gymesur â maint yr anheddle.

11. Derbynnir bod angen mwy o eglurder ynglŷn â beth yw 'agos at', a bwriedir mynd i'r afael â’r mater gyda mân ddiwygiadau: disodli "agos at" gyda "perthynas dda " a diffinio " perthynas dda".

12. Mae’r Cynghorau wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r rhesymeg ar gyfer rhannu llety gweithwyr dros dro i ddatblygiad "bach" a "mawr". Mae’r Cynghorau yn nodi nad yw Horizon (yn ei hymateb i’r NMC) yn rhagweld bod datblygiad arddull campws llai na 500 o welyau gwag yn rhan o'i bortffolio llety ar gyfer gweithwyr adeiladu.

13. Yn amodol ar fân ddiwygiadau nad yw’n newid pwyslais y Polisïau (gweler Atodiad 3A), mae’r Cynghorau yn ystyried bod Polisi PS 9 a Pholisi PS 9A ar y cyd yn darparu fframwaith digonol mewn perthynas â llety gweithwyr adeiladu arddull campws ar gyfer y Prosiect Wylfa Newydd. Yn ogystal â mynd i'r afael ag effaith Deddf Cymru 2017, mae gwelliannau hefyd yn ceisio ymdrin â sylwadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru (SNMC 9) a Land & Lakes Ltd. (SNMC60). Mae polisïau diwygiedig yn darparu’r egwyddorion sail meini prawf y dylid

bod yn gymwys i bob llety modiwlaidd gweithwyr adeiladu dros dro sy'n ymwneud â Wylfa Newydd.

14. Mae’r Cynghorau yn ystyried y dylid cadw'r Polisi TAI 3 fel rhan o’r fframwaith polisïau er mwyn darparu fframwaith polisi i gynigion posibl na fydd yn ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd. Awgrymir gwelliannau i'r Polisi i egluro'i swyddogaeth - gweler Atodiad 3B. Ystyrir y dull hwn yn berthnasol o ystyried maint prosiectau adeiladu sydd ddim yn ymwneud a Wylfa Newydd a wyddom amdano neu a ragwelir y yn digwydd yn ardal y Cynllun yn ystod cyfnod y Cynllun, e.e. prosiect Cysylltiadau Gogledd Cymru (Grid Cenedlaethol), cyfleuster biomas (Orthios), ffordd osgoi Bontnewydd - Caernarfon, croesfan newydd dros y Fenai.

## 7.3 ECONOMI AC ADFYWIO

**PROSIECTAU ISADEILEDD O BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG**

### 7.3.1 Cefndir

- Mae gan y Deyrnas Unedig darged sy'n ymrwymiad cyfreithiol i gael toriad o 80% mewn allyriadau erbyn 2050, gyda tharged interim o leiaf o 34% yn is na'r lefelau blwyddyn sail erbyn 2020 (Deddf New id Hinsawdd 2008)
- Mae'n nod allweddol o bolisi cenedlaethol i wella diogelwch ynni'r wlad
- Mae Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn sefydlu'r angen am Brosiectau Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol (PIoBC – fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cynllunio 2008), yn cynnwys yn benodol ar gyfer cynhyrchu ynni.
- Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dewis safle ger y Wylfa fel safle sydd o bosibl yn addas ar gyfer adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd. Mae hwn yn ffurfio PIoBC, fel y mae'r PIoBC Grid Cenedlaethol ar wahân i ddarparu llinellau trosglwyddo o'r orsaf bŵer niwclear newydd.
- Fe allai'r PIoBC hyn fod ag oblygiadau isadeiledd mawr ar gyfer ardal y Cynllun, ar ffurf llinellau trawsgludo trydan newydd a datblygiad cysylltiedig.

### Cyflwyniad

7.3.2 Mae PIoBC yn brosiectau o bwysigrwydd cenedlaethol fel cefnffyrdd newydd, meysydd awyr, porthladdoedd, gorsafoedd pŵer (yn cynnwys niwclear), llinellau trawsgludo trydan, gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd cemegau.

7.3.3 ~~Amlinellir y broses gymeradwyo am orchymyn caniatâd datblygu (sef y ffurf o ganiatâd ar gyfer PIoBC) ym mharagraffau 3.7 – 3.10. Fel y nodwyd yn y paragraffau hynny, er mai'r sawl sy'n penderfynu yw'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol (yn dilyn archwiliad ac argymhelliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio), a~~**A**wdurdodau lleol neu gyrff statudol eraill sy'n penderfynu ar ddatblygiad cysylltiedig neu berthnasol nad ydynt yn y prif gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu, a bydd polisi cenedlaethol yn ystyriaeth berthnasol fel sy'n briodol. Lle mae datblygiad cysylltiedig neu ategol yn ymwneud gydag adeiladu neu weithredu Prosiect **Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol**, bydd y cynigion hyn yn dod o dan Bolisïau Strategol PS8**,** ~~a~~ PS9, **PS9A – PS9C** yn ogystal â pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun. **[NMC 125]**

7.3.4 Bydd ~~yr Arolygiaeth Gynllunio'n edrych ar g~~**c**eisiadau am ddatblygiad Prosiectau Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol **yn cael eu harchwilio** gan ddefnyddio'r meini prawf ar angen cenedlaethol, buddion ac ardrawiad, fel sydd i'w gweld mewn polisi perthnasol. Ar gyfer isadeiledd ynni, bydd hyn yn cynnwys y Datganiadau Polisi Cenedlaethol (DPC) ar gyfer Isadeiledd Ynni (EN-1- 6). Mae'r DPCau ynni yn amlinellu polisi cenedlaethol yr asesir ac yr archwilir ceisiadau am brosiectau ynni mawr yn eu herbyn. ~~gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Yn unol â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol, gall yr Arolygiaeth Gynllunio hefyd ystyried~~ **Mae** materion eraill sy'n bwysig a pherthnasol **hefyd** ~~i'w benderfyniadau~~ yn cynnwys y cynllun datblygu defnydd tir presennol, ~~y Cynllun yma pan fydd yn ddigon pwysig fel ystyriaeth gynllunio berthnasol neu fod y Cynllun yn cael ei fabwysiadu,~~ Rhaglen Ynys Ynni Môn, Cynlluniau Rheoli Cyrchfan, Cynllun Sengl Integredig, Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn y Wylfa **diwygiedig** a dogfennau perthnasol eraill. Ar gyfer cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu, rôl ddewisol ar y cyfan fydd gan awdurdod lleol o dan y Ddeddf Gynllunio 2008 **(fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017)**, ond fe fyddant yn cael eu gwahodd i asesu pa mor ddigonol yw'r ymgynghori a'r effeithiau lleol ac adrodd ar y

rhain ~~wrth yr Arolygiaeth Gynllunio~~ mewn Adroddiad Ardrawiad Lleol. Yn yr un modd, bydd yn bosibl i geisiadau gael eu gwneud i gyrff statudol eraill. ~~Yng Nghymru,~~ Yr awdurdodau cynllunio lleol yw'r awdurdodau penderfynu ar gyfer ~~unrhyw~~ **ambell** ddatblygiad yn gysylltiedig gyda'r cais Gorchymyn Rheoli Datblygiad ~~er enghraifft, llefydd byw i weithwyr adeiladu~~. **[NMC 126]**

7.3.5 Gall graddfa ac ardrawiad Prosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol **a datblygiadau cysylltiedig** gael eu lliniaru drwy pecynnau priodol o amodau caniatâd cynllunio, cytundebau cynllunio neu priffyrdd, **gofynion GCD,** a derbyniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (os gweithredir atodlen codi tâl ASC). **[NMC 127]**

7.3.6 Yn ogystal, ~~mae'n bosibl y~~ ~~bydd yn ofynnol~~ ~~gan~~ y Cynghorau yn **annog ddatblygwyr i ystyried** ~~i'r datblygwr~~ darparu pecynnau o fuddiannau cymunedol er mwyn cael eu gosod yn erbyn a digolledu'r gymuned am y baich o fod yn lleoliad i'r prosiect. Bydd unrhyw ~~gronfa~~ **becynnau** o'r fath yn cael eu defnyddio i roi yn erbyn y baich ar yr ardal, ac yn enwi ffyrdd etifeddiaeth posibl o'i ddefnyddio, yn cynnwys isadeiledd cludiant, cymdeithasol, economaidd a chymunedol fyddai o fudd i'r gymuned yn y tymor hir. **[NMC 128]**

7.3.7 Gallai fod modd ceisio cael budd cymunedol trwy ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol, y Deddfau Cynllunio, neu ddeddfwriaeth arall, neu fel dewis arall trwy gytundeb gwirfoddol gyda darparwr y prosiect, neu'n unol gyda phrotocol y diwydiant.

7.3.8 Taliadau ariannol **neu darpariaeth gwirfoddol eraill** yw'r Taliadau Budd Cymunedol gan ddatblygwr er budd cymunedau sy'n lletya'r datblygiad **sydd ddim yn ymdrin a effaith uniongyrchol y datblygiad a ni ellir eu ystyried i fod yn angenrheidio I wneud y datblygiad yn dderbyniol mewn nhermau cynllunio.** Mae Taliadau Budd Cymunedol **Gwirfoddol** yn wahanol ac yn hollol ar wahân i'r broses gynllunio. Nid ydynt yn ystyriaethau o bwys y gellir eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd neu ymateb yn gadarnhaol neu fel arall i gais i ymgynghori. ~~Ni fwriadwyd i unrhyw daliad a wneir wneud yn iawn am effeithiau uniongyrchol y datblygiad ac ni ellir dweud eu bod yn rhywbeth sydd ei angen i wneud datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio.~~ **[NMC 129]**

7.3.9 Ar hyn o bryd, mae dau PIoBC arfaethedig yn y cyfnod cyn ymgeisio tu mewn i ardal y Cynllun :

i. Adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd ger yr Wylfa, sef Wylfa Newydd, bwriad gan Horizon Nuclear Power, fel sydd i'w weld yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Cynhyrchu Pŵer Niwclear (EN-6);

ii. Gwelliannau / gwaith newydd gyda Llinellau Trawsgludo'r Grid Cenedlaethol yn cysylltu Wylfa Newydd gydag Is-orsaf Pentir a thu hwnt, wedi'u cynnig gan y Grid Cenedlaethol;

7.3.10 Mae'n bwysig bod y Cynllun yn rhoi'r fframwaith polisi er mwyn cynorthwyo'r Cynghorau i roi sylw i ac ymateb i gynigion PIoBC sy'n dod ymlaen, yn cynnwys er enghraifft:

i. Darparu cyngor a gwybodaeth i hysbysu hyrwyddwyr prosiectau yn ystod datblygiad eu cynigion ar gyfer ymgynghori a datblygu prosiectau;

ii. ymateb i ymgynghoriadau ffurfiol yn ystod datblygiad prosiectau ac ar geisiadau i gyrff eraill sy'n penderfynu;

iii. awgrymu gofynion priodol i'w cynnwys yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac ymrwymiadau (fel Cytundebau Adran 106 ac Ardoll Seilwaith Cymunedol, os yn berthnasol);

iv. penderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiad cysylltiedig, ategol neu berthnasol tu allan i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu;

v. gwneud sylwadau ar ba mor ddigonol yw'r ymgynghori;

vi. asesu ardrawiadau'r prosiect, yn gadarnhaol ac yn negyddol, yn yr Adroddiad Ardrawiad Lleol y bydd yr Arolygiaeth Cynllunio'n gwahodd y Cyngor/Cynghorau i'w gyflwyno ar ôl i unrhyw gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu gael ei gyflwyno;

vii. gwneud sylwadau fel rhan o drefn ffurfiol yr Arolygiaeth Gynllunio i archwilio'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu,

viii. wrth benderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth yn dilyn y caniatâd (yn cynnwys amodau caniatâd cynllunio a gofynion GCD), ac wrth gyflawni swyddogaethau fel yr awdurdod gorfodi.

7.3.11 Mae Polisi Strategol PS8 yn bolisi trosfwaol yn ymwneud ag unrhyw gais am PIoBC (heblaw am Wylfa Newydd) neu ag unrhyw geisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig â chais PIoBC neu'n ategol iddo, boed hwy'n cael eu penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd neu unrhyw asiantaeth arall. Nid yw Polisi Strategol PS8 yn ymwneud ac unrhyw gais yn gysylltiedig â'r PIoBC ar gyfer datblygiad yn wylfa Newydd, neu ddatblygiad/cynnig sydd yn gysylltiedig neu yn ategol a'r cais.

**POLISI STRATEGOL PS 8: CYNIGION AM BROSIECTAU ISADEILEDD O BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG**

**Yn eu rôl fel yr awdurdodau sy'n rhoi caniatâd i ddatblygiad cysylltiol neu fel rhywun sy'n cael ei ymgynghori am geisiadau i gyrff eraill, o fewn cyd-destun datganiadau polisi cenedlaethol a pholisi cynllunio cenedlaethol, bydd y Cynghorau'n anelu i sicrhau y bydd datblygiad yn gwneud cyfraniad positif i wireddu'r weledigaeth, amcanion strategol a strategaeth datblygu a welir yn y Cynllun. Rhoddir ystyriaeth i natur, graddfa, ystod ac ardrawiad posib unrhyw ddatblygiad wrth wneud hynny.**

**Bydd y Cynghorau felly'n amcanu i sicrhau cydymffurfiaeth, fel ~~mae'n briodol neu~~ berthnasol, gyda'r meini prawf canlynol:**

**1.** **Bydd y datblygiad a'i isadeiledd cysylltiol/ ategol, gan gynnwys unrhyw gynigion am lety, gyfleusterau addysg a hyfforddiant, cyflogaeth, cadwynau cyflenwi, ac isadeiledd cludiant, cymunedol, amgylcheddol a gwyrdd yn cyfrannu at gydbwysedd o allbynnau positif i gymunedau lleol a'r amgylchedd; ~~a~~**

**2.** **Bod asesiad o sut ddaru ystyriaeth o ddewisiadau amgen ddylanwadu ar y cynigion yn cael ei gyflwyno; ~~a~~**

**3.** **Bod asesiad cynhwysfawr o ardrawiadau amgylcheddol (tirwedd, adeiledig, hanesyddol a naturiol), cymdeithasol (gan gynnwys iechyd a mwynderau), ieithyddol a diwylliannol, cludiant ac economaidd (positif, negyddol a chronnol) o'r cynnig yn ystod y cyfnod adeiladu, gweithredol a'r cyfnodau dadgomisiynu ac adferiad (os yw hynny'n berthnasol) yn cael ei ddarparu, yn ogystal â mesurau cyflawni lle mae'n briodol i osgoi, lleihau, lleddfu a/neu ddigolledu'r niwed a achosir; ~~a~~**

**4.** **Darparu cyfraniadau i'r Cyngor neu gorff arall priodol a chytunedig er mwyn gwneud iawn am unrhyw effeithiau anffafriol a niwed wedi'u hachosi gan y prosiect trwy ymgysylltu'n effeithiol gyda chymunedau lleol a'r Cyngor yn yr adeg cyn cyflwyno'r cais. Yr amcan fydd canfod mesurau, prosiectau a gwasanaethau i wella lles a chynaladwyedd tymor hir y cymunedau mae'n effeithio arnynt; ~~a hefyd~~**

**5.** **I gydnabod unrhyw faich a tharfu sy'n digwydd i'r gymuned wrth fod yn lleoliad i unrhyw brosiect isadeiledd o bwysigrwydd cenedlaethol, gall fod yn ofynnol gan y Cyngor i'r datblygwr ddarparu pecynnau priodol o fuddiannau cymunedol er mwyn gwneud iawn am a digolledu'r gymuned am y baich sy'n dod gyda bod yn lleoliad i'r prosiect; ~~a hefyd~~**

**6.** **Cael cymaint ag y bo modd o fudd economaidd a chymunedol lle bo hynny'n ymarferol, trwy gytuno gyda'r Cyngor yn gynnar yn ystod camau datblygu'r prosiect ar strategaethau ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio; a hefyd**

~~7. Dylid cyflwyno Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, sy'n cwrdd â gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) gydag unrhyw gynnig am ddatblygiad, gan gynnwys pob datblygiad ategol ac anwythol; a hefyd~~

**8.** **Darparu mesurau i amddiffyn rhag llifogydd i reoli risg llifogydd, a lle bo'n ymarferol, cael gwelliannau yn yr ardal honno. Darparu asesiad o'r ardrawiadau sy'n cael eu rhagweld oddi wrth y cynnig ar yr amgylchedd morol a thir o gwmpas a darparu mesurau i reoli a lleihau unrhyw niwed sy'n cael ei achosi.**

**Er mwyn cael digon o wybodaeth i fedru asesu effeithiau'r cynigion, gall y Cyngor ofyn am baratoi cynlluniau rheoli neu gynlluniau cyflawni, sy'n dangos y mesurau ar gyfer cael cymaint o fudd ag y bo modd ac i leddfu a/neu ddigolledu am ardrawiadau lle mae cyfiawnhad dros hyn mewn polisi cenedlaethol neu leol. Dylai'r cynlluniau hyn ddangos yr amserlenni ar gyfer darparu a'r systemau ac adnoddau fydd yn cael eu defnyddio i weithredu'r mesurau arfaethedig. [NMC 130]**

**WYLFA NEWYDD A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG**

**CYFLWYNIAD**

7.3.13 Mae'r ddau Gyngor a'u partneriaid wedi cydnabod potensial arwyddocaol Wylfa Newydd yn arbennig i'r economi leol yn Rhaglen Ynys Ynni Môn, Cynllun Strategol/ Corfforaethol y ddau Gyngor a'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd. ~~Mae Pennod 3 o'r Cynllun yn rhoi dolen i'r Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa, syn gosod allan cyngor ategol Cyngor Sir Ynys Môn ar faterion uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn perthynas â'r prosiect yma ac ei ymateb i bolisïau a strategaethau cenedlaethol a lleol ynghyd -destun y arhoi~~

~~gwybodaeth am weledigaeth Cyngor Sir Ynys Mon yn gysylltiedig â'r prosiect yma.~~ Mae'r rhan hon o'r Cynllun yn delio gyda datblygiadau cysylltiol i Brosiectau Isadeiledd Mawr, gan gynnwys rhai ble mai naill ai Cyngor Sir Ynys Môn neu Gyngor Gwynedd yw'r awdurdod cynllunio sy'n penderfynu ar gais cynllunio. [NMC 131]

7.3.14 Er nad y Cynghorau yw'r awdurdodau i roi caniatâd ar gyfer y Gorchymyn Caniatâd Datblygu Prosiect Wylfa Newydd, maent yn credu ei bod hi'n bwysig egluro'r ymagwedd a fyddant yn cymryd yn eu rôl fel awdurdodau cynllunio pan fyddant yn derbyn ymgynghoriad am y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu. Fe fyddant hefyd yn sicrhau bod datblygiadau cysylltiedig sy'n destun cais ar gyfer caniatad gan y Cynghorau yn cyd-fynd â strategaeth a pholisïau perthnasol y Cynllun. **Mae gweledigaeth Cyngor Sir Ynys Môn (fel yr awdurdod sy'n rhoi lle i'r datblygiad) ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd i'w weld ym Mhennod 5 o'r Cynllun hwn, ac mae o wedi hysbysu Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun.** Disgwylir i'r Prosiect gyfrannu i Weledigaeth y Cynllun trwy:

- **gyfrannu i wireddu Rhaglen Ynys Ynni Môn a Pharth Menter Môn**
- **gyrru trawsnewid yr economi, uchafu cyfleoedd ar gyfer yr economi a gwella sgiliau pobl leol;**
- **cynnal a chryfhau ansawdd bywyd cymunedau lleol ac ymwelwyr;**
- **gwarchod a chryfhau hunaniaeth ardal y Cynllun;**
- **gwarchod, neu le'n briodol, gwella amgylchedd ac adnoddau unigryw ardal y Cynllun, gan roi sylw i newid hinsawdd.** **[NMC 134]**

~~Hyd nes y caiff y Cynllun ei fabwysiadu neu bydd polisïau perthnasol yn cario digon o bwysau fel ystyriaethau cynllunio perthnasol bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau bydd y dull o ymdrin â datblygiadau perthnasol yn gysylltiedig â Wylfa Newydd yn adlewyrchu polisïau'r Cynllun Datblygu presennol, y Cynllun Datblygu Unedol a stopiwyd, polisïau cynllunio cenedlaethol a'r Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa. Boed yn eu rôl fel y rhai sy'n penderfynu, neu i ymgynghori â hwy ar gyfer ceisiadau i gyrff eraill, bydd y Cynghorau'n ceisio cyflawni'n eu blaenoriaethau statudol fel sydd i'w gweld yn eu Cynlluniau Integredig Sengl, Cynlluniau Strategol a chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill.~~ [NMC 132]

7.3.15 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol **Diwygiedig** Adeiladu Niwclear Newydd yn Wylfa yn nodi cyngor atodol Cyngor Sir Ynys Môn ar faterion lleol uniongyrchol neu anuniongyrchol bwysig mewn perthynas â Phrosiect **Wylfa Newydd** ac ymateb i strategaethau a pholisïau cenedlaethol a lleol yng nghyd-destun y Prosiect ac yn ystyriaeth faterol bwysig wrth asesu ceisiadau cynllunio yn gysylltiedig â **datblygiadau cysylltiedig arfaethedig ynghlwm a** Phrosiect **Wylfa Newydd**. **Ar y cyd efo pholisïau'r Cynllun,** bydd y CCA Adeiladu **Gorsaf** Niwclear Newydd Wylfa **diwygiedig** yn cynorthwyo'r Cyngor Sir i:

- roi arweiniad manwl am ddatblygiad sydd â chysylltiad efo'r Prosiect e.e. llety gweithwyr adeiladu
- wneud penderfyniadau cadarn ar ~~bob gwaith galluogi a~~ geisiadau cynllunio datblygu cysylltiedig
- sicrhau bod effeithiau posibl yr Adeilad Niwclear Newydd a'i ddatblygiadau cysylltiedig yn cael eu nodi a'u lliniaru lle bo'n bosibl
- sicrhau bod y manteision economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer yn cael eu gwireddu'n llawn. [NMC 133]

~~**7.3.15A**~~ ~~Disgwylir i'r Prosiect gyfrannu i Weledigaeth y Cynllun trwy:~~

- ~~gyfrannu i wireddu Rhaglen Ynys Ynni Mon a Pharth Menter Mon~~
- ~~gyrru trawsnewid yr economi, uchafu cyfleoedd ar gyfer yr economi a gwella sgiliau pobl leol;~~
- ~~cynnal a chryfhau ansawdd bywyd cymunedau lleol ac ymwelwyr;~~
- ~~gwarchod a chryfhau hunaniaeth ardal y Cynllun;~~
- ~~gwarchod, neu le'n briodol, gwella amgylchedd ac adnoddau unigryw ardal y Cynllun, gan roi sylw i newid hinsawdd.~~ **[NMC 134]**

7.3.16 Ar sail y wybodaeth sydd i law ar hyn o bryd mae'n glir y bydd y Prosiectau yma'n ddatblygiadau arwyddocaol a fydd yn cael nifer o ardrawiadau arwyddocaol, ~~sy'n~~ rhai **o bosib yn** bositif **ac eraill** o bosib yn negyddol. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd gwaith adeiladu Wylfa Newydd yn digwydd **mewn** oddeutu ~~12~~ **10** mlynedd, ac fe fydd yna o gwmpas ~~8,500~~ **8,000 i 10,00** o weithwyr adeiladu yn ystod y cyfnodau brig (er cydnabyddir bod y Prosiect yn dal i fod angen dylunio manwl). Fe fydd yna symudiadau HGV arwyddocaol yn ystod y cyfnod adeiladu, yn arbennig ar hyd yr A55 a'r A5025. Ar ôl iddo gael ei adeiladu rhagwelir y bydd Wylfa Newydd yn cyflogi tua ~~1,000~~ **850** o weithwyr. ~~Mae'r angen am lety i weithwyr adeiladu yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd yn un mater mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi edrych arno'n fanwl. Rhagwelir dylifiad sydyn o nifer fawr o weithwyr i'r ardal yn ystod y cyfnod adeiladu. Credir ei bod hi'n bwysig bod llety'n gyson ag amcanion cyffredinol y Cynllun ac na fydd yn rhagfarnu gwireddu'r strategaeth ofodol. Rhagwelir y caiff gweithwyr adeiladu llety trwy gyfuniad o ddulliau, sef unedau tai preifat i'w prynu a'u rhentu, llety gwyliau a llety gwyliau pwrpasol a gaiff ei ddarparu trwy Horizon neu gan drydydd parti. Ceir mwy o wybodaeth am y safbwynt yma yn <http://www.ynysmon.gov.uk/busnes/ynys-ynni/newyddion-ynys-ynni/atomfa-newydd-yr-wylfa-darparu-llefydd-aros-ar-gyfer-gweithwyr-adeiladu-safbwynt-y-cyngor-sir/114496.article?redirect=false> ac yn y Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa <http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/2014/08/11/i/r/p/Gorsaf-Niwclear-Newydd-yn-Wylfa-Canllawiau-Cynllunio-Atodol-Mabwysiadwyd-Gorffennaf-2014.pdf>~~ **[NMC 135]**

7.3.17 ~~Rhagwelir y bydd angen llety ar gyfer nifer fawr iawn o weithwyr adeiladu a gaiff eu cyflogi yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd. Rhagwelir hefyd bydd angen tir yn gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd, e.e. safle(oedd) ar gyfer swyddfeydd, llety aros dros dro a defnyddiau eraill ar gyfer logisteg, storfa a gwneuthuriad oddi ar safle.~~ Gallai mesurau lliniaru effaith y prosiect gael eu huchafu pe fyddai'r datblygiad yn cael ei leoli yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun, a welir ym Mhennod 6, **Polisi PS 9, y polisïau penodol a welir yn PS 9A – 9C,** a pholisïau perthnasol y Cynllun **(gan gynnwys** ~~Polisi TAI 3,~~ **Polisi TAI 8 a Pholisi PS 1)**, yn dibynnu ar y math o ddefnydd **a'i raddfa**, er mwyn bod yn gyson ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy. **[NMC 136]**

**7.3.17a** **Dylai cynigion am** ~~**gofynion**~~ **lety gweithwyr adeiladu leihau'r effaith ar y farchnad dai lleol (gan gynnwys gallu'r rhai ar incwm isel i gael mynediad at y sector rhentu preifat, tai fforddiadwy a gwasanaethau tai eraill), a'r sector twristiaeth.** ~~Dylai'r gweithlu adeiladu gael llety drwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys y stoc bresennol o dai (i'w prynu neu rentu), llety gwyliau a llety parhaol pwrpasol newydd neu fodiwlaidd a ddarperir gan Horizon neu drwy drydydd parti. Lle y bo'n briodol,~~ **Mae'r Cynghorau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prosiect ddarparu budd etifeddiaeth i**

gymunedau lleol yn ystod cyfnod y Cynllun neu y tu hwnt i'r cyfnod adeiladu. Cafodd strategaeth llety gweithwyr adeiladu drafft ei baratoi a bydd yn cael ei gwblhau gan roi ystyriaeth i Strategaeth Ofodol y Cynllun a pholisïau perthnasol yn y Cynllun, gan gynnwys cyfres o bolisïau sy'n rhoi arweiniad pellach ar reoli datblygiadau sydd â chysylltiad efo'r Prosiect Cysylltiedig. [NMC 137]

**7.3.17b** Dylai'r gweithlu adeiladu gael llety drwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys y stoc bresennol o dai (i'w prynu neu rentu), llety gwyliau a llety parhaol pwrpasol newydd neu fodiwlaidd a ddarperir gan Horizon neu drwy drydydd parti. Ni ddylia defnydd o'r fath fodd bynnag arwain at ardrawiad annerbyniol ar argaeledd tai (hunan berchnogaeth a rhentu'n breifat) neu ar argaeledd lelty ymwelwyr. Fe ddylia'r ardrawiadau fod yn dderbyniol. Mae twristiaeth yn sector economaidd pwysig ac mae angen iddo gael ystyriaeth ac asesiad benodol wrth gwblhau'r strategaeth llety gweithwyr.

7.3.18 Yn nhermau lleoliad, safbwynt y Cynghorau yw y dylid lleoli llety ar gyfer y gweithwyr adeiladu dros dro cyn belled ag sy'n bosib o fewn, neu wrth ymyl, neu yn agos at â pherthynas dda gyda ffiniau datblygu Canolfannau a Phentrefi Gwasanaeth enwir yng Nghoeden Aneddleoedd y Cynllun (dibynnu ar raddfa'r datblygiad), ac mewn lleoliadau sydd â chysylltiad da a'r prif lwybrau teithio a dulliau theithio, yn arbennig y rheilffordd. Fe ddylent hefyd gyfrannu i raglenni adfywio cynaliadwy a chefnogi bywiogrwydd a hyfywdra canol trefi. Defnyddir yn meini prawf canlynol i asesu os ydi safle arfaethedig efo perthynas dda gyda ffin datblygu:

- pellter corfforol / graddau'r gwahaniad gyda pellter a gwahaniad cynyddol yn llai ffafriol; a
- lleoliad y safle o ran cyfleusterau, gwasanaethau ac asedau cynaliadwyedd eraill (megis darparu gweithgareddau hamdden, cyfleoedd cyflogaeth, ac ati) yn y Ganolfan / Pentref Gwasanaeth; a
- hygyrchedd i'r Ganolfan / Pentref Gwasanaeth (yn bennaf gan dulliau trafnidiaeth heblaw'r car) a'r gallu i wella ar hynny; ac
- effeithiau gweledol a gallu i integreiddio datblygiad y tirwedd a threflun.

7.3.18a Mae paragraff 7.3.17b A yn cyfeirio at y gwahanol fathau o lety. O ystyried maint y nifer disgwyliedig o weithwyr adeiladu sy'n ofynnol yn ystod y cyfnod adeiladu, ystyrir bod datblygiadau modiwlaidd yn rhan o'r cyflenwad o lety ond nid hwn fydd y dewis cyntaf ac eithrio'r ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer gweithwyr hanfodol ar y prif safle Prosiect Wylfa Newydd. Byddai darparu rhai llety modiwlar mewn adeiladau dros dro ar safle Prosiect Wylfa Newydd yn dderbyniol pryd y caiff ei gefnogi gan lefel briodol o gyfleusterau cymunedol a pryd gellir dangos bod effaith trafnidiaeth (gan gynnwys mynediad gweithwyr a pharcio) yn dderbyniol. Mae Polisi PS 9 a Pholisi 9A yn nodi'r gofynion ar gyfer llety modiwlar o'r fath sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd.

7.3.18b Fe ddylai Mae'n rhaid i hyrwyddwr y prosiect ystyried ailddefnyddio ddangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth lawn i ail-ddefnyddio adeiladau presennol lle'n ymarferol i wneud hynny a/ neu ddarparu adeiladau parhaol sydd yn gallu cael eu haddasu ar gyfer defnydd parhaol ar ôl cael eu defnyddio gan weithwyr adeiladu ynghyd a defnydd cymesur o dai sector breifat cyn argymell llety modwlar mewn adeiladau dros dro a fyddai'n cael eu tynnu i lawr ar ddiwedd y defnydd dros dro. Dylai'r hyrwyddwyr prosiect hefyd ddangos sut y maent wedi ymgysylltu â, ac wedi ceisio defnyddio unrhyw gyfleusterau sydd wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer llety gweithwyr niwclear cyn iddynt wneud cais am unrhyw ganiatâd pellach. [NMC 138]

7.3.18c Dylai unrhyw lety modiwlaidd a ddarperir y tu allan i safle Prosiect Wylfa Newydd ddarparu defnydd gwaddol cynaliadwy ar gyfer yr adeiladau neu'r safle a dangos sut y sicrheir yr etifeddiaeth honno. Bydd y Cynghorau hefyd yn ystyried y dylid edrych ar y posibilrwydd o ailddefnyddio safleoedd ac adeiladau a ddefnyddir yn y lle cyntaf ar gyfer llety gweithwyr neu unrhyw ddefnydd tir arall dros dro adeg cynllunio a dylunio'r cynllun, e.e. trwy osod y safle allan o'r cychwyn fel ei fod yn gallu cael ei ddefnyddio eto, adeiladu adeiladau parhaol sy'n gallu cael eu haddasu i ddefnydd amgen priodol. Bydd rhaid i ddefnydd etifeddiaeth arfaethedig priodol gydymffurfio â'r polisïau perthnasol yn y Cynllun hwn. Mae defnyddiau etifeddiaeth posib yn cynnwys lleiniau wedi eu gwasanaethu ar gyfer tai fforddiadwy, llety ar gyfer yr henoed neu anghenion arbennig, llety myfyrwyr, swyddfeydd neu westai neu adeiladau a ellir eu haddasu i ddibenion tebyg, lleiniau wedi eu gwasanaethu ar gyfer defnydd tebyg neu ddefnyddiau cyflogaeth cysylltiedig. Fe ddylai etifeddiaeth defnydd preswyl parhaol gael ei ddylanwadu gan yr Asesiad Marchnad Tai Lleol a gyhoeddwyd er mwyn sicrhau bod y math o unedau tai sydd eu hangen i gyfarch angen lleol yn cael eu hymgorffori yn y cynnig ar y cam dylunio. Os yw'r hyrwyddwr y prosiect a'r Cyngor yn cytuno dangosir hyd fodd y Cyngor nad yw defnydd ôl-ddatblygu'n ymarferol, rhaid cael gwared â'r adeiladau neu strwythurau dros dro a'r tir gael ei ddychwelyd i'w gyflwr blaenorol hyd fodlondeb yr Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn cyfnod penodol a fyddai'n cael ei reoli trwy amod cynllunio. Mewn achosion o'r math yma bydd angen buddion gwaddol oddi ar y safle er mwyn gwneud yn iawn am ddiffyg etifeddiaeth ar y safle ac fe ddylid ei gynnwys o fewn y cynnig. Mae Polisi PS 9A yn rhoi meini prawf ar gyfer llety dros dro ar gyfer gweithwyr adeiladu dros 500 o wlâu. Mae Polisi TAI3 yn gosod yr arweiniad polisi ar gyfer llety dros dro ar gyfer gweithwyr adeiladu hyd at 500 o wlâu, ac mae Polisi TAI8 yn gosod allan yr arweiniad polisi mewn perthynas â defnydd anheddol o lety gwyliau gan weithwyr adeiladu dros dro.

7.3.18ch Er mwyn lliniaru effeithiau Prosiect Wylfa Newydd ar y farchnad dai ac i helpu i gydlynu y defnydd gorau o bob math o lety, bydd yn ofynnol disgwylir i weithwyr adeiladu ddefnyddio gwasanaethau a ddarperir gan Borth Rheoli Llety Gweithwyr Adeiladu, sef yr enw cyfredol am y gwasanaeth. Bydd y Porth yma yn cynnwys cofrestr o ystafelloedd neu eiddo a fydd ar gael i'w rhentu, a bydd angen i'r ymgeisydd gynnig a sicrhau dulliau lle bydd rhaid i weithwyr neu anogir nhw i drefnu eu llety trwy'r Porth. Caiff y Porth ei ddefnyddio hefyd i gadw golw ar nifer

sy'n derbyn llety a darparu toriad fesul sector ac yn ofodol. Caiff y wybodaeth yma ei rannu efo'r Cynghorau yn unol a'r strategaeth llety gweithwyr er mwyn caniatau i'r Cynghorau a'r ymgeisydd i fonitro effeithiau ar sectorau a lleoliadau ac ymateb yn briodol pan na fydd rheini yn cyd-fynd efo'r ardrawiadau a ragwelwyd. [NMC 139]

7.3.19 Mae Polisi Strategol PS9 yn gymwys ar gyfer Prosiect arfaethedig Wylfa Newydd, yn cynnwys unrhyw ddatblygiad yn gysylltiedig gyda hi. **Nid yw PS9 yn berthnasol i unrhyw gais arall Prosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol neu unrhyw datblygiad cysylltiedig neu ategol**. Dylai'r ARhC ar lefel prosiect gael ei hysbysu gan gasgliadau'r ARhC: Adroddiad Safle ar gyfer Wylfa[1] yn ogystal â'r broses ARhC ar gyfer CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd. [NMC 140]

**POLISI STRATEGOL PS 9: WYLFA NEWYDD A DATBLYGIAD SY'N GYSYLLTIEDIG Â PHROSIECT WYLFA NEWYDD**

**Yn ei rôl naill ai fel yr awdurdodau yn penderfynu ar gyfer datblygiad cysylltiedig, neu fel un i ymgynghori ar gyfer ceisiadau GCD, ceisiadau i gyrff eraill, ac o fewn darpariaethau polisi cenedlaethol, bydd y Cynghorau, wrth asesu ac ymateb i gynigion sy'n dod yn amlwg ar gyfer Wylfa Newydd a'i datblygiadau cysylltiedig, fe fydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth, lle bo'n briodol neu'n berthnasol, gyda'r meini prawf canlynol:**

1. **Dylai unrhyw bolisïau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun, ac unrhyw ganllawiau cynllunio, fod yn siapio'r dull o ddatblygu'r orsaf bŵer niwclear ac a chynigion am unrhyw ddatblygiad cysylltiedig; a**
2. **Er mwyn cael cyn lleied o ardrawiad ag y bo modd a chymaint ag y bo modd o ailddefnyddio'r cyfleusterau a deunyddiau sy'n bodoli'n barod, bod cyfleoedd wedi cael eu cymryd lle bo'n ymarferol i integreiddio gofynion adeiladu Prosiect Wylfa Newydd gyda'r bwriad i ddadgomisiynu'r orsaf bŵer presennol; a**
3. **Bydd cynigion priffyrdd a chludiant ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd yn rhan o strategaeth traffig a thrafnidiaeth integredig sy'n ystyried Polisi Strategol PS 4 a Pholisïau manwl perthnasol ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol o ran cludiant i lefel sy'n dderbyniol, yn cynnwys y rhai'n codi yn ystod y cyfnodau adeiladu, a gweithredu a dadgomisiynu ac adfer. Dylai cynigion, lle bo'n ymarferol, wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at amcanion polisi cludiant yn yr ardal, a chynnwys atebion aml-foddol a buddsoddiad sy'n annog teithio gyda chludiant cyhoeddus, cerdded a beicio; a**
4. **Bydd gwaith cynnar neu baratoi ar gyfer datblygiad yr orsaf pŵer niwclear yn dangos eu bod yn angenrheidiol i sicrhau y cyflawnir Prosiect Wylfa Newydd yn amserol neu ac wedi'u cynllunio i ddarparu mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau adeiladu neu weithrediad Prosiect Wylfa Newydd. Rhaid unrhyw waith paratoi neu gynnar gael strategaeth i alluogi'r safleoedd i gael eu hadfer i safon dderbyniol pe na fyddai'r Prosiect yn derbyn caniatâd neu gael ei adeiladu a dangos sut y sicrheir y costau o gynnal gwaith adfer o'r fath, gan**

[1] Adran Ynni a Newid Hinsawdd (2010) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Adroddiad Safle ar gyfer Wylfa. EN-6 Datganiad Polisi Cenedlaethol Drafft Diwygiedig ar gyfer Cynhyrchiad Pŵer Niwclear

gynnwys drwy fondio.

5. Dylai gofynion am lety gweithwyr adeiladu gael eu hateb mewn ffordd sy'n lleihau gymaint ag y bo modd yr effaith ar y farchnad dai lleol, yn cynnwys gallu rhai ar incwm isel i gael mynediad i'r sector rhentu preifat, tai fforddiadwy neu wasanaethau tai eraill, gan roi sylw i'r Asesiad Marchnad Tai Leol a gyhoeddwyd, neu a na fydd yn arwain at effeithiau economaidd (gan gynnwys y sector twristiaeth), cymdeithasol ieithyddol neu amgylcheddol niweidiol. Dylai cynigion ffurfio rhan o strategaeth gadarn ar gyfer llety gweithwyr adeiladu a fydd yn talu sylw i Strategaeth Ofodol y Cynllun ac unrhyw bolisïau perthnasol yn y Cynllun, gan gynnwys Polisi PS 9A, Polisi TAI 3; a

6. Pan fydd y cynigion am gyfnod dros dro fe ddylai dewis y safle a manylion y cynnig Wrth ystyried lleoliad a dyluniad datblygiadau cysylltiol, dylid rhoi roi ystyriaeth i'r etifeddiaeth a fyddai'n deillio ohonynt fel bod buddsoddi mewn elfennau fel isadeiledd, adeiladau, gwaith ecolegol a thirlun yn dod â buddion tymor hir yn ystod y cyfnod ôl adeiladu. Lle bo'n briodol, Bydd angen dylai cynlluniau darparu gyda'r cais cynllunio i ddangos sut roddwyd sylw i ddefnydd ar gyfer ffyrdd etifeddiaeth o ddefnyddio cael eu cytuno yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais, a'r cynlluniau hynny ddarparu gwybodaeth ar gyfer y ffordd o weithredu tuag at ddylanwadu dyluniad a chynllun y safleoedd datblygu cysylltiedig, yn ogystal â chyfrannu i fframio cytundeb Adran 106 a/neu gytundebau eraill a thaliadau Ardoll Isadeiledd Cymunedol (os yn gymwys); a

7. Bydd cynigion am ddatblygiad cysylltiedig ar gyfer llety gweithwyr steil campws graddfa fawr (500 neu fwy o wlâu), canolfannau logisteg, cyfleusterau parcio a theithio yn cael eu hasesu yn erbyn polisïau PS 9A – 9C hefyd;

8. Dylai sut mae'r cynllun yn cael ei gynllunio a'i ddyluniad a graddfa'r llefydd agored, tirweddu, plannu (gan gynnwys gwrychoedd a choed), dyfrffordd a nodweddion tebyg isadeiledd gwyrdd arfaethedig osgoi, lleihau, lleddfu neu wneud iawn am ardrawiadau ar olygfa, tirwedd ac ecoleg yr ardal leol ac ehangach, yn ogystal ag ar agweddau diwylliannol a hanesyddol y dirwedd, yn y tymor byr a'r tymor hirach. Bydd disgwyl i gynigion fod yn gymesur gyda graddfa'r datblygiad, a maint ei ardrawiad; a hefyd

9. Dylid cyflwyno Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, sy'n cwrdd â

10. Bydd angen i'r hyrwyddwr drafod yn fuan efo'r Cyngor ynglŷn â strategaethau caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a phenodi, gyda'r nod i uchafu cyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer cymunedau lleol yn y tymor byr a thymor hirach. Dylai'r Cyngor gytuno yn gynnar yn ystod datblygiad y prosiect ar ddarparu strategaethau a chynlluniau darparu ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio, gyda'r amcan o gael gymaint ag y bo modd o gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer y cymunedau lleol, yn y tymor byr a'r tymor hirach. Bydd angen i Dylai'r Cyngor gytuno yn gynnar yn ystod datblygiad y prosiect ar ddarparu strategaethau a chynlluniau darparu'r hyrwyddwr ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio, gael eu gytuno gan y cyflwyno i'r Cyngor fel rhan o gais cynllunio; gyda'r amcan o gael gymaint ag y bo modd o gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer y cymunedau lleol, yn y tymor byr a'r tymor hirach; a

11. Lle bydd Bod isadeiledd cymunedol yn cael ei ddarparu ar gyfer gweithwyr adeiladu, er enghraifft cyfleusterau parcio a theithio, parcio a rhannu, siopau, gofal iechyd a chwaraeon a hamdden, lle bo'n ymarferol dylai'r rheiny gael eu lleoli a'u dylunio fel eu bod ar gael i'r gymuned eu defnyddio yn ystod y cyfnod adeiladu ac, ymhen amser, lle bo'n briodol, i wasanaethau defnydd etifeddiaeth. Lle bydd ardrawiadau neu alwadau ychwanegol yn digwydd ar gyfleusterau cymunedol sy'n bodoli'n barod, bydd y Cyngor yn ceisio cael naill ai cyfraniadau priodol ar gyfer cyfleusterau oddi ar y safle neu am uwchraddio cyfleusterau presennol. Dylid ystyried defnydd etifeddiaeth o unrhyw gyfleusterau ychwanegol a ddarperir ble bo hynny'n briodol; a

12. Dylai cynigion gynnwys mesurau priodol i hyrwyddo cydlyniad cymunedol a diogelwch

**cymunedol; ~~a~~**

13. **Bod holl gynigion yn cael eu gwasanaethu yn briodol gan seilwaith trafnidiaeth, gan gynnwys trafnidiaeth gyhoeddus ac ni fydd yn cael effeithiau niweidiol ar gymunedau lleol a thwristiaeth a rhaid dangos hyn mewn asesiad trafnidiaeth. Lle ceir cysylltedd trafnidiaeth annigonol, nad oes gan y rhwydwaith ffyrdd digon o gapasiti i ymdopi â lefel y traffig a fydd yn deillio o unrhyw ddatblygiad, neu rhagwelir effaith andwyol, bydd angen gwelliannau priodol i'r rhwydwaith trafnidiaeth a darperir opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy i liniaru;**

14. **Dylai'r baich a'r tarfu at y gymuned oherwydd ei bod yn lleoliad i brosiect mawr cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud gyda'r diwydiant niwclear gael ei gydnabod; a bydd ymgais i gael y datblygwr ~~i wirfoddoli~~ i ddarparu pecynnau priodol o fuddion i'r gymuned er mwyn gwrthbwyso a digolledu'r gymuned am y baich a'r tarfu sy'n digwydd trwy fod yn lleoliad i'r prosiect; ~~a~~**
15. **Byddai angen i unrhyw gynnig ar safle Wylfa Newydd (tu allan i Orchymyn Caniatâd Datblygu) ar gyfer trin, storio neu gael gwared â Gwastraff Lefel Isel Iawn, Lefel Isel neu Lefel Canolig neu i drin neu storio gweddillion tanwydd sy'n deillio o'r orsaf bŵer niwclear presennol neu unrhyw ddatblygiad niwclear yn y dyfodol du mewn i neu du allan i ardal y Cynllun, mewn cyfleuster sy'n bodoli'n barod neu yn yr arfaeth ar neu du allan i'r safle niwclear ~~fod:~~**
    - ~~i. Gyda chyfiawnhad cryf drosto~~
    - ~~ii. Yn dangos bod yr ardrawiadau cynllunio'n dderbyniol; a hefyd~~
    - **iii. Ddangos y byddai'r buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn gryfach nag unrhyw effeithiau negyddol.**
16. **Os nad yw defnydd neu etifeddiaeth yn y dyfodol ar gyfer unrhyw ddatblygiad dros dro yn ymarferol bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod adeiladau dros dro yn cael eu symud; a**

    i. **Bod y tir â gwasanaeth wedi'i adael mewn cyflwr addas ar ôl cael gwared ar y strwythurau yn unol â chynllun gwaith a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; neu**

    ii. **Bod yr holl gyfleusterau gwaredu gwastraff, ffyrdd, llefydd parcio a chyfleusterau draenio yn cael eu tynnu oddi ar y safle yn gyfan gwbl a bod y tir yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol yn unol â chynllun gwaith a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd gan yr awdurdod cynllunio lleol.**

**Mae'n bosibl, wrth i'r prosiect ddatblygu, oherwydd canlyniadau na chawsant eu rhagweld oddi wrth adeiladu a gweithredu adeiladu Prosiect Wylfa Newydd, y bydd y Cynghorau angen gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y datblygwr, neu i waith gael ei wneud ganddo ~~a gall, o ganlyniad i hynny, fod eisiau ail negodi unrhyw becyn lleddfu neu ddigolledu~~ er mwyn gwneud iawn am unrhyw ardrawiadau neu feichiau ychwanegol ar y gymuned mae hynny'n effeithio arni. Dylai'r datblygwr gynnwys mecanweithiau adolygu er mwyn monitro'r amrediad llawn o ardrawiadau, ~~ac~~ adolygu pa mor ddigonol yw mesurau lleddfu neu ddigolledu, a gwneud newidiadau fel bydd angen. [NMC 141]**

**7.3.19a Ni fydd angen i ddatblygiadau cysylltiedig o dan Bolisïau PS 9A, PS 9B, or PS 9C gydymffurfio gyda Pholisïau TAI 3, TAI 5, TAI 8, TAI 9, TAI 14, TAI 15, TAI 16 a TAI 17; PS 12 a PS 15; ISA 2 a ISA 5; a TWR 2 o fewn y Cynllun. [NMC 142]**

**IS BOLISI NEWYDD PS9 A - WYLFA NEWYDD – LLETY DROS DRO ~~GRADDFA FAWR~~ STEIL CAMPWS AR GYFER GWEITHWYR ADEILADU**

**Yn ei rol naill ai fel awdurdodau yn penderfynu ar gyfer datblygiad cysylltiedig neu fel un i ymgynghori ar gyfer cais GCD ar gyfer Wylfa Newydd, bydd y Cynghorau yn anelu i sicrhau bod ~~Caniateir~~ cynigion am lety dros dro ~~graddfa fawr~~ steil campws i weithwyr adeiladu yn rhoi ystyriaeth i neu gydymffurfio gyda ~~o fwy na 500 o wlâu dim ond, yn ogystal â chydymffurfio gyda~~ Pholisi PS 9 (lle'n berthnasol), ac i'r meini prawf canlynol:**

1. **Bod y datblygwr yn dangos yn gyntaf bod y cynnig yn diwallu angen a brofir am lety dros dro i weithwyr adeiladu nad allir ei ddiwallu trwy un ai lety preswyl presennol, neu ail-ddefnyddio adeiladau presennol, neu trwy ddarparu adeiladau parhaol a fyddai'n gallu cael eu addasu i ddefnydd parhaol ar ol iddynt gael eu defnyddio gan weithwyr adeiladu; a**

2. **lleolir y cynnig ar safle Prosiect Wylfa Newydd neu safle sy'n gyfagos neu sydd â pherthynas dda gyda ~~yn agos at~~ ffin datblygu Caergybi, Amlwch, Llangefni, Gaerwen neu Y Fali ~~Canolfan a nodwyd o fewn y Goeden Aneddleoedd yn y Cynllun~~, ac mae'n agos at y prif rwydwaith priffyrdd lle y gellir darparu mynediad digonol heb niwed sylweddol i gymeriad a nodweddion tirwedd; neu**

~~3. mewn amgylchiadau eithriadol, bod y safle wedi ei leoli yng nghefn gwlad agored, ar yr amod y gall yr ymgeisydd ddangos nad oes unrhyw safle ar gael sy'n bodloni'r meini prawf a nodir ym maen prawf 1 ar gyfer y defnydd arfaethedig a bod yna angen hanfodol a phrofedig am y swm a'r math o lety ar gyfer gweithwyr dros dro; ac~~

4. **rhaid i'r cynnig gynnwys mecanweithiau priodol i liniaru unrhyw effeithiau anffafriol y datblygiad arfaethedig ar yr iaith Gymraeg a diwylliant neu gwneir cyfraniad tuag at liniaru effeithiau hynny yn unol â Pholisi PS 1 a Pholisi ISA; ac**

5. **lle nad oes digon o gapasiti o fewn cyfleusterau hamdden, manwerthu a chyfleusterau gofal iechyd presennol oddi ar y safle i ddiwallu anghenion feddianwyr y safle neu le nad oes cyfleusterau o'r fath o fewn pellter derbyniol sy'n hwyluso mynediad iddynt ar droed neu feicio, rhaid i'r cynnig gynnwys mecanweithiau priodol i liniaru effeithiau negyddol a allai gynnwys darparu cyfleusterau ategol ar y safle ar gyfer defnydd y meddianwyr; ac**

6. **bydd yn ofynnol i weithredwyr gadw gwybodaeth am feddianaeth yr unedau, gan gynnwys nifer o weithwyr adeiladu sy'n cael llety, hyd yr arhosiad, a chadw cofnod o ddata d-enw o'r gweithwyr a fydd yn derbyn llety ~~cofrestr o'r holl weithwyr sy'n byw yn y llety~~ a gwneud y wybodaeth yma ~~gofrestr hon~~ ar gael ar unwaith, ar gais, i'r Cyngor. [NMC 143]**

**IS BOLISI NEWYDD PS9 B - WYLFA NEWYDD – CANOLFANNAU LOGISTEG**

**Yn ei rol naill ai fel awdurdodau yn penderfynu ar gyfer datblygiad cysylltiedig neu fel un i ymgynghori ar gyfer cais GCD ar gyfer Wylfa Newydd, bydd y Cynghorau yn anelu i sicrhau bod ~~Caniateir~~ cynigion ar gyfer canolfannau logisteg sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd a'i gadwyn gyflenwi yn rhoi ystyriaeth i neu yn cydymffurfio ~~lle, yn ogystal â chydymffurfio~~ gyda Pholisi PS9 (lle'n berthnasol) a gyda'r meini prawf canlynol~~, gallir dangos fod~~:**

1. Bod y safle wedi ei leoli:

i. ar safle cyflogaeth sy'n cael ei warchod neu ei ddynodi; neu

ii. o fewn ffiniau datblygu Canolfannau a restrir yng Nghoeden Aneddleoedd y Cynllun; neu

iii. mewn lleoliadau eraill ger ffiniau datblygu Canolfannau sydd wedi eu lleoli ar hyd neu'n agos at ~~goridor~~ yr A5/ A55 lle mae'r ymgeisydd wedi dangos rhoddwyd ystyriaeth i ddechrau i safleoedd ym meini prawf i a ii a'u bod nhw wedi cael eu rhoi o'r neilltu am resymau cynllunio ac amgylcheddol ac y gallir lleihau a lliniaru ardrawiadau'r datblygiad yng nghefn gwlad yn foddhaol.

2. Bod y cynigion yn cynnwys trefniadau trafnidiaeth gynaliadwy i staff gan gynnwys cysylltiadau i gludiant cyhoeddus. [NMC 144]

**IS BOLISI NEWYDD PS9 C – ~~DATBLYGIAD CYSYLLTIEDIG~~ WYLFA NEWYDD – CYFLEUSTERAU PARCIO A THEITHIO.**

Yn ei rol naill ai fel awdurdodau yn penderfynu ar gyfer datblygiad cysylltiedig neu fel un i ymgynghori ar gyfer cais GCD ar gyfer Wylfa Newydd, bydd y Cynghorau yn anelu i sicrhau bod ~~Caniateir~~ cynigion ar gyfer cyfleusterau parcio a theithio a pharcio a rhannu yn gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd a'i gadwyn cyflenwi yn rhoi ystyriaeth i neu ~~lle, yn ogystal â~~ gydymffurfio gyda Pholisi PS9 (lle'n berthnasol) a gyda'r meini prawf canlynol ~~gallir dangos fod~~:

1. Er mwyn lleihau'r angen i weithwyr adeiladu a gweithwyr sy'n gwasanaethu'r cyfleuster i deithio gyda char preifat, bod y safle wedi ei leoli:

   i. o fewn neu wrth ymyl ffiniau datblygu Canolfannau sydd wedi eu lleoli ar hyd neu'n agos at ~~goridor~~ yr A5/ A55; neu

   ii. mewn lleoliadau eraill sydd ar hyd neu'n agos at ~~goridor~~ yr A5/ A55 lle mae'r ymgeisydd wedi dangos rhoddwyd ystyriaeth i safleoedd o fewn neu wrth ymyl ~~yn agos at~~ y Canolfannau yn gyntaf a'u bod nhw wedi cael eu rhoi o'r neilltu am resymau cynllunio ac amgylcheddol a lle gallir darparu dulliau i deithio i'r safle mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys cludiant cyhoeddus a beicio;

2. Bod y cynigion yn gwneud darpariaeth ar gyfer llwybrau cerdded a beicio neu welliannau i rai presennol a gwelliannau i wasanaethau cludiant cyhoeddus;

3. Lleolir adeiladau a gweithgareddau, mynedfa a dulliau croesi safle a defnyddir mecanweithiau priodol i liniaru ardrawiadau negyddol y datblygiad arfaethedig ar fwynderau cymunedau lleol. [NMC 145]

**POLISI TAI 3: LLETY DROS DRO ~~GRADDFA BACH~~ STEIL CAMPWS AR GYFER GWEITHWYR ADEILADU ~~DROS DRO~~**

**Caniateir cynigion ar gyfer llety dros dro ~~graddfa bach~~ arddull campws ar gyfer gweithwyr adeiladu ~~dros dro~~ ~~(hyd at uchafswm 500 o lefydd gwlâu)~~ ar yr amod eu bod yn ffurfio rhan o'r ateb cyflawn i ddarparu llety dros dro i weithwyr adeiladu ac y gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:**

1. **Bod y safle wedi ei leoli o fewn neu yn gyfochrog i ffiniau datblygu Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaethol a'u hadnabyddir o fewn Coeden Aneddleoedd y Cynllun, ac**
2. **Ei fod yn gymesur o ran graddfa i'r Ganolfan neu'r Pentref Gwasanaethol, ac**
3. **Na fydd yn rhagfarnu gallu'r Cyngor i gynnal cyflenwad tir parhaus sydd o leiaf 5 mlynedd ar gyfer tai parhaol, neu**
4. **Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'r safle mewn man arall ~~ar Ynys Môn~~ os:**
   i. **gall y datblygwr arddangos fod yna angen hanfodol a brofwyd ar gyfer y nifer a math o lety na ellir ei gwrdd o fewn neu yn gyfochrog i ffiniau datblygu Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaethol yn yr ardal leol unai drwy lety neu safle presennol neu drwy ail-ddefnyddio adeilad presennol;**
   ii. **bod y llety yn cael ei ddarparu er mwyn cwrdd ag anghenion llety dros dro gweithwyr;**
   iii. **mae'r safle yn hygyrch i lwybrau ludiant cyhoeddus, mannau gwaith, a seilwaith cymdeithasol allweddol, gan hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy fel bo'n briodol;**
   iv. **bod llety o safon dderbyniol a chyfleusterau hamdden ac adloniadol cyfunol digonol yn cael eu darparu ar y safle i gwrdd ag anghenion mwynderol y preswylwyr;**
5. **Dylai cynigion du mewn neu wrth ymyl ffiniau datblygu** ~~Bod y llety wedi ei ddylunio ar gyfer defnydd etifeddiaeth ('legacy') parhaol~~ **gael eu llywio gan ystyriaeth o'r defnyddiau etifeddiaeth, fel bod buddsoddi mewn elfennau fel seilwaith, adeiladau, gweithiau ecolegol a thirwedd yn dod â manteision tymor hir oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, bod y Cyngor yn fodlon nad yw defnydd etifeddiaeth yn ymarferol neu'n briodol;**
6. ~~Mae'n gyson gyda~~ **Bydd y cynnig yn cael ei asesu yn unol â'r polisi hwn ac â Pholisi PCYFF 1** ~~a pholisïau yn gysylltiedig â'r defnydd amgen yn y dyfodol~~ **a Pholisi ISA 1, ond ni fydd yn ofynnol i gydymffurfio â pholisïau sy'n ymwneud â datblygu llety preswyl parhaol a manwerthu yng nghefn gwlad;**
   ~~Os mai'r ddarpariaeth o dai parhaol yw'r defnydd etifeddiaeth bwriedir o'r llety, yna bod y cynnig yn gwneud cyfraniad positif i amcanion tai fforddiadwy'r Cyngor yn unol â gofynion Polisi TAI 9 a Pholisi TAI 10;~~
7. **Lle byddai'r cynnig yn arwain at effeithiau neu ofynion ychwanegol ar gyfleusterau cymunedol presennol (gan gynnwys cyfleusterau gofal iechyd), yn unol â Pholisi ISA 1, darperir naill ai cyfleusterau ychwanegol neu gyfraniadau priodol ar gyfer datblygu neu wella cyfleusterau presennol oddi ar y safle o fewn Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaeth, oni bai y gellir dangos y dylai cyfleusterau ategol dros dro gael eu darparu ar y safle;**
8. **Bod gwelliannau priodol i'r rhwydwaith trafnidiaeth yn cael eu darparu i liniaru effeithiau andwyol ar gymunedau lleol a thwristiaeth;**
9. **Nid yw'r cynnig yn** ~~Mae'r llety, a'r defnydd etifeddiaeth a gytunir arno yn cyfrannu at greu cymuned gymysg, gynhwysol a chynaliadwy, ac nid yw'n~~ **achosi gor-grynhoad o ddefnydd o'r fath yn yr ardal leol neu niwed i amwynder preswyl neu'r ardal o gwmpas;**
10. **Os nad yw defnydd** ~~amgen~~ **etifeddiaeth yn ymarferol yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn mynnu bod adeiladau dros dro yn cael eu clirio o'r safle a**
    i. **bod y tir wedi'i wasanaethu yn cael ei adael mewn cyflwr boddhaol** ~~twt a thaclus~~ **ar ôl cael gwared ar y strwythurau yn unol â chynllun gwaith a gyflwynwyd i, a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, neu**

ii. **bod yr holl gyfleusterau gwaredu gwastraff, ffyrdd, mannau parcio a chyfleusterau draenio yn cael eu tynnu oddi ar y safle'n barhaol a bod y tir yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol yn unol â chynllun gwaith a gyflwynwyd i, a'i gymeradwyo gan i fodlonrwydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol.**

**10a Bod Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu yn cael ei chyflwyno gyda'r cais cynllunio**

~~Bydd caniatâd cynllunio wastad ond yn cael ei roddi yn ddarostyngedig i gyfnod amser penodol er mwyn galluogi'r Cyngor i adolygu'r tueddiad cyffredinol mae'r llety cysylltiol i'r prosiect adeiladu ei angen. Bydd mecanweithiau cynllunio priodol yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau'r defnydd etifeddiaeth a gytunwyd arno.~~

**Bydd yn ofynnol i weithredwyr gadw gwybodaeth am feddianaeth yr unedau, gan gynnwys nifer o weithwyr adeiladu sy'n cael llety, hyd yr arhosiad, a chadw cofnod o ddata d-enw o'r gweithwyr a fydd yn derbyn llety ~~cofrestr o'r holl weithwyr sy'n byw yn y llety~~ a gwneud y wybodaeth yma ~~gofrestr hon~~ ar gael ar unwaith, ar gais, i'r Cyngor.**

**Eglurhad:**

7.4.23 ~~Mae tai sydd â chyfleusterau sydd wedi eu rhannu yn aml yn cael eu hadnabod fel tai amlfeddiannaeth/ cartrefi a'u rhennir. Tai amlfeddiannaeth/ cartrefi a'u rhennir yw fflatiau neu dai sydd wedi eu meddiannu gan fwy nag un aelwyd, ble nad oes gan yr un aelwyd yr unig ddefnydd o'r holl gyfleusterau coginio, ymolchi a thoiledau. Mae'r Polisi hwn yn ymwneud ag adeiladu tai amlfeddiannaeth/ cartrefi a'u rhennir o'r newydd yn hytrach na throsi adeiladau presennol (a fyddai'n berthnasol ar gyfer Polisi TAI2).~~ Mae'r Polisi hwn yn berthnasol ~~ar gyfer llety pwrpasol a'u hadeiledir o'r newydd~~ **i lety dros dro a ddarperir i weithwyr adeiladu** sydd ei angen mewn cysylltiad â phrosiectau adeiladu ar raddfa fawr, ~~e.e.~~ **heblaw am Brosiect** Wylfa Newydd neu unrhyw waith arall sy'n gofyn am nifer fawr o gweithlu preswyl dros dro **/ symudol**. **Bydd Polisi PS 9 a Pholisi PS 9A yn berthnasol i gynigion am lety gweithwyr adeiladu arddull campws sy'n angenrheidiol ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd.** Bydd angen y llety am 6 mis neu fwy. Bydd y cyfnod yn cael ei gyfyngu i uchafswm amser a gytunir arno gan y Cyngor a bydd amodau o ran adnewyddu'r adeilad / strwythur neu adfer y safle ar ddiwedd y cyfnod. Mae'r Cyngor am roi blaenoriaeth i lety sydd wedi'i gynllunio i ganiatáu newid i ddefnydd etifeddiaeth amgen. **[NMC 189]**

7.4.23a **Byddai'r rhain ddatblygiadau a ddarperir yn arbennig, ar arddull campws, gan gynnwys unedau llety gweithwyr sengl modiwlaidd en suite unedau, wedi'u trefnu mewn blociau sy'n rhannu cyfleusterau cymunedol, megis cegin, lle bwyta a lolfa. Byddai'r adeilad modiwlaidd yn caniatáu hyblygrwydd i ddiwallu newidiadau yn y galw dros amser. [NMC 190]**

7.4.23b **Mae'r Cyngor yn ffafrio safleoedd a leolir o fewn neu wrth ymyl y Canolfannau neu Wasanaethau a nodir er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy (gan gynnwys mynediad at gysylltiadau cludiant cyhoeddus), integreiddio â chymunedau (oni bai**

**na fyddai graddfa'r datblygiad yn gymesur â'r Ganolfan neu Bentref gwasanaethau), ac i hwyluso defnyddiau etifeddiaeth tymor hir buddiol. Gallai hyn alluogi effeithlonrwydd o ran hygyrchedd i gyfleusterau lles, hamdden ac adloniant yn yr aneddleoedd agosaf. Lle bo angen ac yn briodol, gallai'r ateb i sicrhau bod gofynion y preswylwyr yn cael sylw gynnwys buddsoddiad i uwchraddio cyfleusterau yn yr aneddleoedd agosaf. Fel arall, gallai'r safleoedd hyn fod yn fwy hunangynhwysol, gan ddarparu lles, chwaraeon, adloniant a chyfleusterau hamdden ar y safle, yn ogystal â phwyntiau codi gan fysiau ar gyfer y deiliaid. Byddai gwasanaethau eraill, e.e. ffreutur, gwasanaethau gweinyddol, hefyd yn ffurfio rhan o'r datblygiad a gwmpesir gan y Polisi hwn.** **[NMC 191]**

7.4.23c ~~Dim ond datblygiad hyd at uchafswm o 500 wlau ynghyd a chyfleusterau atodol ar gyfer lles, hamdden mae'r Polisi yma yn gyfarch. Bydd cynigion mwy yn cael eu hystyried yn erbyn Polisi PS 9A a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun.~~ **[NMC 192]**

7.4.23ch **Tra mai Polisi TAI 3 (a PCYFF 1 a Pholisi ISA1) fyddai'r polisïau perthnasol i'r math hwn o lety dros dro a ddarperir i weithwyr adeiladu, ni fyddai'r Polisi hwn yn berthnasol i gynnig am Dai Parhaol, er enghraifft tai a fyddai yn y lle cyntaf cael eu hisrannu i ganiatáu eu defnydd gan weithwyr adeiladu, ac yna eu haddasu i fod yn gartrefi i deuluoedd neu aelodau eraill o gymunedau lleol. Byddai Polisïau TAI 14 i TAI 17 yn gymwys i'r math hwn o ddarpariaeth, yn dibynnu ar leoliad y safle, yn ogystal â Pholisïau perthnasol eraill, e.e. Polisi TAI 9 - Trothwy a Dosbarthiad Tai Fforddiadwy (i'w defnyddio ar ôl eu defnyddio gan weithwyr adeiladu); Polisi ISA 5 - Darparu mannau agored mewn datblygiadau tai newydd; Polisi ISA 1 - Darpariaeth Seilwaith. Ni fyddai Polisi TAI3 yn berthnasol ar gyfer unrhyw fath o lety pwrpasol sydd wedi ei ddynodi fel tai myfyrwyr neu sydd wedi eu dynodi ar gyfer ei ddefnyddio gan bobl hŷn neu a fyddai'n addas ar gyfer oedolion ifanc sydd ag incwm cyfyngedig. Mae Polisi TAI 6 yn darparu peth o'r fframwaith ar gyfer ymdrin â chynigion ar gyfer llety myfyrwyr pwrpasol.** **[NMC 193]**

7.4.24 Mae gan y math hwn o lety'r potensial i liniaru pwysau ar y stoc o dai rhent preifat neu dai marchnad agored **a llety twristiaid** mewn cymunedau. ~~Ni fydd Polisi TAI 3 yn berthnasol ar gyfer unrhyw fath o lety pwrpasol sydd wedi ei ddynodi fel tai myfyrwyr neu sydd wedi eu dynodi ar gyfer ei ddefnyddio gan bobl hŷn neu a fyddai'n addas ar gyfer oedolion ifanc sydd ag incwm cyfyngedig. Mae Polisi TAI6 yn darparu peth o'r fframwaith ar gyfer ymdrin â chynigion ar gyfer llety myfyrwyr pwrpasol.~~ **[NMC 194]**

7.4.25 Amcan y Polisi hwn yw **cyfrannu tuag at** gyflawni'r cydbwysedd briodol ~~drwy hwyluso datblygiad tai amlfeddiannaeth/ tai a'u rhennir a llety pwrpasol newydd sydd eu hangen ar gyfer~~ **o atebion i ymdrin â'r angen i letya** **nifer fawr o** weithwyr adeiladu ~~dros dro~~ a gwarchod y cyflenwad o dai sydd yn addas ar gyfer cymunedau lleol yn ystod oes y Cynllun. **[NMC 195]**

7.4.26 ~~Gall y modd o greu cymunedau cymysg, cynaliadwy a chynhwysol gael ei effeithio'n andwyol ble mae llety pwrpasol, tai amlfeddiannaeth neu dai a rennir yn cael eu~~

~~cynnig.~~ Mae'r math hwn o lety yn creu crynodiad o breswylwyr eithaf byrdymor, ac o bosib ni fydd hyn yn cael ei gefnogi mewn cymuned sefydledig. Mae pryderon penodol yn gallu cynnwys pwysau ar y gwasanaethau a chyfleusterau sydd yn cwrdd ag anghenion preswylwyr mwy hirdymor, yn enwedig felly cyfleusterau a gwasanaethau allweddol megis meddygfeydd, deintydd, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd ac ysgolion. Mae'r Cynghorau wedi eu hymroddi i gefnogi cymunedau preswyl yn ardal y Cynllun. Bydd **angen i Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu gael ei chyflwyno** ~~asesiad ar gyfer y cynnig yn cael ei gynnwys~~ gyda phob cais ar gyfer llety gweithwyr dros dro, sydd yn cynnwys:

- **i.** ~~Asesiad manwl o gydymffurfio ag unrhyw ganllawiau cynllunio atodol perthnasol~~;
- ii. disgrifiad manwl o'r angen ar gyfer y cyfleuster
- ~~iii. sut mae'n cydymffurfio gyda Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu~~
- iv. manylion o'r pwysau mae'r cynnig yn ei roddi ar seilwaith ffisegol a chymunedol
- v. maint y budd i'r gymuned leol o'r cynnig
- vi. datrysiad dangosadwy ar gyfer diwedd oes strwythur neu adeilad, oni bai y gellir dangos yn glir nad yw defnydd etifeddiaeth yn ddichonol. **[NMC 196]**

7.4.27 Lle mae cynigion ar gyfer llety pwrpasol **dros dro**~~, tai aml-feddiannaeth neu dai gyda chyfleusterau a rennir~~ ar gyfer gweithwyr adeiladu yn debyg o effeithio'n andwyol ar falans y gymuned oherwydd eu graddfa neu yn sgil crynodiad presennol, gall y Cynghorau argeisio mesurau lliniaru mewn perthynas â Pholisi ISA 1. **Mewn achosion lle mae'r ateb i ymdrin â gofynion y preswylwyr yn ymwneud â darparu cyfleusterau ar y safle, byddai Polisïau sy'n ymdrin â'r defnydd tir perthnasol yn gymwys (e.e. Polisi MAN 6 Manwerthu yn y Cefn Gwlad; Polisi ISA 2 Cyfleusterau Cymunedol), oni bai bod y cyfleusterau ategol yn adeiladau dros dro a ddyluniwyd ar y cychwyn i gael eu tynnu ymaith o'r safle. [NMC 197]**

7.4.28 Ble na ellir sicrhau mesurau lliniaru, bydd y Cynghorau'n gwrthod cynigion a fydd yn amharu ar falans y gymuned neu a fydd yn atal anghenion y gymuned leol rhag cael eu cwrdd.

7.4.29 Bydd y Cynghorau'n disgwyl y bydd y datblygwr yn sicrhau bod unrhyw ddatblygiad llety pwrpasol ac unrhyw gyfleusterau cysylltiol i'r llety (e.e. cyfleusterau hamdden) yn cael eu datblygu ar ffurf gynaliadwy, a bod cyfleoedd etifeddiaeth / defnydd hir dymor yn cael ei ystyried o'r dechrau. Ble nad yw defnydd etifeddiaeth dderbyniol o dan bolisïau eraill yn ddichonol, ond fod y bwriad fel arall yn dderbyniol, caiff y caniatâd cynllunio ei roi am gyfnod penodol hefo mecanwaith e.e. amod cynllunio neu rwymedigaeth cynllunio / Cytundebau adran 106, i sicrhau bod unrhyw adeiladau dros dro, gwaith, defnydd o'r tir neu ddatblygiadau eraill, yn cael eu clirio oddi ar y safle neu yn dod i derfyn a bod y safle yn cael ei adfer yn unol â chynllun blaenorol sydd wedi ei ganiatáu, neu fod plotiau wedi'i gwasanaethu yn cael eu

cadw a bod y dirwedd yn cael ei dirlunio yn unol â chynllun tirlunio sydd wedi ei gytuno. Gall y Cyngor ofyn am fond i sicrhau bod y cynllun tirlunio yn cael ei gynnal.

## RHEOLI GWASTRAFF

### 7.5.47 Cyd-destun

- Mae'r Strategaeth Wastraff Genedlaethol Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned 2009 yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer rheoli pob math o wastraff, gyda'r nod cyffredinol o leihau gwastraff gweddilliol i ddim byd erbyn 2050. Caiff y strategaeth ei chefnogi gan gyfres o gynlluniau sector sy'n manylu sut bydd y deilliannau, y targedau a'r Polisïau yn 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' yn cael eu gweithredu.
- Er mwyn galluogi awdurdodau Gogledd Cymru i gyflawni'r targedau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Sector Bwrdeistrefol a'r Cynllun Sector Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd (y CIMSP), sefydlwyd nifer o brosiectau ar draws gogledd Cymru, gan gynnwys Prosiect Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru, sy'n ceisio cyfeirio gwastraff gweddilliol oddi wrth dirlenwi. Hefyd, mae partneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru a'r sector preifat wedi sicrhau bod offer treulio anaerobig wedi cael eu hadeiladu yng Ngwynedd a Sir Ddinbych i brosesu gwastraff bwyd a gesglir o dai a busnesau, gan gynhyrchu ynni adnewyddadwy i'r grid a chynhyrchu gwrtaith 'bio' i'w ddefnyddio ar dir fferm leol. Bydd y prosiectau hyn yn dylanwadu'r angen gofodol am fathau penodol o gyfleuster gwastraff.
- Mae gwastraff yn thema gyffredin oherwydd caiff ei gynhyrchu gan bob math o ddefnyddiau tir, yn ystod gwaith adeiladu, gweithredu a dymchwel. Mae'r angen i newid y ffordd yr ymdrinnir â gwastraff yn cael ei gydnabod mewn polisi ar bob lefel.
- Mae Môn a Gwynedd yn awdurdodau gwledig a chanddynt dirwedd gyfoethog ac amrywiol sy'n cynnwys Ardaloedd Harddwch Naturiol Llŷn/Môn. Yn fwy na hyn, mae Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd yn ffinio ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae gan y ddau awdurdod isadeiledd ffyrdd cyfyngedig sy'n gwasanaethu rhwydwaith o gymunedau bychain ag aneddiadau ar wasgar. Dylid cymryd camau i annog trosglwyddo gwastraff yn gynaliadwy trwy sicrhau bod darpariaeth rheoli gwastraff digonol ar draws ardal yr awdurdodau. Nod y Cynghorau yw lleihau faint o wastraff sy'n cael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi. Oherwydd natur cyfleusterau rheoli gwastraff, gallai fod yn briodol lleoli'r ddarpariaeth ar safle cyflogaeth addas.
- Mae'n rhaid sicrhau bod unrhyw bolisïau arfaethedig yn cydymffurfio ag egwyddorion Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Rhifyn **9, 2016** ~~7, 2014~~). Y Nodyn Cyngor Technegol perthnasol sy'n ymwneud â gwastraff yw NCT 21 Gwastraff (2014).

### Cyflwyniad

7.5.48 Mae'r Cynllun yn rhoi ystyriaeth i, ac yn gydnaws â chynnwys y Cynllun Sector Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd (y CIMSP). Un o ofyniadau'r Cynllun yw adnabod y mathau o leoliad lle byddai defnyddiau rheoli gwastraff yn debygol o fod yn dderbyniol.

**POLISI STRATEGOL PS 18: RHEOLI GWASTRAFF**

**Bydd y Cynghorau yn ceisio sicrhau bod digon o dir ar gael mewn lleoliadau priodol ar gyfer rhwydwaith integredig o gyfleusterau gwastraff i fodloni rhwymedigaethau rhanbarthol a lleol yn unol â gofynion y polisi/canllaw cenedlaethol/rhanbarthol perthnasol cyfredol. Bydd y safleoedd a'r mathau o gyfleusterau a ddewisir yn hybu dull cynaliadwy o reoli gwastraff yn seiliedig ar yr hierarchaeth wastraff o atal ac ailddefnyddio, paratoi i ailddefnyddio, ailgylchu, adfer trwy ffyrdd eraill ac wedyn gwaredu, gan roi ystyriaeth hefyd i gymeriad unigryw yr ardal yn cynnwys cysylltiadau trafnidiaeth a'r natur wledig.**

**POLISI GWA 1: DARPARU ISADEILEDD RHEOLI GWASTRAFF AC AILGYLCHU**

**Mae'r tir a'r eiddo a restrir isod a fel y nodir ar y Map Cynigion, wedi eu dynodi ar gyfer darparu isadeiledd allai gynnal neu ychwanegu at yr ystod o gyfleusterau rheoli gwastraff addas.**

| | Enw'r safle | Lleoliad |
|---|---|---|
| Gwynedd | Tir yn Stad Ddiwydiannol Cibyn* | Caernarfon |
| | Safle Llwyn Isaf | Clynnog Fawr |
| | Coed Bolyn Mawr* | Ger Bethel |
| | Stad Ddiwydiannol Penygroes* | Penygroes |
| | Williams & Williams | Pencaenewydd |
| | H Parry Composting* | Chwilog |
| | Cookes | Penrhyndeudraeth |
| | Cefn Graianog* | Llanllyfni |
| | Chwarel Bryncir* | Bryncir |
| | Chwarel Ithfaen Nanhoron* | Nanhoron, Pwllheli |
| | Rhan o Peblig | Caernarfon |
| | Chwarel y Penrhyn* | Bethesda |
| | Griffiths Crossing | Caernarfon |
| | Cefn Bychan | Blaenau Ffestiniog |
| | Chwarel Manod* | Blaenau Ffestiniog |
| Ynys Môn | Penhesgyn | Penmynydd |
| | Canolfan Ailgylchu | Gwalchmai |
| | Stad Ddiwydiannol Mona | Mona |
| | Cyn Safle Alwminiwm Môn* | Caergybi |
| | Chwarel Rhuddlan Bach* | Brynteg |

| | | |
|---|---|---|
| | **Chwarel Cae'r Glaw*** | **Gwalchmai** |
| | **Chwarel Nant Newydd*** | **Brynteg** |
| | **Chwarel Bwlch Gwyn*** | **Pentre Berw** |

***Safleoedd sy'n addas ar gyfer chwareli trefol fel y diffinnir gan NCT 21:Gwastraff**

**Yn ychwanegol i'r safleoedd uchod sydd wedi eu dynodi, gallai cyfleusterau rheoli gwastraff ac ailgylchu, ac eithrio tirlenwi a chompostio mewn rhenciau agored, fod yn dderbyniol ar stadau diwydiannol, chwareli a safleoedd tir llwyd presennol. Bydd cynigion am isadeiledd rheoli gwastraff ac ailgylchu (na chânt eu cynnig ar y safleoedd dynodedig uchod) yn cael eu hasesu ar eu rhinweddau eu hunain, cyn belled â bod angen cyfiawn am y datblygiad. Dylai'r angen cyfiawn gyfeirio at yr angen lleol fel y nodir yn y Cynllun Sector Bwrdeistrefol a'r Cynllun Sector Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd (y CIMSP).**

**Rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd fod yn addas o ran maint a graddfa ac ni ddylai gael effaith andwyol ar y dirwedd, yr amgylchedd naturiol nac amwynder ac iechyd y boblogaeth leol. Dylai pob cynnig ar gyfer cyfleusterau Rheoli Gwastraff cynnwys Asesiad Cynllunio Gwastraff[1] (fel y'i diffinnir gan Atodiad B, NCT 21: Gwastraff.**

**Eglurhad:**

**7.5.48a Gall rhai o'r safleoedd sydd wedi eu rhestru yn y polisi fod yn addas ar gyfer chwareli trefol neu ystorfa ar gyfer pwrpas storio gwastraff adeiledig a dymchwel, a fyddai'n fodd o osgoi tirlenwi diangen o wastraff anadweithiol yn unol gydag NCT21: Gwastraff.**

7.5.49 Er mwyn ymdrin â gwastraff mewn modd cynaliadwy, mae'n hanfodol fod gan ardal y Cynllun rwydwaith integredig ddigonol o gyfleusterau gwastraff. Mae NCT 21 yn anelu i sicrhau bod y cyfleusterau cywir yn cael eu lleoli yn y llefydd cywir ar yr adeg gywir i fodloni anghenion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

7.5.50 Mae'r safleoedd wedi'u dynodi i gyfeirio datblygwyr i leoliadau sy'n cael eu hystyried yn addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ac ailgylchu. Mae'r polisi yn cydnabod y gallai fod yna safleoedd eraill addas ar stadau diwydiannol presennol, chwareli a safleoedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer defnyddiau cyflogaeth lle mae defnyddiau B2 a B8 yn dderbyniol mewn egwyddor. Bydd addasrwydd safle yn dibynnu ar amrywiaeth o wahanol ffactorau, gan gynnwys natur a graddfa'r cyfleuster gwastraff ac unrhyw gyfyngiadau ar y safle megis perygl llifogydd, tirwedd sensitif a sensitifrwydd ecolegol. Mae Atodiad C NCT 21 yn nodi'r materion cynllunio manwl y mae'n rhaid i ymgeiswyr ac awdurdodau cynllunio roi ystyriaeth iddynt wrth baratoi a phenderfynu ar geisiadau am gynigion rheoli gwastraff. Bydd gofyn i

[1] Nid yw gwaastraff ymbelydrol yn berthnasol i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, gan hynny nid yw'r angen ar gyfer Asesiad Cynllunio Gwastraff yn unol a NCT21 yn berthnasol ar gyfer Gwastraff Ymbelydrol.

unrhyw gynnig sydd angen caniatâd cynllunio gydymffurfio â'r holl bolisïau perthnasol eraill yn y Cynllun.

7.5.51 Yn unol â'r hierarchaeth wastraff a nodir yn NCT 21, mae dull cynaliadwy o reoli gwastraff yn golygu y bydd rhaid cael mwy o bwyslais ar leihau, ailddefnyddio ac adfer gwastraff, a llai o ddibyniaeth ar waredu heb adfer. Mae rheoli gwastraff yn cynnwys er enghraifft, cadw, trin, storio, derbyn/trosglwyddo a gwaredu gwastraff.

7.5.52 Mae NCT 21 yn nodi y gall y defnyddiau sy'n weddill ar ôl dymchwel adeiladau gael eu hailgylchu ar y safle gan ddefnyddio offer a pheiriannau dros dro lle byddai hynny'n briodol, ac na fyddai'n peri effaith andwyol ar gymdogion yng nghyswllt sŵn a llwch. Mae'r canllaw'n egluro, pan fod yna gyfleoedd yn y tymor hwy am gyflenwad digonol ac economaidd o wastraff dymchwel ac adeiladu mewn dalgylch priodol, y byddai o bosib yn briodol adnabod storfa barhaol neu chwarel drefol i'r diben hwn. Ystyrir y dylid defnyddio'r meini prawf y cyfeirir atynt yn y polisi uchod i arwain penderfyniadau ar geisiadau cynllunio am safleoedd storio gwastraff adeiladu a dymchwel er mwyn osgoi tirlenwi gwastraff anadweithiol yn ddiangen.

**POLISI GWA 2: RHEOLI GWASTRAFF ~~TU ALLAN I FFINIAU DATBLYGU~~ A SAFLEOEDD DYNODEDIG**

**Caniateir cynigion i reoli gwastraff ar safleoedd priodol ~~tu allan i ffiniau datblygu~~ a safleoedd dynodedig (yn unol â Pholisi GWA1) (gan gynnwys er enghraifft gwastraff bwrdeistrefol bioddiraddadwy trwy gompostio, yn cynnwys treuliad anaerobig a chompostio mewn cynhwysydd a gwastraff arbenigol (e.e. gwastraff ymbelydrol lefel isel, gwastraff clinigol a gwastraff peryglys) yn unol a'r hierarchiaeth gwastraff cyn belled â bod angen amlwg am y datblygiad, bod y datblygiad wedi ei gefnogi gan Asesiad Cynllunio Gwastraff (fel y'i diffinnir gan NCT 21:Gwastraff) ac ei fod yn cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:**

1. **Nid oes safleoedd dynodedig ar gael, neu maent yn anaddas ar gyfer y gweithgaredd arfaethedig.**
2. **Nid oes safleoedd addas oddi mewn i'r ffin ddatblygu.**
3. **Bydd y cynnig yn ymgorffori mesurau i liniaru'r effaith ar yr amgylchedd ac iechyd ac amwynder y boblogaeth leol.**
4. **Mae graddfa a natur y cynnig yn briodol o ran y safle a'r ardal o'i amgylch.**
5. **Ni fyddai'r cynnig yn effeithio'n andwyol ar amgylchedd naturiol a gwerth treftadaeth yr ardal.**
6. **Nad yw'r datblygiad na'r traffig cysylltiedig yn arwain at aflonyddwch annerbyniol i'r gymuned leol yn sgil llygredd sŵn, arogl, cryndod neu aer.**

**Fe fydd pob cynnig yn cael ei ystyried yn unigol, gan roddi ystyriaeth i ffactorau gan gynnwys**

**natur, math, maint, angen a lleoliad y datblygiad.**

**Eglurhad:**

7.5.53 Mewn rhai achosion, mae'r Cynghorau'n ystyried y gallai rhai cyfleusterau rheoli gwastraff fod yn dderbyniol ar dir amaethyddol fel rhan o arallgyfeirio ar ffermydd, yn enwedig lle gellir dangos bod y gwastraff yn cael ei gynhyrchu'n lleol a bod yr allbwn yn cael ei ddefnyddio'n lleol. Gall natur wledig ardal y Cynllun hefyd olygu y byddai'n rhaid lleoli cyfleusterau ar raddfa fach tu allan i'r ffiniau datblygu i adlewyrchu'r isadeiledd trafnidiaeth sy'n bodoli.

7.5.54 Bydd **angen i g**ynigion **arddangos eu bod wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i safleoedd o werth bioamrywiaeth a thirwedd ryngwladol, genedlaethol, rhanbarthol a lleol un unol gyda chyfarwyddyd polisi cynllunio cenedlaethol ynghyd a pholisïau perthnasol y Cynllun.** ~~oddi mewn neu'n union gerllaw ardaloedd tirwedd sydd wedi'u dynodi, megis Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, y Parc Cenedlaethol ac Ardaloedd Tirwedd Arbe nnig, yn cael eu profi'n drylwyr i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar y dynodiad na'i osodiad.~~

7.5.55 Ar hyn o bryd nid oes gofyn am ddarpariaeth tirlenwi yn ardal y Cynllun. Fel rhan o'r broses o fonitro'r Cynllun, bydd mesurau'n cael eu cymryd i adolygu'r angen am dirlenwi yn y dyfodol. Byddai angen i unrhyw ddarpariaeth tirlenwi arfaethedig y profwyd bod angen amlwg ar ei gyfer gydymffurfio â Pholisi GWA2.

7.5.55a Er mwyn monitro'r cynnydd a wneir mewn ymgais i gael rhwydwaith boddhaol ac integredig o waredu gwastraff mae cyd-weithio rhwng awdurdodau cynllunio yn eithriadol o bwysig. Mae monitor yn fodd o sicrhau fod yna gynhwysedd digonol a fewn y rhanbarth lleol er mwyn trin y gwastraff yn ogystal ag asesu os yw'r ddarpariaeth bresennol yn addas.

**POLISI GWA3: ~~TRIN A STORIO~~ RHEOLI GWASTRAFF YMBELYDROL ~~LEFEL ISEL~~[2] ~~AC ISEL IAWN~~[3]**

**Caniateir cyfleusterau ar gyfer ~~trin,~~ storio a/neu ~~waredu~~ rheoli gwastraff ymbelydrol ~~Lefel Isel ac Isel Iawn~~ a gynhyrchir o fewn y safle niwclear trwyddedig yn Wylfa/Wylfa Newydd ~~ar y safle i hwyluso busnes presennol,~~ cyn belled ei fod yn cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:**

---

~~[1] Gwastraff lefel isel (GLI) yw gwastraff ymbelydrol gyda chynnwys ymbelydrol dim mwy nag 4 GBg/te (gigabecuerels pob tunnell) o alpha neu 12 GB/te o weithgaredd beta/gamma. Mae GLI yn cyfrannu hyd at 90% o etifeddiaeth cyfaint gwastraff ymbelydrol y DU ond yn cynnwys llai na 0.1% o'r cyfanswm ymbelydredd.~~

~~[2] Gwastraff lefel isel iawn (GLII) yw is gategori o GLI ac wedi ei ddiffinio un ai fel GLII cyfaint isel neu GLII cyfaint uchel. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau ddiffiniad yw'r angen am reolaeth dros y cyfanswm cyfaint o gyfaint uchel GLII sy'n cael ei waddod mewn unrhyw gyfleuster tirlenwi neu wastraff arall.~~

1. **Mae'n gyson â'r strategaethau a pholisiau cgenedlaethol ar gyfer rheoli gwastraff ac arllwysiadau ymbelydrol** Lefel Isel ac Isel Iawn a/neu'r cynlluniau dadgomisiynu ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa.
2. **Mae canlyniad asesiadau cymdeithasol, economaidd a iechyd yr amgylchedd yn cyfiawnhau trin y gwastraff yn y lleoliad arfaethedig** ar y safle neu mewn lleoliadau priodol tu allan i'r prif safle niwclear.
3. **Caiff cyfleusterau eu lleoli a'u dylunio er mwyn lleihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd a mae mesurau adfer amgylcheddol priodol ar gael.**
4. **Bydd cynigion yn cydymffurfio â'r ystyriaethau cyffredinol a amlinellir ym Mholisi GWA1.**
5. **Bod y cynnig yn cael ei gefnogi gan Asesiad Cynllunio Gwastraff (fel y'i diffinnir gan NCT 21:Gwastraff)**

**Eglurhad:**

7.5.56 Tu mewn i ardal y Cynllun mae yna fusnesau, sefydliadau ymchwil ynghyd â sefydliadau gofal iechyd sy'n cynhyrchu gwastraff ymbelydrol isel ac isel iawn. Mae'r orsaf bŵer niwclear presennol yn Wylfa yn hysbys fel safle sy'n cynhyrchu gwastraff ymbelydrol lefel isel ac isel iawn, a bydd y safle'n stopio cynhyrchu trydan yn 2015. Bydd y broses ddadgomisiynu wedyn yn cychwyn. **Mae Gorsaf Bwer Niwclear Wylfa yn cael ei dadgomisiynu ar hyn o bryd.** Mae'r broses ddadgomisiynu yn debygol o ddatgelu **arwain at** llawer iawn o wastraff ymbelydrol **Canolradd**[1], Lefel Isel[2] ac Isel Iawn[3].

7.5.57 Y polisi cenedlaethol ar gyfer ymdrin â gwastraff o'r fath yw ymdrin ag ef mor uchel i fyny'r hierarchaeth wastraff â phosib. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen i beth o'r gwastraff hwn gael ei waredu naill ai ar safleoedd niwclear trwyddedig neu gerllaw, neu ar safleoedd tirlenwi yn rhywle arall.

7.5.58 Canllaw presennol CNC yw y gallai rhai mathau o wastraff ymbelydrol Lefel Isel a Lefel Isel Iawn fod yn addas i'w gwaredu ar safleoedd tirlenwi presennol nad ydynt yn beryglus. Mae'n bosib y bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwaredu o'r fath, yn dibynnu ar yr amodau sydd wedi eu gosod ar unrhyw ganiatâd cynllunio sy'n bodoli. Byddai angen caniatâd / trwydded briodol gan CNC hefyd.

---

[1] Mae gwastraff lefel canolradd yn fwy ymbelydrol fwy na gwastraff ymbelydrol lefel isel (gweler isod), ond nid yw'n cynhyrchu digon o wres i'w wneud yn ofynnol i hyn gael ei ystyried mewn cyfleusterau storio neu ei waredu. Fodd bynnag, fel gwastraff ymbelydrol arall mae dal angen eu gadw i ddiogelu pobl a'r amgylchedd. Mae GLC yn deillio'n bennaf o ailbrosesu gweddillion tanwydd a gweithrediadau cyffredinol a chynnal a chadw ar safleoedd niwclear, a gall gynnwys eitemau metel fel cladin tanwydd a cydrannau adweithydd, graffit o greiddiau adweithydd, a slwtsh o driniaeth elifion ymbelydrol hylifol

[2] Gwastraff lefel isel (GLI) yw gwastraff ymbelydrol gyda chynnwys ymbelydrol dim mwy nag 4 GBg/te (gigabecuerels pob tunnell) o alpha neu 12 GB/te o weithgaredd beta/gamma. Mae GLI yn cyfrannu hyd at 90% o etifeddiaeth cyfaint gwastraff ymbelydrol y DU ond yn cynnwys llai na 0.1% o'r cyfanswm ymbelydredd.

[3] Gwastraff lefel isel iawn (GLII) yw is gategori o GLI ac wedi ei ddiffinio un ai fel GLII cyfaint isel neu GLII cyfaint uchel. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau ddiffiniad yw'r angen am reolaeth dros y cyfanswm cyfaint o gyfaint uchel GLII sy'n cael ei waddod mewn unrhyw gyfleuster tirlenwi neu wastraff arall.

7.5.59 Mae’r Polisi hwn yn darparu ar gyfer gweithredu cyfleusterau o’r fath oddi mewn i derfynau’r Safle **Niwclear** Trwyddedig. ~~Mae’r polisi hwn yn berthnasol i storio gwastraff ymbelydrol Lefel Isel a Lefel Isel Iawn yn unig, ac ni fyddai’n caniatáu gwaredu Gwastraff Lefel Canolig ar y safle~~.

CAPITA

Public Document

# Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn

**Safle Preswyl Parhaol, Penhesgyn**
**Man Aros Dros Dro, Star**

**Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR)**
**Crynodeb Gweithredol**

**Chwefror 2017**




We | Listen Create Deliver

## Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Safle Preswyl Parhaol, Penhesgyn
3. Man Aros Dros Dro, Star

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r ddogfen hon yn Grynodeb Gweithredol o Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) a baratowyd gan Capita Real Estate and Infrastructure ar ran Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor Sir). Diben y PAR yw:-

- Adolygu a deall pa broblemau a risgiau amgylcheddol posibl sy'n gysylltiedig â dau safle sipsiwn a theithwyr sy'n cael eu cynnig gan y Cyngor Sir
- Cynnal asesiadau technegol ym mhob un o'r safleoedd arfaethedig
- Profi pa mor ymarferol fyddai datblygu pob un o'r safleoedd ar gyfer llety i sipsiwn a theithwyr
- Gwneud argymhellion ynglŷn ag addasrwydd pob safle i symud ymlaen trwy'r broses gynllunio

1.2 Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr lle mae angen wedi'i ganfod. Mae dogfen Llywodraeth Cymru *'Teithio at Ddyfodol Gwell* (2015) yn cyflwyno fframwaith polisi y dylai Awdurdodau Lleol ei ddilyn. Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru *30/2007 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr* yn cryfhau'r gofyniad bod awdurdodau lleol yn canfod ac yn darparu safleoedd digonol a phriodol yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

1.3 Mae gofyniad cyfreithiol felly ar Gyngor Sir Ynys Môn (yn ôl Deddf Tai (Cymru) 2014) i asesu ac i ddiwallu anghenion llety'r boblogaeth yn ei ardal. Mae hyn yn cynnwys anghenion y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr a phobl sy'n gysylltiedig â sioeau teithiol. Mae'r term Sipsiwn a Theithwyr yn cynnwys Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig yn ogystal â phobl o unrhyw grŵp sy'n byw bywyd teithiol. Mae hefyd yn cynnwys pobl sy'n gysylltiedig â Sioeau Teithiol a Theithwyr yr Oes Newydd sydd â hanes o deithio a byw mewn cartrefi symudol.

| **Tabl 1.1 – Deddfwriaeth a pholisïau allweddol sy'n gysylltiedig â darparu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr** | |
|---|---|
| Teitl | Disgrifiad |
| Deddf Tai (Cymru) 2014 | Dywed Adrannau 225 a 226 fod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 | Mae'r Ddeddf yn cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth ar safleoedd cartrefi symudol yng Nghymru. |
| Cylchlythyr 30/2007 Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr | Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru'n tynnu sylw at y gofyniad ar Awdurdodau Lleol i ganfod ac i ddarparu safleoedd priodol yn eu cynlluniau. |

1.4 Cafodd *"Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016 (yr Asesiad o Anghenion)"* ei baratoi ar y cyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn ystod ail hanner 2015 ac mae'n diweddaru Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Orllewin Cymru blaenorol a gyhoeddwyd yn 2013. Mae cynnwys Asesiad o Anghenion 2016 wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru gydag Adran 102 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

1.5 Yn dilyn ymarferiadau ymgynghori, mae'r Cyngor Sir wedi canfod dau safle posibl ar yr Ynys ar gyfer safleoedd sipsiwn a theithwyr a allai gyfrannu at ddiwallu'r angen am leiniau ychwanegol a

nodwyd yn Asesiad 2016. Mae un yn safle preswyl parhaol i gymryd lle'r gwersyll Teithwyr anghyfreithlon ar yr A5025 a'r llall, man aros dros dro i ateb anghenion sipsiwn a theithwyr sy'n ymweld. Mae'r ddau safle posibl ar gyfer sipsiwn a theithwyr fel a ganlyn:-

- Safle Preswyl Parhaol, Penhesgyn
- Man Aros Dros Dro, Star

1.6 Ceir disgrifiad byr isod o bob safle a'r cynigion ac fe'i dilynir gan grynodeb o'r asesiadau technegol a gynhaliwyd ym mhob safle dan sylw.

# 2. Safle Preswyl Parhaol, Penhesgyn

**Disgrifiad o'r Safle a'r Cynigion**

2.1 Mae safle Penhesgyn wedi'i nodi gan y Cyngor Sir fel y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer safle preswyl parhaol ar gyfer Sipsiwn a theithwyr yn dilyn proses i ddethol safleoedd a gynhaliwyd yn 2016.

2.2 Y cynnig yw safle preswyl parhaol ym Mhenhesgyn gyda phedair llain ar gyfer cymuned Teithwyr yr Oes Newydd sydd ar hyn o bryd yn byw mewn cilfan wrth yr A5025 rhwng Porthaethwy a Phentraeth.

2.3 Mae'r safle arfaethedig ym Mhenhesgyn wedi'i leoli oddi ar isffordd rhwng yr A5025 a'r B5420 ar dir i'r dwyrain o Ganolfan Ailgylchu Penhesgyn ac i'r de ddwyrain o gyn Safle Tirlenwi Penhesgyn. Mae'r safle'n cynnwys dau gae sy'n eiddo i'r Cyngor Sir ac sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd fel porfeydd garw; deallir nad yw'r tir wedi cael ei ddatblygu o'r blaen.

2.4 Byddai'n rhaid i fynediad i'r ddau gae fod trwy'r brif ffordd fynediad i Ganolfan Ailgylchu Penhesgyn (y Ganolfan Ailgylchu) a dros dir sydd mewn dwylo preifat ac sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio i bori anifeiliaid.

2.5 Mae'r cynigion ar gyfer llety preswyl parhaol ar gyfer sipsiwn a theithwyr ym Mhenhesgyn yn cynnwys y canlynol:-

- Ffordd fynediad ar draws cae sydd mewn perchnogaeth breifat
- Pedair llain breswyl
- Byddai gan bob llain lawr caled ar gyfer cerbyd byw'r aelwyd
- Byddai pob llain yn cynnwys bloc amwynderau gyda thoiled, ystafell ymolchi a chegin
- Golau ar gyfer diogelwch y cyhoedd a diogelwch
- Gofod i storio biniau sbwriel domestig a chynwysyddion ailgylchu
- Ffens gadarn o amgylch y safle a giât y gellir ei chloi

**Asesiadau Cyffredinol a Thechnegol o'r Safle**

2.6 Cynhaliwyd asesiadau technegol ar gyfer y pynciau amgylcheddol canlynol ar gyfer safle Penhesgyn. Y nod wrth gynnal yr asesiadau technegol oedd canfod a oedd unrhyw resymau neu gyfyngiadau technegol a fyddai'n golygu na fyddai'r safle'n addas i gael ei ddefnyddio fel safle preswyl parhaol gan y gymuned teithwyr sydd ar hyn o bryd yn byw mewn cerbydau yn y gilfan ym Mhentraeth. Yn ychwanegol at yr arfarniadau technegol penodol, cafodd ystyriaethau mwy cyffredinol fel maint y safle, mynediad a nodweddion ffisegol eraill eu hystyried:-

- Arfarniad Cyffredinol o'r Safle
- Asesiad o Ansawdd yr Aer
- Asesiad o Effeithiau Sŵn
- Asesiad Ecolegol

Ceir crynodeb o bob arfarniad technegol isod:-

**Arfarniad Cyffredinol o'r Safle**

2.7 Mae'r safle'n cynnwys dau gae sy'n eiddo i'r Cyngor Sir ac mae eu harwynebedd tua 3.5 hectar (8.65 erw) a chae arall i'r de sydd mewn perchnogaeth breifat ac sydd tua 2.91 hectar (7.19 erw) sy'n rhoi cyfanswm o 6.41 hectar (15.84) o dir. Gwnaethpwyd y sylwadau cyffredinol canlynol fel rhan o'r broses arfarnu ar y safle:

- Mae'r safle mewn lleoliad gwledig heb fynediad at amwynderau na chyfleusterau lleol o fewn pellter cerdded cyfleus
- Byddai'n rhaid i fynediad i'r safle groesi cae sydd mewn perchnogaeth breifat a byddai'n rhaid ad-drefnu'r giât ddiogelwch ar gyfer Canolfan Ailgylchu Penhesgyn (y Ganolfan Ailgylchu)
- Mae'r ddau gae lle byddai'r pedair llain wedi'u lleoli ar lethr serth ac mae'r draenio'n wael.
- Byddai angen ffordd fynediad newydd i gael mynediad i'r pedair llain a byddai hynny'n golygu llawer o waith draenio a gwaith daear.
- Byddai angen cloddiau i ffurfio bwnd lleihau sŵn ar hyd y terfyn gorllewinol (gweler isod)
- Byddai angen cysylltiadau at ffynonellau dŵr yfed a thrydan
- Mae carthffosiaeth yn debygol o gael ei reoli trwy ddefnyddio tanc septig.

2.8 Mae digon o le ar gyfer y pedair llain breswyl barhaol arfaethedig ar safle Penhesgyn lle byddai angen creu ffordd fynediad newydd a datblygu llwyfan ar gyfer y pedair llain breswyl. Nid oes dim cyfyngiadau wedi deillio o'r arfarniad cyffredinol o'r safle a fyddai'n golygu na fyddai'r safle'n addas fel safle preswyl parhaol ar gyfer y gymuned teithwyr. Byddai'n rhaid ail-ddylunio rhywfaint ar fynedfa'r cyhoedd i Ganolfan Ailgylchu Penhesgyn (y Ganolfan Ailgylchu), giât y fynedfa a ffens ddiogelwch y safle.

**Asesiad o Ansawdd yr Aer**

2.9 Mae'r safle'n agos at gyn safle tirlenwi a chanolfan ailgylchu sy'n dal yn weithredol, a allai olygu risg posibl i iechyd; fodd bynnag nid yw'r safle wedi'i leoli o fewn Ardal Rheoli Ansawdd yr Aer (AQMA). Gan fod y datblygiad arfaethedig yn un bychan gyda gwaelodlin llygrwyr isel, barnwyd fod asesiad gwaelodlin yn ddigon i asesu amlygiad posibl defnyddwyr y dyfodol a derbynyddion presennol fel defnyddwyr Canolfan Ailgylchu Penhesgyn.

2.10 Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, rhoddwyd sylw dyladwy i faterion yn ymwneud ag iechyd a llesiant posibl y preswylwyr tebygol ar Safle Penhesgyn.

2.11 Daeth yr astudiaeth gwaelodlin i'r casgliad bod lefelau gormodol o nitrogen deuocsid ($NO_2$) ar ffin y safle yn annhebygol. Mae'r amodau hyn yn bodoli eisoes ac nid ydynt yn debygol o waethygu o ganlyniad i'r datblygiad. Mae hefyd yn debygol na fydd lefelau'r deunydd gronynnol ($PM_{10}$) yn uwch na lefelau derbyniol ar ffin y safle ac felly ni thybir fod effeithiau $PM_{10}$ arwyddocaol. Fodd bynnag, tybir fod effeithiau baeddu llwch o ganlyniad i symudiadau cerbydau gwastraff a Cherbydau Nwyddau Trwm (HGV) sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau ailgylchu o bosibl yn risg uchel.

2.12 Daeth yr asesiad risg ar gyfer effeithiau posibl llwch yn ystod y gwaith o adeiladu'r lleiniau arfaethedig a'r ffordd fynediad i'r casgliad bod y safle'n safle risg isel o ran effeithiau baeddu llwch ac effeithiau ar iechyd pobl.

2.13 Ni thybir fod effeithiau ar dderbynyddion newydd o Nwy Tirlenwi (LFG) o'r cyn safle tirlenwi'n arwyddocaol. Bydd crynodiadau methan yn sylweddol is na lefelau fflamadwyedd ac ni fyddant ychwaith yn cael effaith andwyol ar iechyd pobl. Disgwylir y bydd crynodiadau carbon deuocsid yn gwasgaru nes byddant yn grynodiadau atmosfferig ansylweddol. Ni chredir felly fod angen mesurau i liniaru effeithiau LFG.

2.14 Ni thybir fod lefelau arogleuon yn arwyddocaol. Yn seiliedig ar gofnodion o gwynion a gafwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a Cyfoeth Naturiol Cymru bernir nad oes angen mesurau lliniaru. Nid yw crynodiadau bio-aerosol yn debygol o fod yn uwch na throthwyon Asiantaeth yr Amgylchedd ar y safle, cyn belled â bod derbynyddion wedi'u lleoli ymhellach na 250 m oddi wrth safle compostio Penhesgyn.

2.15 Os bydd mesurau priodol i liniaru effaith llwch yn cael eu cyflwyno a bod preswylwyr newydd wedi'u lleoli fwy na 250 m i ffwrdd oddi wrth gyfleusterau compostio presennol Penhesgyn, daeth yr asesiad o ansawdd yr aer i'r casgliad y bydd y cynllun arfaethedig ar gyfer safle preswyl parhaol ar gyfer y gymuned teithwyr yn addas i gael ei ystyried ar gyfer caniatâd cynllunio.

**Asesiad o Effeithiau Sŵn**

2.16 Cafodd arolwg mesur sŵn ei gynnal i fesur lefelau sŵn amgylcheddol arferol yn ystod y dydd a'r nos. Mae'r safle wedi'i leoli mewn amgylchedd gwledig tawel iawn a'r brif ffynhonnell sŵn a oedd yn effeithio ar safle'r datblygiad yn ystod y dydd oedd sŵn gweithredu Canolfan Ailgylchu Penhesgyn (y Ganolfan Ailgylchu), a'r mwyaf amlwg oedd gwaith malu pren. Defnyddiwyd data'r arolwg i gynnal astudiaeth modelu sŵn i ragweld lefelau sŵn mewn yn lleoliadau ffasâd y lleiniau arfaethedig.

2.17 Disgwylir gallu cyflawni meini prawf sŵn allanol mewn cartrefi symudol gyda'r ffenestri ar agor ac ynghau. Disgwylir y bydd lefelau allanol yn cyflawni'r lefel is o 50 dB $L_{Aeq}$ fel y mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn ei argymell ar gyfer amwynderau allanol.

2.18 Dangosodd asesiad arall a gynhaliwyd yn unol â Nodyn Technegol 11: Sŵn (TAN 11) y bydd lleiniau posibl carafanau / ôl-gerbydau a fydd wedi'u lleoli ar safle'r datblygiad yn dod o fewn Categori Amlygiad i Sŵn (NEC) A yn ystod y dydd a'r nos. Mae hyn yn golygu na fydd angen ystyried sŵn fel ffactor wrth benderfynu rhoi caniatâd cynllunio.

2.19 Mae asesiad a gynhaliwyd yn unol â Safon Brydeinig (BS 4142:2014) a ddefnyddir i asesu lefelau sŵn o natur ddiwydiannol / masnachol wedi dangos potensial ar gyfer effaith andwyol o ganlyniad i waith gweithredu'r Ganolfan Ailgylchu yn ystod y dydd, gwaith malu pren yn fwyaf penodol. Felly mae cynllun lliniaru'n cael ei argymell a dylai gynnwys y canlynol:-

- Bwnd pridd ar hyd terfyn de orllewinol y Ganolfan Ailgylchu ar uchder o 1.5m;
- Hefyd dylid codi ffens â byrddau clos o bren acwstig 1.8m o uchder ar ymyl man malu pren y Ganolfan Ailgylchu.

2.20 Mae'r strategaeth lliniaru sŵn hon yn lleihau'r posibilrwydd o effaith andwyol nes ei fod yn cyrraedd lefel foddhaol ar draws y safle preswyl parhaol arfaethedig ar gyfer teithwyr ym Mhenhesgyn. Hefyd, gall y prosesau a'r gweithrediadau ailgylchu gwastraff presennol newid yn y dyfodol a gellid eu rheoli i leihau'r lefelau sŵn presennol ymhellach.

**Ecoleg**

2.21 Cynhaliwyd asesiad ecolegol rhagarweiniol ac Arolwg Cynefin Cam 1 ac asesiad o'r safle ym mis Tachwedd 2016. Mae'r cynefinoedd yn yr ardal a arolygwyd yn cynnwys glaswelltir gwael wedi'i wella'n rhannol, glaswelltir wedi'i wella, coed llydanddail, gwrychoedd a waliau cerrig sych, prysgwydd gwasgaredig a glaswelltir corsiog.

2.22 Mae'r ystyriaethau ecolegol posibl ar y safle'n cynnwys:

- Potensial i amharu ar goeden lle gallai ystlumod glwydo (yn ddibynnol ar leoliad y ffens ddiogelwch arfaethedig)
- Amharu ar adar sy'n nythu wrth gael gwared ar lystyfiant (os bydd y safle'n cael ei glirio yn ystod y tymor nythu adar)
- Mae angen asesu pwll cyfagos (nid yw o fewn ffiniau'r safle ond i'r gogledd orllewin o'r safle) i ganfod y potensial am amffibiaid fel mesur rhagofalus

2.23 Nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfyngiadau ecolegol arwyddocaol ar y safle a fyddai'n arwain at wrthod caniatâd cynllunio am resymau ecolegol. Mae cyfleoedd ar y safle yn ystod cam dylunio'r datblygiad i gadw gwrychoedd mewn mannau a ffiniau'r safle a hefyd i gynyddu bioamrywiaeth bosibl y safle.

**Crynodeb a Chasgliadau**

2.24 Mae'r Adroddiad Arfarnu Rhagarweiniol (PAR) yn crynhoi canfyddiadau'r asesiadau technegol a gynhaliwyd hyd yma; mae'r arfarniadau technegol ar gael hefyd fel dogfennau unigol. Mae canfyddiadau'r PAR yn dangos fod safle Penhesgyn yn lleoliad addas ar gyfer datblygiad preswyl parhaol ar gyfer teithwyr. Bydd angen ymgorffori rhai mesurau lliniaru yng nghynigion y cynllun er mwyn i'r safle ateb rhai gofynion, yn enwedig o ran sŵn ac ansawdd yr aer. Argymhellir bwrw ymlaen â'r dyluniad a chynigion y cynnig felly gyda golwg ar baratoi cais cynllunio manwl i'w gyflwyno rywbryd yn ystod 2017.

2.25 Y camau nesaf fydd paratoi dyluniadau amlinellol yn unol â chanllawiau ymarfer da a thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gofynion technegol ac iechyd a diogelwch eraill yn cael eu hymgorffori yng nghynigion y cynllun. Efallai y bydd gofyniad i gynnal rhagor o asesiadau technegol neu amgylcheddol i sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais cynllunio manwl ar gael. Ymgynghorir â'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystod y broses hon i sicrhau bod modd paratoi a dilysu cais cynllunio dilys i gael ei ystyried ymhellach. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gwarantu y bydd y cais cynllunio'n llwyddiannus nac yn ystyried materion eraill a all effeithio ar y gallu i ddarparu safle preswyl parhaol ym Mhenhesgyn.

2.26 Efallai y bydd gofyniad hefyd i gynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol neu AEA gan fod y safle'n cynnwys tir nad yw wedi cael ei ddatblygu o'r blaen a gall cyfanswm yr arwynebedd a fydd ei angen ddod o fewn gofynion y Rheoliadau AEA. Unwaith eto, bydd hyn yn fater lle bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu beth sydd ei angen er mwyn dilysu unrhyw gais cynllunio.